------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Mawrth 2025

Amser: 09.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru


## Hybrid

**Rhag-gyfarfod preifat** (09.15-09.30)

**Cyfarfod cyhoeddus** (09.30-12.00)

**1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.30)

**2 Gwaith Craffu Blynyddol ar Cyfoeth Naturiol Cymru**

(09.30-10.50) (Tudalennau 1 - 157)

Ceri Davies, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro - Cyfoeth Naturiol Cymru

Syr David Henshaw, Cadeirydd - Cyfoeth Naturiol Cymru

Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol - Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24 Cyfoeth Naturiol Cymru (PDF 2MB)

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil - Gwaith craffu blynyddol ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru

Papur - Cyfoeth Naturiol Cymru

Papur - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 - Cyfoeth Naturiol Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Egwyl** (10.50-11.00)

## 3 Ymchwiliad i'r ymateb i stormydd - sesiwn dystiolaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru

(11.00-12.00) (Tudalennau 158 - 187)

Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau - Cyfoeth Naturiol Cymru

Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau - Cyfoeth Naturiol Cymru

Tim England, Rheolwr Gweithrediadau - Rheoli Dwr a Llifogydd - Cyfoeth Naturiol Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil - Ymchwiliad i'r ymateb i stormydd

Papur - Cyfoeth Naturiol Cymru

## 4 Papurau i'w nodi (12.00)

### 4.1 Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

(Tudalennau 188 - 213)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i'r Cadeirydd mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor ar Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

### 4.2 Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm

(Tudalen 214)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb y Cadeirydd i Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i Ddifrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm

### 4.3 Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

(Tudalennau 215 - 217)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru at y Llywydd mewn perthynas â Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru).

**4.4 Adfer safleoedd glo brig**

(Tudalennau 218 - 219)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Rhwydwaith Gweithredu Glo at y Cadeirydd ynghylch gwaith glo brig Ffos-y-Fran (Saesneg yn unig)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw

(12.00)

**Cyfarfod preifat** (12.00-12.30)

## 6 Trafod y dystiolaeth a gafwyd o dan eitemau 2 a 3

## 7 Trafod yr adroddiad drafft ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

(Tudalennau 220 - 238)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru - 2024 (Saesneg yn unig)

## 8 Trafod yr adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

(Tudalennau 239 - 244)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad) (Saesneg yn unig)

## 9 Blaenraglen Waith

(Tudalen 245)

**Dogfennau atodol:**

Papur - Blaenraglen Waith (Saesneg yn unig)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Craffu blynyddol ar Cyfoeth Naturiol Cymru, Mawrth 2025

Cyn ein sesiwn graffu flynyddol gyda'r pwyllgor ddydd Mercher, 12 Mawrth 2025, roeddem o'r farn y byddai'n ddefnyddiol roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig ar sut rydym yn gwneud cynnydd yn erbyn ein tri amcan llesiant, a nifer o faterion amserol.

## Amcan Llesiant 1: Mae natur yn gwella

Bydd 2024-25 yn flwyddyn garreg filltir ar gyfer adferiad byd natur yng Nghymru gyda Llywodraeth Cymru yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y degawd nesaf neu fwy drwy ddau ddarn mawr o waith: y Papur Gwyn sy'n diffinio'r dull o ymdrin ag egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth; a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n nodi sut y bydd rheolwyr tir yn cael eu gwobrwyo am reoli tir mewn modd natur-bositif.

Mae'r ymrwymiadau blynyddol yn adlewyrchu ein cyfraniad at y darnau hollbwysig hyn o waith, yn ogystal â chyflenwi'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur a'r broses ar gyfer dynodi parc cenedlaethol newydd. Mae'r rhain yn gosod y sylfeini ar gyfer cyrraedd targedau byd-eang 2030 ar gyfer byd natur ar y tir, yn y môr ac mewn dyfroedd croyw. Nid ydym wedi cynnwys yr holl gamau i'w cymryd yng nghynllun busnes eleni na'r gwaith sylfaenol hanfodol yr ydym yn ei wneud i ddiogelu byd natur. Byddwn yn parhau, er enghraifft, i wneud gwaith monitro ac adrodd amgylcheddol, ymateb i geisiadau cynllunio, rhoi trwyddedau, cynnal ymweliadau cydymffurfio, a, lle bo angen, cymryd camau gorfodi.

## Amcan Llesiant 2: Mae cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr Hinsawdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gweithredu ar yr hinsawdd yn Sero Net Cymru, lle mae disgwyl i bob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector chwarae eu rhan i ysgogi gweithredu. Drwy Diwydiant Sero Net

Cymru a’r clystyrau diwydiant, mae ffocws cynyddol ar ddatgarboneiddio prosesau diwydiannol a datblygu ffynonellau ynni carbon isel amgen. Mae datblygwyr ynni adnewyddadwy ar y tir ac ar y môr yn parhau i archwilio a datblygu cynlluniau newydd, gan gynnwys ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru. Gyda buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, bydd y Rhaglen Genedlaethol ar Fawndiroedd yn cael ei huwchraddio i gyflawni’r uchelgais o adfer 1,800 hectar y flwyddyn erbyn 2030/31.

Mae ein hymrwymiadau blynyddol ar gyfer 2024-25 yn adlewyrchu ein cyfraniad at y darnau hanfodol hyn o waith yn ogystal â chyflawni camau blaenoriaeth yn ein cynllun sero net, yn enwedig drwy ein gwasanaeth caffael a rheoli contractau. Eleni byddwn yn cyflwyno'r system rhybuddion llifogydd newydd ar gyfer cymunedau ledled Cymru ac yn cwblhau cynllun amddiffyn rhag llifogydd Casnewydd, gan ddiogelu 814 eiddo. Nid ydym wedi cynnwys yr holl gamau i’w cymryd yng nghynllun busnes eleni. Byddwn yn parhau i reoli’r tir yn ein gofal, gan gynhyrchu pren a chreu coetiroedd newydd ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru, adfer mawndiroedd, ac addasu i newid yn yr hinsawdd ar draws ein holl safleoedd. Bydd ein rhaglen Adfywio yn parhau i ganolbwyntio ar leihau ein defnydd o garbon yn y fflyd ac mewn cyfleusterau, a byddwn yn parhau i gyflwyno hyfforddiant llythrennedd carbon ar draws y sefydliad.

## Amcan Llesiant 3: Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf

Yn 2024-25, bydd camau gweithredu o strategaeth Mwy nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru yn parhau i gael eu cyflenwi, gan gynnwys gweithredu’r ddeddfwriaeth ailgylchu yn y gweithle newydd. Bydd lleihau llygredd afonydd a moroedd yn ffocws parhaus gydag Adolygiad Prisiau Cyfnodol 24 yn pennu cyflymder a graddfa’r gwelliant gan Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy o ran gwella eu hasedau i leihau llygredd a chynnal sicrwydd cyflenwad dŵr. Bydd y cyfle i leihau llygredd o amaethyddiaeth yn cael ei siapio'n sylweddol gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n nodi sut y bydd rheolwyr tir yn cael eu gwobrwyo am reoli tir mewn ffordd natur-bositif.

Mae ein hymrwymiadau blynyddol ar gyfer 2024-25 yn adlewyrchu ein cyfraniad at y darnau hanfodol hyn o waith yn ogystal â’n ffocws parhaus ar wella ansawdd dŵr drwy, er enghraifft, adolygu trwyddedau ar gyfer gweithfeydd trin dŵr gwastraff mwy ac archwiliadau fferm wedi’u cynllunio yn unol â’r Rheoliadau Llygredd Amaethyddol. Rydym yn bwriadu adolygu ein dull o reoli digwyddiadau, gan ddefnyddio tystiolaeth, i'n galluogi i integreiddio camau ataliol i'r ymateb i ddigwyddiadau. Ochr yn ochr â’r dulliau rheoleiddio traddodiadol hyn, byddwn yn parhau i gyflawni camau gweithredu wedi’u blaenoriaethu ar raddfa’r dalgylch ac archwilio cyfleoedd i arloesi a chydweithio â phartneriaid, drwy, er

enghraifft, Brosiect Arddangos Afon Teifi. Nid ydym wedi cynnwys yr holl gamau i’w cymryd yng nghynllun busnes eleni. Er enghraifft, byddwn yn parhau i roi trwyddedau, cynnal ymweliadau cydymffurfio, ymateb i ddigwyddiadau, a, lle bo angen, cymryd camau gorfodi.

## Alinio perfformiad â'r cynllun corfforaethol

Yn adroddiad craffu diweddaraf y pwyllgor, gwnaethant argymhelliad y dylai CNC rannu’r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wnaed o ran datblygu dangosyddion strategol terfynol a metrigau perfformiad cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl 31 Hydref 2024. Ysgrifennom atoch ym mis Ionawr i'ch hysbysu bod y gwaith hwn wedi'i ohirio oherwydd ein rhaglen achos dros newid.

Mae ein cynllun corfforaethol hyd at 2030, sef Byd Natur a Phobl yn Ffynnu gyda’n Gilydd, yn amlinellu ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a’n hamcanion llesiant. Ers ei gyhoeddi, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar alinio ein fframwaith rheoli perfformiad â’r nodau mae’r cynllun corfforaethol yn ceisio eu cyflawni.

Mae Cynllun Busnes Blynyddol eleni (2024/25) yn cyd-fynd â'r cynllun corfforaethol drwy amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd drwy gydol y flwyddyn i symud rhai camau ymlaen. Mae'r broses adrodd bob chwarter wedi'i symleiddio. Rydym wedi sefydlu grŵp perfformiad ar gyfer ein hamcanion llesiant, gan ddwyn ynghyd arweinwyr amcanion llesiant y tîm gweithredol, a’r tîm arwain, i hwyluso trafodaeth gyfannol ynghylch perfformiad ar draws y tri amcan llesiant yn erbyn yr ymrwymiadau yn y cynllun busnes blynyddol. Nod y grŵp yw helpu i ddatrys problemau a/neu liniaru risgiau, a llywio’r gwaith o bennu blaenoriaethau adnoddau. Mae hyn yn llywio'r adroddiadau i'r bwrdd a swyddogion noddi bob chwarter. Ochr yn ochr â hyn, mae’r bwrdd yn bwrw golwg fanwl ar amcan llesiant bob chwarter i graffu ar gynnydd yn ei erbyn. Mae’r gwaith craffu yn y sesiynau strategol hyn yn canolbwyntio’n bennaf ar yr hyn y mae CNC yn ei gyflawni, a byddwn yn darparu tystiolaeth o hyn yn yr adroddiad blynyddol.  Rydym wedi cynnal tair sesiwn graffu yn ystod y 18 mis diwethaf yn canolbwyntio ar bob amcan llesiant, a bydd y sesiynau hyn yn ailddechrau yn 2025/26.  Mae datblygu’r dull blaenoriaethu i lywio’r achos dros newid yn gam pwysig ymlaen i’r sefydliad wrth i ni alinio adnoddau (pobl a chyllideb) i gyflawni’r amcanion llesiant.

Mae staff hollbwysig sydd wedi bod yn arwain ein gwaith ar y fframwaith rheoli perfformiad wedi chwarae rhan fawr yn y gwaith o ddatblygu'r dull blaenoriaethu a pharatoi'r achos dros newid. Mae hyn, ochr yn ochr â swyddi gwag yn y tîm, wedi golygu bod ein gwaith ar effeithiau'r cynllun corfforaethol a’r dangosyddion strategol wedi’i ohirio ers yr hydref. Er ein bod wedi ymgysylltu â phartneriaid a chydweithwyr ar draws y sefydliad i ofyn am eu hadborth a’u cyngor, nid ydym wedi cwblhau a chyhoeddi ein hadroddiad eto. Mae angen i

ni lenwi swydd wag, felly ni allwn bennu dyddiad penodol ar gyfer cyhoeddi. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio cyhoeddi dyddiad erbyn yr hydref.

Ni wnaed unrhyw waith pellach gyda Llywodraeth Cymru ar gytundebau lefel gwasanaeth yn 2024/25. Wrth i ni baratoi'r cynllun busnes a'r gyllideb ar gyfer 2025/26, rydym yn croesawu'r cyllid ychwanegol sylweddol a ddyrannwyd i CNC yn y gyllideb ddrafft. Mae'r sefydliad wedi cael cynnydd parhaol mewn cyllid refeniw cymorth grant a grantiau ychwanegol newydd ac ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni gwaith penodol. Mae llawer o'r cyllid newydd, neu gyllid ychwanegol, hwn yn cefnogi camau allweddol yn y cynllun corfforaethol, ac yn gwella'r gweithgareddau busnes fel arfer tanategol mewn rheoleiddio a chyngor cynllunio statudol.

Bydd cynllun busnes 2025/26 yn parhau i ddangos aliniad i gyflawni amcan llesiant y cynllun corfforaethol, yn ogystal â'r cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Eleni byddwn yn canolbwyntio ar y gweithgareddau busnes fel arfer hynny mewn rheoleiddio a chyngor cynllunio statudol sy'n cyfrannu at bob un o'r tri amcan llesiant. Bydd y cynllun busnes yn cynnwys metrigau CAMPUS wrth i ni barhau i ddatblygu ein fframwaith rheoli perfformiad.

Mae swyddogion nawdd wedi dechrau ymgysylltu â ni ynghylch y cyfle i greu achos dros fuddsoddi yng ngwaith cyflawni CNC er mwyn llywio'r adolygiad nesaf o wariant. Mae'n debyg y bydd hyn yn defnyddio'r gwersi a ddysgom o baratoi'r ymarfer llinell sylfaenol a'r cytundebau lefel gwasanaeth. Ar hyn o bryd, rydym yn awyddus i sicrhau bod y broses a chynhyrchion newydd yn darparu achos integredig dros fuddsoddi, yn hytrach na chanolbwyntio ar feysydd ar wahân fel y gwnaethom yn flaenorol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni edrych ar y broses gyfan, o gasglu tystiolaeth, monitro a dadansoddi, i ddefnyddio'r dystiolaeth hon ar gyfer paratoi cyngor a chanllawiau statudol. Bydd hyn, yn ei dro, yn llywio'r penderfyniadau trwyddedu a gwaith cydymffurfio, gorfodi a rheoli digwyddiadau.

## Achos dros newid Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn y broses o roi newidiadau ar waith i'w strwythur. Bydd y newidiadau hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar y meysydd hynny lle gallwn gael yr effaith fwyaf ystyrlon ar natur, yr hinsawdd a llygredd.

Dechreuodd CNC flwyddyn ariannol 2024/25 â diffyg o £9 miliwn. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi torri ein cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â thalu staff yn sylweddol, ac wedi rhoi rheolaethau ar waith ar ein cyllidebau staff. Mae hyn yn cynnwys peidio â chyflogi staff newydd, a dod â llawer o'n swyddi cyfnod penodol i ben er mwyn

inni fynd i’r afael â’r pwysau ariannol yn ystod y flwyddyn. Dangosodd rhagolygon ariannol y byddai’r pwysau ar ein cyllideb staff yn cynyddu i £13 miliwn yn 2025/26 os na fyddai unrhyw gamau gweithredu’n cael eu cymryd, ac yn cynyddu £4 miliwn ychwanegol i £17 miliwn yn 2026/27. Felly, roedd angen inni adolygu ein strwythur a nifer y staff parhaol i gyflawni'r arbedion a ragwelwyd o £13 miliwn.

Yn gynnar yn 2024, cynhaliodd y tîm arwain broses flaenoriaethu fanwl i nodi meysydd lle gallai’r sefydliad arbed arian. Cyflwynwyd y newidiadau arfaethedig hyn i’r undebau llafur ym mis Gorffennaf 2024. Ar ôl cyfnod o ymgynghori â'r undebau llafur, gweithredwyd ar yr adborth, gyda diwygiadau i'r cynigion mewn rhai gwasanaethau ac adrannau.

Cafodd yr achos dros newid terfynol ei gymeradwyo a’i gytuno gan fwrdd CNC ar 5 Tachwedd 2024. I grynhoi, rydym yn dileu 235 o swyddi yn ein strwythur (i lawr o 276 o swyddi yn dilyn yr ymgynghoriad). Yn ogystal â hyn, mae gennym dros 200 o swyddi gwag, a byddwn yn defnyddio'r swyddi gwag hyn i gynnig cyflogaeth amgen i unigolion yr effeithir arnynt pan fo hynny'n briodol.

Roedd yr achos dros newid hefyd wedi ein hymrwymo i ymgymryd â dau adolygiad ychwanegol:

- Adolygiad o'n gwasanaeth rheoli’r perygl o lifogydd i ddod o hyd i £1.1 miliwn ychwanegol o arbedion, i'w gwireddu erbyn 1 Ebrill 2026
- Adolygiad o’r gwasanaethau galluogi, i nodi arbedion o ran effeithlonrwydd a chyfleoedd i wella'r modd y darperir gwasanaethau

## Canolfannau ymwelwyr

Mae’r 'Achos dros Newid' yn cynnwys cynlluniau a fydd yn golygu na fydd Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn cynnal ei weithrediadau arlwyo a manwerthu yng Nghoed y Brenin, Nant yr Arian ac Ynyslas;

Bydd yr holl lwybrau, meysydd parcio, mannau chwarae a thoiledau yn parhau i fod ar agor yn y safleoedd. Hefyd, cynhaliom gyfarfodydd cyhoeddus i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r cymunedau ym mis Tachwedd, ac mae gennym dudalen we Citizen Space benodol lle gallwn gyhoeddi’r wybodaeth ddiweddaraf, gan gynnwys adran cwestiynau cyffredin.

Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas yn parhau i gael ei gwasanaethu gan y swyddog ymroddedig yno (a’r tîm ehangach).

Rydym yn deall pa mor bwysig yw ein safleoedd i gymunedau lleol ac ymwelwyr, a gwyddom fod y penderfyniad i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau arlwyo a manwerthu yn siomedig i lawer o bobl. Gwnaeth ein bwrdd y penderfyniad hwn mewn ymateb i'r sefyllfa gyllido hynod o dynn yr ydym ni, a chyrff cyhoeddus eraill, yn ei hwynebu.

## Mwy o arian yn cael ei ddyrannu i CNC yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r dyraniad cyllid cynyddol gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ac rydym yn gwbl ymrwymedig i sicrhau bod y cyllid hwn yn cael yr effaith fwyaf posibl, a bod yr effaith hon yn cael ei theimlo gan gymunedau a rhanddeiliaid yng Nghymru. Rydym yn awyddus i symud ymlaen yn gyflym â'r gwaith trawsnewid sydd ei angen, yn ein barn ni, os ydym am lwyddo i gyflawni ein cynllun corfforaethol uchelgeisiol.

Mae penaethiaid busnes a phenaethiaid gwasanaethau wedi cael y dasg o weithio gyda'i gilydd ac amlinellu sut y byddent yn defnyddio'r cyllid ychwanegol yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd yn eich llythyr, gan ganolbwyntio ar fuddsoddi mewn ansawdd dŵr a chamau gweithredu i gefnogi bioamrywiaeth ac adfer byd natur. Disgwylir y bydd y cyllid yn cefnogi'r canlyniad:

- darpariaeth integredig, gyda'r cyllid wedi'i dargedu at y meysydd hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf wrth gyflawni'r camau i'w cymryd yn y cynllun corfforaethol
- gwneud pethau'n wahanol a phrofi ffyrdd newydd o weithio ar draws timau a chyda phartneriaid
- cynyddu ein hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau sy'n newid drwy ystyried opsiynau darparu megis caffael allanol, grantiau, partneriaethau, lleoliadau, prentisiaethau a staff dros dro, yn hytrach na defnyddio staff parhaol

Bydd ein tîm gweithredol a phwyllgor cyllid y bwrdd yn craffu ar y cynigion cyn iddynt gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y bwrdd yng nghyfarfod mis Mawrth fel rhan o'r gyllideb a chynllun busnes ar gyfer 2025/26. Byddwn hefyd yn trafod ein cynlluniau â'ch swyddogion maes o law yn y cyfarfod nawdd.

## IR35

Mae ymchwiliad CThEM i driniaeth dreth hanesyddol CNC o weithwyr nad ydynt ar y gyflogres o dan reoliadau IR35 yn mynd rhagddo.

Yn ddiweddar, cafodd CNC gyngor proffesiynol gan Deloitte, sydd wedi darparu adroddiad yn adolygu ymgysylltiad CNC â’r contractwyr hyn yn y gorffennol. Mae disgwyl i’r adroddiad gael ei ystyried gan fwrdd CNC y mis hwn. Yn amodol ar gymeradwyaeth y bwrdd, bydd Deloitte yn ysgrifennu at CThEF erbyn diwedd mis Chwefror yn amlinellu ein sefyllfa a maint y rhwymedigaeth a dderbyniwyd. Byddai CThEM wedyn yn gallu adolygu amgylchiadau trethiant cwmnïau gwasanaeth unigol a phersonol y contractwyr dan sylw i gyfrifo’r rhwymedigaeth derfynol sy’n ddyledus gan CNC, gan gynnwys unrhyw log a chosbau.

Mae CNC eisoes wedi gwneud taliad ar gyfrif o £19 miliwn gan ddefnyddio arian a roddwyd ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2024. Ni ellir cadarnhau’r rhwymedigaeth derfynol eto nes bod cyfrifiadau CThEM wedi’u cwblhau, ond mae Deloitte ac CNC wedi darparu amcangyfrifon wedi’u diweddaru o’r rhwymedigaeth ddisgwyliedig i’r bwrdd.

Mae CNC wedi cytuno, gyda Llywodraeth Cymru, ar randaliad ad-dalu ar gyfer yr arian a roddwyd ymlaen llaw ar gyfer 2024/25. Mae hefyd wedi cyflwyno cynnig ar gyfer ad-dalu gweddill y balans yn y dyfodol, a fydd yn amodol ar ffigur y setliad terfynol gyda CThEM.

Mae cydweithwyr CNC, CThEM a Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfarfod yn wythnosol i fonitro cynnydd a chytuno ar gerrig milltir tuag at ddatrys y mater.

Mae CNC wedi sefydlu gweithgor bwrdd IR35 i ddarparu trosolwg a chyfeiriad strategol i Deloitte a thîm CNC.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud tuag at benderfyniad, ac mae pob parti’n disgwyl i’r ymchwiliad ddod i ben mewn pryd er mwyn adrodd amdano yn adroddiad blynyddol a chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2024/25.

## Cynllunio a seilwaith

Mae CNC yn ymgynghorai statudol yn y prosesau cais cynllunio a llunio cynlluniau datblygu. Wrth ymgynghori, rydym yn cynghori ar sut y dylai polisïau cynllunio a chynigion datblygu warchod a gwella'r amgylchedd, a chaniatáu i'n hadnoddau naturiol gael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Mae ein rhestr o destunau ymgynghori yn amlinellu pryd rydym am gael ein hymgynghori â ni mewn perthynas â chais cynllunio.

Mae ein cyngor yn cael ei lywio gan yr wybodaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, ein harbenigedd, a dyheadau a pholisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd fel yr amlinellir mewn polisi cynllunio cenedlaethol a deddfwriaeth berthnasol. Rôl yr awdurdod cynllunio yw penderfynu ar geisiadau cynllunio ac, wrth wneud hynny, byddant yn ystyried

ein cyngor ochr yn ochr â gwybodaeth a gyflwynwyd iddynt gan yr ymgeisydd, y cyhoedd, cynghorwyr eraill (e.e. eu hecolegwyr lleol eu hunain) a phartïon eraill, fel y bo’n briodol.

Yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cawsom 7,964 o ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio. Ymatebwyd i 7,982 o ymgynghoriadau, gyda 7,910 (99%) o’r rheini wedi’u cyflwyno o fewn terfyn amser statudol neu derfyn amser y cytunwyd arno fel arall. Mae pwysau cynyddol ar ein Gwasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu, ac mae'r angen i negodi estyniadau i gwrdd â therfynau amser, a nifer yr ymgynghoriadau sy'n ymwneud â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, yn parhau i gynyddu. Mae’r cynlluniau hyn fel arfer yn golygu ymrwymiad sylweddol o ran adnoddau ar draws nifer o arbenigeddau o fewn CNC.

Mewn ymateb i’r nifer cynyddol o ymgynghoriadau sy’n ymwneud â seilwaith mawr sy’n gofyn am fuddsoddiad mawr o ran amser ac ymdrech gan staff CNC, ynghyd â phwysau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, rydym wedi creu strategaeth gwasanaeth cynllunio i sicrhau bod gwasanaeth cynllunio CNC yn wydn. Mae hyn yn cynnwys manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i gynyddu’r ddarpariaeth o gyngor sefydlog i rymuso’r bobl hynny sy’n gwneud penderfyniadau i wneud penderfyniadau sy’n seiliedig ar yr amgylchedd heb ymgynghori ag CNC am gyngor pwrpasol. Bydd hyn yn newid ein model ar gyfer darparu gwasanaethau i awdurdodau cynllunio, a byddwn yn ymgysylltu â nhw wrth inni roi ein strategaeth ar waith.

## Ansawdd dŵr

Mae materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr yn parhau i fod yn destun craffu cyhoeddus a gwleidyddol dwys. O ganlyniad, rydym wedi gorfod ailflaenoriaethau, ac addasu, y blaenoriaethau yn ein cynllun gwaith yn sylweddol, gan arwain at lai o wasanaeth mewn rhai meysydd eraill o’n gwaith ansawdd dŵr. Er enghraifft, rydym wedi sefydlu rhaglen i fynd i’r afael â’r broblem o ffosffadau mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, ac rydym yn aelodau o’r byrddau rheoli maethynnau sy’n gweithio ar gynlluniau rheoli maethynnau a datrysiadau posibl.

Nid yw perfformiad amgylcheddol y cwmnïau dŵr yn ddigon da, ac mae'n parhau i ddirywio, gyda Dŵr Cymru yn parhau i fod â sgôr o 2* (yn seiliedig ar ei berfformiad yn 2023 yn erbyn y metrigau yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol). Rydym yn parhau i graffu ar berfformiad y cwmnïau dŵr, a byddwn yn adrodd ar eu perfformiad yn ystod 2024 ym mis Gorffennaf 2025.

Rydym wedi adolygu a chryfhau ein sefyllfa reoleiddio mewn perthynas â gorlifoedd storm. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadeirio’r tasglu gwell ansawdd dŵr, sef cydweithrediad

rhwng cwmnïau dŵr, Ofwat, Llywodraeth Cymru ac CNC. Gyda’n gilydd, rydym wedi datblygu a gweithredu map trywydd a chynllun gweithredu ar gyfer gorlifoedd storm i wella perfformiad o ran gorlifoedd storm yng Nghymru.

Ynghyd ag aelodau’r tasglu gwell ansawdd dŵr, rydym wedi bwrw ymlaen â’r mwyafrif o’r camau gweithredu sy’n rhan o’r map trywydd ar gyfer gorlifoedd storm, gan gynnwys cryfhau ein rheoleiddio amgylcheddol – mae’r map hwn ar gael i randdeiliaid drwy wefan Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau â'n gwaith i atal dirywiad dyfroedd, gan ddiogelu ein dyfroedd dynodedig mwyaf gwerthfawr. Mae’r rhain yn cynnwys ein hafonydd a ddynodwyd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, a dyfroedd ymdrochi. Byddwn hefyd yn parhau i fynd i'r afael â pherfformiad cwmnïau dŵr.

Rydym yn parhau i ddarparu cynlluniau cyfalaf argyfwng natur a hinsawdd a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac yn dylanwadu ar gamau gweithredu ar raddfa fawr drwy’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae materion pellach yn ymwneud ag ansawdd dŵr yn dod i'r amlwg, o ganlyniad i system garthffosiaeth hen, arferion amaethyddol gwael, newid yn yr hinsawdd, a mathau newydd o lygredd, megis microblastigion neu gynhyrchion fferyllol.

Bydd CNC yn parhau i weithio gyda’r cwmnïau dŵr dan sylw, Asiantaeth yr Amgylchedd a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod adnoddau dŵr yn cael eu rheoli a’u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy. Byddwn yn sicrhau na fyddai cynigion cynllun adnoddau strategol yn niweidio’r cyflenwad dŵr cyhoeddus, defnyddwyr dŵr eraill, nag amgylchedd Cymru.

## Gorfodi

Mae gwaith rheoleiddio cryf yn sail i’n pwrpas, sef gwarchod, cynnal a gwella adnoddau naturiol Cymru fel y gall pobl fyw bywydau gwell ac iachach a bod ein bywyd gwyllt yn gallu ffynnu. Rydym yn rheoleiddio amrywiaeth o weithgareddau ac yn cymhwyso cyfres o ymatebion gorfodi ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn cydymffurfio neu sy’n anghyfreithlon er mwyn diogelu ein hamgylchedd, atal llygredd, a mynd i’r afael â’r argyfyngau hinsawdd a natur.

Rydym yn mabwysiadu dull gorfodi sy’n seiliedig ar risg, gan gymryd camau gweithredu pan fydd tystiolaeth o drosedd amgylcheddol ac os yw'n fater o ddiddordeb cyhoeddus.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae CNC wedi cwblhau dros 4,600 o achosion gorfodi newydd, yn cynnwys 4,500 o droseddwyr a thros 7,000 o gyhuddiadau gorfodi unigol. Mae nifer y cyhuddiadau yn uwch na'r achosion gan fod troseddwyr yn aml yn wynebu sawl cyhuddiad.

Yn 2024, arweiniodd ein gweithgarwch gorfodi at 1,273 o achosion gorfodi a 2,321 o gyhuddiadau unigol. O'u cymharu â 2023, mae'r rhain yn cynrychioli cynnydd o 30% a 42% yn y drefn honno. Mae sawl ffactor i hyn, ond y ffactor fwyaf nodedig yw’r cynnydd mewn gorfodi yn erbyn materion sy’n ymwneud ag amaethyddiaeth a dŵr. Mae hyn yn cyd-fynd â’n hamcanion llesiant ynghylch mynd i’r afael â’r argyfyngau hinsawdd a natur, a lleihau llygredd.

Dylid nodi y gall ein gweithgarwch gorfodi, mewn rhai achosion, rychwantu sawl cyfnod adrodd. Mae hyn fel arfer o ganlyniad i natur ein gwaith ymchwilio a gorfodi, o ystyried yr amser y gall ei gymryd i ymchwilio i ddigwyddiad, nodi troseddwyr posibl, cael barn gyfreithiol, a diweddaru ein systemau ar gynnydd a chanlyniadau gorfodi. Mae’r oedi hwn yn dod yn fwy amlwg pan fydd swyddogion yn cael eu tynnu i mewn i ymchwiliadau cymhleth, yn enwedig y rhai sydd â chysylltiadau ag asiantaethau gorfodi eraill, megis yr heddlu, Awdurdod Cyllid Cymru ac awdurdodau lleol. Dylid bod yn ofalus felly wrth fesur ein perfformiad gorfodi ar sail nifer y canlyniadau ac erlyniadau yn unig.

Mae ein dull gorfodi yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithrediad a gweithio mewn partneriaeth gyda rheoleiddwyr, cymunedau lleol a busnesau i atal troseddau amgylcheddol rhag digwydd yn y lle cyntaf, neu i sicrhau ymateb amgylcheddol amddiffynnol i unrhyw drosedd a gaiff ei chyflawni. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a hyrwyddo arferion amgylcheddol da, yn ogystal â chydweithio â busnesau i'w helpu i gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau amgylcheddol. Mae'n werth nodi bod ein llwyddiant yn y maes hwn yn llai amlwg ac yn anoddach ei fesur. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn arwain at lefelau is o orfodi ffurfiol, megis erlyniad.

Gwyddom y gall rhai troseddau fod yn droseddau mân neu'n anfwriadol. Yn yr achosion hyn, efallai y byddwn yn gweld mwy o fudd mewn ceisio addysgu neu ddefnyddio llai o ddulliau ffurfiol. Yn 2024, gwelodd CNC gynnydd penodol yn y cyngor a chyfarwyddyd a gyhoeddwyd fel canlyniad gorfodi, a gododd o 457 yn 2023 i 1,069 yn 2024. Gellir priodoli hyn yn bennaf i’r modd y mae CNC wedi darparu rhaglen arolygu a gorfodi ar gyfer ffermydd ledled Cymru o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (cychwynnodd y rhaglen ar ddiwedd 2023).

Fodd bynnag, mae rhai troseddau'n ddifrifol neu'n cael eu cyflawni gan droseddwyr nad ydynt yn poeni am gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae CNC yn ymrwymedig i ddefnyddio erlyniad ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol ar draws yr ystod o droseddau yr ydym yn eu rheoleiddio. Byddwn yn mynd â chwmnïau neu unigolion i’r llys os yw arfau gorfodi eraill wedi bod yn aneffeithiol neu os yw'r drosedd yn arbennig o ddifrifol ac yn fater o ddiddordeb cyhoeddus. Yn 2024, cofnododd CNC 77 o achosion erlyn, o gymharu ag 85 yn 2023. Gall y ffigur hwn newid wrth i’r cofnodion gael eu diweddaru dros y misoedd

nesaf, gyda bron i 600 o achosion a godwyd yn 2024 yn parhau i fod yn destun ymchwiliad.

Mae ein data ar gyfer 2024 hefyd yn dangos bod cyfanswm y dirwyon a godwyd gan y llysoedd yn 2024 wedi gostwng i £150,000, o dros £650,000 yn 2023, ac mae’r costau cyfreithiol a chostau eraill a ddyfarnwyd i CNC hefyd yn gostwng. Gellid priodoli hyn i natur yr achosion sy'n mynd gerbron y llys a lefel y gosb sydd ar gael ar gyfer cyhuddiadau unigol. Yn ogystal â hyn, roedd cyfanswm y dirwyon a ddyfarnwyd yn 2023 wedi cynyddu yn sylweddol o ganlyniad i ddirwy o un achos o erlyniad, pan ddyfarnodd y llys ddirwy o £480,000.

Mae CNC yn deall y cwestiynau parhaus mewn perthynas â chynyddu erlyniadau, ond yr hyn sydd yn allweddol i'w gofio yw nad yw erlyn ar ei ben ei hun yn arwain at gydymffurfedd neu'n unioni’r achos sylfaenol. Gall yr offer rheoleiddio a gorfodi eraill a grybwyllwyd uchod arwain at ganlyniad gwell.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023 -2024



cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Rhodfa’r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ 0300 065 3000 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8am – 6pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru
© Cyfoeth Naturiol Cymru
Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru

## Cynnwys


Rhagair y cadeirydd ........ 5
Adroddiad ar berfformiad ........ 6
Datganiad y Prif Weithredwr ........ 6
Cyflwyno CNC ........ 9
Ein gweledigaeth ........ 9
Ein gwerthoedd ........ 9
Ein hamcanion llesiant hyd at 2030 ........ 9
CNC mewn ffigurau ........ 10
Crynodeb o risgiau allweddol ........ 11
Crynodeb ariannol ........ 13
Crynodeb o berfformiad ........ 16
Dadansoddiad o berfformiad ........ 17
Adroddiad atebolrwydd ........ 32
Adroddiad llywodraethiant corfforaethol ........ 33
Adroddiad y cyfarwyddwyr ........ 33
Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu ........ 36
Datganiad llywodraethiant ........ 37
Ein Tîm Gweithredol ........ 45
Adroddiad cyflogau a staff (wedi'i archwilio) ........ 58
Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi'i archwilio) ........ 73
Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd ........ 74
Datganiadau Ariannol ........ 79

# Rhagair y cadeirydd

Bydd y degawd hwn yn dyngedfennol yn yr ymdrech fyd-eang i atal dirywiad byd natur ac atal effaith newid yn yr hinsawdd. Wedi'i lansio ddechrau haf 2023, mae ein cynllun corfforaethol, Byd natur a phobl yn ffynnu gyda'n gilydd, yn nodi'n glir ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n hamcanion llesiant er mwyn mynd â ni at y garreg filltir honno yn 2030. Mae'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur wedi'u cydblethu; gan fynd i'r afael â nhw gyda'n gilydd gallwn ddod o hyd i atebion ar y cyd sy'n datrys y ddau. Ledled Cymru, mae sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn gweithredu yn un o'r cyd-destunau economaidd anoddaf er cof. Mae angen i ni ddod ynghyd i ddefnyddio ein pŵer cyfunol a chydweithio ar draws y disgyblaethau a'r sectorau i ddatblygu dulliau arloesol gan wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau prin.

Mae fy ffocws personol dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod ar ansawdd dŵr, a gallaf weld yr ystod o fanteision sy'n deillio o ffordd fwy cydweithredol o weithio. Diolch i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (LlC), rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda swyddogion, Ofwat a'r cwmnïau dŵr cyn y penderfyniadau hollbwysig ar fuddsoddiad cwmnïau dŵr hyd at 2030. Bydd yr Adolygiad Prisiau Cyfnodol 24 hwn yn pennu cyflymder a graddfa'r gwelliant gan Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy o ran gwella'u hasedau i leihau llygredd a chynnal sicrwydd y cyflenwad dŵr.

Ym mis Mawrth, cynheliais y bedwaredd uwchgynhadledd llygredd afonydd ar ran y Prif Weinidog Mark Drakeford a'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, Julie James. Yn dilyn y cynnydd da a wnaed ynghylch adolygu trwyddedau ar gyfer gwaith trin dŵr gwastraff ar raddfa fwy, canolbwyntiodd yr uwchgynhadledd ar waith ehangach i wella ansawdd dŵr, gan gynnwys Prosiect Dalgylch Arddangos Teifi, gwaith Pedair Afon LIFE a'r gwaith ymarferol a wnaed gan Afonydd Cymru ac eraill.

Eleni, ymunodd nifer o wynebau newydd â'n Bwrdd wrth i ni groesawu pum aelod newydd. Mae gweld newid ar y raddfa hon ar lefel bwrdd fel arfer yn dipyn o her, ond mae ein haelodau newydd wedi mynd ati'n ddidrafferth ac yn gwneud cynnydd mawr. Hoffwn hefyd fynegi fy niolch i'n haelod bwrdd sy'n gadael, yr Athro Peter Rigby, a ddaeth i ddiwedd ei ail dymor gyda ni eleni. Gwerthfawrogwyd ei gyfraniadau unigryw ac rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth y mae wedi ei rhoi i ni dros y blynyddoedd.

Yn olaf, rwyf am estyn fy ngwerthfawrogiad i'n holl weithwyr am eu hymroddiad a'u hymrwymiad yn ystod cyfnod mor anodd. Rwy'n eu canmol am eu hymrwymiad parhaus a'u hangerdd dros sicrhau ein bod yn cyflawni ein huchelgeisiau wrth fyw ein gwerthoedd.

**Syr David Henshaw**

**Cadeirydd** **16 Hydref 2024**

# Adroddiad ar berfformiad

Dros y tudalennau canlynol mae ein Prif Weithredwr, Clare Pillman, yn cynnig ei phersbectif ar ein perfformiad dros y flwyddyn ac rydym yn amlinellu pwrpas ein sefydliad, ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd newydd, y prif risgiau a phroblemau sy'n ein hwynebu, ac yn egluro sut rydym wedi llwyddo i gyflawni ein hamcanion eleni.

# Datganiad y Prif Weithredwr

Mae sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus yn wynebu heriau cynyddol o ran cwrdd â galwadau gwasanaeth dwysach, a hynny wrth ymdopi â llai o gyllid a chyfyngiadau yn y gyllideb, ac nid ydym yn eithriad i hyn. Rydym wedi wynebu pwysau ychwanegol sylweddol eleni, yn enwedig mewn perthynas â rheoli costau uwch yn ogystal ag ansefydlogrwydd yn yr incwm pren. Rydym wedi gweithio'n galed i liniaru'r pwysau hwn ar ein cyllideb, megis drwy rewi recriwtio allanol a lleihau cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â staff, ond mae heriau difrifol yn parhau.

Rydym wedi cynnal adolygiad trylwyr o'n holl weithgareddau i wneud y gostyngiadau pellach yn y gyllideb sydd eu hangen i'n gosod ar lwybr cynaliadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac wedi hynny. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd mwyaf posibl er mwyn diogelu gwasanaethau rheng flaen, ond mae'n amlwg y bydd angen i ni leihau a/neu atal rhai o'r gwasanaethau. Rydym yn ystyried ein holl opsiynau ond, yn anffodus, bydd rhai penderfyniadau anodd i'w gwneud, ac mae'n anochel y caiff hyn effaith ar wasanaethau y mae'r cyhoedd yn eu mwynhau ac yn eu disgwyl. Serch hynny, rydym yn cydnabod y byddwn yn pennu cyllideb o dros £270 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf, sy'n fuddsoddiad sylweddol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur, hinsawdd a llygredd. Ein cynllun corfforaethol newydd yw ein seren y Gogledd o ran cyflawni'r newid yr ydym am ei weld ar gyfer natur a phobl hyd at 2030 a'r tu hwnt.

Rydym wedi ymrwymo i gryfhau'r system ar gyfer monitro cyflawniad yn erbyn ein hamcanion llesiant fel y gallwn gael ein dwyn i gyfrif gan Weinidogion a phobl Cymru. Rydym wedi cryfhau ein fframwaith rheoli perfformiad yn erbyn cyflawni'r cynllun, gan gynnwys datblygu datganiadau effaith uchelgeisiol i gyd-fynd â'r dangosyddion strategol a'r naratifau ategol. Mae'r datganiadau effaith uchelgeisiol hyn yn edrych tuag allan ac yn cydnabod yn glir na allwn eu cyflawni ar ei ben ei hun.

Wedi'i chytuno eleni, mae ein strategaeth adeiladau yn nodi'r weledigaeth ar gyfer ein portffolio dros y degawd nesaf, gyda'r nod o sicrhau y byddwn yn diwallu anghenion busnes ymatebwr Categori 1 wrth drawsnewid tuag at ddyfodol carbon sero net. Gan weithio gyda phartneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus i archwilio synergeddau, rydym yn canolbwyntio ar wasanaethau a rennir ar ein hystad adeiledig, wrth wella llesiant staff. Mae symud ein swyddfa yng nghanol Caerdydd i lawr pwrpasol yn adeilad LIC ym Mharc Cathays yn rhan o gynllun sy'n anelu at wneud arbedion allyriadau ac effeithlonrwydd sylweddol i ni a'r sector cyhoeddus ehangach, gan sicrhau arbedion o rhwng £3 miliwn a £4 miliwn wrth leihau ein hallyriadau gwresogi a goleuo tua 50% dros y deng mlynedd nesaf.

## Natur

Gan adlewyrchu argymhellion ein sgwrs genedlaethol, Natur a Ni, rydym yn falch o'n ffocws ar adferiad byd natur yn ein cynllun corfforaethol. Rydym wedi croesawu Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru yn fawr iawn, sydd wedi canolbwyntio ar egni a

sut y bydd Cymru yn cyflawni'r ymrwymiadau 30:30 o COP15. Mae'r archwiliad dwfn bellach ar fin cyrraedd cam hollbwysig o ran adrodd ac edrychwn ymlaen at ei argymhellion a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni.

Rydym hefyd yn falch bod yn parhau â'n gwaith fel gwesteiwr Natur am Byth, sef prosiect Adfer Gwyrdd blaenllaw Cymru sy'n uno naw elusen amgylcheddol i ddarparu rhaglen treftadaeth naturiol ac allgymorth fwyaf y wlad. Gyda dros £4 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, a chymorth ychwanegol i'w groesawu gan Lywodraeth Cymru, mae'r bartneriaeth yn rhoi'r gallu, y mae mawr ei angen, i'r sector treftadaeth naturiol i achub rhywogaethau sydd o dan fygythiad rhag diflannu, a hynny wrth ailgysylltu pobl â byd natur.

## Yr hinsawdd

Wrth i effeithiau'r hinsawdd waethygu, mae angen inni ddeall y gofynion buddsoddi fel y gallwn ni, fel cymdeithas, gynllunio'n effeithiol i reoli'r effaith. Ym mis Chwefror, cyhoeddwyd adroddiad gennym sy'n amlinellu'r heriau sydd ynghlwm wrth reoli, ac ariannu'r perygl o lifogydd a achosir gan y newid yn yr hinsawdd yng Nghymru, dros yr hirdymor.

Ar lawr gwlad, i raddau helaeth, cafodd gwaith ar y cynllun rheoli perygl llifogydd gwerth £4.1 miliwn yn Rhydaman ei gwblhau y gaeaf hwn, ac yng Nghasnewydd, Gwent, rydym ar fin cwblhau cynllun £21 miliwn sy'n cynnwys cyfuniad o waliau llifogydd, gatiau ac argloddiau glaswellt. Mae'r ddau yn brosiectau sylweddol a fydd, gyda'i gilydd, yn lleihau'r perygl o lifogydd i dros 2,000 o gartrefi ac ardaloedd diwydiannol pwysig, gan gadw busnesau ar agor a chefnogi'r economi leol ehangach.

Mae mawndiroedd ymhlith ein cynefinoedd pwysicaf, nid yn unig o ran bioamrywiaeth ond hefyd o ran dal a storio carbon. Bellach yn ei phumed flwyddyn, mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn brosiect sylweddol a fydd yn ein helpu i adfer y mawndiroedd hynny sydd, yn ogystal â'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud fel rhan o'r rhaglen Argyfwng Natur a Hinsawdd, yn gwneud cyfraniad enfawr tuag at wrthdroi'r dirywiad mewn natur a mynd i'r afael ag effeithiau hinsawdd.

## Lleihau llygredd

Diolch i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, eleni rydym wedi penodi a hyfforddi tuag 20 o swyddogion i gyflawni'r rhaglen o gynnal arolygiadau cydymffurfedd o weithgareddau amaethyddol risg uchel ledled Cymru a ddechreuodd o ddifrif ym mis Tachwedd. Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar ansawdd dŵr yn ehangach hefyd, gan weithio'n agos gyda'n cymheiriaid yn Lloegr ar yr effeithiau ar afon Gwy, yn ogystal â gweithio gyda'r tasglu aml-asiantaeth, Gwella Ansawdd Afonydd Cymru, er mwyn sicrhau bod ein dulliau rheoleiddio, a'n hymdrechion ar y cyd i leihau llygredd, yn addas ar gyfer y dyfodol.

Ni fu ein perthynas â'n rhanddeiliaid erioed mor bwysig, ac rwy'n falch o weld cryfder yr ymrwymiad cadarn ar draws y sefydliad i feithrin ein cysylltiadau â phartneriaid allweddol fel y cyrff ffermio, ein cyrff anllywodraethol amgylcheddol (eNGOs), a'r sector preifat ledled Cymru, yn gadarnhaol.

Ond, wrth inni wynebu rhwystrau gwleidyddol ac economaidd cynyddol anodd, mae pegynnu'r ddadl gyhoeddus yn golygu bod ein hegni cyfunol yn aml yn cael ei ddargyfeirio oddi wrth yr hyn a ddylai fod yn un gwir nod inni, sef mynd i'r afael ag effaith yr argyfwng

natur a hinsawdd. Nid nawr yw'r amser ar gyfer sgorio pwyntiau neu agendâu personol, mae llawer gormod yn y fantol.

Mae'n hollbwysig inni i gyd gofio bod llawer mwy sy'n ein huno nag sy'n ein rhannu, er mwyn i natur a phobl allu ffynnu gyda'n gilydd.

**Ceri Davies**

**Cyfarwyddwr Gweithredol dros Dystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro** **16 Hydref 2024**

## Cyflwyno CNC…

Rydym yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio dros bobl Cymru, a'n dyletswydd yw ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'r egwyddorion arweiniol hyn yn sail i bopeth a wnawn, gan gynnwys sut rydym yn defnyddio ein cysylltiadau ac yn dod â phobl ynghyd i greu a chyflawni canlyniadau a rennir er natur, yr hinsawdd a lleihau llygredd.

Mae cariad ac angerdd dros natur, gwybodaeth fanwl ac arbenigedd, yn ogystal â bod yn falch o gefnogi cymunedau ledled Cymru i weithredu, yn bethau yr ydym yn eu rhannu â llawer o sefydliadau ac unigolion eraill.

## Ein gweledigaeth

Byd natur a phobl yn ffynnu gyda'n gilydd.

### Ein cenhadaeth:

Canolbwyntio ein hangerdd a'n camau gweithredu ar y cyd tuag at sicrhau'r canlynol:

- Adfer byd natur
- Datblygu'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd
- Lleihau llygredd

drwy reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn falch o wasanaethu pobl Cymru drwy fyw ein gwerthoedd:

- *Perthyn*: rydym yn gwerthfawrogi ein perthynas ddofn â thir a dŵr, a natur a chymunedau Cymru ac, rydym yn creu partneriaethau ystyrlon
- *Beiddgar*: rydym yn defnyddio ein llais, yn gweithredu i wneud gwahaniaeth, ac yn arwain trwy osod esiampl
- *Ystyriol*: rydym yn gwrando er mwyn deall ac yn gofalu am ein gilydd, y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, a'r amgylchedd yr ydym i gyd yn dibynnu arno
- *Dyfeisgar*: rydym yn archwilio ffyrdd newydd o wneud pethau, yn arloesi i gyflymu newid, ac yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol.

Mae'r gwerthoedd hyn yn hanfodol i gyflawni ein gweledigaeth a'n cenhadaeth newydd yn llwyddiannus.

I gael gwybodaeth am sut mae ein sefydliad wedi'i strwythuro i gyflawni, gweler ein hadroddiad atebolrwydd ('Ein strwythur llywodraethu' yn yr adroddiad hwn, neu ar ein gwefan yma), i gael rhagor o fanylion.

## Ein hamcanion llesiant hyd at 2030

Erbyn 2030 yng Nghymru, bydd:

- Byd natur wrthi'n gwella
- Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd
- Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf.

Drwy ganolbwyntio ar y tri amcan llesiant *gyda'i gilydd*, byddwn yn diogelu ac yn gwella llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

# CNC mewn ffigurau

Fesul amcan llesiant, isod ceir ffigurau allweddol sy'n ymwneud â'n gweithgareddau, gan gynnwys gwaith gydag eraill, ynghyd â'r rheswm (dim ond un[1]) pam mae pob un yn bwysig:

## Amcan llesiant 1: Byd natur wrthi'n gwella

Rydym yn cefnogi adferiad byd natur drwy wneud y canlynol:

- Dynodi 1,168 o safleoedd Cymreig yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG) a/neu'n Barc Cenedlaethol, gan gefnogi dyfodol yr ardaloedd hyn
- Cefnogi 46 o brosiectau rhwydweithiau natur yn uniongyrchol i sicrhau adferiad cynefinoedd a rhywogaethau
- Cyhoeddi 1,712 o drwyddedu rhywogaethau fel bod anghenion rhywogaethau yn cael eu hystyried mewn perthynas â gweithgareddau a fyddai'n effeithio arnynt
- Rheoli 56 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol (rhai mewn partneriaeth ag eraill) ac annog pobl i archwilio, mwynhau a gwerthfawrogi'r safleoedd arbennig hyn

## Amcan llesiant 2: Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd

Rydym yn cefnogi gallu cymunedau i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd drwy wneud y canlynol:

- Bod yn aelod o bob un o'r 13 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, gan rannu a datblygu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu
- Ymateb i 7,982 o ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio i sicrhau bod ein safbwynt ar gynigion datblygu wedi'i nodi'n glir, gan gynnwys unrhyw amodau a ddisgwylir
- Cynhyrchu £32 miliwn mewn incwm pren gan gefnogi'r gwaith parhaus o reoli'r ystad goetir yn gynaliadwy
- Cynnal dros 3,900 o asedau rheoli perygl llifogydd wrth reoli perygl llifogydd yn y dyfodol
- 109,346 eiddo wedi'u cofrestru i gael rhybuddion llifogydd gan ddarparu rhybuddion am lifogydd disgwyliedig neu bosibl ymlaen llaw

## Amcan llesiant 3: Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf

Rydym yn cefnogi lleihau llygredd drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau 85 o erlyniadau am droseddau amgylcheddol yn 2023 fel rhan o'n dull o gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio
- Derbyn oddeutu 25,000 o ymholiadau cyffredinol dros y ffôn neu drwy e-bost, a helpu pobl gyda'u hymholiadau a'u ceisiadau am wasanaethau yn Gymraeg/Saesneg

[1] Mae yna nifer o resymau pam mae pob ffigur yn bwysig, er mai dim ond un a nodir. Rydym wedi grwpio'r eitemau ar y dudalen hon fesul amcan llesiant, er bod y rhan fwyaf yn ymwneud â chyflawni'r holl amcanion llesiant.

- Ymateb i 10,845 adroddiad am ddigwyddiadau amgylcheddol,a 198 o ddigwyddiadau amgylcheddol sydd wedi achosi effaith ddifrifol (fawr neu arwyddocaol)

## Crynodeb o risgiau allweddol

Mae risg yn rhan annatod o bopeth a wnawn. Roedd lansiad ein cynllun corfforaethol newydd yn gyfle i adolygu'r risgiau allweddol mewn perthynas â chyflawni ein hamcanion llesiant. Fel yr amlinellwyd yn yr *Adroddiad Atebolrwydd*, mae ein risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu, eu rheoli, eu hadolygu, eu craffu a'u cofnodi.

Ein risgiau strategol yw'r rhai a allai gael yr effaith fwyaf a mwyaf dwys ar gyflawni ein hamcanion. Mae'r chwe risg isod yn cael eu rheoli'n weithredol gan berchennog risg ar lefel cyfarwyddwr ynghyd â'i reolwr(wyr) risg. Mae gan bob risg strategol lefel archwaeth risg (parodrwydd i dderbyn risg) a bennir gan y Bwrdd. Ceir isod grynodeb o'n meysydd risg allweddol, a sut maent wedi newid:

### Cynaliadwyedd ariannol

Mae angen i ni weithredu cyllideb gytbwys a sicrhau bod ein penderfyniadau'n cael effaith gadarnhaol ar ein cynaliadwyedd ariannol hirdymor er mwyn cyflawni'r cynllun corfforaethol. Mae effeithiau allanol chwyddiant, costau cynyddol a heriau o fewn y gadwyn gyflenwi yn cynyddu'r angen am reolaeth risg effeithiol, a dealltwriaeth glir o'n parodrwydd i dderbyn risg, yn ogystal â'r angen i fod yn ystwyth ac yn addasadwy i'r newidiadau cyson ac ansefydlogrwydd economaidd. Gweler *'Datganiad y Prif Weithredwr'* a'r '*Crynodeb ariannol'* i gael rhagor o wybodaeth am hyn.

### Cydnerthedd sefydliadol

Mae angen inni baratoi'n ddigonol ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau ar raddfa fawr a allai achosi aflonyddwch busnes sylweddol, ee ymosodiad seiberddiogelwch neu ddigwyddiad tywydd garw. Mae'r risg yn canolbwyntio ar yr angen inni sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau o'r fath, yn ymateb iddynt ac yn adfer ar eu hôl drwy waith sganio'r gorwel, cynllunio senarios a sicrhau bod cynlluniau parhad busnes a chynlluniau adfer ar ôl trychineb effeithiol ar waith. *Gweler 'Sicrwydd gwybodaeth' o dan y pennawd Adroddiad Atebolrwydd i gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn ymdrin â seiberddiogelwch a diogelwch gwybodaeth a'r dadansoddiad o berfformiad 'Presenoldeb mewn digwyddiadau difrifol'.*

### Iechyd a diogelwch

Fel rhan o'n darpariaeth weithredol, rydym yn ymgymryd â gweithgareddau risg uchel, sy'n cynnwys gweithio gyda pheiriannau trwm, gweithio mewn dŵr, gweithio gyda llifiau cadwyn – yn aml ar dir anodd. Mae'r risg yn canolbwyntio ar sicrhau bod gennym y seilwaith, yr hyfforddiant a'r cymwyseddau ar waith a'n bod yn rheoli'r risgiau hynny yn unol â gofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i leihau tebygolrwydd y risg, a'i heffaith. *I gael rhagor o wybodaeth am hyn, gweler papurau chwarterol y Bwrdd* ynglŷn â *'llesiant, iechyd a diogelwch'.*

### Gwerthoedd a ffyrdd o weithio

Mae'r risg hon yn canolbwyntio ar yr angen inni sicrhau bod ein ffyrdd o weithio a'n gwerthoedd yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn cyflawni'r cynllun corfforaethol. Mae angen i'n model gweithredu, y strwythur llywodraethu, y methodolegau blaenoriaethu, y parodrwydd

i dderbyn risg, yr ymddygiadau a'r arferion sy'n cefnogi ein gwerthoedd fod yn sail ar gyfer cyflawni ein hamcanion llesiant. *Gweler yr enghreifftiau o dan y pennawd 'Dadansoddiad o berfformiad' sy'n ymwneud â datganiadau effaith drafft ynghylch gwerthoedd ac ymddygiadau i gael rhagor o wybodaeth am hyn.*

## Pobl

Mae angen inni ddefnyddio sgiliau, gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad ein staff mewn ffordd sy'n golygu ein bod yn cyflawni yn y ffordd orau bosibl. Mae angen lleoli'r bobl iawn yn y mannau cywir, ac fel sefydliad mae angen inni sicrhau bod hyblygrwydd yn ein strwythur a bod blaenoriaethu a chynllunio adnoddau / olyniaeth yn cyd-fynd â'n cynllun corfforaethol. *Gweler yr 'Adroddiad tâl a staff (archwiliedig)' i gael rhagor o wybodaeth am hyn.*

## Yr amgylchedd gwleidyddol, deddfwriaethol ac economaidd

Mae angen inni ddehongli a rhagweld yr amgylchiadau gwleidyddol, deddfwriaethol ac economaidd newidiol sy'n effeithio ar weithgareddau CNC a dylanwadu arnynt, cynllunio ar eu cyfer ac addasu ac ymateb iddynt. Mae'r dirwedd wleidyddol newidiol ledled Cymru a'r DU wedi creu angen i sicrhau bod CNC yn cadw i fyny, yn cryfhau perthnasoedd, yn defnyddio ac yn datblygu rhwydweithiau ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol er mwyn helpu i hwyluso camau gweithredu trawsnewidiol. Mae angen inni achub ar bob cyfle i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion llesiant drwy weithio'n effeithiol gyda'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. *Gweler yr enghreifftiau o dan y pennawd 'Dadansoddiad o berfformiad', sy'n ymwneud â datganiadau effaith drafft ynghylch camau gweithredu ar y cyd, er mwyn cael rhagor o wybodaeth am hyn.*

## Crynodeb ariannol

Cyfanswm ein hincwm am y flwyddyn oedd £134 miliwn ac roedd hyn yn cynnwys £34 miliwn o grantiau gan Lywodraeth Cymru tuag at ystod o ganlyniadau. Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru £141 miliwn o gymorth grant, y cafodd £58 miliwn ohono ei ddyrannu ar gyfer rheoli llifogydd a risgiau arfordirol. Darparodd Llywodraeth Cymru hefyd £3 miliwn ar ffurf cyllid cyfalaf gweithio. Yn y datganiadau ariannol, caiff cymorth grant a chyllid cyfalaf gweithio eu cofnodi fel 'Cyllid gan Lywodraeth Cymru' a'u hystyried yn gyfraniad gan awdurdod â rheolaeth ac nid yn ffynhonnell incwm.

Yn 2023/24, cynyddodd ein gwariant o £272 miliwn i £300 miliwn. Mae nifer o resymau'n gyfrifol am y newid mewn gwariant, gan gynnwys cynnydd yng nghostau staff – yn bennaf oherwydd ein dyfarniad cyflog a'r taliad costau byw (gostyngodd nifer ein staff mewn gwirionedd) – a'r gwaith o gynnal ein rhaglenni cyfalaf. Gwnaethom leihau costau mewn nifer o feysydd (prynu gwasanaethau i mewn) er mwyn gallu fforddio'r effaith a gafodd chwyddiant a'r gostyngiad yn yr incwm pren ar ein cyllidebau. Dyma ddosbarthiad cyfanswm ein cyllid a'n gwariant:

- Cyllid fesul math:
  Cyllid gan Lywodraeth Cymru (52% / £144 miliwn),
  Taliadau (18% / £50 miliwn),
  Incwm masnachol ac incwm arall (17% / £46 miliwn),
  Grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru (12% / £34 miliwn),
  Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall (1% / £3 miliwn)
- Gwariant fesul math:
  Costau staff (44% / £131 miliwn),
  Arian a wariwyd ar waith cyfalaf yn ystod y flwyddyn (16% / £48 miliwn),
  Gwariant arall (40% / £120 miliwn)

## Rheoli ein harian

Yn 2023/2024, o ran lefelau arian parod, roedd swm y cyllid 'craidd' a gawsom gan Lywodraeth Cymru yn debyg i'r flwyddyn ariannol flaenorol. Hefyd, parhaodd Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid grant penodol i ni ar gyfer rhaglenni sydd wedi'u targedu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Gwnaethom gynnal ein buddsoddiad mewn rhaglenni a ariennir yn allanol – gan fuddsoddi mwy na £5 miliwn mewn rhaglenni a ariennir gan Ewrop a Chronfa Treftadaeth y Loteri. Gwelwyd gostyngiad yn ein hincwm pren wrth i'r sefyllfa economaidd effeithio ar y galw am bren ac wrth i'n lefelau incwm ynni adnewyddadwy hefyd ostwng o uchafbwynt y flwyddyn flaenorol. Mae'r lefelau incwm o godi tâl wedi cynyddu'n gymedrol ers cyflwyno ffioedd trwyddedu a cheisiadau diwygiedig. Cymeradwywyd y gyllideb gan y Bwrdd a chraffwyd arni drwy gydol y flwyddyn ariannol gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd.

## Edrych i'r dyfodol

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun corfforaethol hyd at 2030 a'n cynllun busnes ar gyfer 2024/2025, sy'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn/blynyddoedd ariannol sydd i ddod. Rydym wedi gosod ein cynlluniau ar sail adnoddau disgwyliedig, gan gynnwys cymorth grant, incwm o godi tâl, a dyraniadau ac amcangyfrifon incwm masnachol. Rydym newydd dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer y taliadau a godir gennym ar gyfer 2024/2025. Gall ein hincwm masnachol fod yn llai rhagweladwy gan ei fod yn sensitif iawn i newidiadau yn y gyfradd gyfnewid, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno trothwy er mwyn ein diogelu rhag gostyngiadau yn yr incwm o bren. Mae Llywodraeth Cymru wedi

cadarnhau y bydd ein dyraniad cymorth grant ar gyfer 2024/2025 ar lefel arian parod debyg, ond ein her fwyaf yw fforddio effaith lefelau cyflog a chwyddiant ac rydym ar hyn o bryd yn asesu sut y byddwn yn gwneud newidiadau i’n gwasanaethau fel eu bod yn fforddiadwy.

## Asedau anghyfredol

Ar 31 Mawrth 2024, gwerth ein hasedau anghyfredol oedd £2,750 miliwn, sef gostyngiad o 0.7% (£19 miliwn) o’i gymharu â’r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Yr elfen fwyaf arwyddocaol yw gwerth yr ystad goedwig a’r asedau biolegol sy’n cyfrif am £2,146 miliwn, sef gostyngiad o 4% (£89 miliwn) oherwydd cyfuniad o ostyngiad ym mhrisiadau cnydau wedi’i wrthbwyso gan gynnydd ym mhrisiad sylfaenol y tir.

## Taliadau masnachol a thaliadau eraill

Rydym wedi ymrwymo i dalu 95% o gyflenwyr o fewn 30 o ddiwrnodau, ac rydym yn ceisio mynd y tu hwnt i'r targed hwn pan fo'n bosibl. Gwnaethom lwyddo i dalu 96% eleni.

## Perfformiad dyledwyr

O ganlyniad i’n dull parhaus o reoli dyled fasnachol, bu gostyngiad bach yn y ddyled fasnachol, gan olygu mai 0 diwrnod oedd nifer cyfartalog y diwrnodau i gwsmeriaid dalu o gymharu â 2022/2023, ac mae hynny o fewn ein targed o ddau ddiwrnod.

O ran y ffordd yr ydym yn rheoli dyled reoleiddiol, gwelwyd lefel y ddyled yn aros yr un fath, sef 6.5% yn 2022/2023 a 6.5% ddiwedd 2023/2024, a oedd yn dal yn is na'n targed o 7%. Byddwn yn anelu at osod targed sy'n well na 6.5% ar gyfer 2023/2024 – gallai fod yn anodd cyflawni hyn yn yr hinsawdd bresennol.

Ar 31 Mawrth 2024, ein colled credyd ddisgwyliedig oedd £0.2 miliwn.

## Busnes hyfyw

Mae’r datganiad o’r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2023 yn dangos bod ecwiti trethdalwyr yn £2,683 miliwn, sy’n gadarnhaol. Bydd ein rhwymedigaethau yn y dyfodol yn cael eu hariannu gan gymorth grant Llywodraeth Cymru a thrwy gymhwyso incwm yn y dyfodol. Mae gennym gynllun corfforaethol a chynllun busnes cymeradwy ar gyfer 2024/25. Felly, mae'n briodol mabwysiadu dull busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

## Pensiynau

Datgelir y rhwymedigaeth/gwarged pensiwn yn y datganiadau ariannol, sy’n seiliedig ar Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19. Mae’r gwarged ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi lleihau o £65 miliwn i £58 miliwn yn 2023/2024.

Mae hyn yn wahanol i'r sylfaen a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau cyllido. Roedd rheolwyr Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd wedi amcangyfrif bod ganddi ddigon o asedau i fodloni 153% o'i rhwymedigaethau disgwyliedig yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2024.

## Archwilwyr

Caiff ein cyfrifon eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rhagwelir mai’r ffi archwilio ar gyfer 2023/2024 fydd £213,000.

## Adroddiadau eraill

Fel sefydliad, rydym yn cyhoeddi nifer o adroddiadau yn rheolaidd, a gellir gweld llawer ohonynt yma, gan gynnwys y ddogfen hon, sef yr adroddiad blynyddol a chyfrifon, yr adroddiad cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant blynyddol, ac adroddiad amgylcheddol. Mae strategaethau a chynlluniau ar gyfer Cymru ar gael yma, gan gynnwys ein cynllun corfforaethol newydd, ein Strategaeth fasnachol a'n Datganiadau Ardal (sy'n amlinellu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer ardaloedd yng Nghymru). Mae adroddiadau tystiolaeth ac ymchwil a gyhoeddwyd ar gael yma (gan gynnwys Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 (SoNaRR)ar gyfer Cymru).

# Crynodeb o berfformiad

Mae'r holl fesurau ar ddangosfwrdd ein cynllun busnes yn ymwneud â'n hamcanion llesiant, fel y nodir yn ein Cynllun Corfforaethol newydd. Mae'r dangosfwrdd yn adlewyrchu detholiad cynrychioliadol o fesurau sy'n cyd-fynd â'r amcanion llesiant rydym yn gweithio tuag atynt, gan gynnig trosolwg o'n gwaith. Ochr yn ochr â'r mesurau detholedig hyn, mae llawer iawn o waith arall yn digwydd. O dan ofynion dwysach ar wasanaethau, cyllid heriol a chyfyngiadau cyllidebol, rydym wedi wynebu pwysau ychwanegol sylweddol eleni. Rydym wedi gweithio'n galed i liniaru'r pwysau hyn ar ein cyllideb, gan gynnwys drwy rewi recriwtio allanol a lleihau cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â staff. Mae hyn i gyd wedi cael effaith ar draws y sefydliad, ac mae rhywfaint o'n gweithgareddau wedi arafu, neu heb eu cyflawni, o ganlyniad.

Fel yr amlinellwyd yn ein Hadroddiad Atebolrwydd, mae adrodd a chraffu ar yr adroddiadau ar fesurau ar y dangosfwrdd yn digwydd mewn sesiwn gyhoeddus agored yn ystod ein cyfarfodydd Bwrdd bedair gwaith y flwyddyn, ac mae craffu pellach ar yr adroddiadau hyn yn digwydd drwy Lywodraeth Cymru.

Ar ddiwedd blwyddyn 2023/2024, roedd y dangosfwrdd yn cynnwys 22 o fesurau ac, o blith y rhain:

- roedd 15 yn wyrdd (hy cyflawnwyd y targed neu garreg filltir)
- roedd chwech yn oren (hy bron â chyflawni'r targed neu garreg filltir)
- roedd un yn goch (hy methwyd â chyflawni'r targed neu garreg filltir)

O gymharu'r perfformiad â'r flwyddyn flaenorol (2022/23), ar ddiwedd 2023/24 roedd gennym bum mesur yn llai a oedd yn oren neu'n goch, a phedwar yn llai o fesurau gwyrdd (ac roedd dangosfwrdd 2023/24 yn adlewyrchu'r ffaith bod naw mesur yn llai yn gyffredinol[2]).

Gellir gweld ein hadroddiadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol yma (gweler 'Adroddiadau blynyddol a chyfrifon').

[2] Dylid nodi, oherwydd y gall natur, ffurf, manylion a chyd-destun y mesurau ar ein dangosfwrdd amrywio i ryw raddau bob blwyddyn, ni fydd bob amser yn bosibl cymharu sefyllfa'r mesurau yr adroddir amdanynt yn uniongyrchol.

## Dadansoddiad o berfformiad

Nod y rhan hon o'r adroddiad ar berfformiad yw adlewyrchu rhywfaint o'r hyn a gyflawnwyd eleni, gan gynnwys enghreifftiau sy'n adlewyrchu uchafbwyntiau penodol a meysydd lle profwyd heriau sylweddol.

Rydym yn amlinellu'r canlynol fesul amcan llesiant:

- Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn (crynodeb)[3] ar gyfer pob un o'r mesurau ar ddangosfwrdd ein cynllun busnes
- Rhywfaint o'n gweithgareddau â blaenoriaeth arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Nifer o enghreifftiau cyflawni cysylltiedig

Nodir perthnasoedd cyflawni hefyd gyda:

- Nodau Llesiant Cymru[4], ar gyfer pob un o'n tri amcan llesiant
- Datganiadau o effaith drafft[5], ar gyfer enghreifftiau detholedig o gyflawni

[3] I weld y safbwyntiau a adroddwyd gennym ar yr holl fesurau hyn yn ystod y flwyddyn, cyfeiriwch at bapurau cyhoeddedig ein Bwrdd.

[4] Disgrifir y berthynas rhwng ein hamcanion llesiant a nodau llesiant Cymru drwy ein datganiad llesiant. Mae'r datganiad yn adlewyrchu sut y pennwyd ein hamcanion llesiant a sut rydym yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at nodau llesiant Cymru.

[5] Y berthynas rhwng ein hamcanion llesiant a'r dangosyddion strategol drafft (gweler tudalen 6), a ddangosir ar lefel yr is-benawdau a adlewyrchir ar gyfer pob un o'n hamcanion llesiant

## Amcan llesiant 1: Byd natur wrthi'n gwella

*Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

**Beth sydd ei angen er mwyn sicrhau adferiad byd natur?**
*"Mae hyn yn golygu cymryd camau brys i atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, a datblygu gallu ecosystemau i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd gan ganiatáu i natur addasu i hynny, a pharhau i fod yn sail i fywyd yn gyffredinol – hynny yw, aer glân, dŵr glân, bwyd a hinsawdd sefydlog. Mae angen i Gymru weithredu nawr er mwyn osgoi methiant trychinebus o ran ein hecosystem."* [6]

Mae ein cynllun corfforaethol yn nodi y byddwn yn cymryd camau i sicrhau adferiad byd natur erbyn 2030 drwy wneud y canlynol: Gwarchod natur; adfer natur; sicrhau bod natur yn cael ei pharchu a'i gwerthfawrogi wrth wneud penderfyniadau; ailgysylltu natur, pobl a chymunedau; bod yn sefydliad natur gadarnhaol enghreifftiol; ac adfer byd natur yn ein cymunedau. Bob blwyddyn, mae ein Cynllun Busnes yn cynnwys ein hymrwymiadau â blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae ein cynllun busnes ar gyfer 2024/2025 yn adlewyrchu ein hymrwymiadau blynyddol â blaenoriaeth diweddaraf, gan gynnwys cyflawni'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur; dynodi parc cenedlaethol newydd; a llywio datblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, erbyn diwedd 2023/2024 roeddem wedi cyflawni'r canlynol:

- *Hyrwyddo gweledigaeth a rennir* ar gyfer yr amgylchedd naturiol hyd at 2050 (Natur a Ni / Nature and Us). Statws y mesur: Gwyrdd (gweler '*Gweledigaeth a rennir …*')
- *Cwblhau camau blaenoriaeth ar safleoedd gwarchodedig er mwyn gwella cyflwr nodweddion,* gyda chyllid cyfalaf Rhwydwaith Natur yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r camau a gwblhawyd. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Wedi bwrw ymlaen â'n hadolygiad ansawdd dŵr,* er bod oedi yn y contract dylunio yn golygu y bydd dyluniad rhwydwaith monitro 'gwarchodol' newydd bellach yn cael ei gyflawni yn ystod 2024/25 oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllido'r prosiect a phwysau ar staff. Statws y mesur: Oren
- *Gweithredu dros rywogaethau sy'n prinhau neu'r rhai sydd bron â diflannu, gan gynnwys drwy* Natur am Byth. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Parhau i ddatblygu a gweithredu rhaglen i archwilio parc cenedlaethol newydd (yng ngogledd ddwyrain Cymru)*. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Camau gweithredu mewn perthynas â rheoli'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru,* gan gynnwys camau ynghylch proffiliau newid hinsawdd. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Rheoli a chyfrannu at raglenni i fynd i'r afael â cholli cynefinoedd ledled Cymru, a'u hadfer*, gan gynnwys darparu ar gyfer rhwydweithiau natur a rhaglenni LIFE. Statws y mesur: Gwyrdd

Rydym wedi cynnwys mwy o fanylion am rai o'r uchod ar y tudalennau canlynol.

[6] Gweler Ein cynllun corfforaethol i gael mwy o fanylion am yr hyn y mae ein sefydliad yn ei wneud (gan gynnwys gydag eraill) i fynd i'r afael â'r mater hwn

## Gweledigaeth ar y cyd, a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol

**Crëwyd y weledigaeth Natur a Ni ar gyfer Cymru gan bobl yng Nghymru, ac mae'n disgrifio dyfodol lle mae natur a'r gymdeithas yn ffynnu gyda'i gilydd, ynghyd â'r newidiadau y mae angen inni eu gwneud er mwyn cyflawni hyn. Mae'r weledigaeth, a phrofiad ehangach o'r rhaglen Natur a Ni, yn darparu offerynnau gwerthfawr ar gyfer hwyluso cydweithredu tuag at adferiad byd natur.**

Crëwyd y weledigaeth Natur a Ni ar gyfer Cymru 2050 gan gynulliad dinasyddion a gynhaliwyd gan CNC yn gynnar yn 2023. Cafodd y weledigaeth ei rhyddhau yn ystod haf 2023, ac mae'n nodi chwe thema ar gyfer gweithredu *os* yw natur a chymdeithas i ffynnu gyda'i gilydd. Mae'r weledigaeth yn adeiladu ar farn miloedd o bobl a gymerodd ran yn sgwrs genedlaethol Natur a Ni yn 2022.

Llywiodd y sgwrs Natur a Ni 'Ein cynllun corfforaethol hyd at 2030: byd natur a phobl yn ffynnu gyda'n gilydd' (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023), ac roedd ein tri amcan llesiant yn adeiladu ar ganfyddiadau Natur a Ni. Ym mis Rhagfyr gwnaethom gyhoeddi ein hymateb i'r weledigaeth mewn llythyr agored.

Eleni, mae gwerthusiad o broses rhaglen Natur a Ni yn rhoi cipolwg gwerthfawr inni o'i chryfderau a'i gwendidau, ac yn argymell ffyrdd o ymgorffori ein dysgu – gan wella ein heffaith a'n heffeithiolrwydd. Daw'r gwerthusiad i ben ym mis Ebrill 2024, a byddwn yn rhannu ei ganfyddiadau ar draws ein sefydliad a chyda phartneriaid.

Bydd Gweledigaeth Natur a ni ar gyfer Cymru 2050 yn parhau i ddylanwadu ar ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf, er yn amlwg nid yw'r weledigaeth yn rhywbeth y gall ein sefydliad ei chyflawni ar ei ben ei hun. Byddwn yn parhau i feithrin a chryfhau partneriaethau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn cyflymu effaith y gwaith hwn, rhannu gwybodaeth gyfunol a dangos arweiniad tuag at wireddu'r weledigaeth. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, rydym yn gwybod bod angen gweithredu nawr; gan bobl, y llywodraeth a sefydliadau ledled Cymru.

Datganiad(au) o'r effaith drafft cysylltiedig: Bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd, llygredd, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, gweithredu ar y cyd, gwerthoedd ac ymddygiadau

## Rhannu ein data, mynd i'r afael â heriau

**Mae rhannu data yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant ledled Cymru. Rydym yn cyhoeddi cannoedd o asedau data ar Fap Data Cymru ac yn cynnal cofnodion helaeth ar-lein mewn mannau eraill. Mae rhannu data yn fath modd yn cefnogi'r gwaith o gydymffurfio â rheoliadau, ac fe'i defnyddir ar gyfer datblygu cydweithrediadau. Rydym wedi gwella'r ffordd yr ydym yn rhannu data yn ystod 2023/2024, ac rydym hefyd wedi gwella ansawdd a hygyrchedd data.**

Adlewyrchir yr angen i rannu data yn ein cynllun corfforaethol, ac mae'n hanfodol ar gyfer datblygu cydweithrediadau, gan sicrhau bod ein gwybodaeth allweddol yn cael ei defnyddio'n fwy effeithiol. Er enghraifft, o ran gweithgareddau sy'n ymwneud ag adfer natur, rydym wedi dweud y byddwn yn rhannu data monitro ag eraill ac yn sefydlu cyfres o blatfformau arddangos.

Rydym yn cyhoeddi dros 200 o asedau data, sy'n cynnwys mwy na 500 o setiau data unigol drwy Fap Data Cymru. Darparwn fynediad i dros ddwy filiwn o gofnodion ynghylch presenoldeb rhywogaethau drwy Atlas y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol. Rydym

hefyd yn cynnal catalog o ddata, sydd gennym ar ein gwefan, ar gyfer dros 1,500 o setiau data yn Darganfod Data (sef ein cronfa ddata o fetadata).

Mae rhannu data mewn modd agored, tryloyw a hygyrch yn rhan allweddol o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru. Mae hefyd yn rhan o'r broses o sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau cysylltiedig. Fel rhan o'n gwaith ynghylch rhannu data, rydym yn:

- Nodi data sensitif er mwyn sicrhau mai dim ond gwybodaeth a ganiateir yn gyfreithiol a gyhoeddir.
- Adlewyrchu ansawdd data drwy fetadata, golygu data y gwyddys eu bod o ansawdd gwael, a/neu nodi'n glir unrhyw gyfyngiadau ynglŷn â'u defnyddio.
- Defnyddio technoleg i awtomeiddio cyhoeddi, gan sicrhau bod y dystiolaeth ddiweddaraf ar gael yn rhwydd

Mae rhannu data, ynghyd â gweithgareddau cysylltiedig eraill, yn sail bellach i gyflawni amcanion llesiant a rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol; gan ei gwneud yn bosibl i'r dystiolaeth gael ei defnyddio mewn platfformau data sy'n wynebu'n allanol, fel ein Porth Gwybodaeth Amgylcheddol ar gyfer Prosiect Arddangos Afon Teifi ac, yn y dyfodol, drwy ran o borth profi cysyniad dŵr croyw sy'n cael ei ddatblygu gan Brifysgol Caerdydd.

Enghraifft allweddol o hyn yw cyhoeddi ein Harchif Ansawdd Dŵr ar Fap Data Cymru ym mis Mai 2023, sy'n cael ei ddiweddaru'n fisol. Mae hwn am ddim i'r cyhoedd ei gyrchu, mae'n gwella tryloywder ac yn cefnogi ymgysylltiad mewn perthynas ag ansawdd dŵr. Mae'r archif yn sylfaen dystiolaeth allweddol ar gyfer cyrff morol a dŵr croyw yng Nghymru, gan ehangu cyrhaeddiad y dystiolaeth hon, a hefyd darparu arbedion effeithlonrwydd drwy ddarparu cyfleuster hunanwasanaeth fel y gall pobl gyrchu'r wybodaeth hon.

Datganiad(au) o'r effaith drafft cysylltiedig: Gweithredu ar y cyd, gwerthoedd ac ymddygiadau

## Paratoi'r adroddiad nesaf ar gyflwr adnoddau naturiol (SoNaRR)

**Rydym wedi dechrau casglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad nesaf ar sefyllfa adnoddau naturiol, gan adeiladu ar ein hadroddiad diwethaf. Bydd adroddiad dros dro, ym mis Rhagfyr 2024, yn nodi'n fanwl ein cynlluniau ar gyfer ein hadroddiad nesaf.**

Bydd ein trydydd asesiad o reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol Cymru, sef yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR2025), yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2025, yn dilyn cyhoeddi adroddiad dos dro ym mis Rhagfyr 2024. Disgwyliwn i'r adroddiad nesaf hwn ar sefyllfa adnoddau naturiol barhau i fod yn sylfaen dystiolaeth bwysig – gan gynnull a llywio camau gweithredu ledled Cymru, a hynny gan sicrhau canlyniadau gwell i natur a phobl wrth barhau i ddarparu trywydd clir i'r dystiolaeth greiddiol. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn gwneud y canlynol:

- Darparu tystiolaeth a chyd-destun Cymreig ynghylch y newid yn yr hinsawdd, llygredd a sbardunau newid eraill;
- Adlewyrchu'r pwysau sydd ar ein hadnoddau naturiol, a'u cyflwr – gan gynnwys bioamrywiaeth, dŵr, aer, priddoedd a'r ecosystemau yng Nghymru;
- Disgrifio'r effeithiau ar lesiant pobl Cymru a'r tu hwnt;
- Nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu i lunwyr polisi a chynllunwyr i wella'r ffordd y rheolir adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru.

Yn ystod 2023, fe wnaethom gynllunio'r asesiad a dechrau gweithio i ddiweddaru'r dystiolaeth. Nododd yr adroddiad diwethaf ar sefyllfa adnoddau naturiol, SoNaRR2020, sut y mae Cymru'n dechrau pontio'r bwlch tuag at gynaliadwyedd, drwy ddefnyddio'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) , ynghyd ag egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Bydd SoNaRR2025 yn diweddaru'r dystiolaeth, gan gynnwys y cyfleoedd ar gyfer gweithredu a nodwyd yn SoNaRR2020, ac yn disgrifio'r hyn sydd wedi'i wneud ac unrhyw gamau gweithredu arfaethedig newydd.

Cyflwynodd yr adroddiad interim diwethaf (drafft), yn 2019, bedwar mesur o reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ac fe ganolbwyntiodd ar y prif heriau y mae adnoddau naturiol Cymru yn eu hwynebu,- sef y newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Amlinellwyd dau gyfle integredig (yr economi gylchol a seilwaith gwyrdd) i reoli adnoddau er budd natur a phobl

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad interim 2019, disgrifiwyd y mesurau fel nodau. Cafodd yr asesiad yn erbyn y nodau (stociau o adnoddau naturiol, ecosystemau cydnerth, lleoedd iach ac economi adfywiol), y dystiolaeth y tu ôl i'r heriau, a mabwysiadu dull systemau cyfan eu harchwilio ymhellach yn y fersiwn derfynol o Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020.

Yn SoNaRR2025, rydym yn disgwyl datblygu'r dystiolaeth a'r negeseuon polisi ynghylch yr heriau datblygu integredig o ran y canlynol: iechyd dynol a'r amgylchedd; llesiant diwylliannol a'r amgylchedd; a llesiant economaidd a'r amgylchedd. Mae gan bob un ohonynt gysylltiadau uniongyrchol â'n cynllun corfforaethol newydd a'n hamcanion llesiant (sydd wedi defnyddio'r dystiolaeth yn SoNaRR2020 mewn perthynas â'u datblygiad), wrth hefyd adlewyrchu uchelgais ein sefydliad, sef bod yn feiddgar, yn gydweithredol ac arwain ar arferion gorau.

Datganiad(au) o'r effaith drafft cysylltiedig: Bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd, llygredd, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, gweithredu ar y cyd, gwerthoedd ac ymddygiadau

## Amcan llesiant 2: Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd

*Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

**Beth sydd ei angen i sicrhau'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd?**
*"Mae hyn yn golygu cymryd camau brys i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chyflymu camau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd, gan leihau'r risgiau a'r effeithiau i bob sector o'r economi a chyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus sy'n garbon niwtral erbyn 2030 a Chymru sero net erbyn 2050"* [7]

Mae ein cynllun corfforaethol yn nodi y byddwn yn cymryd camau i wneud yn siŵr y gall cymunedau wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd erbyn 2030 drwy sicrhau bod atebion sy'n seiliedig ar natur yn cael eu mabwysiadu'n eang; bod y risgiau yn sgil y newid yn yr hinsawdd yn cael eu rheoli ac yr addasir iddynt; bod gostyngiad mewn allyriadau hinsawdd; bod pobl, cymunedau a busnesau yn gweithredu'n barhaus ar y newid yn yr hinsawdd; bod y sefydliad yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer ar gyfer creu sector cyhoeddus carbon-bositif; a sicrhau bod byd natur a chymunedau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Bob blwyddyn, mae ein Cynllun Busnes yn cynnwys ymrwymiadau â blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae ein cynllun busnes ar gyfer 2024/2025 yn adlewyrchu ein hymrwymiadau blynyddol â blaenoriaeth diweddaraf, gan gynnwys ymrwymiadau ynghylch camau gweithredu â blaenoriaeth yn ein cynllun sero net; cyflwyno system rhybuddion llifogydd newydd; a chynyddu darpariaeth y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, erbyn diwedd 2023/2024 roeddem wedi cyflawni'r canlynol:

- *Lleihau'r perygl o lifogydd* (neu wedi sicrhau amddiffyniad parhaus) ar gyfer 1,047 eiddo drwy gynlluniau cyfalaf. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Cynnal asedau perygl llifogydd*, gan gyflawni 97.2% (targed 98%) ar gyflwr targed o fewn systemau risg uchel. Mae cyfnodau hir o dywydd gwlyb, stormus wedi achosi diffygion newydd, wedi effeithio ar y gallu i drwsio diffygion presennol ac wedi golygu bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at reoli digwyddiadau mewn ffordd ymatebol. Statws y mesur: Oren
- *Cynnig 706,000m$^3$ o bren i'r farchnad.* Statws y mesur: Gwyrdd
- *Creu coetir newydd ar y tir yn ein gofal,* gan wneud iawn am golledion, gyda 504 hectar o dir wedi'i gaffael ar gyfer hyn dros y blynyddoedd diwethaf er nad oedd yn bosibl cyrraedd ein targed ar gyfer eleni oherwydd problemau cyflenwad. Statws y mesur: Oren
- *Gweithredu i adfer mawndiroedd Cymru*, sy'n cyfrif am fwy na 450 hectar o weithgarwch adfer mawndiroedd (gan gynnwys 131 hectar ar y tir yn ein gofal). Statws y mesur: Gwyrdd (gweler '*… y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd …*' am ragor o wybodaeth am hyn)
- *Datblygu ond heb gwblhau ein hymrwymiadau ynghylch y fflyd a'r ystadau adeiledig.* Mae newid y ffordd yr ydym yn caffael a phroblemau'n ymwneud ag adnoddau staff wedi achosi mwy na naw mis o oedi. Statws y mesur: Coch

[7] Gweler Ein cynllun corfforaethol i gael rhagor o fanylion am yr hyn y mae ein sefydliad yn ei wneud (gan gynnwys gydag eraill) i fynd i'r afael â'r mater hwn

- *Gweithredu'r argymhellion/y camau gweithredu a nodwyd yn yr adolygiad o lifogydd*, gyda 31 yn parhau i fod yn gamau gweithredu tymor hwy. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Llunio'r fersiwn ddiweddaredig o'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer Cymru.* Statws y mesur: Gwyrdd (gweler *'Ein cynllun rheoli perygl llifogydd'* am ragor o wybodaeth)

Rydym wedi cynnwys mwy o fanylion am rai o'r uchod ar y tudalennau canlynol.

### Gwella'r rhwydwaith Ardal Forol Warchodedig drwy'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur Forol

**Drwy ein rhaglen Rhwydweithiau Natur Forol tair blynedd rydym yn darparu cyfres o brosiectau sy'n canolbwyntio ar faterion â blaenoriaeth sy'n effeithio ar reolaeth a chyflwr y rhwydwaith Ardal Forol Warchodedig. Nod y prosiectau yw atal effeithiau negyddol ar ecosystemau; cefnogi arfordiroedd cydnerth ac adfer morfeydd heli.**

Drwy ein rhaglen Rhwydweithiau Natur Forol tair blynedd (2022-2025) rydym yn cyflawni cyfres o brosiectau sy'n canolbwyntio ar faterion â blaenoriaeth sy'n effeithio ar reolaeth a chyflwr y rhwydwaith Ardal Forol Warchodedig. Mae'r rhwydwaith Ardal Forol Warchodedig, sy'n ffurfio tua 70% o ardal glannau Cymru, yn allweddol o ran ei gwneud yn bosibl rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac adfer byd natur yn y môr.
Mae'r prosiectau rydym wedi bod yn gweithio arnynt yn cynnwys y canlynol:

- **Datblygu cynlluniau bioddiogelwch** ar gyfer chwe safle Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), gan gynnwys ACA Bae Ceredigion ac ACA Aber Afon Dyfrdwy, er mwyn atal ymlediad rhywogaethau estron goresgynnol megis yr ewin mochyn, a all gael effaith ddinistriol ar ecosystemau. Mae'r gwaith wedi cynnwys cynnal cyfres o weithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb gyda rhanddeiliaid, megis cymunedau cychod hamdden a chymunedau pysgota, i drafod mesurau effeithiol i atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag lledaenu.
- **Deall ar ba raddfa debygol y mae nodweddion cynefin yn cael eu colli** o ran yr Ardal Forol Warchodedig oherwydd y wasgfa arfordirol, a nodi lle y gall fod cyfleoedd i addasu. Mae colli cynefinoedd rhynglanwol ac arfordirol wrth i lefel y môr godi yn cael effaith gynyddol ar y rhwydwaith Ardal Forol Warchodedig. Tystiolaeth hanfodol ar gyfer llywio ffyrdd o reoli yn y dyfodol er mwyn hybu arfordiroedd cydnerth.
- **Adfer morfeydd heli** yn ACA Aber Afon Hafren lle, yng Nglanfa Fawr Tredelerch, rydym yn rhoi prosiect ar waith i greu ac adfer 'polderau gwaddodiad' (codi ffensys a lleihau symudiad dŵr er mwyn ffurfio morfa heli ymhen amser). Ffocws eleni oedd creu dyluniad addas gan gydnabod bod Aber afon Hafren yn hynod ddynamig, gydag amrediadau llanw eithafol, ac roedd rhaid i'r dyluniad fod yn ddichonadwy, cynorthwyo'r broses o gronni gwaddodion a gwrthsefyll y pwysau ffisegol yn yr amgylchedd hwn. Rydym hefyd wedi sefydlu cydweithrediadau gyda phrifysgolion i gefnogi'r gwaith o fonitro a datblygu dealltwriaeth o'r math hwn o adferiad.

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ac ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol eleni ac yn symud i gam olaf cyflawni'r prosiect yn 2024/2025.

Datganiad(au) o'r effaith drafft cysylltiedig: Bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd, llygredd, gweithredu ar y cyd

## Ein cynllun rheoli perygl llifogydd

**Mae ein cynllun rheoli perygl llifogydd yn nodi ein blaenoriaethau, mesurau arfaethedig a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd hyd at 2029, gan sicrhau bod cymunedau'n gallu gwrthsefyll llifogydd yn wyneb hinsawdd sy'n newid a digwyddiadau tywydd mwy eithafol.**

Gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd wedi'i ddiweddaru ym mis Tachwedd 2023. Mae'r cynllun yn cwmpasu Cymru gyfan ac yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd hyd at 2029 ar gyfer yr ardaloedd lle ceir llifogydd y mae gennym ni'r prif gyfrifoldebau amdanynt, gan gynnwys llifogydd o afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr. Mae'r cynllun wedi'i rannu'n adran genedlaethol drosfwaol ochr yn ochr â chwe adran sy'n canolbwyntio ar leoedd. Bydd y set o fesurau a chamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun yn mynd i'r afael â'r amcan cyffredinol o leihau'r risg i bobl a chymunedau o lifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr, ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r 14 blaenoriaeth yr ydym wedi'u nodi yn y cynllun. Mae'r holl flaenoriaethau yn y cynllun yr un mor bwysig â'i gilydd, ac mae rhai ohonynt yn ymwneud â:

- Datblygu a darparu dulliau dalgylch i leihau llifogydd a chyfrannu at gydnerthedd ecosystemau, gan weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid;
- Gwella gallu cymunedau i wrthsefyll y perygl o lifogydd;
- Ceisio a manteisio ar gyfleoedd ar gyfer iechyd a llesiant cymunedau, bioamrywiaeth a'r amgylchedd;
- Gwella ein gwasanaeth rhybuddio am lifogydd.

Mae'r cynllun yn amlygu sut mae'n rhaid i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd gael eu cynnwys yn ein gweithredoedd, y gofynion addasu hirdymor sy'n benodol i feysydd allweddol, a'r cyfraniad y gall rheoli llifogydd naturiol ei wneud tuag at reoli'r perygl o lifogydd. Fel rhan o hyn, mae'r cynllun yn cynnwys y rhagamcanion diweddaraf ynghylch eiddo sydd mewn perygl yng Nghymru – nawr, ac yn y dyfodol (2120). Byddwn yn defnyddio'r cynllun fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau a chynnal trafodaethau mwy gwybodus ynghylch cyflawni gyda phartneriaid, fel bod buddsoddiadau mewn lleihau'r perygl o lifogydd yn cael eu targedu at y cymunedau y mae llifogydd yn debygol o gael yr effaith fwyaf arnynt.

Mae un o'n hymrwymiadau â blaenoriaeth ar gyfer 2024/2025 yn canolbwyntio ar ddarparu system rhybuddion llifogydd newydd.

Datganiad(au) o'r effaith drafft cysylltiedig: Bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd, llygredd, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, gweithredu ar y cyd, gwerthoedd ac ymddygiadau

## Gweithgareddau adfer ar fawndiroedd drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

**Rydym yn adfer mawndiroedd drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, gan weithio gyda phartneriaid cyflawni, a'r tir yn ein gofal.**

Ers ei chychwyn yn 2020, mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd wedi cymryd camau breision drwy weithgareddau adfer mawndiroedd ledled Cymru, ac rydym o'r farn ei bod yn enghraifft o ateb sy'n seiliedig ar natur, sy'n lleihau allyriadau carbon ac yn gwella bioamrywiaeth (carbon isel / natur uchel). Mae'r dull adfer hefyd yn arwain at

fanteision economaidd drwy greu swyddi, yn ogystal â sicrhau bod arferion rheoli tir cynaliadwy yn cael eu rhoi ar waith. Dros y flwyddyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Mynd y tu hwnt i darged 2023/24 o gyflawni gwerth 450 hectar y flwyddyn o weithgarwch adfer mawndiroedd drwy gyflawni'n uniongyrchol ar y tir yn ein gofal a darnau eraill o dir (mewn partneriaeth â thirfeddianwyr a rheolwyr tir eraill);
- Lansio ein grant cyflawni adfer cystadleuol newydd.
- Ariannu cyfanswm o 18 partner;
- Cynnal ein digwyddiad Ymarferwyr Cenedlaethol cyntaf er mwyn rhannu arferion gorau, gan gynnwys yr hyn sy'n gweithio (a'r hyn nad yw'n gweithio) 'ar lawr gwlad'.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r dasg inni i dyfu'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd, gan ddatblygu ymrwymiad a wnaed ym mis Hydref 2022 i dreblu'r targed blynyddol o fawndiroedd sy'n cael eu hadfer er mwyn cyflawni gwerth 1,800 hectar (y flwyddyn) erbyn 2030/2031.

Byddai cyflawni 1,800 hectar y flwyddyn yn rhoi Cymru ar drywydd a fyddai'n golygu y gellid cyflawni'r elfen defnydd tir (mawndiroedd) o sero net erbyn 2050 – gan sicrhau gostyngiad o 38% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o fawndiroedd Cymru erbyn 2050. Gyda chyllideb o £5.6 miliwn ar gyfer 2024-25, byddwn yn parhau i ehangu'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd fel un o'n hymrwymiadau â blaenoriaeth ar gyfer 2024/25, gan gynyddu nifer y staff ar gyfer hyn ac, yn ei dro, gynyddu nifer yr hectarau o fawndir sydd wedi'u hadfer.

*I gael rhagor o wybodaeth am gamau i adfer mawndiroedd drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, ac adroddiadau blaenorol ar hyn, gweler: Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd*

Datganiad(au) effaith drafft cysylltiedig**:** Bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd, gweithredu ar y cyd, gwerthoedd ac ymddygiadau

## Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer

**Rydym yn datblygu ac yn darparu rhaglenni addysg ar gyfer y sectorau addysg ac iechyd, gan wybod bod gan bob plentyn ac unigolyn ifanc yr hawl i fyw, dysgu, chwarae a thyfu mewn amgylchedd naturiol iach a reolir mewn ffordd gynaliadwy.**

Gan gydnabod y rôl sydd gan blant a phobl ifanc i'w chwarae mewn rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn y dyfodol, ynghyd â'n cyfrifoldebau fel sefydliad Hawliau Plant, rydym yn parhau i ddatblygu a chyflwyno ein rhaglenni addysg ar gyfer y sectorau addysg ac iechyd. Mae ein rhaglenni dysgu yn yr awyr agored, a'n rhaglenni hinsawdd a natur yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu elwa ar gyrhaeddiad uwch, mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol, a'r iechyd meddwl a llesiant gwell a geir drwy gysylltu â'r byd natur.

Mae ein hamcanion llesiant a'r angen i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn thema gyffredin ar draws ein hadnoddau addysg dwyieithog er mwyn cefnogi pob addysgwr a lleoliad i gyflawni gofynion ar draws y Cwricwlwm i Gymru.  Rydym bellach yn gweld yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio gan grwpiau a sefydliadau eraill er mwyn cefnogi cwricwla ffurfiol ac anffurfiol.

Mae ein sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb a gweminarau hefyd wedi ennyn sylw pobl o'r tu allan i'r sector addysg oherwydd, o ganlyniad i'n defnydd parhaus o dechneg 'Mantell yr

Arbenigwr', mae athrawon yn newid eu harferion, ac yn barod i rannu eu profiadau gan gefnogi dysgwyr drwy ein cyfres o flogiau (ee mewn perthynas â thyfu bwyd, a'r cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd)

Gan weithio gyda'n partneriaid yng Nghyngor Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru, rydym yn cyflwyno Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru, sy'n ddigwyddiad lle mae'r sector yn dod ynghyd i ddathlu. Mae ein gwaith gyda phartneriaid yn Rhwydwaith Hyfforddiant Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru yn helpu i sicrhau safonau ac ansawdd ystod gynyddol o gymwysterau Agored Cymru. Mae ein gwaith gyda Chymwysterau Cymru yn ein helpu i sicrhau bod yr amgylchedd naturiol a materion cynaliadwyedd wedi'u plethu drwy'r cwricwlwm diwygiedig i blant 14 i 16 oed, ac rydym yn parhau i ehangu ein cyfleoedd i gael lleoliad o fewn CNC, ac mae gennym chwe phrentis yn yr adran Gorfodi ar hyn o bryd a 12 o fyfyrwyr addysg uwch yn ein rhaglen swyddogaeth rheoleiddio gwastraff. Mae gwirfoddolwyr yn ein cefnogi yn Neorfa Cynrig ac ar Benrhyn Gŵyr, ac yn ystod haf 2023 gwnaethom groesawu 22 o fyfyrwyr ar brofiad gwaith ar draws ein timau a Chymru.

Mae cymorth arall yn cynnwys: ein cylchlythyr misol, sydd bellach wedi'i ehangu i gynnwys iechyd a llesiant; cymorth ar gyfer ymweliadau hunanarweiniol ar y tir yr ydym yn berchen arno ac yn ei reoli; darparu cyngor a chyfarwyddyd ar fanteision sy'n deillio o dreulio amser ym myd natur; tynnu sylw at sut mae ymgysylltiad â natur yn fuddiol, gan arwain at ymddygiadau o blaid yr amgylchedd; ein rhestr chwarae Addysg, dysgu, chwarae ac iechyd ar YouTube; ac ymgyrchoedd fel Miri Mes.

Datganiad(au) o'r effaith drafft cysylltiedig: Bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd, llygredd, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, gweithredu ar y cyd, gwerthoedd ac ymddygiadau

## Amcan llesiant 3: Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf

*Mwy cyfartal, Iachach, Cydnerth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau cydlynus*

**Beth sydd ei angen i sicrhau bod llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf?**
*"Mae hyn yn golygu cymryd camau i atal hyd yr eithaf y pethau hynny sy'n niweidio iechyd dynol a bioamrywiaeth ac sy'n cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr – gan leihau gwastraff ar yr un pryd drwy sicrhau bod deunyddiau'n cael eu hailddefnyddio a'u hamnewid mewn sectorau allweddol o economi Cymru."* [8]

Mae ein cynllun corfforaethol yn nodi y byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod byd natur a phobl yn cael eu hamddiffyn rhag effeithiau llygredd erbyn 2030 drwy wneud y canlynol: Defnyddio offer a dulliau rheoleiddio yn effeithiol; ymateb i ddigwyddiadau ar sail risg; defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon a mabwysiadu'n eang y defnydd o ddeunyddiau amgen; atal hyd yr eithaf llygredd gan bobl, cymunedau a busnesau; bod yn sefydliad sero llygredd a gwastraff enghreifftiol; ac atal llygredd yn ein cymunedau hyd yr eithaf. Bob blwyddyn, mae ein Cynllun Busnes yn cynnwys ymrwymiadau â blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae ein cynllun busnes ar gyfer 2024/25 yn adlewyrchu ein hymrwymiadau blynyddol â blaenoriaeth diweddaraf, gan gynnwys ynghylch gweithredu'r ddeddfwriaeth ailgylchu yn y gweithle newydd; atal llygredd afonydd a moroedd hyd yr eithaf; ac adolygu ein dull o reoli digwyddiadau. Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, erbyn diwedd 2023/2024 roeddem wedi cyflawni'r canlynol:

- *Gorfodi toriadau cydymffurfedd er mwyn cymryd camau dilynol ynghylch gweithgareddau cydymffurfedd* o fewn chwe mis. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Cymryd camau i leihau effaith maethynnau mewn afonydd yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig*, gan gynnwys drwy newidiadau i fwy na 100 o drwyddedau. Statws y mesur: Gwyrdd (gweler '*Ein dŵr*' i gael rhagor o wybodaeth am hyn)
- *Datblygu gweithgareddau i atal llygredd o fwyngloddiau metel hyd yr eithaf*. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Cwblhau'r holl gamau o fewn ein rheolaeth mewn perthynas â Rhaglenni Cynllunio Cwmnïau Dŵr* ond, oherwydd oedi gan Ofwat, bu oedi gyda'r mewnbwn terfynol i'w benderfyniad drafft PR24. Statws y mesur: Oren *(gweler '*Ein dŵr*'* i gael rhagor o wybodaeth am hyn)
- *Datblygu rhaglenni i adolygu gofynion ansawdd dŵr statudol,* ond nid ydym wedi cwblhau'r adolygiad o gynnydd ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Basn Afon, a bydd y gwaith hwn yn parhau hyd at fis Mai 2024. Statws y mesur: Oren
- *Ymateb i ddigwyddiadau*, gan ragori ar ein targed o 95% ar gyfer ymateb o fewn pedair awr i ddigwyddiadau yn y categori 'uchel'. Statws y mesur: Gwyrdd
- *Penderfynu ar ymatebion gorfodi priodol* (i droseddau amgylcheddol) gan gyhoeddi adroddiadau cysylltiedig, er na chyflawnodd pob penderfyniad ein targed o 95% o fewn tri mis a hynny oherwydd effeithiau cynyddol y cyfyngiadau ar adnoddau. Statws y mesur: Oren *(gweler '*Ein dŵr*'* i gael rhagor o wybodaeth am hyn)

Rydym wedi cynnwys mwy o fanylion am rai o'r uchod ar y tudalennau canlynol.

[8] Gweler ein cynllun corfforaethol am fwy o fanylion ynghylch yr hyn y mae ein sefydliad yn ei wneud (gan gynnwys gydag eraill) i fynd i'r afael â'r mater hwn

## Gweithio gyda Network Rail

**Eleni fe wnaethom ailddatgan ein perthynas waith agos gyda Network Rail drwy adnewyddu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – partneriaeth sy'n ein galluogi i gydweithio i fynd i'r afael ag adferiad byd natur, gwella gallu cymunedau i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ac atal llygredd hyd yr eithaf.**

Rydym wedi parhau i gryfhau partneriaeth hanfodol gyda Network Rail, sy'n cefnogi'n frwd ein meysydd ffocws a rennir sy'n berthnasol i'n hamcanion ar y cyd. Rydym wedi canolbwyntio ar osod y cyfeiriad sydd ei angen ar gyfer y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â'n nodau cyffredin drwy adnewyddu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth eleni rhwng ein sefydliadau ar gyfer sicrhau buddion amgylcheddol a chymunedol sylweddol dros y blynyddoedd i ddod.

Mae ein hamcanion ar y cyd blynyddol yn canolbwyntio ar amrywiaeth o feysydd ar draws atodiadau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd (rheoli perygl llifogydd a rheoli asedau, arfordirol a morol, bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau a rheoli digwyddiadau), yn ogystal â mynd i'r afael â materion mwy cymhleth i wella effeithlonrwydd prosesau trwyddedu a chaniatáu. Mae'r rhain yn feysydd sy'n hanfodol ar gyfer cyflymu ein hymateb ar y cyd i heriau amgylcheddol a rhyngweithio ag adnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Mae ein sefydliadau eisoes wedi helpu ei gilydd mewn perthynas â chynlluniau arfordirol ac afonydd er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd, diogelu cynefinoedd, rheoli tir a chynllunio prosiectau'n well ers creu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gwreiddiol yn 2016. Mae'r gwaith partneriaeth a wnaed gennym yn flaenorol wedi cynnwys gwaith adfer yn dilyn digwyddiad (yn 2020, yn Llangennech) pan ddaeth trên cludo nwyddau oddi ar y cledrau. Golygodd hyn y bu'n rhaid cloddio'r 30,000 tunnell o bridd a oedd wedi'u trwytho â thanwydd.

Drwy lynu wrth egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, rydym yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio ar brosiectau a gweithrediadau o ddydd i ddydd. Credwn fod ein cydweithio yn helpu i liniaru risgiau amgylcheddol uniongyrchol ac yn gosod cynsail ar gyfer stiwardiaeth amgylcheddol gyfrifol ledled Cymru. Dros y flwyddyn sydd i ddod, ein nod yw adeiladu ar ein partneriaeth gyda mwy o egni fyth, gan sicrhau ein bod yn parhau i weithio tuag at amgylchedd naturiol sy'n gydnerth ac yn ffynnu.

Datganiad(au) o'r effaith drafft cysylltiedig: Bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd, llygredd, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, gweithredu ar y cyd, gwerthoedd ac ymddygiadau

## Lleihau llygredd amaethyddol

**Rydym wedi bod yn bwrw ymlaen â rhaglen flaenoriaethol o arolygiadau o safleoedd amaethyddol risg uwch er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol – gan weithio'n gyda ffermwyr mewn ffordd adeiladol er mwyn eu cefnogi i gyflawni eu rhwymedigaethau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.**

Cyflwynwyd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 gan Lywodraeth Cymru er mwyn lleihau colledion llygryddion amaethyddiaeth i'r amgylchedd drwy osod rheoliadau ar gyfer arferion ffermio penodol (ee taenu tail).

Mae'r dull gweithredu'r rheoliadau wedi bod trwy gyfnod pontio o bedair blynedd a bydd y set derfynol o fesurau, sy'n ymwneud â chyfnodau caeedig ar gyfer taenu, gyda therfynau dilynol ar gyfer llwytho nitrogen a gofynion storio cysylltiedig, yn dod i rym yn 2024/2025.

Mae gennym gytundeb lefel gwasanaeth gyda Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i ariannu, i gynnal rhaglen flaenoriaethol o arolygiadau cydymffurfedd o weithgareddau amaethyddol sydd â risg uwch ledled Cymru (mae 800 wedi'u cynllunio ar gyfer 2024). Mae gennym dîm newydd o swyddogion sydd wedi'u hyfforddi (wedi'u rhannu'n adrannau i ogledd a de Cymru) sy'n ymroddedig i gynnal y rhaglen flaenoriaethol hon o arolygiadau.

Dechreuodd y rhaglen arolygu ym mis Tachwedd 2023 a bydd yn parhau tan 2024/2025. Erbyn 31 Mawrth 2024, roedd 203 o ffermydd wedi cael eu harolygu. Ar yr ymweliad cyntaf, canfuwyd nad oedd 127 (63%) yn cydymffurfio ag un neu ragor o'r rheoliadau tra bo 76 (37%) yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau sydd mewn grym. Erys rhai gofynion yn y cyfnod pontio, ee ni fydd y gofynion storio slyri o dan Reoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn dod i rym tan 1 Awst 2024. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 14 o ffermydd (11% o'r ffermydd nad oeddent yn cydymffurfio) wedi'u dychwelyd i gydymffurfio'n llawn â'r Rheoliadau, tra bo 20 (17%) yn nodi eu bod yn gwneud cynnydd gweithredol tuag at gydymffurfio'n llawn. Byddwn yn parhau i weithio'n adeiladol gyda'r holl ffermydd a arolygir er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

Datganiad(au) o'r effaith drafft cysylltiedig: Bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd, llygredd, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, gweithredu ar y cyd, gwerthoedd ac ymddygiadau

## Ein dŵr

**Mae dŵr yn adnodd hanfodol – i bobl, busnesau ac amaethyddiaeth, ac yn hollbwysig o ran galluogi'r economi i ffynnu. Er mwyn sicrhau bod llygredd yn cael atal hyd yr eithaf, rydym yn nodi camau gweithredu sy'n ofynnol gan amrywiaeth o sectorau, a ninnau.** Rydym wedi gwneud y canlynol:

- Dylanwadu ar fuddsoddiadau cwmnïau dŵr yn y dyfodol – bu cynnydd triphlyg mewn buddsoddiadau yn yr amgylchedd, gan gynnwys:
  - mwy na 100 o welliannau i orlifoedd storm;
  - 28 cynllun llwybr pysgod;
  - dau dreial gwlyptir adeiledig; a
  - llawer o ymchwiliadau a gweithredoedd eraill.
- Cyflawni ein hymrwymiadau i Gynllun Gweithredu'r Prif Weinidog ar gyfer afonydd yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a chadeirio'r bedwaredd uwchgynhadledd ym mis Mawrth 2024.
- Amrywio 140 o drwyddedau a fydd yn cyfrannu at leihau faint o ffosfforws sy'n mynd i mewn i afonydd yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, neu'n sicrhau na fydd unrhyw ddirywiad.
- Asesu cydymffurfedd â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol drwy dîm newydd sy'n anelu at arolygu mwy nag 800 o ffermydd yn 2024, gan asesu cydymffurfedd â'r gofynion ar gyfer gweithgareddau risg uwch gan gynnwys cynhyrchu, storio, neu ddefnyddio lefelau uchel o wrteithiau organig. *I gael rhagor o wybodaeth am hyn, gweler yr enghraifft sydd wedi'i adlewyrchu o dan y pennawd 'Lleihau llygredd amaethyddol'.*

- *Datblygu rhaglenni i adolygu gofynion ansawdd dŵr statudol* (un o'r mesurau ar ddangosfwrdd ein cynllun busnes ar gyfer y flwyddyn), gan gyrraedd carreg filltir o ran gweithgareddau sy'n ymwneud â gorlifoedd storm. Nid ydym wedi cwblhau ein carreg filltir mewn perthynas â chynnydd gyda Chynlluniau Rheoli Basn Afon, a bydd gwaith hwn yn parhau i 2024/25. Roedd argaeledd adnoddau staff ac argaeledd systemau TGCh (ar gyfer cydgysylltu camau gweithredu â chanlyniadau) hefyd wedi effeithio ar ein gwaith ar ddalgylchoedd cyfle a'r rhaglen ymchwiliadau yn 2023/2024
- Mabwysiadu dull arloesol o weithio mewn partneriaeth, ochr yn ochr â 18 o sefydliadau, er mwyn datblygu Prosiect Arddangos Afon Teifi. Gwnaethom ymgysylltu'n fewnol ac yn allanol wrth ei gyd-gynhyrchu, gan gynnwys digwyddiad hacathon dros ddau ddiwrnod er mwyn cynhyrchu syniadau ac atebion mewn perthynas â materion ansawdd dŵr. Byddwn yn dysgu o'r fenter hon a'r ymgynghoriad 'Gweithio Gyda'n Gilydd' er mwyn cynnwys yr hyn a ddysgwyd yn y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Rheoli Basn Afon.
- Buddsoddi tua £65 miliwn dros y pedair blynedd diwethaf, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn targedu'r frwydr yn erbyn yr argyfwng natur a hinsawdd. Mae hyn wedi cyflawni ar draws ystod o brosiectau er mwyn gwella ein safleoedd gwarchodedig a'n hamgylchedd dŵr. Rydym yn rhagweld gwariant pellach o £28 miliwn yn 2024-25.

Mae un o'n hymrwymiadau blaenoriaeth ar gyfer 2024/2025 yn canolbwyntio ar atal llygredd ein hafonydd a'n moroedd hyd yr eithaf.

Datganiad(au) o'r effaith drafft cysylltiedig: Bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd, llygredd, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, gweithredu ar y cyd

## Ymateb i danau gwyllt a stormydd

**Mae digwyddiadau yn peri heriau sylweddol i bobl, i'r amgylchedd, i economi Cymru ac i ni – er enghraifft o ran yr angen i ymateb i (a chynllunio ar gyfer) tanau gwyllt a stormydd.**

Yn dilyn ymlaen o 2022 (sef y flwyddyn gynhesaf yn y DU ers 1884), achosodd sawl tân gwyllt ddifrod yn ystod haf 2023 ac fe wnaethom ymateb i nifer o stormydd yn ystod gaeaf a fu'n eithriadol o wlyb.

Ymhlith y digwyddiadau y buom ni iddo ar y cyd, ar 9 Mehefin 2023, oedd tân gwyllt mawr ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru ar Fynydd y Rhigos. Effeithiodd hyn ar ardal sylweddol (tua 160 hectar) mewn sawl ffordd, gan gynnwys dinistrio cynefin, achosi i ffyrdd gael eu cau ac achosi i fusnesau hamdden lleol (ee Zip World, ar hen safle Glofa Tower) gau am gyfnod. Drwy weithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, rydym wedi defnyddio adnoddau helaeth, gan gynnwys hofrennydd o dan gontract arbenigol ac adnodd pwrpasol ar y safle i sefydlu rhwystrau tân. O ganlyniad i'n gweithredoedd cyfunol, cafodd seilwaith lleol ei ddiogelu, ni chafodd unrhyw eiddo eu difrodi, ac ataliwyd rhagor o ddifrod i'r amgylchedd a'r ecosystemau lleol.

Roedd tân gwyllt y Rhigos yn un o sawl tân a effeithiodd ar amgylchedd naturiol Cymru ym mis Mehefin 2023.  Un o'r pethau y gwnaeth prosiect arddangos a thystiolaeth Llethrau

Iach ganolbwyntio arno yn flaenorol oedd hyrwyddo ymateb cydweithredol i danau gwyllt, er mwyn rheoli ein hadnoddau naturiol yn well a lleihau effaith a difrifoldeb tanau gwyllt.

Yn dilyn ymlaen o'r pedair 'storm a enwyd' dros yr hydref, digwyddodd chwech arall dros y gaeaf, a bu heriau a pheryglon unigryw yn sgil pob un ohonynt. Gwnaethom barhau i annog unigolion i fod yn barod ar gyfer llifogydd dros gyfnod y gaeaf, a gwnaethom barhau i greu seilwaith llifogydd, ei gynnal a'i gadw, a'i atgyweirio ond, yn anochel, ni ellir osgoi effeithiau stormydd.

Er enghraifft, yn ystod storm Gerrit, ar 27-28 Rhagfyr 2023, chwythodd gwyntoedd o bron 70 milltir yr awr ar hyd arfordir gorllewinol Cymru, ac effeithiodd llifogydd ar oddeutu 40 eiddo (yn sgil stormydd Gerrit a Hank). Cafodd ein timau llifogydd eu defnyddio yn helaeth drwy gydol y gaeaf er mwyn sicrhau bod rhybuddion yn cael eu cyhoeddi, a bod ymateb gweithredol yn digwydd mewn ardaloedd a oedd o dan lifogydd. *I gael rhagor o wybodaeth am gynlluniau rheoli perygl llifogydd yn y dyfodol, gweler yr enghraifft sydd wedi'i adlewyrchu o dan y pennawd 'Ein cynlluniau rheoli perygl llifogydd'.*

Mae un o'n hymrwymiadau â blaenoriaeth ar gyfer 2024/2025 yn canolbwyntio ar adolygu ein dull o reoli digwyddiadau.

Datganiad(au) o'r effaith drafft cysylltiedig: Bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd, llygredd, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, gweithredu ar y cyd, gwerthoedd ac ymddygiadau

**Ceri Davies**

**Cyfarwyddwr Gweithredol dros Dystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro** **16 Hydref 2024**

# Adroddiad atebolrwydd

Mae ein hadroddiad atebolrwydd yn amlinellu'r prif nodweddion o ran y ffordd yr ydym yn rheoli ein sefydliad. Mae iddo dair adran.

Yn y tudalennau canlynol, bydd ein hadroddiad llywodraethiant corfforaethol yn egluro pwy sydd ar ein Bwrdd a phwy yw ein tîm o uwch-reolwyr, sut maen nhw'n gweithio, a'r trefniadau llywodraethiant sydd ar waith i sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu rheoli a'u goruchwylio'n effeithiol er mwyn cyflawni ein hamcanion.

Mae ein hadroddiad cyflogau a staff yn disgrifio sut rydym yn ymdrin â chyflogau'r aelodau o’r Bwrdd a’r uwch-reolwyr, ac yn rhoi trosolwg o gyfansoddiad ein staff.

Mae ein hadroddiad atebolrwydd seneddol ac archwilio yn dwyn ynghyd ofynion ychwanegol y gofynnir amdanynt er mwyn dangos ein hatebolrwydd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, rheoleidd-dra gwariant, a barn ein harchwilydd allanol.

# Adroddiad llywodraethiant corfforaethol

## Adroddiad y cyfarwyddwyr

Mae'r Tîm Gweithredol yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r tîm o gyfarwyddwyr gweithredol sy'n ei gefnogi.  Ni fu unrhyw newidiadau i'r Tîm Gweithredol yn ystod 2023/2024.

| Enw | Deiliad y swydd | Hyd gwasanaeth yn y Tîm Gweithredol |
|---|---|---|
| Clare Pillman | Prif Weithredwr | 26 Chwefror 2018 - presennol |
| Ceri Davies | Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | 1 Ebrill 2013 - presennol |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | 27 Ebrill 2015 – presennol |
| Prys Davies | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | 1 Ebrill 2019 - presennol |
| Rachael Cunningham | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | 7 Medi 2020 – presennol |
| Sarah Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol | 7 Medi 2020 – presennol |

Mae’r gofrestr ganlynol yn nodi buddiannau ein Tîm Gweithredol fel yr oeddent ym mis Mawrth 2024.

| Enw | Swydd | Buddiant | Unigol | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|
| Clare Pillman | Prif Weithredwr | Tir / eiddo | Personol | Preswylydd mewn ardal y mae’n bosibl y caiff ei hystyried ar gyfer y parc cenedlaethol newydd arfaethedig |
| Clare Pillman | Prif Weithredwr | Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth | Personol | Aelod o Fwrdd Opera Cenedlaethol Cymru |
| Ceri Davies | Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Arall | Personol | Aelod o'r Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff |
| Ceri Davies | Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth | Personol | Ymddiriedolwr Cadwch Gymru'n Daclus |
| Prys Davies | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Dim buddiannau i'w datgan | | |
| Gareth O’Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | Dim buddiannau i'w datgan | | |
| Rachael Cunningham | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Dim buddiannau i'w datgan | | |
| Sarah Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol | Dim buddiannau i'w datgan | | |

Caiff datganiad o fuddiannau'r cadeirydd ei adolygu gan gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

Mae'r gofrestr o fuddiannau ar gyfer aelodau ein Bwrdd ar gael ar ein gwefan o dan Cofrestr buddiannau.

**Ceri Davies**

**Cyfarwyddwr Gweithredol dros Dystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro** **16 Hydref 2024**

## Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

Mae paragraff 23(1) o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ddatganiad o gyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r sefydliad ac o'r incwm a'r gwariant, y newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r swyddog cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol:

- Glynu wrth ofynion y Cyfarwyddyd Cyfrifon a ddyroddir gan Drysorlys ei Fawrhydi, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol ar sail gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- Nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u nodir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, a datgelu ac egluro unrhyw amrywiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw
- Cadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad oedd ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni, a chymryd pob cam i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a chadarnhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol amdanynt ac am y dyfarniadau sydd eu hangen i bennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae swyddog cyfrifyddu ychwanegol Llywodraeth Cymru wedi dynodi Prif Weithredwr CNC fel ei swyddog cyfrifyddu. Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel y swyddog cyfrifyddu yw sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano; cadw cyfrifon priodol; gweinyddu mewn ffordd ddarbodus ac economaidd; osgoi gwastraff a gormodedd; a defnyddio'r holl adnoddau mewn ffordd effeithlon ac effeithiol fel y nodir yn y Memorandwm ar gyfer swyddog cyfrifyddu CNC.

## Datganiad llywodraethiant

Mae'r datganiad hwn yn nodi'r strwythurau llywodraethiant a'r fframweithiau rheoli a sicrhau mewnol sydd wedi gweithredu o fewn y sefydliad yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EF a chanllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu dynodedig y sefydliad, fy rôl hefyd yw diogelu arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol drwy roi trefniadau ar waith ar gyfer llywodraethu ein materion ac arfer ein swyddogaethau yn effeithiol. Gallaf gadarnhau fod yr wybodaeth yn ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon yn gyfrif cywir a theg o sut mae'r sefydliad wedi cyflawni ei swyddogaethau eleni. Rwyf hefyd yn cadarnhau nad oes gwybodaeth heb ei chasglu sydd wedi dod i'm sylw, na bod gwybodaeth yr wyf yn ymwybodol ohoni nad yw wedi cael ei chyflwyno er sylw Archwilio Cymru.

## Ein strwythur llywodraethiant

Mae ein strwythur sefydliadol yn dangos sut rydym wedi ein trefnu i weithio a chyflawni ein hamcanion.

Penodir yr aelodau o'n Bwrdd gan Weinidogion Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Gweinidogol mewn Cyrff Cyhoeddus ac, o ran hynny, mae ein cadeirydd yn atebol i'n Gweinidog noddi yn Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd mae 12 aelod o'n Bwrdd yn derbyn taliad cydnabyddiaeth, o dan arweiniad ein cadeirydd, Syr David Henshaw, ac mae 10 aelod anweithredol, a minnau fel aelod gweithredol o'r Bwrdd.  Ar hyn o bryd mae swydd wag ar gyfer aelod anweithredol o fewn strwythur y Bwrdd. Yr Athro Steve Ormerod yw dirprwy gadeirydd penodedig y sefydliad, a Helen Pittaway yw'r uwch-gyfarwyddwr annibynnol.  Cyflwynwyd y rôl uwch-gyfarwyddwr annibynnol er mwyn cefnogi'r cadeirydd yn ei rôl; gweithredu fel cyfryngwr ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol eraill pan fo angen; arwain y cyfarwyddwyr anweithredol o ran goruchwylio'r cadeirydd; a sicrhau bod rhaniad clir o ran cyfrifoldeb rhwng y cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Roedd wyth newid i'n Bwrdd eleni: daeth tymor Zoe Henderson i ben ar 8 Mai 2023, daeth tymor Julia Cherrett i ben ar 31 Mai, a daeth tymor yr Athro Peter Rigby i ben ar 31 Hydref. Penodwyd Kathleen Palmer, Helen Pittaway, yr Athro Peter Fox a'r Athro Rhys Jones yn gyfarwyddwyr anweithredol o 16 Chwefror 2023, a phenodwyd Lesley Jones yn gyfarwyddwr anweithredol o 1 Mehefin 2023.

Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau, rydym yn cwrdd fel Bwrdd llawn, ac mae gwaith craffu ychwanegol yn cael ei wneud gan saith pwyllgor. Mae ein Tîm Gweithredol yn darparu diweddariadau strategol a gweithredol i'n Bwrdd a'n pwyllgorau i graffu a gwneud penderfyniadau yn eu cylch yn ôl y gofyn.

Caiff pob pwyllgor ei gadeirio gan aelod anweithredol o'r Bwrdd a, heblaw am y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth, mae pob un yn cynnwys o leiaf tri aelod anweithredol arall o'r Bwrdd. Oherwydd y sedd wag ar gyfer aelod anweithredol, dim ond dau aelod anweithredol arall o'r Bwrdd sydd gan y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid ar hyn o bryd. Mae gan aelodau anweithredol eraill o'r Bwrdd wahoddiad agored i fynychu cyfarfodydd pwyllgorau – heb hawliau pleidleisio. Nid oes gennym Bwyllgor Enwebu, gan fod yr aelodau anweithredol ar ein Bwrdd yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r meysydd ffocws gwaith a phresenoldeb ein Bwrdd a'n pwyllgorau.

| Aelodau anweithredol | Tymor | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen cyfredol |
|---|---|---|---|
| Syr David Henshaw (cadeirydd) | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2025 |
| Zoe Henderson | 2 | 9 Tachwedd 2015 | 8 Mai 2023 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2025 |
| Dr Rosie Plummer | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2024 |
| Julia Cherrett | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Mai 2023 |
| Yr Athro Peter Rigby | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2023 |
| Geraint Davies | 2 | 1 Ionawr 2019 | 31 Hydref 2024 |
| Yr Athro Calvin Jones | 2 | 1 Medi 2021 | 31 Hydref 2028 |
| Mark McKenna | 2 | 1 Medi 2021 | 31 Hydref 2028 |
| Yr Athro Peter Fox | 1 | 16 Chwefror 2023 | 31 Hydref 2026 |
| Helen Pittaway | 1 | 16 Chwefror 2023 | 31 Hydref 2026 |
| Kathleen Palmer | 1 | 16 Chwefror 2023 | 31 Hydref 2026 |
| Yr Athro Rhys Jones | 1 | 16 Chwefror 2023 | 31 Hydref 2027 |
| Lesley Jones | 1 | 1 Mehefin 2023 | 31 Hydref 2026 |




## Cyfarfodydd y Bwrdd

Gwnaethom gynnal chwe chyfarfod deuddydd, a dau ddiwrnod datblygu ledled Cymru eleni. Cynhaliwyd dau gyfarfod rhithwir a phedwar wyneb yn wyneb. Roedd aelodau'r cyhoedd yn gallu mynychu'n rhithwir y chwe chyfarfod a gynhaliwyd gennym yn gyhoeddus, ac arsylwi arnynt. Mae'r eitemau sefydlog ar ein hagenda yn cynnwys: ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur; cyllid yn ystod y flwyddyn; adrodd ar berfformiad; a diweddariadau strategol a gweithredol gan y cadeirydd, y Prif Weithredwr a phwyllgorau.

Rydym yn cyhoeddi ystod eang o wybodaeth ynghylch ein gwaith ar ein gwefan, gan gynnwys papurau sydd i'w hystyried gan y Bwrdd cyn y cyfarfodydd hynny a gynhelir yn gyhoeddus. Caiff papurau'r Bwrdd eu paratoi gan ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael, ac maent yn destun craffu a chymeradwyaeth fewnol cyn cyfarfodydd y Bwrdd.

Mae'r holl ddyddiadau'r cyfarfodydd cyhoeddus yn y dyfodol a'r agendâu blaenorol ar gael ar ein gwefan, yn ogystal â'r papurau a'r cofnodion o'n sesiynau cyhoeddus.

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yn ystod 2023/2024

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Syr David Henshaw (cadeirydd) | 6/6 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 6/6 |
| Julia Cherrett | 1/1 |
| Geraint Davies | 6/6 |
| Yr Athro Peter Fox | 5/6 |
| Yr Athro Calvin Jones | 4.5*/6 |
| Lesley Jones | 4/5 |
| Yr Athro Rhys Jones | 6/6 |
| Mark McKenna | 6/6 |
| Kathleen Palmer | 5/6 |
| Helen Pittaway | 6/6 |
| Dr Rosie Plummer | 6/6 |
| Yr Athro Peter Rigby | 3/3 |
| Clare Pilman (Prif Weithredwr) | 6/6 |

* Wedi mynychu un o ddau ddiwrnod y cyfarfod ym mis Mai

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Prif rôl Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw cynghori'r Bwrdd a chynorthwyo'r swyddog cyfrifyddu yn y gwaith o fonitro'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer archwilio, llywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg a chraffu ar y trefniadau hyn a'u herio. Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod fel Swyddog Cyfrifyddu y sefydliad, ynghyd â'n Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae aelodau

o’r Tîm Gweithredol yn mynychu'r pwyllgor er mwyn trafod unrhyw adroddiadau archwilio mewnol â sicrwydd cyfyngedig.

Eleni, rhoddodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sylw i amrediad o faterion, gan gynnwys y canlynol:

- Gwelliannau i'n dull o reoli risg
- Cofrestr risg strategol ddiwygiedig
- Gwaith mapio sicrwydd sefydliadol
- Cynllun archwilio mewnol 2023/2024
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/2023 a pharatoi ar gyfer 2023/2024
- Risg seiber

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystod 2023/2024

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Kathleen Palmer (Cadeirydd) | 5/5 |
| Lesley Jones | 1/2 |
| Yr Athro Rhys Jones | 5/5 |
| Dr Rosie Plummer | 5/5 |
| Yr Athro Peter Rigby | 3/3 |

## Y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (PCC) yn ystyried materion sy'n ymwneud â rheoli pobl, gwobrwyo, a newid sefydliadol. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio cyflogau ac amodau cyflogaeth y staff uwch, strategaeth cyflogau gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gennym, darpariaeth y cynllun pensiwn, cynllun y sefydliad, llesiant, iechyd a diogelwch, gofal cwsmeriaid, cydraddoldeb ac amrywiaeth a datblygur cynllun y Gymraeg. Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod.

Aeth y pwyllgor i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y canlynol:

- Llesiant, iechyd a diogelwch ac adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol
- Recriwtio a'r broses recriwtio
- Y Rhaglen Rhanddeiliaid
- Y Rhaglen Trawsnewid Pobl
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Profiad y cwsmer ac ymgysylltu â chwsmeriaid

## Presenoldeb aelodau’r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yn ystod 2023/2024

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Mark McKenna (Cadeirydd) | 4/4 |
| Yr Athro Rhys Jones | 1/1 |
| Helen Pittaway | 4/4 |
| Dr Rosie Plummer | 4/4 |

## Y Pwyllgor Cyllid

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn darparu cyngor, trosolwg a gwaith craffu ar y strategaeth, rheolaeth a pherfformiad mewn perthynas â chyllid, cynllunio busnes a pherfformiad, cynlluniau codi tâl, a materion masnachol. Wrth gyflawni ei rôl, mae'r pwyllgor yn canolbwyntio ar y cyfeiriad strategol a’i ddatblygiad, ond mae’n craffu ar berfformiad a chyflawni hefyd.

Eleni, rhoddodd y pwyllgor sylw i’r canlynol:

- Monitro perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn
- Cynllunio ariannol a chynllunio busnes ar gyfer 2024/2025
- Adolygiad blynyddol o daliadau
- Gweithgareddau masnachol
- Goruchwylio gwaith o werthu a marchnata pren
- Y Swyddfa Rheoli Rhaglen a’r Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau

## Presenoldeb aelodau’r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid yn ystod 2023/24

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Syr David Henshaw | 6/8 |
| Helen Pittaway (Cadeirydd) | 7/8 |
| Yr Athro Calvin Jones | 8/8 |
| Yr Athro Peter Fox | 5/8 |

## Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo’i gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â deddfwriaeth sy'n ymwneud â chadwraeth natur a thirweddau gwarchodedig i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig. Mae aelodau’r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig hefyd yn cefnogi’r Tîm Gweithredol a’r Bwrdd drwy ddarparu cyngor ynghylch materion ehangach sy’n ymwneud ag ardaloedd gwarchodedig ac ynghylch gwaith achos strategol, gan gynnwys rheoli tirweddau, tirweddau dynodedig, a gwarchodfeydd natur genedlaethol.

Adolygodd y pwyllgor y meysydd a ganlyn:

- Y Rhaglen Tirweddau Dynodedig
- Prosiect Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
- Polisi bioamrywiaeth
- Cyflawni’r Rhaglen Safleoedd Gwarchodedig
- Parthau cadwraeth morol

## Presenoldeb aelodau’r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn ystod 2022/2023

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Dr Rosie Plummer (Cadeirydd) | 3/3 |
| Geraint Davies | 3/3 |
| Lesley Jones | 3/3 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 3/3 |

## Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

Mae'r pwyllgor yn cynghori ein Bwrdd ac yn adrodd iddo.

Ei brif gyfrifoldebau yw craffu ar y rhaglenni buddsoddi presennol a’r rhaglenni yn y dyfodol ar gyfer rheoli perygl llifogydd, ac ystyried materion allweddol a allai effeithio ar y gwaith o gyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd yng Nghymru.

Mae'r pwyllgor fel arfer yn cynnwys pedwar aelod anweithredol o'r Bwrdd ynghyd â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithredoedd a’r Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd.

Gwnaeth y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd adolygu’r meysydd a ganlyn:

- Blaenoriaethu gweithgareddau’n ymwneud â rheoli perygl llifogydd
- Llywodraethu’r rhaglen gyfalaf ar gyfer rheoli perygl llifogydd
- Goruchwylio’r rhaglen adfer llifogydd ac adolygu’r rhaglen weithredu
- Goruchwylio gwaith i wella'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio diogelwch cronfeydd dŵr
- Rheoli asedau

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd yn ystod 2023/2024

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Yr Athro Peter Fox (Cadeirydd) | 4/4 |
| Geraint Davies | 4/4 |
| Yr Athro Calvin Jones | 4/4 |
| Lesley Jones | 3/3 |
| Helen Pittaway | 1/1 |

## Y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth

Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yn gynghorol ac yn darparu cyngor a her annibynnol mewn perthynas â'n swyddogaeth tystiolaeth. Mae'r pwyllgor hefyd yn helpu i gryfhau dealltwriaeth yn y gymuned ymchwil ehangach – a chyda defnyddwyr tystiolaeth yn y llywodraeth – o brosesau tystiolaeth a blaenoriaethau.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys dau aelod anweithredol o'r Bwrdd ac 11 aelod allanol annibynnol sydd â dealltwriaeth o'r cyd-destun Cymreig, er mwyn cynnig ystod amrywiol o arbenigedd priodol.

Gwnaeth y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth adolygu'r meysydd a ganlyn:

- Ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
- Gwyddoniaeth dinasyddion
- Y Rhaglen Mawndiroedd
- Y Rhaglen Rhwydweithiau Natur
- Prosiectau LIFE

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yn ystod 2023/2024

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Yr Athro Peter Rigby (cadeirydd) | 2/2 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 3/3 |
| Yr Athro Rhys Jones | 1/1 |

## Y Pwyllgor Ystadau Tir

Mae'r Pwyllgor Ystadau Tir yn rhoi cyngor a sicrwydd I'r Bwrdd mewn perthynas â rheoli cynaliadwy ar ein hystadau tir, gan gynnwys buddsoddi yn yr ystadau, eu rheoli, a chynigion ar gyfer newidiadau yn y modd y cânt eu defnyddio, ac mae'n gwneud penderfyniadau penodol ac yn cyflawni swyddogaethau penodol fel y'u dirprwyir iddo gan y Bwrdd.

Adolygodd y Pwyllgor Ystadau Tir y meysydd a ganlyn:

- Y Strategaeth Hamdden
- Y Rhaglen Trydan (y Rhaglen Datblygwyr Ynni Adnewyddadwy gynt)
- Proses Gwerthu Pren Amgen a'r Strategaeth Pren Diwydiannol

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ystadau Tir yn ystod 2023/2024

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Yr Athro Calvin Jones (cadeirydd) | 3/3 |
| Geraint Davies | 2/3 |
| Yr Athro Peter Fox | 2/3 |
| Mark McKenna | 3/3 |

Er nad yw fforymau yn rhan o'n strwythur llywodraethiant ffurfiol, mae aelodau anweithredol y Bwrdd yn cadeirio, neu'n mynychu'r cyfarfodydd hyn.

## Adolygiadau o aelodau'r Bwrdd

Mae'r cadeirydd yn cynnal arfarniadau blynyddol gyda phob cyfarwyddwr anweithredol a'r Prif Weithredwr, ac mae'r broses adolygu yn cynnwys hunanasesiad cryno a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf.  Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal arfarniadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn gyda'r pum cyfarwyddwr gweithredol.

## Ein Tîm Gweithredol

Caiff rheolaeth y sefydliad o ddydd i ddydd ei chyflawni drwy'r Tîm Gweithredol, sy'n fy nghynnwys i fel y Prif Weithredwr a phum cyfarwyddwr gweithredol sy'n atebol imi. Mae'r Tîm Gweithredol yn cwrdd ddwywaith y mis i ystyried busnes corfforaethol craidd, er enghraifft diweddariadau cyllid; gwybodaeth am berfformiad; llesiant, iechyd a diogelwch; adolygu a chraffu ar y gofrestr risg strategol, ac ati. Mae hefyd yn ystyried ac yn craffu ar benderfyniadau sy'n ymwneud â strategaethau, polisïau a materion gweithredol.




Islaw ein Tîm Gweithredol, mae ein Tîm Arwain sy'n chwarae rôl arweiniol o ran rheoli'r busnes o ddydd i ddydd. Aelodau'r Tîm Arwain yw'r holl benaethiaid adran sy'n adrodd i'n Tîm Gweithredol, gan gynnwys y rhai yn ein swyddogaethau corfforaethol (megis Cyllid, Adnoddau Dynol, a Chyfathrebu).

Mae ein strwythur yn pwysleisio gwaith cyflawni â ffocws ar leoedd: mae saith pennaeth lle o fewn y Gyfarwyddiaeth Weithrediadau unigol yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni ein holl swyddogaethau mewn rhanbarth penodol o Gymru. Mae gennym hefyd benaethiaid gwasanaeth enwebedig (sydd hefyd yn benaethiaid lle) sy'n arwain ar oruchwylio'r gwaith o gyflawni swyddogaeth benodol ledled Cymru.  Mae'r penaethiaid gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'n harweinwyr polisi – o'r enw penaethiaid busnesau – sy'n goruchwylio cyfeiriad strategol ein gwaith ledled Cymru.

Er mwyn sicrhau bod y meddylfryd strategol a gwaith cyflawni gweithredol wedi'u cydgysylltu, mae gennym gyfres o grwpiau busnes sy'n gosod y gofynion polisi ac yn cynllunio natur weithredol ein gwaith ar draws y strwythur â ffocws ar leoedd. Mae pob un o'r rhain yn cael ei arwain gan y pennaeth busnes / pennaeth gwasanaeth.

Ym mis Mehefin 2023 gwnaethom lansio ein cynllun corfforaethol newydd, sef Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd, sy'n nodi ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n hamcanion llesiant hyd at 2030 a'r tu hwnt. Mae'r cynllun yn amlygu sut y byddwn yn chwarae ein rhan yn null Tîm Cymru o fynd i'r afael â'r argyfwng natur, hinsawdd a llygredd.

I ategu cyhoeddi ein cynllun corfforaethol, rydym wedi ymrwymo i gryfhau ein fframwaith rheoli perfformiad. Drwy gydol 2023/2024 rydym wedi cynllunio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i fesur ein cynnydd tuag at amcanion llesiant y cynllun corfforaethol. Mae tair lefel:

- Strategol a'r hirdymor – gydag effeithiau a dangosyddion strategol wedi'u diffinio ar gyfer 2030;
- Gweithredol a'r tymor canolig – cynllunio aml-flwyddyn er mwyn cyrraedd uchelgais y camau i'w cymryd, ac amcanion llesiant gyda metrigau tueddiadau yn adrodd y statws "iechyd" dros amser;
- Gweithredol a'r tymor byr – ymrwymiadau blynyddol a chanlyniadau allweddol i ddangos y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu persbectif integredig, sy'n ein galluogi i fyfyrio ar y cynnydd a wnaed tuag at ein canlyniadau, nodi'r hyn sy'n llywio'r gwaith o gyflawni, yr hyn sy'n rhwystro cynnydd ar meysydd lle mae angen i bethau newid. Byddwn yn defnyddio'r mewnwelediadau hyn, ynghyd â gwybodaeth sy'n ymwneud â'r parodrwydd i dderbyn risg, lefelau goddefgarwch a phroffil risg, i lywio'r gwaith o flaenoriaethu a dyrannu adnoddau yn flynyddol.

Yn 2023/2024, gwnaethom ganolbwyntio ar ddatblygu'r datganiadau effaith strategol, hirdymor, a dangosyddion strategol, gan weithio ar y cyd ar draws y sefydliad. Maent wedi'u cyhoeddi ar ffurf ddrafft a byddant yn cael eu profi yn ystod 2024/2025, drwy eu defnyddio i fframio sesiynau archwilio dwfn strategol gan ein Bwrdd, wrth hefyd ymgysylltu â phartneriaid er mwyn rhannu mewnwelediadau a nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithredu. Byddwn yn cwblhau'r effeithiau a'r dangosyddion hyn yn ystod hydref 2024, a byddant yn parhau i fod ar waith o 2025/2026 i 2030 er mwyn monitro cynnydd.

Yn ystod 2024-2025 byddwn yn canolbwyntio ar y tymor gweithredol a'r tymor canolig drwy ddatblygu'r dull o gynllunio aml-flwyddyn a metrigau tueddiadau. Bydd y cynllunio aml-flwyddyn yn canolbwyntio ar y camau i'w cymryd ynghylch yr amcanion llesiant, a diffinio'r metrigau a fydd yn gosod yr ymestyniad er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd i gyflawni uchelgais 2030. Bydd tracio'r metrigau hyn yn rhoi darlun eglur a dysg pwerus ynghylch y cynnydd tuag at gyflawni'r effeithiau strategol hirdymor a'r dangosyddion strategol – neu'r bwlch rhyngddynt – a "throi'r gromlin". Bydd yn tynnu sylw at y pethau hynny y mae angen eu newid, nid yn unig o fewn ein rheolaeth uniongyrchol, ond hefyd y tu hwnt – yng ngwaith y llywodraeth, partneriaid a chyrff cyhoeddus eraill.

Bydd y metrigau cynllunio aml-flwyddyn gweithredol yn diffinio'r ymestyniad y bydd y cynllun busnes blynyddol tymor byr yn ymateb iddo. Bydd y cynllun busnes blynyddol yn nodi'r pethau hynny y bydd angen iddynt ddigwydd o fewn blwyddyn er mwyn ysgogi'r newid yr ydym am ei weld - er enghraifft profi dulliau gweithredu newydd neu symleiddio prosesau. Mae'r dull hwn yn ein gosod ar drywydd i fod yn sefydliad gwahanol, drwy fesur y pethau hynny sy'n bwysig a defnyddio hyn i lywio ein penderfyniadau ar flaenoriaethau.

Ar gyfer Cynllun Busnes 2023/2024, cytunodd ein Bwrdd i symud y mesurau hynny ymlaen o gynllun busnes 2022/2023 sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth, y genhadaeth a'r amcanion llesiant newydd, gan greu capasiti ar gyfer y gwaith datblygu ar y fframwaith rheoli perfformiad. Mae'r cynllun busnes yn nodi'r hyn y byddwn yn ei gyflawni yn ystod 2023/2024, sef blwyddyn gyntaf y cynllun corfforaethol newydd, a'r adnoddau (o ran staff ac arian) y byddwn yn eu defnyddio i wneud hyn.

Fel ymatebwr Categori Un o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, rydym wedi parhau i ymgymryd â'n cyfrifoldebau cyfreithiol i weithio gyda'r gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i gynllunio ar gyfer digwyddiadau sy'n effeithio ar bobl a'r amgylchedd ar draws Cymru 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, ymateb i'r digwyddiadau hynny, a chynorthwyo'r gwaith o adfer ar eu holau.

O lifogydd, llygredd, tanau gwyllt neu ddigwyddiadau ar y tir rydym yn ei reoli ac yn ein safleoedd rheoledig, mae gennym gyfrifoldebau uniongyrchol pan fydd yn ymwneud â digwyddiadau amgylcheddol sy'n dod o fewn ein cylch gwaith.

Ar gyfer llawer o ddigwyddiadau ni oedd yr unig ymatebwr neu'r prif ymatebydd. Ond ar sawl achlysur, buom yn gweithio gyda'n partneriaid mewn ffordd integredig ac effeithiol i leihau'r effeithiau ar bobl a bywyd gwyllt a lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i gymunedau a'r amgylchedd i adfer.

Rydym wedi parhau i hyfforddi a datblygu staff, gan eu galluogi i gefnogi ein rotâu dyletswydd yn effeithiol. O ganlyniad, mae gennym bellach fwy o staff ar gael i gefnogi ein hymdrechion ymateb i ddigwyddiadau bob awr o'r dydd. Yn ogystal, fe wnaethom hyfforddi mwy o staff i gryfhau ein rotâu ymhellach ar gyfer y dyfodol. Mae aelodau staff wedi cymryd rhan mewn nifer o ymarferion o ddigwyddiadau mewnol ac allanol, gan ein galluogi i wella ein galluoedd yn barhaus. Rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r ymarferion hyn ac o ddigwyddiadau gwirioneddol er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarparwn, yn enwedig wrth inni wynebu'r heriau a berir gan y nifer cynyddol o ddigwyddiadau sy'n deillio o'r argyfwng hinsawdd a natur.

## Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Rydym wedi derbyn un Cyfarwyddyd Gweinidogol eleni. Ym mis Ionawr 2024, fe wnaethom ni gyhoeddi hysbysiad rhanddirymu i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chais am drwydded forol ar gyfer y cynllun lliniaru llifogydd arfaethedig yn Abermaw. Mewn ymateb, rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd gyfarwyddyd i ni i beidio â chymeradwyo'r cynllun a amlinellwyd yn yr hysbysiad rhanddirymu nes y byddant yn ysgrifennu eto i gadarnhau a fyddem yn cael caniatâd i gymeradwyo'r cynllun. Yn dilyn adolygiad o'n dogfennaeth gan swyddogion y Gweinidog, ysgrifennodd y Gweinidog atom ar 13 Chwefror i gadarnhau ei fod yn fodlon i ni gymeradwyo'r cynllun.

## Ein fframwaith rheolaethau mewnol

Mae ein fframwaith rheolaethau mewnol yn cynnwys polisïau, gweithdrefnau, mesurau ac achrediadau rydym wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu ein hadnoddau wrth inni gyflawni ein hamcanion.

Mae ein rheolaethau ariannol allweddol o fewn systemau awtomatig, a'n cynlluniau dirprwyo i sicrhau y caiff dyletswyddau eu gwahanu'n briodol, yn parhau i fod ar waith ac yn gyfredol. Mae'r ddogfen Rheoli ein Harian, yr Atodlen Awdurdod Dirprwyedig, a'n Cynllun Statudol a Chyfreithiol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Rheoli risg

Mae fframwaith rheoli risg cadarn yn elfen hanfodol o'n fframwaith llywodraethiant corfforaethol cyffredinol. Mae'n ein cynorthwyo i reoli'r sefydliad er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r cyfle gorau i ni'n hunain gyflawni ein hamcanion llesiant, gan ddiogelu ein hadnoddau a'n henw da.

## Y fframwaith rheoli risg




Mae ein proses rheoli risg wedi'i strwythuro i gynnwys y canlynol: nodi ac asesu risg er mwyn pennu a blaenoriaethu sut y dylid rheoli'r risgiau; dethol, dylunio a gweithredu'r opsiynau trin risg sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau bwriadedig a'r gwaith o reoli risgiau i lefel dderbyniol; y gwaith o gynllunio a gweithredu prosesau monitro risg integredig, craff a gwybodus; a chyflwyno adroddiadau risg prydlon, cywir a defnyddiol er mwyn gwella ansawdd y penderfyniadau a wneir ac i gefnogi'r cyrff rheoli a goruchwylio i ddiwallu eu cyfrifoldebau.

Mae'r fframwaith yn defnyddio nifer o safonau arfer gorau, sef y Llyfr Oren, ac yn gosod y fframwaith ar gyfer cefnogi'r gwaith o reoli risgiau a chyfleoedd ar draws y sefydliad. Mae egwyddorion y fframwaith yn sail i'r ffordd y mae angen inni reoli risg yn effeithiol er mwyn sicrhau ei fod yn rhan hanfodol o lywodraethu ac arwain, yn llywio penderfyniadau yn effeithiol, yn hwyluso gwaith monitro risg craff a gwybodus, ac yn darparu adroddiadau risg cywir.

Mae ein strategaeth risg yn cael ei gosod a'i chymeradwyo gan y Bwrdd. Mae ein polisi rheoli risg, sy'n cynnwys yr elfennau Cyfrifol, Atebol, Ymgyngoredig a Gwybodus a phroses uwchgyfeirio, yn cael ei osod a'i gymeradwyo gan ein Tîm Gweithredol.

## Parodrwydd i dderbyn risg

Rydym ni'yn sefydliad mawr, gyda llawer o swyddogaethau a rolau amrywiol a chymhleth, ac felly bydd ein parodrwydd i dderbyn a mynd ar drywydd risg yn amrywio ar draws y sefydliad. Mae'r parodrwydd i dderbyn risg yn dangos y mathau o risg a faint o risg yr ydym yn fodlon mentro'u cymryd neu eu derbyn er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant. Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn egluro'r opsiynau sydd ar gael inni, y risgiau y gallwn eu cymryd, a'r rhai y mae angen inni eu hosgoi neu eu lleihau fel blaenoriaeth.

Mae ein Bwrdd yn pennu ac yn adolygu ein parodrwydd cytunedig i dderbyn risg bob blwyddyn. Mae deall a gosod yn glir y lefel o barodrwydd i dderbyn risg yn hanfodol i gyflawni fframwaith rheoli risg effeithiol.

### Rheoli risg strategol

Mae ein cofrestr risg a sicrwydd strategol yn eiddo i'r Tîm Gweithredol, ac mae pob risg yn eiddo i gyfarwyddwr unigol. Yn sgil cyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol ym mis Ebrill 2023, bu angen a chyfle i herio ac i ailddatblygu’r risgiau ar y lefel strategol sydd eu hangen i ategu a chefnogi’r gwaith o gyflawni ein hamcanion llesiant yn effeithiol o fewn y cynllun corfforaethol. Mae'r risgiau strategol yn cael eu rheoli drwy adolygiadau rheolaidd ac maent hefyd yn destun archwiliadau dwfn gan y Tîm Gweithredol yn ogystal â phwyllgor perthnasol y Bwrdd.

Neilltuir lefel o barodrwydd i dderbyn risg i bob risg strategol, ac mae datganiad unigol a manylach o’r parodrwydd i dderbyn risg yn cynnig mwy o gyfarwyddyd a chyfeiriad i berchennog y risg er mwyn ei helpu i reoli'r risg yn effeithiol.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sy'n goruchwylio'r fframwaith rheoli risg a'i effeithiolrwydd sydd, yn ei dro, yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad blynyddol o'r risgiau strategol er mwyn ceisio sicrwydd bod y gofrestr yn cynnwys y prif risgiau sydd eu hangen er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun corfforaethol.

## Sicrwydd gwybodaeth

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu llywodraethu a'u rheoli'n dda, a’n bod yn parhau i gyflawni cydbwysedd rhwng bod yn agored a sicrhau diogelwch, gan wneud yn siŵr bod staff a chwsmeriaid yn sicr bod lefelau diogelwch priodol ar waith.  Mae'r uwch-berchennog risg gwybodaeth yn parhau i arwain rhaglen integredig o waith i gryfhau ein hymateb o ran ein gallu i wrthsefyll bygythiadau seiberddiogelwch a bygythiadau i ddiogelwch gwybodaeth. Unwaith eto, rydym wedi ennill ein hachrediad Cyber Essential Plus blynyddol, sy'n cael ei gymeradwyo gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'i archwilio'n annibynnol gan arbenigwr trydydd parti cymwys. Byddwn yn parhau i gyflawni rhaglen waith seiberddiogelwch sy’n seiliedig ar ein strategaeth seiber. Mae hyn yn cynnwys mentrau ar gyfer codi ymwybyddiaeth staff, gan gynnwys hyfforddiant ar seiberddiogelwch ar-lein.  Rydym hefyd yn cynnal ymarferion pen bwrdd bob chwarter er mwyn profi ein gweithdrefnau a'n hymateb i ddigwyddiad diogelwch gwybodaeth.

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal cyrsiau dysgu ar-lein gorfodol i'r staff ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), diogelwch cyfrifiaduron yn y gweithle, ac ar ddiogelu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol ac yn gwybod y diweddaraf am sut rydym yn rheoli'r wybodaeth rydym yn ei chael a'i gadw.  Mae cyfraddau cwblhau’r gweithgareddau dysgu ar-lein gorfodol yn parhau i wella, ac ategir y rhain gan sesiynau ymwybyddiaeth sydd wedi'u targedu. Rydym yn parhau i gydweithio â phartneriaid strategol fel Llywodraeth Cymru, y Gymuned Diogelu Data, fforymau lleol Cymru gydnerth a’r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i rannu dysgu a chynnal safonau.

Eleni, fel rhagofal, gwnaethom adrodd am un digwyddiad i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Gofynnodd Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth i unrhyw un y mae toriad data system pensiynau Capita wedi effeithio arnynt i roi gwybod iddynt.  Er nad ydym yn rheolydd data ar gyfer y data hyn, roeddem yn teimlo ei bod yn briodol adrodd am hyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth er tryloywder ac er mwyn rhoi manylion iddynt ynghylch pa fesurau yr oeddem yn eu cymryd i gefnogi’r aelodau o’n staff yr effeithiwyd arnynt.  Rydym wedi cael cadarnhad gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth na fydd

unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd yn ein erbyn am y toriad hwn a'u bod yn dal i ymchwilio i hyn gyda Capita.

| Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | | |
|---|---|---|
| 2023/24 | 2022/23 | 2021/22 |
| 1 | 0 | 0 |

## Datganiad o fuddiannau

Mae ein polisi a'n canllaw ar wrthdaro buddiannau yn cefnogi'r holl staff ac aelodau'r Bwrdd gyda'n proses barhaus i ddatgan buddiannau personol perthnasol er mwyn ein helpu i reoli unrhyw wrthdaro posibl neu wrthdaro canfyddiedig o fewn eu rolau proffesiynol. Mae adolygiad wedi'i amserlennu o'n polisïau, ein gweithdrefnau, ein hyfforddiant a'n dulliau adrodd sy'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

## Codi pryder difrifol er budd y cyhoedd

### Codi pryder difrifol er budd y cyhoedd o fewn CNC

Rydym wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o gywirdeb ac atebolrwydd ac o fod yn agored. Disgwylir bod pawb sy'n gweithio i ni sydd â phryderon difrifol am unrhyw agwedd ar ein gwaith yn gallu lleisio'r pryderon hynny. Rydym wedi ymrwymo i gymryd pa gamau bynnag sydd eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw achos o gamymddwyn a ddatgelir.

Felly, mae gennym fesurau sefydledig ar waith ar gyfer codi pryderon difrifol am gamymddwyn neu amhriodoldeb. Mae ein fframwaith yn cynnwys mynediad at rif ffôn cyswllt, a ffurflen ar-lein, lle gall rhywun godi pryderon yn ddienw os yw'n well ganddo.

Yn ystod 2023/2024, adroddwyd am 27 o achosion chwythu'r chwiban posibl drwy'r mecanweithiau chwythu'r chwiban. Ystyriwyd pob un yn unol â pholisïau a'n gweithdrefnau chwythu'r chwiban. O'r 27 adroddiad hyn, cafodd dau eu hadolygu a'u trin yn ffurfiol fel achosion chwythu'r chwiban a chafodd dau arall eu trin drwy ein gweithdrefnau ymchwilio i dwyll. Roedd wyth yn ymwneud â materion y tu allan i'r sefydliad ac nid ystyriwyd bod 15 yn achosion chwythu'r chwiban fel y'u diffinnir yn ein Polisi Chwythu'r Chwiban CNC, felly cawsant eu hatgyfeirio yn ôl i'r busnes i'w trin yn fewnol.

O'r ddwy achos a gawsant eu trin yn ffurfiol fel achosion chwythu'r chwiban, ni chafodd un achos ei gadarnhau ac mae'r achos arall yn yr arfaeth wrth i'r ymchwiliad gael ei gwblhau.

| Nifer yr achosion chwythu'r chwiban | | |
|---|---|---|
| 2023/24 | 2022/23 | 2021/22 |
| 27 | 7 | 4 |

## CNC fel person rhagnodedig ar gyfer codi pryder difrifol er budd y cyhoedd

Fe ddaethom yn 'berson rhagnodedig' yn 2020 ar ôl i Lywodraeth Cymru gysylltu â ni. Mae Gorchymyn Personau Rhagnodedig 2014 yn nodi rhestr o 60 o sefydliadau y gall unrhyw aelod o'r cyhoedd fynd atynt i roi gwybod am gamymddwyn a amheuir neu y gwyddys amdano (chwythu'r chwiban). Mae'r sefydliadau a'r unigolion ar y rhestr fel arfer wedi'u dynodi'n berson rhagnodedig oherwydd bod ganddynt berthynas awdurdodol neu oruchwyliol â'u sector, yn aml fel corff rheoleiddio. Mae'r Gorchymyn yn cael ei ddiwygio gan Lywodraeth y DU bob blwyddyn, er mwyn sicrhau bod y rhestr yn parhau'n gyfredol.

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cafwyd pedwar achos o adroddiad chwythu'r chwiban i berson rhagnodedig, er y cydnabyddir y gallai pryderon eraill fod wedi'u codi y tu allan i'r broses chwythu'r chwiban ffurfiol.

O'r pedwar achos hynny a gafwyd, cafodd dau ohonynt eu trin yn ffurfiol fel achosion chwythu'r chwiban. Ni chafodd un ei gadarnhau ac mae'r achos arall yn yr arfaeth wrth i'r ymchwiliad gael ei gwblhau.  Cyfeiriwyd y ddwy achos arall at y timau ymdrin â digwyddiadau yn y sefydliad ac ymdriniwyd â hwy o dan y prosesau cwyno arferol.

## Twyll

Mae ein Strategaeth Gwrth-dwyll 2022 – 2026 yn gosod y cyfeiriad strategol a gynlluniwyd i gefnogi a chryfhau ein gallu i amddiffyn ein hunain rhag y niwed y gall twyll ei achosi. Bydd canolbwyntio'r strategaeth hon ar arferion gorau a safonau proffesiynol yn helpu i sicrhau bod dull gwrth-dwyll yn dod yn rhan annatod o'n ffordd o weithio. Cefnogir ein Strategaeth Gwrth-dwyll gan Bolisi Gwrth-dwyll, Gwrth-lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredigaeth ddiwygiedig a Gweithdrefn Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth.

Rydym yn parhau i fod mewn argyfwng costau byw, a gall pwysau fel y rheini a achosir gan gyfraddau chwyddiant uchel arwain at risg uwch o dwyll, sef y categori y mae troseddau eisoes yn cael eu hadrodd amlaf oddi tano yn y DU.  Darperir cyrsiau dysgu ar-lein gorfodol i staff ar fesurau gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredigaeth. Mae'r cyrsiau hyn wedi'u cynllunio i helpu staff i nodi baneri coch o ran risgiau a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau proffesiynol. Mae cyfraddau cwblhau'r modiwlau hyn yn parhau'n uchel.

### Ystadegau cwblhau e-ddysgu ar gyfer 2023/2024

**Gwrth-lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredd (2 flynedd)**




**Gwrth-dwyll (2 flynedd)0**



Fel rhan o'n gwaith atal a chanfod, cynhaliwyd asesiadau risg i nodi pa feysydd o'r sefydliad sydd â'r risg fwyaf o dwyll ac i ganolbwyntio ein rheolaethau lliniaru ar y meysydd hyn.  Rydym hefyd yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, sef ymarfer paru data sydd wedi'i gynllunio i ganfod twyll a gwallau ar draws systemau talu.

Y llynedd, cawsom naw honiad o dwyll, y cafodd saith ohonynt yn unol â'n gweithdrefnau ymchwilio i dwyll, cafodd un honiad ei drin o dan weithdrefnau chwythu'r chwiban a chafodd yr honiad arall ei drin o dan ein gweithdrefnau adnoddau dynol. Mae pob achos o dwyll yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r holl ymchwiliadau wedi cael eu rheoli naill ai gan arbenigwr gwrth-dwyll achrededig neu ymchwilwyr allanol â chymwysterau tebyg. Caiff yr adroddiad terfynol ar bob achos ei gyfeirio at aelod annibynnol o'r uwch-staff.

| **Nifer yr honiadau a adroddwyd** | | |
|---|---|---|
| 2023-2024 | 2022-2023 | 2021-22 |
| 9 | 8* | 8 |

**Cafodd y ffigwr hwn ei adrodd yn anghywir fel pump yn adroddiad blynyddol y llynedd, ond roedd yr adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gywir.*

Er bod trefniadau atal twyll cadarn yn rhan o'n hymateb, mae gennym hefyd gyfrifoldeb i gefnogi ein gweithwyr a'u teuluoedd.  Yn unol â hynny, mae cydweithwyr yn y tîm Gwasanaethau Pobl yn parhau i weithio ar ystod o fentrau i gefnogi unrhyw un sy'n cael trafferthion ariannol ac yn cynnig cymorth pan fo modd.

## Cydymffurfio â'r codau a'r canllawiau gofynnol

Rydym wedi cwblhau adolygiad ac wedi cadarnhau bod ein strwythur sefydliadol, ein polisïau, ein gweithdrefnau a'n harferion yn cydymffurfio â gofynion Pennod Chwech: Cyrff hyd braich, o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog.

Cefnogir y swyddog cyfrifyddu gan strwythur Bwrdd sy'n unol â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog, ac mae gweithdrefnau ategol ar waith i sicrhau y gall rolau'r Bwrdd weithredu'n effeithiol.

Fel penodiadau rheoleiddiedig, gwneir penodiadau'r cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Mae'r swyddog cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod system llywodraethiant corfforaethol a sicrwydd da ar waith, yn unol ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog.

Mae ein harweinyddiaeth yn gyson â'r rolau a chyfrifoldebau a ddisgwylir gan uwch reolwyr, gan sicrhau bod ein llwybrau adrodd yn glir er mwyn sicrhau atebolrwydd a bod rhaniad priodol o ddyletswyddau a rheolaethau mewnol allweddol ar waith; bod cyflogau uwch-staff yn cael eu hystyried gan swyddogion anweithredol er mwyn sicrhau

annibyniaeth, ac rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'n rhanddeiliaid allweddol er mwyn cynnal perthnasoedd gwaith adeiladol.

Mae ein fframwaith rheoli risg sefydliadol wedi'i sefydlu yn unol â phum egwyddor y Llyfr Oren ac wedi'u sefydlu i alluogi'r sefydliad i'w cymhwyso, fel a ganlyn:

1. Mae rheoli risg yn rhan hanfodol o lywodraethiant ac arweinyddiaeth, ac mae'n sylfaenol i'r ffordd y caiff y sefydliad ei gyfeirio, ei drin a'i reoli ar bob lefel.
2. Mae rheoli risg yn rhan annatod o holl weithgareddau'r sefydliad i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau wrth gyflawni amcanion.
3. Mae rheoli risg yn gydweithredol ac yn cael ei lywio gan yr wybodaeth a'r arbenigedd gorau sydd ar gael.
4. Mae prosesau rheoli risg wedi'u strwythuro fel eu bod yn cynnwys y canlynol:
    a. Proses o nodi ac asesu risgiau
    b. Proses o ddethol, dylunio a gweithredu opsiynau ar gyfer trin risgau
    c. Proses o gynllunio a gweithredu gwaith monitro risg sy'n integredig, yn graff ac yn llawn gwybodaeth
    d. Adroddiadau risg amserol, cywir a defnyddiol er mwyn gwella'r prosesau o wneud penderfyniadau a goruchwylio.
5. Gwelliant parhaus drwy ddysgu a phrofiad.

## Ein fframwaith sicrwydd

Mae ein fframwaith sicrwydd yn cynnwys y mesurau canlynol, sydd ar waith er mwyn sicrhau fy mod yn cael tystiolaeth amserol i ddangos bod y rheolaethau gofynnol ar waith ac yn gweithio'n briodol.

## Archwiliadau mewnol

Caiff y farn yn sgil yr archwiliad blynyddol ei llywio'n rhannol gan y cynllun archwilio mewnol. Eleni rhoesom "sicrwydd anfoddhaol" ar gyfer un o feysydd archwilio Sicrwydd TGCh ac roedd pob un o'r archwiliadau arall yn gymedrol neu'n sylweddol. Mae adolygiad o aeddfedrwydd risg wedi rhoi lefel dau fel sgôr o aeddfedrwydd (ar raddfa o 1 i 5), ac argymhellir bod CNC yn gweithio tuag at gynyddu'r aeddfedrwydd i lefel tri. Bydd y gwelliant hwn yn golygu bod prosesau rheoli risg yn cael eu gweithredu ym mhob maes allweddol. Ar hyn o bryd mae gan CNC yr hanfodion ar gyfer rheoli risg ac mae wedi cynllunio ar gyfer gweithredu'n well ar draws y sefydliad. Ar hyn o bryd nid yw rheolaeth risg CNC yn ddigon aeddfed i atal risgiau rhag tarfu ar y busnes. Mae CNC wedi sefydlu Rhaglen CNC 2030 yn rhannol i fynd i'r afael â'r gwendid a nodwyd yn y fframwaith rheolaeth fewnol ar gyfer TGCh, gyda phrosiect ar gyfer sefydlogi TGCh yn cael ei gynnal. Mae darparu pobl yn parhau i fod yn her yn CNC oherwydd y pwysau ar gyllidebau ar draws y sector cyhoeddus, ond nodir bod CNC wedi mabwysiadu dull blaenoriaethu ar gyfer ymdrin â'r pwysau ar adnoddau.

I gloi, mae fy ngwerthusiad proffesiynol o reolaethau mewnol, llywodraethiant a rheoli risg wedi fy arwain i'r casgliad bod angen gwelliannau o hyd yn 2023/2024 er mwyn gwella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaethau risg. Gallaf felly gynnig barn sicrwydd gyffredinol gymedrol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf. Nodir bod CNC yn parhau i wneud cryn dipyn o waith wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â gwendidau a nodwyd o ran llywodraethiant, risg a rheolaeth.

## Archwiliadau allanol

Mae gwaith craffu annibynnol yn ffynhonnell bwysig inni o ran cael sicrwydd, ac mae'n darparu tystiolaeth o'n ffyrdd o weithio mewn perthynas ag arferion gorau a safonau'r diwydiant. Mewn rhai rhannau o'r sefydliad, rydym yn destun archwiliadau neu adolygiadau allanol o'n gwaith, neu'n dewis eu cael. Cynhelir rhai ohonynt yn flynyddol, er enghraifft Cynllun Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig, neu ISO 14001:2015 er mwyn cynnal ein system rheoli amgylcheddol. Rydym yn gofyn am rai eraill fel un o nifer o ddarnau o waith er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i'n hunain am feysydd gwaith neu weithgareddau penodol.

## Effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol

Mae'r system rheolaethau mewnol yn seiliedig ar y systemau, y strwythurau a'r egwyddorion sydd ar waith o fewn y sefydliad sy'n lliniaru ac yn rheoli'r risgiau i'n nodau ac amcanion. Rydym yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaethau mewnol sydd ar yr un pryd yn cefnogi cyflawniad ein nodau a'n hamcanion, wrth hefyd ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yr ydym yn gyfrifol amdanynt.

Er mwyn ein galluogi i roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd ein system rheolaethau mewnol, mae proses adolygu wedi'i chynnal, sef y Rhestr Wirio Rheolaethau Mewnol, ac yng ngham olaf y broses caiff tystysgrif sicrwydd ei llofnodi gan bob cyfarwyddwr gweithredol ar gyfer ei faes awdurdod dirprwyedig. Yna cyflwynir y dystysgrif sicrwydd i'r swyddog cyfrifyddu. Mae prif elfennau'r broses adolygu wedi'u nodi isod:

Cadarnhau nodau ac amcanion y sefydliad yn y cynllun corfforaethol hyd at 2030

↓

Nodi risgiau strategol i gyflawni amcanion

↓

Nodi'r prosesau busnes sy'n gyfrifol am gyflawni'r rheolaethau allweddol sy'n rheoli ac yn lliniaru'r risgiau strategol

↓

Wedi cael sicrwydd ar effeithiolrwydd y prosesau busnes a rheolaethau mewnol drwy broses Rhestr Wirio Rheolaethau Mewnol

↓

Gwerthuso a graddio sicrwydd a nodi bylchau neu wendidau mewn rheolaethau

↓

Nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus y system rheolaethau mewnol

↓

Datganiad llywodraethiant blynyddol

Eleni cafodd rhagor o ddatblygiadau eu hintegreiddio i'r broses, gan gynnwys y canlynol:

- Cyflwyno adolygiadau chwarterol ar ôl cwblhau proses Rhestr Wirio Rheolaethau Mewnol 2022-2023. Rhoddodd hyn gyfle i'r cyfarwyddwyr gweithredol ystyried yn rheolaidd unrhyw newidiadau i lefel eu sicrwydd mewn perthynas ag effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol yn eu cyfarwyddiaeth drwy gydol y flwyddyn fel proses adolygu barhaus

- Cyflwyno arolwg gorfodol ar gyfer y Tîm Arwain a'r Tîm Rheoli, sydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r prosesau busnes sy'n gyfrifol am gyflawni rheolaethau allweddol

- Mwy o aeddfedrwydd ac eglurder mewn perthynas â chategoreiddio'r sicrwydd a geir mewn perthynas â'r model tair llinell a sicrwydd trionglog

- Canolbwyntio mwy ar nodi bylchau / gwendidau yn y system rheolaethau mewnol a datblygu cynllun gweithredu yn sgil hynny.

Mae'r Tîm Gweithredol wedi ystyried a safoni'r dadansoddiad o'r canlyniadau a'r graddau sicrwydd a briodolwyd gan y cyfarwyddwyr, ac wedi cymeradwyo'r camau gweithredu a nodwyd i unioni unrhyw wendidau sylweddol a nodwyd.

Mae'r gwendidau canlynol o fewn y system rheolaethau mewnol, a'r camau cyfatebol a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw wedi'u nodi o ganlyniad i'r adolygiad o'r system rheolaethau mewnol:

| | Mater a nodwyd | Camau gweithredu i fynd i'r afael ag ef | Maes cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 1 | Y gweithlu | Un o bedair elfen Portffolio Trawsnewid CNC hyd at 2030 yw'r Rhaglen Trawsnewid Pobl, sy'n cynnwys nifer o is-brosiectau ffurfiol. Bwriad y rhaglen yw gwella systemau a phrosesau'r gweithlu yn sylweddol, a bydd yn cryfhau rheolaethau ar draws y gwasanaeth gan alluogi'r sefydliadi gyflawni'r cynllun corfforaethol a'r amcanion llesiant yn effeithlon. Mae'r prosiectau ffurfiol sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen ac sydd i'w datblygu neu eu cwblhau yn ystod 2024-2025 yn cynnwys y canlynol:<br>• Cynllunio'r Gweithlu'n Strategol<br>• Adnoddau Hyblyg<br>• System Rheoli Dysgu<br>• Rheoli ac Arwain Ffrydiau Waith<br>• Llwybrau Gyrfa a Chymwyseddau ar gyfer Ffrydiau Gwaith<br>• E-recriwtio<br>• Rheoli Talent<br>• Cyflog<br>• Amrywiaeth, Cynhwysiant a'r Gymraeg | Datblygu Sefydliadol |

| | Mater a nodwyd | Camau gweithredu i fynd i'r afael ag ef | Maes cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 2 | TGCh | Un arall o’r pedair elfen ar Bortffolio Trawsnewid CNC hyd at 2030 yw’r Rhaglen Trawsnewid Technoleg, sy’n cynnwys nifer o is-brosiectau ffurfiol. Bwriad y rhaglen yw gwella systemau a phrosesau’r gweithlu yn sylweddol, a bydd yn cryfhau rheolaethau ar draws y gwasanaeth gan alluogi’r sefydliadi gyflawni’r cynllun corfforaethol a’r amcanion llesiant yn effeithlon. Mae’r prosiectau ffurfiol sydd wedi’u cynnwys yn y rhaglen ac sydd i’w datblygu neu eu cwblhau yn ystod 2024-2025 yn cynnwys y canlynol:<br>• Sefydlogi TGCh<br>• Adfer ar ôl Trychineb<br>• Ymateb Seiber a Seiberddiogelwch<br>• Rheoli Systemau nad ydynt wedi’u Rheoli gan TGCh<br>• Technoleg y Dyfodol<br>• Data<br>• Aliniad Digidol a Data'r Llywodraeth | TGCh |
| 3 | Amcanion Llesiant (Llywodraethiant a Goruchwylio) | Mae'r cylch y cynllun corfforaethol newydd wedi ein galluogi i adolygu’r ffordd yr ydym yn ymdrin â chynllunio a pherfformiad.  Bydd ein fframwaith rheoli perfformiad diwygiedig yn sicrhau bod darlun cliriach rhwng gwaith cyflawni strategol a chyflawni’n weithredol. Mae 2024-2025 yn flwyddyn ddatblygu, pan fyddwn hefyd yn adolygu polisïau a chanllawiau ar gyfer llywodraethu a goruchwylio’r amcanion llesiant.<br>• Cafodd effeithiau a dangosyddion strategol a ddiffiniwyd ar gyfer 2030 a’r tu hwnt, eu drafftio yn 2023-24. Byddwn yn eu profi yn ystod 2024-2025 – gyda'r Bwrdd yn ystod y diwrnodau archwilio dwfn strategol i’r amcanion llesiant. Caiff y sesiynau hyn eu datblygu a'u harwain gan bob arweinydd y Tîm Gweithredol o ran amcanion llesiant.<br>• Bydd cynllunio aml-flwyddyn yn cael ei gyflawni yn ystod 2024-2025. Bydd y gwaith cynllunio hwn yn pennu’r uchelgais a’r metrigau ar gyfer pob cam sydd i’w gymryd o fewn yr amcanion llesiant hyd at 2030. Bydd | Swyddfa Rheoli Strategaeth Corfforaethol a Rhaglenni |

| | Mater a nodwyd | Camau gweithredu i fynd i'r afael ag ef | Maes cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | | arweinwyr y Tîm Gweithredol o ran amcanion llesiant yn goruchwylio'r prosesau datblygu ac adrodd.<br>• Y cynllun busnes blynyddol ac adroddiadau chwarterol. Bob chwarter, bydd arweinwyr y Tîm Gweithredol o ran amcanion llesiant yn cynnal cyfarfod dangosfwrdd ar y cynnydd tuag at amcanion llesiant cyn mynd at y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd. Bydd hyn yn gwella'r broses o lywodraethu a goruchwylio'r amcanion llesiant.<br>Drwy gydol y flwyddyn ddatblygiadol hon, byddwn yn sicrhau y mabwysiedir dull cydlynol o ymdrin â llywodraethiant a pherfformiad yn erbyn yr amcanion llesiant ar draws yr elfennau uchod. Bydd hyn yn llywio ein penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau. | |

**Ceri Davies**

**Cyfarwyddwr Gweithredol dros Dystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro** **16 Hydref 2024**

# Adroddiad cyflogau a staff (wedi'i archwilio)

## Y polisi cyflogau

Mae’r Bwrdd wedi sefydlu pwyllgor, sef y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid, i ystyried materion sy’n ymwneud â chyflogau ac amodau cyflogaeth y staff yn y swyddi uchaf a’r strategaeth gyflogau gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan y sefydliad. Mae’r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yn cynnwys pedwar aelod anweithredol o’r Bwrdd. Mae cadeirydd y Bwrdd yn aelod ex-officio o'r pwyllgor.

Gosodir cyflogau'r cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd gan Weinidogion Cymru. Mae telerau’r contract ar gyfer uwch-weithwyr sy’n aelodau o’r Tîm Gweithredol yn seiliedig ar delerau ac amodau’r sefydliad. Nid yw'r polisi cyflogau ar gyfer y staff ar y lefel uchaf yn destun cydfargeinio, a chaiff y pecyn cyflog ei bennu drwy gyfeirio at y defnydd o’r weithdrefn Arfarnu Swyddi ar gyfer Uwch-swyddi a chyflog ar y pryd. Caiff y cyflog ei gynyddu gan yr un ganran â chyflog Gradd 11 (sef y raddfa gyflog uchaf ar gyfer staff nad ydynt yn gyfarwyddwyr).

## Contractau gwasanaeth

Gwneir pob penodiad i’r Bwrdd ar ran y Gweinidog yn Llywodraeth Cymru sy’n noddi’r sefydliad.

Disgwylir i'r Prif Weithredwr ac aelodau'r Tîm Gweithredol gael eu cyflogi o dan gontractau parhaol. Caiff penodiadau eu gwneud yn unol â'n polisi recriwtio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i benodiad gael ei wneud yn ôl haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Oni nodir yn wahanol isod, mae'r aelodau o’r Tîm Gweithredol a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau parhaol. Rhaid i'r swyddogion a'r aelodau Bwrdd hyn ddarparu tri mis o rybudd o'u bwriad i adael.

## Cyflogau a hawliadau pensiwn

Mae’r adrannau a ganlyn yn rhoi manylion ynghylch cyflogau aelodau’r Bwrdd a chyflogau a buddiannau pensiwn aelodau’r Tîm Gweithredol. Nid oes gan aelodau Bwrdd yr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil nac i dderbyn buddiannau eraill. Byddai terfyniad cynnar, ac eithrio oherwydd camymddwyn, yn arwain at aelodau'r Tîm Gweithredol yn cael iawndal sy'n gyson â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan aelodau Bwrdd yr hawl i gael iawndal.

## Cyflog

Mae cyflog yn ymwneud â symiau pensiynadwy a symiau nad ydynt yn bensiynadwy ac mae'n cynnwys cyflog gros, goramser, ac unrhyw lwfansau neu daliadau sy'n ddarostyngedig i drethiant yn y DU. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n ad-daliad o dreuliau sydd wedi deillio'n uniongyrchol o gyflawni dyletswyddau unigolyn.

## Cyflog sy’n gysylltiedig â pherfformiad

Mae unrhyw gynnydd mewn cyflog ar gyfer y Tîm Gweithredol yn amodol ar asesu perfformiad naill ai’n ‘Eithriadol’ neu’n ‘Cyflawni’ gan y Prif Weithredwr a’i safoni gan y

Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid. Bydd y cynnydd a roddir yn cael ei bennu gan y codiad cyflog a gymhwysir ar gyfer y bobl hynny sydd o fewn yr uned gydfargeinio. Pan fernir bod rhywun yn tanberfformio ni fydd codiad cyflog yn cael ei roi.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac a ymdrinnir fel enillion y gellir eu trethu gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Ni dderbyniodd unrhyw un o aelodau'r Bwrdd na'r Tîm Gweithredol fuddion mewn nwyddau yn ystod 2023/2024 a 2022/2023.

Ni dderbyniodd unrhyw un o aelodau'r Bwrdd na'r Tîm Gweithredol unrhyw gyflog heblaw'r symiau a ddangosir isod.

## Cyflogau aelodau'r Bwrdd

| Aelod y Bwrdd | Rolau Bwrdd a phwyllgorau (yn ystod 2023/2024) | Dyddiadau'r contract | Cyflog 2023/2024 (ystod o £5,000) | Cyflog 2022/2023 (ystod o £5,000) |
|---|---|---|---|---|
| Karen Balmer | | 9/11/15 tan 31/3/23 | Amherthnasol | 10-15 |
| Catherine Brown | | 1/11/18 tan 31/10/22 | Amherthnasol | 5-10 |
| Julia Cherrett | | 1/11/18 tan 31/5/23 | 0-5 | 15-20 |
| Geraint Davies | | 1/1/19 tan 31/10/24 | 10-15 | 10-15 |
| Peter Fox | Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd | 16/2/23 tan 31/10/26 | 15-20 | 0-5 |
| Paul Griffiths | | 1/9/21 tan 25/5/22 | Amherthnasol | 0-5 |
| Syr David Henshaw | Cadeirydd y Bwrdd | 1/11/18 tan 31/10/25 | 45-50 | 45-50 |
| Zoë Henderson | | 9/11/15 tan 8/5/23 | 0-5 | 10-15 |
| Calvin Jones | Cadeirydd y Pwyllgor Ystadau Tir | 1/9/21 tan 31/10/28 | 15-20 | 10-15 |
| Lesley Jones | | 1/6/23 tan 31/10/26 | 10-15 | Amherthnasol |
| Rhys Jones | | 16/2/23 tan 31/10/27 | 10-15 | 0-5 |
| Mark McKenna | Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid | 1/9/21 tan 31/10/28 | 15-20 | 10-15 |
| Steve Ormerod | Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth o fis Tachwedd | 1/11/18 tan 31/10/25 | 15-20 | 15-20 |
| Kathleen Palmer | Cadeirydd Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | 16/2/23 tan 31/10/26 | 15-20 | 0-5 |
| Helen Pittaway | Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid | 16/2/23 tan 31/10/26 | 15-20 | 0-5 |
| Rosie Plummer | Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig | 1/11/18 tan 31/10/24 | 15-20 | 15-20 |
| Peter Rigby | Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth hyd at fis Hydref | 1/11/18 tan 31/10/23 | 5-10 | 15-20 |

## Cyflogau'r Tîm Gweithredol

| Aelod o'r Tîm Gweithredol | Cyflog (ystod o £5,000) | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Buddion pensiwn[1] (i'r £1,000 agosaf) | | Cyfanswm (ystod o £5,000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 |
| Clare Pillman [1] (Prif Weithredwr) | 150-155 | 145-150 | 0 | 0 | 40,000 | (10,000) | 190-195 | 135-140 |
| Rachael Cunningham[1] | 125-130 | 115-120 | 0 | 0 | 46,000 | 21,000 | 170-175 | 140-145 |
| Ceri Davies [1] | 125-130 | 115-120 | 0 | 0 | 37,000 | (2,000) | 160-165 | 115-120 |
| Prys Davies [1] | 105-110 | 100-105 | 0 | 0 | 30,000 | 10,000 | 135-140 | 110-115 |
| Sarah Jennings[1] | 130-135 | 120-125 | 0 | 0 | 51,000 | 49,000 | 180-185 | 170-175 |
| Gareth O'Shea [1] | 115-120 | 110-115 | 0 | 0 | 32,000 | (48,000) | 145-150 | 60-65 |

[1] Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd pensiwn gwirioneddol wedi'i luosi ag 20, yn ogystal â'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Cyfrifir y cynnydd gwirioneddol drwy ddidynnu'r prisiad agoriadol o'r prisiad terfynol. Mae'r cynnydd gwirioneddol yn eithrio cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw newidiadau o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn. Caiff codiadau chwyddiant eu heithrio drwy gymhwyso ffactor cynnydd gwirioneddol i'r gwerth ar ddechrau'r flwyddyn.

Ar gyfer newidiadau mewn lefelau cyflog, efallai na fydd y cynnydd mewn pensiwn oherwydd gwasanaeth ychwanegol yn ddigon i wrthbwyso'r cynnydd mewn chwyddiant – hynny yw, mewn termau real, gall gwerth y pensiwn ostwng, a dyna pam mae gwerthoedd negyddol i'w gweld.

Nid yw'r gwerth hwn yn cynrychioli'r swm y bydd yr unigolyn yn ei gael. Bwriad y cyfrifiad yw cyfleu i'r darllenydd y cyfrifon amcangyfrifiad o'r budd a all ddeillio o fod yn aelod o'r cynllun pensiwn. Mae'r tabl buddiannau pensiwn yn rhoi mwy o wybodaeth am y buddiannau pensiwn sy'n cael eu cronni gan yr unigolyn.

## Buddiannau pensiwn

| Aelod o'r Tîm Gweithredol | Pensiwn cronnus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/3/24 £000 | Cyfandaliad cronnus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/3/24 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oed pensiwn £000 | Cynnydd gwirioneddol yn y cyfandaliad cronnus ar oed pensiwn £000 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/24 £000 | Gwerth oedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/23 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Clare Pillman (Prif Weithredwr) | 75-80 | 145-150 | 2.5-5 | 0 | 1,675 | 1,503 | 24 |
| Rachael Cunningham | 40-45 | 0 | 2.5-5 | 0 | 807 | 709 | 29 |
| Ceri Davies | 65-70 | 80-85 | 2.5-5 | 0 | 1,404 | 1,261 | 24 |
| Prys Davies | 35-40 | 90-95 | 0-2.5 | 0 | 780 | 696 | 16 |
| Sarah Jennings | 10-15 | 0 | 2.5-5 | 0 | 177 | 115 | 39 |
| Gareth O'Shea | 65-70 | 100-105 | 0-2.5 | 0 | 1,407 | 1,268 | 19 |

Mae pensiwn cyflog terfynol unigolyn mewn cyflogaeth yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at ei gyflog a hyd ei wasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r nesaf yn rhinwedd unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer newidiadau mewn lefelau cyflog, efallai na fydd y cynnydd mewn pensiwn oherwydd gwasanaeth ychwanegol yn ddigon i wrthbwyso'r cynnydd mewn chwyddiant – hynny yw, mewn timau real, gall gwerth y pensiwn ostwng. Lle mae'r symudiad mewn gwerth cyfandaliad cronnus yn negyddol mewn termau real, caiff hyn ei adrodd yn y tabl uchod fel £0.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd Adran Actiwari'r Llywodraeth ffactorau diwygiedig i'w defnyddio. Er cysondeb, mae swm y Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod agoriadol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r ffactorau newydd, ac felly mae'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod agoriadol a ddatgelir yma yn wahanol i'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod terfynol a adroddwyd yn y tabl cyfatebol yn adroddiad 2022-2023.

Adroddwyd am unrhyw aelodau yr effeithir arnynt gan y Cynllun Rhwymedïol Pensiynau y Gwasanaeth Cyhoeddus yng nghynllun 2015 am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 yn 2022-2023 ond cânt eu hadrodd yn y cynllun etifeddiaeth ar gyfer yr un cyfnod yn 2023-2024.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a werthusir yw'r buddiannau a gronnir gan yr aelod ac unrhyw bensiwn priod wrth gefn sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth ar y cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef yn unig.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar gost i'w hun. Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddion a ddaw yn sgil Treth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu cymryd.

## Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Mae hyn yn dangos y cynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant neu gyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal ar gyfer colli swydd

Ni chytunwyd ar unrhyw iawndal am golli swydd yn ystod 2023/24 na 2022/2023.

## Datgelu cyflog teg

Rhaid i ni a chyrff tebyg ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr a delir fwyaf yn eu sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae cyfanswm y cyflog yn cynnwys cyflog a buddion mewn nwyddau pan fo'n berthnasol.Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, na'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod.

Yn 2023/2024, codwyd cyfradd ar un contractwr (2022/2023: 3) a oedd yn uwch na’r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf.

Band cyflog y cyfarwyddwr a delir fwyaf (fel y dangosir uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24 oedd £150,000 i £155,000 (2022/23: £145,000 i £150,000). Roedd hyn 3.8 gwaith (2022/23 3.8 gwaith) cyflog ganolrifol y gweithlu, gyda chymhariaeth mewn perthynas â chyflog uchaf, canolrifol a chwartel isaf a gyflwynir yn y tabl canlynol.

**Cymhareb Cyflog y Gweithlu Cyfan**

| | 2023/2024 | 2022/2023 | Symudiad |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | % |
| Chwartel uchaf | 46,673 | 46,003 | 1.46 |
| Cymhareb | 3.3 | 3.2 | |
| Canolrif | 40,426 | 38,492 | 5.02 |
| Cymhareb | 3.8 | 3.8 | |
| Chwartel isaf | 35,686 | 32,876 | 8.55 |
| Cymhareb | 4.3 | 4.4 | |

Mae graddfeydd cyflog staff yn amrywio o £24,242 i £76,259 (2022/23: £21,655 i £72,627).

**Canran y cynnydd mewn cyflog, buddion mewn nwyddau a thâl ar sail perfformiad yn ystod y flwyddyn oedd:**

| | Symudiad |
|---|---|
| | % |
| Cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf | 5.0 |
| Yr holl weithlu | 1.2 |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 5.0 |

Fel sy'n ofynnol gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, wedi'u cynnwys yn y gweithlu yn y tablau uchod mae gweithwyr parhaol, penodiadau cyfnod penodol, prentisiaid, secondeion, staff asiantaeth a chontractwyr, lle mae'r tâl wedi'i gyfrifo ar sail flynyddol.

# Adroddiad yr holl staff

## Polisi Cyflogau Staff

Mae cytundeb partneriaeth gymdeithasol ar waith gyda phum undeb llafur, a gosodir telerau ac amodau ar gyfer staff o dan yr aelodau'r tîm gweithredol trwy gytundeb ar y cyd gyda'r partneriaid cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i gyflog, telerau ac amodau ac yn rhoi cylch gwaith cyflogau i'r sefydliady mae'n rhaid iddo gyflawni o'i fewn. Roedd cyflog eleni ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024, a gwelwyd cynnydd o 5% yn ein bil cyflogau. Fel un o gyflogwyr achrededig y Sefydliad Cyflog Byw Gwirioneddol, fe wnaethom gymhwyso'r gyfradd newydd (£12) ym mis Tachwedd a'i hôl-ddyddio i Ebrill 2023. Cymhwyswyd dyfarniad cyflog o 5% i hyn a'r

holl bwyntiau cyflog ac ychwanegiadau a thaliadau (lwfansau) ond heb gynnwys y Dyfarniad Teyrngarwch ac Atodiad y Farchnad. Nid oedd y cynnig hwn, fel y cytunwyd eisoes drwy'r ymgynghoriad ar y cynllun Gwerthuso Swyddi, yn berthnasol i'r bobl hynny a oedd wedi dewis, yn flaenorol, i beidio â bod yn rhan o'r cynllun hwn.

I gydnabod yr effaith yr oedd pwysau costau byw yn ei chael ar ein staff ac yn debyg i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, gwnaethom daliad untro o £1,500 i’r holl staff, ac eithrio’r Tîm Gweithredol, ym mis Medi 2023. Roedd hyn ar wahân i'r dyfarniad cyflog.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am gyfansoddiad a chostau ein gweithlu. Mae’r tablau isod yn cynnwys staff sy'n gyflogeion parhaol, penodiadau cyfnod penodol a phrentisiaid yn ogystal â staff asiantaeth, contractwyr a secondeion.

**Nifer y staff fesul pen a chyfwerth ag amser llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2024**

| | Gwrywod | | Menywod | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y gweithwyr** | **CYFWERTH AG AMSER LLAWN** | **Nifer y gweithwyr** | **CYFWERTH AG AMSER LLAWN** | **Nifer y gweithwyr** | **CYFWERTH AG AMSER LLAWN** |
| **Pob gweithiwr** | 1,350 | 1,319 | 1,186 | 1,116 | 2,536 | 2,435 |
| o'r rhain: | | | | | | |
| Y Tîm Arwain | 15 | 15 | 13 | 12 | 28 | 27 |
| Y Tîm Gweithredol | 2 | 2 | 4 | 4 | 6 | 6 |

**Nifer y staff fesul pen a chyfwerth ag amser llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2023**

| | Gwrywod | | Menywod | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y gweithwyr** | **CYFWERTH AG AMSER LLAWN** | **Nifer y gweithwyr** | **CYFWERTH AG AMSER LLAWN** | **Nifer y gweithwyr** | **CYFWERTH AG AMSER LLAWN** |
| **Pob gweithiwr** | 1,391 | 1,364 | 1,168 | 1,097 | 2,559 | 2,461 |
| o'r rhain: | | | | | | |
| Y Tîm Arwain | 13 | 13 | 14 | 13.5 | 27 | 26.5 |
| Y Tîm Gweithredol | 2 | 2 | 4 | 4 | 6 | 6 |

**Nifer cyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a dalwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:**

| | 2023/24 | | | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 2,295 | 76 | 2,371 | 2,232 |
| Staff asiantaeth a chontract | 0 | 91 | 91 | 158 |
| **Cyfanswm** | **2,295** | **167** | **2,462** | **2,390** |

Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar brosiectau cyfalaf oedd 216.7 (2022/23: 246.1).

## Trosiant staff

Y trosiant staff yn ystod 2023/24 oedd 5% heb gynnwys gweithwyr dros dro e.e. penodiadau am gyfnod penodol (2022/23 4.9%).

## Costau staff

| | 2023/2024 | | | 2022/2023 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff parhaol | Staff arall | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 99,303 | 8,842 | 108,145 | 98,571 |
| Costau nawdd cymdeithasol a threthi eraill | 10,742 | 778 | 11,520 | 10,180 |
| Costau pensiwn eraill | 23,970 | 686 | 24,656 | 21,978 |
| **Cyfanswm costau cyflog net** | **134,015** | **10,290** | **144,321** | **130,729** |
| | | | | |
| **Gwariant arall ar gyfer staff** | | **Nodyn** | | |
| Costau pecynnau ymadael | | | 13 | 81 |
| Tâl gwasanaeth Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19 (pensiynau) | | 15 | 6,988 | 14,855 |
| Llai o gostau pensiwn ymddeoliadau cynnar | | | (5) | 78 |
| Llai o gyfraniadau pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod y flwyddyn | | | (6,894) | (6,894) |
| Symudiad mewn cyflog gwyliau a gronnwyd | | | 15 | 138 |
| **Cyfanswm gwariant arall ar gyfer staff** | | | **117** | **8,258** |
| Llai o symiau a delir i brosiectau cyfalaf | | | (12,956) | (14,136) |
| **Cyfanswm costau staff** | | | **131,482** | **124,851** |

Gellir gweld manylion ein rhwymedigaethau pensiwn yn Nodyn 15.
Mae manylion cyflogau aelodau'r Bwrdd a chyfarwyddwyr yn yr adroddiad cyflogau. Mae'r gwasanaethau a brynwyd i mewn yn Nodyn 5 (gwariant arall) yn cynnwys £4.7 miliwn o wariant ar ymgynghorwyr (2022/2203 £5.5 miliwn).

Yn ystod y flwyddyn, mae’r methodoleg a ddefnyddiwyd y gyfrifo gwariant ar ymgynghorwyr wedi cael ei addasu, gyda’r ffigwr cyfatebol ar gyfer 2022/23 hefyd wedi’i ddiweddaru er cysondeb.

## Cynlluniau Pensiwn

Rydym yn aelod o ddau gynllun pensiwn. Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun agored ac yn cynnwys y cynllun buddion diffiniedig, Alpha, yn ogystal â chynllun cyfraniadau diffiniedig partneriaeth rhanddeiliaid. Rydym hefyd yn aelod

caeedig o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd o dan gytundeb derbyn cymunedol. Dangosir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn hyn isod.

## Cyfraniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Cynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr na chânt eu hariannu yw PCSPS a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn “Alpha”, ond nid yw'r cynlluniau yn nodi cyfran sefydliadau unigol o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Cwblhawyd prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf y Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 31 Mawrth 2020 ym mis Medi 2023. Gallwch weld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil yn https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/knowledge-centre/resources/resource-accounts/

Ar gyfer 2023/2024, roedd cyfraniadau cyflogwr o £6,899k yn daladwy i'r Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (2022/2023: £14,855k) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy (ar gyfer 2022/2023 26.6% i 30.3 %), yn seiliedig ar fandiau cyflog. Fel arfer, mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun llawn. Mae cyfraddau'r cyfraniadau wedi'u gosod er mwyn talu costau'r buddion a gronnir yn ystod 2023/24, sydd i gael eu talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr cyfredol.

## Pensiynau partneriaeth rhanddeiliaid

Gall y gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £169,000.00 (2022/2023: £156,000.00) i'r darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran ac yn amrywio rhwng 8% a 14.75%. Mae cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniadau cyflogeion hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr gwerth £5,000 sef 0.5% o gyflog pensiynadwy (2022/23: £5,000), yn daladwy i'r PCSPS i dalu'r costau o ddarparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marw yn y swydd neu ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen, ac ni chafodd unrhyw gyfraniadau eu talu ymlaen llaw.

## Cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)

Rydym yn gwneud taliadau i'r Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd, fel yr awdurdod gweinyddu ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol drwy Capita, gweinyddwyr y gronfa bensiwn.

Cynllun pensiwn statudol i'r gwasanaethau cyhoeddus yw'r LGPS, sydd wedi'i ariannu ac sy'n gwneud cyfraniadau diffiniedig. Bob tair blynedd, mae'r Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) yn prisio'r pensiwn ar y cyd ag actiwari'r cynllun. Ar 31 Mawrth 2022, asesodd y prisiad fod sefyllfa ariannol yr EAPF ar lefel ariannu o 103% (2019: 106%). Prif ddiben y prisiad actiwaraidd yw i adolygu sefyllfa ariannol y gronfa a phennu faint bydd cyflogwyr yn cyfrannu at y gronfa yn y dyfodol.

Mae gennym ni gytundeb derbyn cymunedol gyda Chronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) i gymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyn staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a drosglwyddodd i'n sefydliad ar 1 Ebrill 2013. Cafodd y rhwymedigaethau ar gyfer cyn-aelodau a gyflogwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd o ran swyddogaethau Cymru (pensiynau mewn taliad ac aelodau gohiriedig) eu trosglwyddo hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i warant gyda Chronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd i'w hindemnio am unrhyw rwymedigaethau sy'n deillio o gyfranogiad CNC yn y Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cyfradd y cyfraniad cyflogwr yn ystod 2023/24 oedd 22.50% (2022/23: 23.76%) Yn 2023/2024 talwyd cyfraniadau cyflogwr o £6,894k i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (2022/2023: £6,894k) sy'n lleihau'r balans ar gronfa bensiwn IAS 19.

Ymddeolodd tri unigolyn (2022-23: dau berson) yn gynnar ar sail afiechyd; cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn y flwyddyn oedd £55,000.00 (2022-23: £34,000.00).

## Pecynnau ymadael

| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost | 2023/2024 | 2022/2023 |
|---|---:|---:|
| Llai na £10,000 | 1 | 4 |
| £10,001 - £25,000 | 1 | 2 |
| £25,001 - £50,000 | 0 | 1 |
| £50,001 - £100,000 | 0 | 0 |
| £100,001 - £150,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **7** |
| **Cost adnoddau** | **£13,000** | **£88,000** |

Nid oedd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn 2023/2024 nac yn 2022/2023.

Mae costau ymadael gwirfoddol wedi'u talu yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y cafodd eu cyfrif yn 2023/24. Mewn gwirionedd, talwyd costau ymadael o £27,000 yn 2023/24, sef y flwyddyn ymadael. Pan fyddwn ni wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan y sefydliad hwn ac nid gan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y tabl.

**Absenoldeb oherwydd salwch (nad yw'n cael ei archwilio)**

Dangosodd cyfradd ein habsenoldebau oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn dreigl (1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024) y collodd pob cyflogai 5.4 o ddiwrnodau ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i 2.4%.

## Polisïau anabledd (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

### Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Yn ystod 2023/2024, gwnaethom barhau i gydymffurfio â'n cynllun gwarantu cyfweliad 'Tic Dwbl' lle mae ymgeiswyr sy'n datgan eu bod yn anabl, yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010, ac sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y rôl y gwneir cais amdani, yn cael eu gwahodd yn awtomatig i gyfweld.

Yn allanol, cawsom geisiadau gan 2,163 o bobl, yr oedd 92 (4.25%) ohonynt yn gofyn am gyfweliad gwarantedig. Yn fewnol, cawsom geisiadau gan 533 o bobl, yr oedd deg (1.87%) ohonynt yn gofyn am gyfweliad gwarantedig. Mae'r ffigurau hyn gyda chefndir o weithredu rhewi recriwtio ym mis Awst 2023

Cynllun Gwarantu Cyfweliad 'Tic Dwbl'

## Grwpiau Adnoddau Gweithwyr (ERG) - Rhwydweithiau Staff (heb eu harchwilio)

Mae Grwpiau Adnoddau Gweithwyr (ERG), a elwir hefyd yn Rhwydweithiau Gweithwyr neu Staff, yn le cefnogol a chroesawgar i'n cydweithwyr ddod ynghyd i greu newid yn y gweithle. Mae Grwpiau Adnoddau Gweithwyr yn aml yn canolbwyntio ar nodwedd warchodedig a dangynrychiolir yn y gweithle. Mae'r rhwydweithiau'n rhoi cyfle i'n cydweithwyr gwrdd â chydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad a chymryd rhan mewn gweithgareddau rhwydwaith.

Mae Grwpiau Adnoddau Gweithwyr hefyd yn cyflawni'r tasgau hanfodol o greu arferion da amrywiaeth a chynhwysiant newydd sy'n dylanwadu ar y rhai sy'n gyfrifol am eu gweithredu.

Yn ystod y flwyddyn hon, sefydlwyd dau Grŵp Adnoddau Gweithwyr newydd i gefnogi ein cydweithwyr, sef y Rhwydwaith Staff Merched a'r Rhwydwaith Staff Nam ar y Golwg o dan y Grŵp Adnoddau Gweithwyr Anabledd ehangach.

Mae gan bob un o'n Grwpiau Adnoddau Gweithwyr dudalen fewnrwyd bwrpasol gyda gwybodaeth sy'n berthnasol i bob grŵp y mae gan bob cydweithiwr fynediad iddi.

Ar hyn o bryd mae gennym naw Grŵp Adnoddau Gweithwyr sy'n cynrychioli themâu nodweddion gwarchodedig, sef Anabledd, Rhyw a Rhywedd, Cyfeiriadedd Rhywiol, Crefydd a Chred. Mae’r rhain fel a ganlyn:

· Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyir

· Rhwydwaith Calon i staff LHDTC+

· Rhwydwaith Cymrodoriaeth Gristnogol i’r staff

· Rhwydwaith Cwtsh i Ofalwyr

· Rhwydwaith Cyfeillion Dementia

· Rhwydwaith Staff Mwslemaidd

· Rhwydwaith Staff Niwroamrywiaeth

· Rhwydwaith Nam ar y Golwg

· Rhwydwaith Merched

Mae gan bob Grŵp Adnoddau Gweithwyr arweinydd, neu cyflawnir y rôl ar y cyd â chydweithiwr arall. Cyflawnir y rolau hyn yn wirfoddol ac maent yn darparu lle diogel i gydweithwyr a rhywun i gysylltu ag ef pan fo angen cymorth. Dyfeisiwyd canllaw arfer da gyda chefnogaeth y Grŵp Adnoddau Gweithwyr a oedd yn amlinellu nodau ac amcanion y Rhwydweithiau, a rôl arweinwyr y Rhwydwaith o ran cysondeb. Mae’r canllawiau hefyd yn darparu fframwaith i gefnogi eu hiechyd meddwl a’u llesiant ac i gydbwyso eu swydd bob dydd a’u rôl fel Arweinwyr Rhwydwaith, yn ogystal â chynllunio ar gyfer olyniaeth.

Mae’r Tîm Cydraddoldeb hefyd yn annog Arweinwyr Grŵp Adnoddau Gweithwyr i wneud mwy o ddefnydd o Weminarau dydd Mercher yn enwedig wrth godi ymwybyddiaeth o ddyddiadau Datblygu ac Arloesi arwyddocaol megis Wythnos Ymwybyddiaeth Niwroamrywiaeth, Mis Hanes LHDTC+ a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

## Swyddi oddi ar y gyflogres (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

Mae’n ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth am benodi ymgynghorwyr neu aelodau staff sy'n para'n hwy na chwe mis a lle mae unigolion yn ennill mwy na £245 y dydd, lle rydym yn talu drwy anfonebu ac nid y gyflogres. Cynlluniwyd y rheolau gweithio oddi ar y gyflogres i sicrhau, os yw rhywun yn gweithio drwy gyfryngwr ac y byddai wedi cael ei ystyried, at ddibenion treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol, fel gweithiwr pe byddent wedi’i ymgysylltu yn uniongyrchol gan y sefydliad, eu bod nhw yn talu’r un dreth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol yn fras fel petaent yn cael eu cyflogi. Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol i bobl sydd wir yn hunangyflogedig.

Ein cyfrifoldeb ni yn hytrach na'r cyfryngwr yw cynnal yr asesiad at ddibenion treth. Os penderfynir yn yr asesiad bod y rôl o fewn cwmpas IR35, bydd y cyfryngwr yn talu'r un dreth gweithiwr â’r gweithiwr cyflogedig.

Mae'r tablau canlynol yn dangos ein sefyllfa mewn perthynas â'r gofynion hyn.

**Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2024, am fwy na £245 y diwrnod**

| Nifer yr ymgysylltiadau presennol ar 31 Mawrth 2024 sydd wedi bodoli am: | Nifer y contractwyr |
|---|---|
| llai na blwyddyn | 0 |
| rhwng un a dwy flynedd | 2 |
| rhwng dwy a thair blynedd | 1 |
| rhwng tair a phedair blynedd | 4 |
| pedair blynedd neu'n hwy | 3 |
| **Cyfanswm** | **10** |

**Ymrwymiadau newydd oddi ar y gyflogres rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, am fwy na £245 y diwrnod**

| | Nifer y contractwyr |
|---|---|
| Nifer y swyddi newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 | 1 |
| o'r rhain: | |
| Y nifer a aseswyd fel rhai sy'n dod o dan drefniadau IR35 | 0 |
| Y nifer a aseswyd fel rhai nad ydynt yn dod o dan drefniadau IR35 | 1 |
| Y nifer a gyflogwyd yn uniongyrchol ac sydd ar gyflogres y sefydliad | 0 |
| Nifer y swyddi a gafodd eu hailasesu at ddibenion cysondeb / sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Nifer y swyddi a welodd newid i'w statws IR35 ar ôl yr adolygiad cysondeb | 0 |

# Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi'i archwilio)

## Colledion a thaliadau arbennig

Mae rheolau Rheoli Arian Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddatgelu colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori, math, a gwerth, lle maent yn fwy na chyfanswm o £300,000 ac ar gyfer unrhyw eitemau unigol o £300,000 neu fwy.

### Colledion unigol o £300,000 neu fwy

Nid oedd unrhyw golledion na thaliadau arbennig o £300,000 neu fwy yn ystod 2023/24.

### Colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y ceisiadau am ddileu taliadau a gwneud taliadau arbennig a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.

| Categori neu fath o golled | 2023/24 Nifer | 2023/24 £'000 | 2022/23 Nifer | 2022/23 £'000 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Dileu dyledion na ellir eu hadennill | 70 | 80 | 161 | 222 |
| Asedau a gollwyd | 3 | 16 | 10 | 44 |
| Colledion eraill (colledion ariannol, taliadau ofer, hawliadau na ellir eu gorfodi, neu anrhegion) | 15 | 241 | 5 | 49 |
| Taliadau arbennig | 7 | 71 | 8 | 63 |
| **Cyfanswm** | **95** | **408** | **184** | **378** |
| | | | | |
| Hepgor incwm* | 9 | 164 | 0 | 0 |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **104** | **572** | **184** | **378** |

* Hepgor incwm yn ymwneud yn bennaf â gwerthiannau yn y dyfodol ac nid yw'n ymwneud â nodion credyd i'w codi yn erbyn anfonebau hanesyddol.

**Ceri Davies**

**Cyfarwyddwr Gweithredol dros Dystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro** **16 Hydref 2024**

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

**Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd**

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 dan baragraff 32 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llifoedd Arian a Datganiad o Newidiadau Mewn Ecwiti a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Cyfoeth Naturiol Cymru ar 31 Mawrth 2024 ac o'i gwariant net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan baragraff 32 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Sail y barnau**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

**Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes

gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad a archwilir a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 ; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Rhagair, Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Rhagair, Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol**

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiadau ariannol ac Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y corffyn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid a archwilir a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a phu'n a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a phu'n a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: adnabod refeniw, adnabod gwariant a chofnodi siwrnalau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes; a

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyfoeth Naturiol Cymru a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**

Rwy'n cael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

**Adroddiad**

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
18 Hydref 2024

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

# DATGANIADAU ARIANNOL
# a
# NODIADAU I'R CYFRIFON

## ar gyfer 2023/24

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| Costau staff | 3 | 131,482 | 124,851 |
| Gwaith cyfalaf a wariwyd yn ystod y flwyddyn | 4 | 48,463 | 32,768 |
| Gwariant arall | 5 | 119,698 | 114,528 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | 299,643 | 272,147 |
| Incwm taliadau | 6 | (49,664) | (40,028) |
| Incwm masnachol ac arall | 6 | (46,483) | (49,132) |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | 6 | (34,455) | (22,234) |
| Cyllid Ewropeaidd ac allanol arall | 6 | (2,900) | (4,750) |
| **Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid** | | (133,502) | (116,144) |
| **Gwariant gweithredu net cyn ennill ar ailbrisio asedau biolegol ac ariannol** | | **166,141** | **156,003** |
| Enillion ar ailbrisio asedau biolegol | 7.1 | 38,143 | 2,636 |
| Enillion ar ailbrisio asedau ariannol/ rhwymedigaethau ariannol | 9 / 10 | 1,349 | (313) |
| **Gwariant gweithredu net am y flwyddyn ar ôl enillion ar ailbrisio asedau biolegol ac ariannol** | | **205,633** | **158,326** |
| Cyllido ar asedau a rhwymedigaethau cynlluniau pensiwn | 16.2.5 | (3,677) | 1,667 |
| Costau cyllid | 8.2 | 101 | 117 |
| Enillion/colledion net ar ailbrisio | | (324) | (58) |
| **Diffyg ar gyfer y flwyddyn** | | **201,733** | **160,052** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Ailfesuriadau actiwaraidd pensiynau | 16.2.5 | 11,022 | (129,425) |
| Enillion ar ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | DoNWT | (40,749) | (186,965) |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **172,006** | **(156,338)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 84 i 132 ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Sefyllfa Ariannol

**Fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024**

| | Nodyn | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 7.1 | 2,137,597 | 2,127,219 |
| Asedau treftadaeth | 7.1 | 7,530 | 7,474 |
| Asedau biolegol | 7.1 | 402,189 | 447,864 |
| Asedau anniriaethol | 7.2 | 33,848 | 31,647 |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 8.1 | 83,874 | 69,815 |
| Asedau ariannol | 10 | 15,009 | 16,358 |
| Symiau derbyniadwy hirdymor | 11 | 11,940 | 3,462 |
| Ased pensiwn | 16.2.5 | 57,911 | 65,345 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | 2,749,898 | 2,769,184 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer a gedwir i'w gwerthu | | 1 | 9 |
| Rhestrau eiddo | | 2,500 | 612 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 11 | 45,121 | 38,889 |
| Taliadau ar gyfrif | 12 | 19,000 | - |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 13 | 9,787 | 5,077 |
| **Cyfanswm asedau presennol** | | 76,409 | 44,587 |
| **Cyfanswm asedau** | | **2,826,307** | **2,813,771** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 14 | (79,373) | (49,077) |
| Rhwymedigaethau prydles | 8.2 | (2,339) | (2,367) |
| Darpariaethau | 15 | (3,002) | (1,083) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | (84,714) | (52,527) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **2,741,593** | **2,761,244** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau prydles hirdymor | 8.2 | (8,221) | (8,276) |
| Rhwymedigaethau ariannol | 9 | (39,435) | (39,435) |
| Symiau taladwy hirdymor | 14 | (11,331) | (3,054) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | (58,987) | (50,765) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **2,682,606** | **2,710,479** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd eraill wrth gefn** | | | |
| Cronfa gyffredinol | DoNWT | 517,260 | 554,611 |
| Cronfa ailbrisio | DoNWT | 2,107,435 | 2,090,523 |
| Cronfa bensiynau | DoNWT | 57,911 | 65,345 |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **2,862,606** | **2,710,479** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 132 ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 25 Medi 2024 a llofnodwyd ar ei ran gan:

Ceri Davies
Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a
Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro

Dyddiad:
16 Hydref 2024

## Datganiad Llifoedd Arian

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant gweithredu net | DoWNC | (166,141) | (156,003) |
| Addasu trafodiadau anariannol | | 39,825 | 49,741 |
| Symudiad mewn masnach a symiau derbyniadwy erail | 11 | (14,710) | (12,364) |
| Symudiad mewn taliadau ar gyfrif | 12 | (19,000) | - |
| Symudiad mewn masnach a symiau taladwy eraill | 14 | 38,573 | 10,192 |
| Symudiad mewn rhwymedigaethau ariannol | DoSA | - | (409) |
| Symudiad mewn darpariaethau | DoSA | (33) | 817 |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(121,486)** | **(108,026)** |
| | | | |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | 7.1 | (7,383) | (6,368) |
| Prynu asedau anniriaethol | 7.2 | (7,710) | (7,120) |
| Elw ar waredu eiddo, peiriannau ac offer | | 215 | 816 |
| Elw ar waredu asedau ariannol | | - | 1,827 |
| **Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(14,878)** | **(10,845)** |
| | | | |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Grantiau gan Lywodraeth Cymru | DoNWT | 144,133 | 117,777 |
| Ad-dalu rhwymedigaethau prydles | 8.2 | (3,059) | (2,822) |
| **Cyllido Net** | | **141,074** | **114,955** |
| | | | |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn y cyfnod** | | **4,710** | **(3,916)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | | **5,077** | **8,993** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 13 | **9,787** | **5,077** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 84 i 132 ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Cronfa Gyffredinol | Cronfa Ailbrisio | Cronfa Bensiwn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans agoriadol** | **554,611** | **2,090,523** | **65,345** | **2,710,479** |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (172,006) | - | - | **(172,006)** |
| Ailddyrannu ailbrisio [1] | 1,505 | (1,505) | | **-** |
| **Symud yn ystod y flwyddyn** | | | | |
| Ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | (28,685) | 28,685 | - | **-** |
| Ailbrisio asedau hawl i ddefnyddio | (12,064) | 12,064 | - | **-** |
| Ailbrisiad a wireddwyd | 22,332 | (22,332) | - | **-** |
| Symudiad actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 11,022 | - | (11,022) | **-** |
| Cynnydd mewn gwarged pensiwn | (3,588) | - | 3,588 | **-** |
| **Cyfanswm symudiad yn ystod y flwyddyn** | **(10,983)** | **18,417** | **(7,434)** | **-** |
| **Cyllid** | | | | |
| Arian gan Lywodraeth Cymru | 144,133 | - | - | **141,405** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **517,260** | **2,107,435** | **57,911** | **2,679,878** |

1 Gwnaed ailddyraniad o £1,505k rhwng y Gronfa Ailbrisio a'r Gronfa Gyffredinol i gywiro'r balans ailbrisio a ddelir mewn perthynas ag Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Cronfa Gyfredinol - yn adlewyrchu sefyllfa gronus gwariant net a chyllid gan Lywodraeth Cymru.
Cronfa Ailbrisio - yn adlewyrchu sefyllfa gronus ailbrisio a mynegeio asedau anghyfredol.
Cronfa Bensiwn - yn adlewyrchu sefullfa gronus rhwymedigaethau net y cynllun pensiwn.

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Cronfa Gyffredinol | Cronfa Ailbrisio | Cronfa Bensiwn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans Agoriadol** | **565,154** | **1,926,189** | **(54,374)** | **2,436,969** |
| Addasiad enillion wrth gefn IFRS 16 | (605) | | - | **(605)** |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 156,338 | - | - | **156,338** |
| **Symud yn ystod y flwyddyn** | | | | |
| Ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | (179,497) | 179,497 | - | **-** |
| Ailbrisio asedau hawl i ddefnyddio | (7,468) | 7,468 | - | **-** |
| Ailbrisiad a wireddwyd | 22,631 | (22,631) | - | **-** |
| Symudiad actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | (129,425) | - | 129,425 | **-** |
| Cynnydd mewn rhwymedigaethau pensiwn | 9,706 | - | (9,706) | **-** |
| **Cyfanswm symudiad yn ystod y flwyddyn** | **(284,053)** | **164,334** | **119,719** | **-** |
| **Cyllid** | | | | |
| Arian gan Lywodraeth Cymru | 117,777 | - | - | **117,777** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **554,611** | **2,090,523** | **65,345** | **2,710,479** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 84 i 132 ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Nodyn 1 Polisïau cyfrifyddu

### 1.1 Gofyniad i baratoi cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) y Llywodraeth 2023/24 a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi, a gyda'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) yn unol â pharagraff 23(1) Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y FReM yn cymhwyso'r safonau adroddiadau ariannol rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu eu dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, mae'r cyfrifon hyn yn dilyn y polisi sydd fwyaf priodol i roi golwg gwir a theg ar Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Disgrifir y polisïau a fabwysiadwyd isod ac yn y gwahanol nodiadau i'r cyfrifon. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir yn ddeunyddiau i'r cyfrifon.

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae'n ofynnol gwneud amryw amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar gymhwyso polisïau cyfrifyddu a symiau yr adroddir amdanynt. Mae'r holl amcangyfrifon a dyfarniadau o'r fath yn cael eu hadolygu'n barhaus. Cydnabyddir diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnod yn y dyfodol yr effeithir arno. Mae'r holl amcangyfrifon yn seiliedig ar wybodaeth o ffeithiau ac amgylchiadau cyfredol, rhagdybiaethau ynghylch digwyddiadau'r gorffennol a rhagolygon am ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Dangosir y meysydd amcangyfrif mwyaf arwyddocaol a'r dyfarniadau beirniadol yn erbyn y nodiadau perthnasol, a gall canlyniadau gwirioneddol y dyfodol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau, o dan y confensiwn costau hanesyddol, a addaswyd yn unol â'n polisïau, gan ystyried ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, ac asedau anghyfredol biolegol, anniriaethol ac ariannol i werth teg fel y'u pennir gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn seiliedig ar yr egwyddor busnes byw.

### 1.3 Cymorth grant

Mae taliadau cymorth grant a dderbynnir gan LlC yn cael eu trin fel cyllid a dderbynnir gan barti rheoli. Fe'u cofnodir fel trafodiad cyllido ac fe'u credydir yn uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol ac nid trwy'r Datganiad o Wariant net Cynhwysfawr.

Mae taliadau eraill nad ydynt yn Gymorth Grant a dderbyniwyd gan LlC wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### 1.4 Incwm, gwariant a grantiau

Mae sail croniadau cyfrifyddu yn golygu bod incwm a gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn y mae'r gweithgaredd perthnasol yn cael ei gynnal, yn hytrach na phan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

Ffioedd opsiynau ac incwm cysylltiedig a dderbynnir gan weithredwyr ffermydd gwynt yw'r unig eithriad, y rhoddir cyfrif amdanynt yn y flwyddyn y cawsant eu derbyn. Mae'r incwm a gynhyrchir gan ffermydd gwynt sy'n ddarostyngedig i nodyn cyngor technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni adnewyddadwy (TAN 8) yn daladwy i LlC. Cesglir yr incwm gan CNC, tynnir y gwariant perthnasol o'r incwm a throsglwyddir y balans i LlC. Mae'r les ar gyfer fferm wynt Cefn Croes yn eithriad gan fod yr incwm a gynhyrchir gan y les hon yn cael ei gadw gan CNC. I gyfateb i'r ffordd y mae LlC yn cyfrifyddu, dangosir gwerth net incwm fferm wynt ar ôl didynnu'r taliad i LlC yn yr incwm ynni adnewyddadwy yn nodyn 6.

Mae incwm a dderbynnir cyn cwblhau'r gwaith yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

Pan gydnabuwyd incwm a gwariant ond na dderbyniwyd ac na thalwyd arian parod, cofnodir swm taladwy neu dderbyniadwy am y swm perthnasol yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Pan na fydd dyledion yn cael eu setlo o bosibl, mae balans y symiau derbyniadwy yn cael ei gofnodi a chodir tâl ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am yr incwm na fyddai o bosibl yn cael ei gasglu.

Cydnabyddir cyfraniadau grant a dderbynnir nad ydynt yn gymorth grant yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### 1.5 Rhestr Eiddo

Mae stocrestr yn cynnwys stociau coed sydd wedi cwympo ac sy'n cael eu prisio fel gwerth teg llai y costau gwerthu amcangyfrifedig y disgwylir iddynt gael eu cwblhau a'u gwaredu. Mae hyn yn cynnwys stoc mewn perthynas â gwerthiannau sefydlog a chynhyrchu uniongyrchol. Amcangyfrifir gwerth teg gan ddefnyddio prisiau gwerthu disgwyliedig.

### 1.6 Treth ar werth

Dosberthir CNC fel corff y mae adran 33 Deddf Treth Ar Werth (TAW) 1994 yn berthnasol iddo, ac yn unol â hynny, mae'n adennill treth a dalwyd ar weithgareddau busnes a gweithgareddau nad ydynt yn fusnes. Mae adennill TAW ar gyflenwadau eithriedig yn dibynnu ar y trothwy ar gyfer gweithgareddau eithriedig. Ym mhob achos, pan godir treth allbwn, neu y gellir adennill treth fewnbwn, nodir y symiau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn yn net o TAW.

### 1.7 Ardaloedd draenio mewnol

Mae CNC yn gweithredu fel y bwrdd draenio sy'n cynnal 13 o ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru. Ariennir y gwaith a wneir ym mhob ardal drwy gyfuniad o gyfraddau draenio a godir ar ddeiliaid tir amaethyddol ac ardollau arbennig a delir gan awdurdodau lleol perthynas â thir nad yw'n amaethyddol.

Mae'n ofynnol, o dan adran 40 Deddf Draenio Tir 1991, i CNC bennu cyfraddau draenio, a thrwy reoliad 7 Rheoliadau Byrddau Draenio Mewnol (Cyllid) 1992, i gyhoeddi ardollau arbennig cyn 15 Chwefror y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi.

Cafodd y cyfraddau draenio, ardollau arbennig a praeseptau ar gyfer 2023/24 eu gosod gan CNC oedd yn gweithredu fel y bwrdd draenio. Mae'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn nodyn 6.

### 1.8 Asedau diriaethol

Yn hanesyddol, mae tir ac adeiladau a strwythurau cyhoeddus (yr adroddir amdanynt mewn strwythurau gweithredol) yn cael eu prisio'n broffesiynol bob pum mlynedd yn unol â safonau gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) (y Llyfr Coch).

Yn 2020/21 sefydlwyd rhaglen dreigl ar gyfer Prisiadau llawn (gweler Nodyn 7). Rhwng prisiadau llawn, mae asedau'n cael eu prisio'n rheolaidd bob blwyddyn. Ar gyfer 2022/23, darparwyd y prisiadau hyn gan gwmni syrfewyr siartredig neu gan briswyr mewnol. Cwblhawyd y prisiadau ar gyfer yr asedau hyn hefyd yn unol â gofynion Llyfr Coch RICS fel y cyfeiriwyd atynt uchod.

### 1.9 Mabwysiadu dehongliadau Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) neu'r llawlyfr adrodd ariannol (FReM) newydd a diwygiedig a newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu

**Newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu**

Nid oedd unrhyw newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

**Newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu**

Nid oedd unrhyw newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) sy'n effeithiol yn y datganiadau ariannol hyn**

Mae'r holl ddehongliadau a diwygiadau IFRS sy'n effeithiol yn ystod y cyfnod adrodd hwn wedi'u mabwysiadu yn y datganiadau hyn.

**Safonau adrodd ariannol rhyngwladol sy'n effeithiol ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol**

Mae nifer o IFRS, diwygiadau a dehongliadau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol, yn effeithiol mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol. Amlinellir y rhai sy'n berthnasol i CNC isod. Nid yw CNC wedi mabwysiadu unrhyw safonau IFRS newydd yn gynnar a byddant yn defnyddio'r safonau wrth eu mabwysiadu'n ffurfiol yn y FReM.

*IAS 1 - Cyflwyno Datganiadau Ariannol*
Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion cyffredinol ar gyfer datganiadau ariannol gan gynnwys sut y dylid eu strwythuro, gofynion cynnwys sylfaenol a chysyniadau gor-redol megis busnes gweithredol, sail gronni cyfrifyddu a'r gwahaniaeth cyfredol/anghyfredol.

Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd yr IASB Rhwymedigaethau Anghyfredol â Chyfamodau, (Diwygiadau i IAS 1), i egluro sut mae amodau y mae'n rhaid i endid gydymffurfio â hwy o fewn deuddeg mis ar ôl y cyfnod adrodd yn effeithio ar ddosbarthiad rhwymedigaeth. Daw'r diwygiadau i rym ar gyfer cyfnodau adrodd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr, 2024.

Ni ddisgwylir i'r diwygiadau hyn gael effaith sylweddol ar adroddiadau ariannol.

*IFRS 16 - lesoedd*
Mae'r safon hon yn nodi sut i adnabod, mesur, cyflwyno a datgelu lesoedd. Mae'r safon yn darparu un model cyfrifo lesddeiliad, sy'n gofyn am gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob les, oni bai bod cyfnod y les yn 12 mis neu lai neu fod gwerth isel i'r ased sylfaenol.

Ar Fedi 22, 2022, cyhoeddodd yr IASB ddiwygiadau i IFRS 16, Lesoedd, sy'n ychwanegu at ofynion sy'n egluro sut mae cwmni'n cyfrif am werthiant a phrydlesu ar ôl dyddiad y trafodiad. Mae'r diwygiadau'n berthnasol ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2024.

Ni ddisgwylir i'r diwygiadau hyn gael effaith sylweddol ar adroddiadau ariannol.

*IFRS 17 – Contractau Yswiriant*
Bydd y safon hon yn berthnasol i bob math o gontract yswiriant ac yn cynnig dull blociau adeiladu yn seiliedig ar werth presennol disgwyliedig llif arian parod yn y dyfodol i fesur rhwymedigaethau contract yswiriant.

Er bod IFRS 17 yn effeithiol ar gyfer cyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023, bydd y safon yn cael ei haddasu ar gyfer cyd-destun a diweddariadau llywodraeth ganolog a wneir i FReM. Mae'r safon i'w chymhwyso yn FReM o 1 Ebrill 2025 (gydag opsiynau cyfyngedig ar gyfer mabwysiadu cynnar); bydd newidiadau i'r FReM yn cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024. Bydd CNC yn parhau i adolygu'r datblygiadau a'r effaith bosibl.

### 1.10 Darpariaethau ariannol (Safleoedd tirlenwi)

Ar gyfer pob safle tirlenwi, mae angen sefydlu trefniadau darpariaeth ariannol cyn cyflwyno trwydded. Rhaid i'r trefniadau darpariaeth ariannol fod ar waith cyn dechrau camau gweithredu gwaredu, ac mae angen i ddarpariaethau o'r fath fod yn ddigonol (mewn termau ariannol), yn ddiogel ac ar gael pan fo angen. Mae safleoedd tirlenwi yn cynnwys yr holl safleoedd gwastraff sy'n ddarostyngedig i'r gyfarwyddeb tirlenwi.

Mae'r canlynol yn brif systemau y bydd CNC yn eu derbyn ar gyfer dangos trefniadau darpariaeth ariannol:

- Bondiau adnewyddadwy (dangosir yn nodyn 14)
- Blaendaliadau arian parod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (dangosir yn nodyn 14)
- Cyfrifon Escrow
- Cytundebau gweithredoedd awdurdodau lleol
- Gwarantau rhiant-gwmni
- Cytundebau ymbarél (yn ymwneud â nifer o safleoedd)

### 1.11 Nodiadau i'r cyfrifon

Mae Nodyn 2 yn darparu dadansoddiad o incwm a gwariant i segmentau gweithredu.
Mae nodiadau 3 i 16 yn cynnig dadansoddiad o ffigurau perthnasol a adroddwyd yn natganiadau gwariant net cynhwysfawr, sefyllfa ariannol a llif arian parod.
Mae nodiadau 17 i 24 yn ymwneud â ffigurau na ddatgelir mewn mannau eraill yn y cyfrifon hyn.

## 2. Dadansoddiad o wariant gweithredu net fesul segment

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

Mae'r segmentau hyn yn gydrannau er mwyn rheoli ac adrodd am wybodaeth ariannol yn fewnol.

Priodolwyd incwm a gwariant a ddangosir isod yn uniongyrchol i'r segmentau.

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Tystiolaeth Polisi a Thrwyddedu | Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Gwariant gweithredu | 36,144 | 127,844 | 74,466 | 14,667 | 6,395 | 40,127 | 299,643 |
| Incwm gweithredu | (1,335) | (53,421) | (69,704) | (8,947) | (95) | - | (133,502) |
| **Cyfanswm** | 34,809 | 74,423 | 4,762 | 5,720 | 6,300 | 40,127 | 166,141 |
| **Gwariant cyfalaf** | 8,729 | 3,720 | 2,628 | 16 | - | - | 15,093 |

Mae CNC yn penderfynu y gellir defnyddio'r categorïau canlynol i fodloni'r gofyniad datgelu dadgyfuno yn IFRS 15.

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Tystiolaeth Polisi a Thrwyddedu | Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Ffioedd a thaliadau | 660 | 314 | 48,690 | - | - | - | 49,664 |
| Masnachol | 237 | 36,577 | 627 | 8,947 | 95 | - | 46,483 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | 438 | 13,956 | 20,061 | - | - | - | 34,455 |
| Cyllid Ewropeaidd ac allanol arall | | 2,574 | 326 | - | - | - | 2,900 |
| **Cyfanswm** | 1,335 | 53,421 | 69,704 | 8,947 | 95 | - | 133,502 |
| | | | | | | | |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Llywodraeth | 433 | 14,998 | 21,323 | 2 | 91 | - | 36,847 |
| Anllywodraethol | 902 | 38,423 | 48,381 | 8,945 | 4 | - | 96,655 |
| **Cyfanswm** | 1,335 | 53,421 | 69,704 | 8,947 | 95 | - | 133,502 |

Tudalen y pecyn 112

## Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment (parhad)

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Tystiolaeth Polisi a Thrwyddedu | Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Gwariant gweithredu | 26,247 | 111,439 | 66,982 | 8,721 | 11,173 | 47,585 | 272,147 |
| Incwm gweithredu | (39,923) | (49,402) | (16,855) | (9,732) | (232) | - | (116,144) |
| **Cyfanswm** | (13,676) | 62,037 | 50,127 | (1,011) | 10,941 | 47,585 | 156,003 |
| | | | | | | | |
| **Gwariant cyfalaf** | 10,650 | 2,085 | 753 | - | - | - | 13,488 |

Mae CNC yn penderfynu y gellir defnyddio'r categorïau canlynol i fodloni'r gofyniad datgelu dadgyfuno yn IFRS 15.

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Tystiolaeth Polisi a Thrwyddedu | Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Ffioedd a thaliadau | 39,496 | 369 | 163 | - | - | - | 40,028 |
| Masnachol | 343 | 38,579 | 246 | 9,732 | 232 | - | 49,132 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | 84 | 6,924 | 15,226 | - | - | - | 22,234 |
| Cyllid Ewropeaidd ac allanol arall | | 3,530 | 1,220 | - | - | - | 4,750 |
| **Cyfanswm** | 39,923 | 49,402 | 16,855 | 9,732 | 232 | - | 116,144 |
| | | | | | | | |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Llywodraeth | 1,969 | 9,743 | 15,550 | - | 232 | - | 27,494 |
| Anllywodraethol | 37,954 | 39,659 | 1,305 | 9,732 | - | - | 88,650 |
| **Cyfanswm** | 39,923 | 49,402 | 16,855 | 9,732 | 232 | - | 116,144 |

## Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment (parhad)

**Disgrifiad o'r segmentau**

| | |
|---|---|
| **Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** | Mae'r Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn darparu gwasanaethau ariannol, archwilio a sicrhau risg, gwasanaethau TGCh, rheoli adeiladau, rheoli fflyd a'r rhaglen adnewyddu.<br><br>Yn ystod 2023/24, rhoddwyd trefniadau parhaol ar waith i reoli ffioedd a thaliadau o fewn y gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yn hytrach nag o fewn y Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol. Mewn blynyddoedd blaenorol, adroddwyd am yr incwm cysylltiedig fel incwm Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ond o 2023/24, fe'u hadroddir fel incwm Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedau. Mae adrodd ar y costau sy'n gysylltiedig â'r ffioedd a'r taliadau yn aros yr un fath ag mewn blynyddoedd blaenorol. |
| **Gweithrediadau** | Mae gan y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau y prif gyfrifoldeb dros sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn ardal ddaearyddol Cymru, gan gynnwys ei hamgylchedd morol, ar draws ystod o gylch gwaith CNC. Mae hefyd yn rheoli rhaglenni cyfalaf, gweithrediadau masnachol a gwasanaethau cynllunio a morol ar gyfer Cymru gyfan. |
| **Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu** | Mae'r Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yn darparu cydgysylltiad canolog blaengar i'r sefydliad, gan arwain ar y gwaith o ddatblygu polisi a strategaeth, tystiolaeth, offer, safonau, arweiniad a chyngor i alluogi timau eraill CNC, cydweithwyr a phartneriaid LlC i gyflawni eu cylch gwaith. Mae hefyd rhai rolau cyflawni uniongyrchol yn y gyfarwyddiaeth fel y Gwasanaeth Trwyddedu a'r Gwasanaeth Darogan Llifogydd. Fel y soniwyd uchod, o 2023/24 ymlaen, rheolir incwm o ffioedd a thaliadau o fewn y gyfarwyddiaeth hon ac felly mae'r incwm a adroddir yn adlewyrchu'r newid hwn. |
| **Cyfathrebu Cwsmeriaid a Masnachol** | Cysylltiadau allanol, cyfathrebu a'r ganolfan gyswllt cwsmeriaid. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb am wasanaethau masnachol a chymorth caffael. |
| **Strategaeth a Datblygu Corfforaethol** | Mae'r Gyfarwyddiaeth Datblygu a Strategaeth Gorfforaethol yn arwain nifer o swyddogaethau trawsbynciol CNC, gan gynnwys cynllunio strategol a pherfformiad; gwelliant parhaus a rheoli rhaglenni; datblygu sefydliadol ac ymgysylltu â staff; a llywodraethu corfforaethol. Mae hefyd yn cefnogi Bwrdd CNC a'r Prif Weithredwr. |
| **Rheolir yn ganolog** | Incwm a gwariant a reolir yn ganolog ac na ddyrennir i gyfarwyddiaethau. Mae'n cynnwys dibrisiant, gwerth llyfr torri coed, croniadau diwedd blwyddyn ar gyfer darpariaethau. |

## 3. Costau staff

Mae manylion pellach am gostau a niferoedd staff bellach yn cael eu datgelu o fewn y tabl Costau o fewn yr Adroddiad Cyflogau a Staff.

| | 2023/24 | | | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff parhaol | Staff arall | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Taliadu a chyflogau | 99,303 | 8,842 | 108,145 | 98,571 |
| Nawdd cymdeithasol a chostau trethu eraill | 10,742 | 778 | 11,520 | 10,180 |
| Costau pensiwn eraill | 23,970 | 686 | 24,656 | 21,978 |
| **Cyfanswm costau cyflog net** | **134,015** | **10,306** | **144,321** | **130,729** |
| Gwariant arall ar gyfer staff | | | 117 | 8,258 |
| Llai symiau a godir ar brosiectau cyfalaf | | | (12,956) | (14,136) |
| **Cyfanswm costau staff** | | | **131,482** | **124,851** |

## 4. Gwaith cyfalaf a wariwyd yn ystod y flwyddyn

| | 2023/24 | 2022/23 | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwirioneddol** | **Gwirioneddol** | **wedi ymrwymo** | **wedi ymrwymo** |
| **Rhaglenni** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Perygl Llifogydd | 25,231 | 15,448 | 9,670 | 11,085 |
| Argyfwng Natur a Hinsawdd | 18,956 | 14,035 | 9,889 | 11,297 |
| Arall | 4,276 | 3,285 | 2,536 | 1,191 |
| **Cyfanswm** | **48,463** | **32,768** | **22,095** | **23,573** |

Mae gwaith cyfalaf a wariwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â gwariant sy'n gyfalaf o ran natur ond lle nad CNC sy'n gyfrifol am y risgiau a'r manteision cysylltiedig neu'n berchen ar yr ased sy'n cael ei adeiladu. Yn unol ag IAS 16, mae gwariant yn gyfalaf ei natur pan fo'n ymwneud ag asedau y bwriedir eu defnyddio, yn barhaus, wrth gynhyrchu neu gyflawni swyddogaethau CNC neu at ddiben gweinyddol. Ni fwriedir iddynt gael eu gwerthu yn ystod busnes arferol. At ddibenion gwaith cyfalaf mewn treuliau yn ystod y flwyddyn, gellir diffinio ei natur gyfalaf hefyd drwy gytundeb grant cyfalaf gan LlC.

Y meini prawf ar gyfer gwariant i'w ddosbarthu fel gwaith cyfalaf mewn treuliau yn ystod y flwyddyn yw;

- Lle mae cyllid cyfalaf dynodedig LlC wedi'i ddyrannu i gynllun, na fyddai fel arfer yn arwain at gaffael ased diriaethol neu anniriaethol sy'n eiddo i CNC yn unol ag IAS 16
- Lle nad yw'r risg a'r gwobrau sy'n ymwneud â bod yn berchen ar yr ased yn nwylo CNC, ond gyda thrydydd parti; neu
- Lle na fyddai'r ased sy'n cael ei greu, waeth beth fo'r ffynhonnell ariannu, yn gallu cael ei nodi'n hawdd mewn unrhyw ymarfer dilysu asedau yn y dyfodol.

**Perygl Llifogydd**

Asedau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol wedi'u hadeiladu ar dir nad yw CNC yn berchen arno ond lle mae ganddo bwerau caniataol i gynnal amddiffyniad, megis:

- Adfer ac adnewyddu
  Gwaith i sicrhau bod cyflwr yr amddiffynfeydd llifogydd yn cael ei gadw yn y cyflwr priodol a'i adfer i'r cyflwr hwnnw yn ôl yr angen.
- Argloddiau
  Creu, gwella neu godi argloddiau ar hyd cyrsiau dŵr i leihau'r risg y bydd y dŵr yn dianc o sianel yr afon.
- Mapio Llifogydd
  Cynhyrchu mapiau aml-haenog sy'n cyflwyno gwybodaeth am lifogydd o ddŵr daear, afonydd a'r môr yng Nghymru, ac sy'n cynnwys gwybodaeth am amddiffynfeydd llifogydd a'r ardaloedd sy'n elwa o'r amddiffynfeydd llifogydd hynny.
- Gosod seilbyst
  Gosod silbyst ar hyd glannau'r afon i'w cryfhau a diogelu'r tir cyfagos ac atal tirlithriadau i'r afon gan achosi rhwystrau. Byddai'r gwaith hwn o dan y ddaear i raddau helaeth.
- Gwelliannau i geuffosydd a sianelau
  Atgyweirio neu ailosod ceuffosydd o dan dir, ffyrdd ac eiddo a gwella sianeli sy'n cynorthwyo llif cyrsiau dŵr.
- Strategaethau rheoli perygl llifogydd
  Datblygu strategaethau i gynnig opsiynau hirdymor o ran rheoli'r perygl o lifogydd i gynnwys ardal fawr. O'r strategaethau hirdymor y mae prosiectau risg llifogydd unigol yn cael eu datblygu.
- Cynlluniau rheoli llifogydd
  Mae Cynlluniau Rheoli Lefel y Dŵr a Chynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch yn cael eu paratoi gyda'r nod o lunio polisïau rheoli'r perygl o lifogydd sy'n rheoli'r perygl o lifogydd mewn modd cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor ar draws dalgylch.

**Argyfwng Natur a Hinsawdd a rhaglenni eraill**

- Gwella Safleoedd Gwarchodedig
  Camau i wella cyflwr safleoedd gwarchodedig a'u nodweddion, ac i adeiladu Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn (RENs) gyda safleoedd gwarchodedig wrth eu gwraidd. Yn cynnwys gweithgareddau ar draws safleoedd gwarchodedig, ar ystâd CNC a chan eraill drwy gyngor, arweiniad a chyllid a gefnogir yn bennaf drwy Gytundebau Rheoli Tir.

- Mawndir
  Gweithio i gefnogi'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

- Gwella Ansawdd Dŵr
  Gwaith cyfalaf i wella ansawdd dŵr i wella cydymffurfiaeth â Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017.

- Pysgodfeydd
  Gwaith sy'n gwella Cynefin Pysgod i ddiogelu stociau pysgod yn y dyfodol a/neu fynd i'r afael â'r prif rwystrau risg uchel sy'n rhwystro symudiadau pysgod i fyny'r afon ac i lawr yr afon yn ogystal ag effeithio'n andwyol ar forffoleg afonydd.

- Mwyngloddiau Metel
  Dyluniad manwl o systemau trin dŵr i atal llygredd dŵr o fwyngloddiau. Astudiaethau dichonoldeb, datblygu archwiliadau o amgylch mwyngloddiau i ddargyfeirio'r dŵr i ffwrdd oddi wrthynt.

- Gwella statws cadwraeth
  Gwaith sy'n gwella statws cadwraeth tir nad yw o dan reolaeth uniongyrchol CNC. Mae hyn yn cynnwys gwella safleoedd coetir hynafol a blannwyd yn Flaenoriaeth 1 a llwybrau newydd a adeiladwyd at ddefnydd y cyhoedd.

- Gwaith diogelwch cronfeydd dŵr
  Gwelliannau i gronfeydd dŵr lle mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn rhoi'r cyfrifoldeb hwnnw ar berchennog y gronfa. Yn benodol, mae'r mesurau hyn yn cael eu cymryd er budd diogelwch.

- Coedwig Genedlaethol
  Prosiectau i helpu safleoedd coetir i ennill statws y Goedwig Genedlaethol. Buddsoddiad cyfalaf mewn Coedwigoedd Cenedlaethol presennol i gynnal statws.

- Gwaith arall
  Yn cynnwys gwelliannau i lifddorau a dyfrffyrdd eraill, amnewid telemetreg.

## 5. Gwariant arall

| | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| **Eitemau arian parod** | | |
| Gwasanaethau a brynwyd i mewn | 19,533 | 23,512 |
| Cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr | 12,066 | 11,492 |
| Costau TGCh | 8,093 | 7,866 |
| Cynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd coedwig | 6,272 | 5,725 |
| Costau rhedeg swyddfa | 5,479 | 3,825 |
| Deunyddiau ac offer | 3,801 | 3,932 |
| Costau fflyd | 2,997 | 2,746 |
| Cytundebau lefel gwasanaeth | 2,678 | 2,561 |
| Costau cysylltiedig â staff | 2,534 | 2,631 |
| Cytundebau cydweithredol | 1,831 | 2,437 |
| Grantiau | 1,818 | 1,637 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,080 | 1,096 |
| Ffioedd a chostau llys | 932 | 846 |
| Ardrethi | 692 | 710 |
| Costau gweithredol | 739 | 732 |
| Colledion a thaliadau arbennig [1.] | 328 | 112 |
| Rhenti | 295 | 383 |
| Ffioedd archwilio statudol | 231 | 182 |
| **Is-gyfanswm** | **71,399** | **72,425** |
| | | |
| **Gwariant nad yw'n arian parod** | | |
| Gwerth y pren a werthir | 25,501 | 26,476 |
| Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad | 14,252 | 13,881 |
| Symud ar gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr | 8,478 | (194) |
| Colledion [1.] | 80 | 266 |
| Symud ar y golled credyd disgwyliedig | 55 | 81 |
| Dadgydnabod asedau [2.] | 28 | 67 |
| Symudiad ar ddarpariaethau eraill | (32) | 817 |
| (Enillion)/Colledion wrth waredu | (63) | 709 |
| **Is-gyfanswm** | **48,299** | **42,103** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **119,698** | **114,528** |

1. Dangosir manylion dyledion a ddilëwyd, colledion a thaliadau arbennig yn yr adroddiad Seneddol ac Archwilio.

2. Cafodd gwariant cyfalafol o £28k nad oedd yn arwain at gwblhau ased cyfalaf fel y'i diffinnir gan IAS 16 eu dadgydnabod yn ystod 2023/24 (Cafodd asedau strwythur cyhoeddus o £67k nad yw CNC yn berchen arnynt nac yn eu cynnal eu dadgydnabod yn 2022/23).

## 6. Dadansoddiad incwm

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | 2023/24<br>£'000 | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd tynnu dŵr [1.] | 29,774 | 21,452 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 7,586 | 6,993 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau | 3,682 | 3,263 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff | 2,317 | 2,182 |
| Taliadau diogelu amgylcheddol eraill | 1,925 | 1,750 |
| Trwyddedau pysgota | 1,135 | 1,026 |
| Gwastraff Peryglus | 1,085 | 1,389 |
| Rheoleiddio niwclear | 842 | 781 |
| Gwaith adnoddau dŵr gwaith y gellir codi tâl amdano | 742 | 698 |
| Masnachu allyriadau | 334 | 143 |
| Trwyddedu Morol | 242 | 351 |
| **Cyfanswm incwm taliadau** | **49,664** | **40,028** |
| Incwm o bren | 31,914 | 33,652 |
| Incwm o ynni adnewyddadwy [2.] | 7,977 | 9,688 |
| Incwm o ystadau | 2,952 | 2,686 |
| Incwm o ardaloedd draenio mewnol | 1,516 | 1,462 |
| Darparu gwybodaeth a gwasanaethau | 1,489 | 1,492 |
| Incwm amrywiol | 359 | 51 |
| Costau cyfreithiol a adenillwyd ac incwm Deddf Elw Trosedda | 246 | 101 |
| Llog derbyniadwy | 30 | - |
| **Cyfanswm incwm masnachol ac arall** | **46,483** | **49,132** |
| **Grantiau Llywodraeth Cymru** | **34,455** | **22,234** |
| Incwm Ewropeaidd [3.] | 2,390 | 3,773 |
| Grantiau a chyfraniadau | 510 | 977 |
| **Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall** | **2,900** | **4,750** |
| **Cyfanswm yr incwm** | **133,502** | **116,144** |

1. Mae taliadau tynnu dŵr yn cynnwys incwm o £8,478k (tâl 22/23 o £194k) mewn perthynas â thaliadau cynyddol i Dŵr Cymru Welsh Water a godir tâl ar gwsmeriaid ar eu cyfer, fel y manylir yn nodyn 9.
2. Dangosir incwm ynni adnewyddadwy yn net o ffioedd sy'n ddyledus i LlC mewn perthynas ag incwm ynni gwynt. Mae'r balans o £7,977k (£9,688k yn 2022/23) yn cynrychioli incwm gwerth £19,667k (£18,286k yn 2022/23) ar ôl didynnu'r taliad ffioedd i LlC o £11,690k (£8,597k yn 2022/23).
3. Gan gynnwys incwm a hawlir trwy Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru ar gyfer prosiectau a ariennir gan Ewrop.

### 6.1 Dadansoddiad o ffioedd a thaliadau

| Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2024 | Incwm £'000 | Gwariant £'000 | Gwarged/ (Diffyg) £'000 |
|---|---|---|---|
| Ffioedd tynnu dŵr | 30,648 | 29,774 | **874** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 7,292 | 7,586 | **(294)** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau | 3,447 | 3,682 | **(235)** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff | 1,902 | 2,317 | **(415)** |
| Taliadau diogelu amgylcheddol eraill | 1,772 | 1,925 | **(153)** |
| Trwyddedau pysgota | 1,135 | 1,135 | **0** |
| Gwastraff Peryglus | 951 | 1,085 | **(134)** |
| Rheoleiddio niwclear | 744 | 842 | **(98)** |
| Gwaith adnoddau dŵr gwaith y gellir codi tâl amdano | 742 | 742 | **0** |
| Masnachu allyriadau | 170 | 334 | **(164)** |
| Trwyddedau morol | 242 | 242 | **0** |
| **Cyfanswm** | **49,045** | **49,664** | **(619)** |

| Ffigurau cymharol - ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben : | Incwm £'000 | Gwariant £'000 | Gwarged/ (Diffyg) £'000 |
|---|---|---|---|
| Ffioedd tynnu dŵr | 20,497 | 21,452 | **(955)** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 6,748 | 6,993 | **(245)** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau | 3,471 | 3,263 | **208** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff | 2,002 | 2,182 | **(180)** |
| Taliadau diogelu amgylcheddol eraill | 1,562 | 1,750 | **(188)** |
| Trwyddedau pysgota | 1,026 | 1,026 | **0** |
| Gwastraff Peryglus | 1,328 | 1,389 | **(61)** |
| Rheoleiddio niwclear | 735 | 781 | **(46)** |
| Gwaith adnoddau dŵr gwaith y gellir codi tâl amdano | 698 | 698 | **0** |
| Masnachu allyriadau | 143 | 143 | **0** |
| Trwyddedau morol | 348 | 351 | **(3)** |
| **Cyfanswm** | **38,558** | **40,028** | **(1,470)** |

Mae refeniw yn cael ei gydnabod yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth a bennir mewn contract gyda'r cwsmer. Mae CNC yn cydnabod refeniw yn unol â'r pum cam a nodir yn IFRS 15 Revenue o gontractau â chwsmeriaid. Cydnabyddir refeniw pan fydd CNC yn cyflawni rhwymedigaeth perfformiad.

Mae incwm o daliadau am reoleiddio busnesau yng Nghymru i fonitro a rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd, boed yn aer, dŵr neu dir, yn deillio o gyfuniad o ffioedd a thaliadau. Mae incwm o daliadau yn perthyn i ddau brif gategori:

**Ceisiadau** am hawlen neu drwydded. Y contract gyda'r cwsmer yw adolygu'r cais a chyflwyno ased o'r enw trwydded sy'n rhoi hawl cyfreithiol i'r cwsmer gyflawni ei weithrediad o dan ein rheoliad. Mae gennym hawl diamod i daliad gan y cwsmer pan gyflwynir cais am hawlen. Ni fydd CNC yn dechrau ar eu hasesiad nes bod yr arian wedi dod i law. Mae'r incwm yn cael ei gydnabod ar yr adeg y gwneir y cais a derbynnir arian. Ar gyfer ffioedd trwydded 12 mis sy'n daladwy o fewn blwyddyn ariannol, mae'r rhwymedigaeth dros y 12 mis hwnnw fel bod incwm i'w briodoli i'r blynyddoedd ariannol perthnasol. Lle derbynnir incwm ceisiadau ar gyfer Ansawdd Dŵr, Gwastraff a Gosodiadau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol, cynhelir asesiad a chaiff y gwerth sydd i'w briodoli i'r flwyddyn ariannol nesaf wrth i dderbynebau ymlaen llaw gael eu cario ymlaen o fewn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

**Tâl cynhaliaeth** sy'n gystylliedig â thrwyddedau a hawlenni, sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'r cwsmer gyflawni eu gweithrediad am gyfnod o amser o dan reoliad CNC. Unwaith y bydd trwydded yn cael ei rhoi, mae CNC yn cymryd y risgiau sy'n gynhenid i reoleiddio'r cwsmer yn ei weithgarwch. Ym mhob achos, mae'r cwsmer yn derbyn y drwydded ar yr un pryd â'r anfoneb ac felly mae incwm cynhaliaeth yn cael ei gydnabod pan faigg ei bilio ar yr adeg y mae cyfnod y drwydded newydd yn dechrau. Cyhoeddir anfonebau yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol ar gyfer y flwyddyna rhaid eu talu ar unwaith. Ar gyfer ffioedd a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn, codir yr anfoneb ar sail pro rata o ddyddiad y drwydded neu hawlen hyd at diwedd y flwyddyn ariannol. Os bydd hawlen yn cael ei hildio yna caiff nodyn credyd ei godi o'r dyddiad darfod hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Ar gyfer trafodion masnachol, mae'r cwsmer yn derbyn ac yn defnyddio'r buddion a ddarperir ar yr un pryd, ac mae'r refeniw yn cael ei gydnabod ar adeg benodol.

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, mae ffioedd a thaliadau yn cael eu pennu ar sail adennill costau llawn gan ystyried balansau’r cynllun. Mae gwargedion a diffygion cronedig sy'n ymwneud â'n cynlluniau taliadau yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig yn dibynnu a yw'r cynllun codi tâl mewn gwarged neu ddiffyg. Dim ond pan fyddant wedi codi ar ddamwain o ganlyniad i amgylchiadau heb eu cynllunio yn unol â diffiniad Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru y mae'r balansau hyn yn cael eu trin fel incwm gohiriedig, neu lle mae cynllun yn y dyfodol i ddefnyddio'r balansau hynny. Ystyrir y balansau incwm gohiriedig a chronedig wrth bennu ffioedd a thaliadau blynyddoedd i ddod er mwyn cyflawni sefyllfa adennill costau dros gyfnod rhesymol o amser, nad yw, oherwydd gwahaniaethau amseru, yn cael ei ystyried yn briodol o fewn un flwyddyn ariannol.

Mae gennym drefniant trosiannol lle bydd balansau materol heb gynllun yn cael eu lleihau erbyn 31 Mawrth 2025. Mae'r driniaeth hon yn mynd y tu hwnt i’r meini prawf cydnabod refeniw safonol a amlinellir yn y paragraff cyntaf uchod.

**Dyfarniad arwyddocaol ar gydnabod incwm i sicrhau sefyllfa adennil costau**
Gwneir dyfarniad ynghylch bodloni rhwymedigaethau perfformiad ar ffioedd a thaliadau ac incwm masnachol yn unol ag IFRS15. O fewn symiau derbyniadwy (nodyn 11) a symiau taladwy (nodyn 14), mae balansau incwm cronedig a gohiriedig ar gyfer ffioedd a thaliadau lle mae gwarged neu ddiffyg. Fel y soniwyd uchod, mae'n ofynnol i gynlluniau codi tâl adennill costau dros gyfnod rhesymol o amser, ac mae angen barnu wrth asesu'r ffactorau y tu ôl a fydd y gwarged neu'r diffyg yn arwain at sefyllfa adennill costau dros y cyfnod rhesymol hwn (a adroddir yn nodiadau 11 a 14)

Mae gwariant a ariennir gan gymorth grant wedi'i eithrio o'r tabl uchod. Nid yw'r tabl yn cynnwys effaith addasiadau pensiwn IAS 19 ond mae'n cynnwys cyfraniadau cyflogwr yn ystod y flwyddyn i'r cynlluniau pensiwn, sy'n cael eu trosglwyddo i dalwyr taliadau. Yr amcan ariannol ar gyfer y cynlluniau codi tâl yw adennill costau yn llawn gan gynnwys dibrisiant cost cyfredol a chyfradd enillion ar asedau perthnasol.

Mae gweithgareddau allweddol pob adran yn cael eu rhestru isod:

- Taliadau tynnu – codi tâl ar fusnesau sy'n tynnu dŵr o afonydd neu ddŵr daear. Mae'r incwm a adroddir hefyd yn cynnwys elfennau eraill o incwm adnoddau dŵr.
- Gwaith adnoddau dŵr y gellir codi tâl amdano – incwm i adfer ymdrech adnoddau dŵr CNC ar lawr gwlad, megis costau gweithredol yn nalgylch Hafren Uchaf (ar ochr Cymru o'r ffin), sy'n dod o dan awdurdodaeth Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Trwyddedau pysgota – codi tâl ar unigolion am drwyddedau i bysgota.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr – codi tâl am ollyngiadau gan fusnesau i'r amgylchedd.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau – caniatáu rheoli a lleihau llygredd o weithgareddau diwydiannol.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: rheoli gwastraff – trwyddedu ac esemptiadau.
- Gwastraff peryglus – trwyddedu ar gyfer cynhyrchu, cludo, neu dderbyn gwastraff peryglus.
- Masnachu allyriadau ac Ymrwymiad Lleihau Carbon - rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau'r UE.
- Rheoleiddio niwclear – rheoleiddio safleoedd niwclear a rhai nad ydynt yn niwclear a safleoedd niwclear sy’n cael eu hadeiladu o’r newydd.
- Trwyddedau morol – rheoleiddio dyddodion, symudiadau, prosiectau adeiladu ar wely'r môr neu oddi tano a phob math o lusgrwydo.
- Diogelu’r amgylchedd mewn ffordd arall – trwyddedu ar gyfer cofrestru cludwyr gwastraff a broceriaid, llwythi trawsffiniol, trwyddedu cyfrifoldeb cynhyrchwyr am offer electronig a thrydanol gwastraff, cerbydau diwedd oes, biffenylau polyclorinedig, cydsyniadau amddiffyn rhag llifogydd, cydymffurfiaeth cronfeydd dŵr, cyngor cynllunio datblygu a rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau fel rheoli peryglon damweiniau mawr.

## 7. Asedau anghyfredol

Mae dau gategori o asedau anghyfredol – asedau diriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.1 ac asedau anniriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.2

**Cydnabyddiaeth**

Mae'r holl dir yn cael ei gyfalafu waeth beth fo'i werth. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau eraill sydd ag oes economaidd ddefnyddiol o fwy na blwyddyn yw £5,000. Gellir grwpio eitemau unigol sy'n costio llai na £5,000 fel un ased os yw cyfanswm y gost yn fwy na £5,000, a bod yr asedau hyn yn gweithredu fel rhan o rwydwaith. Mae gwariant dilynol ar ased yn cael ei gyfalafu os bodlonir y meini prawf ar gyfer cyfalafu cychwynnol, ei bod hi'n debygol y bydd manteision economaidd ychwanegol i CNC ac y gellir mesur cost y gwariant yn ddibynadwy. Mae costau dilynol wedi'u cynnwys yn swm cario'r ased neu'n cael eu cydnabod fel ased ar wahân, os yw'n briodol.

Mae asedau ar brydles i bartïon allanol o dan brydles weithredol yn cael eu cyfalafu o dan y polisi cyfrifyddu priodol.

Gwneir dyfarniad i gategoreiddio gwariant fel gwaith cyfalaf a godir yn ystod y flwyddyn, ac asedau diriaethol ac anniriaethol.

**Mesur**

Adroddir ar yr holl asedau anghyfredol ar wahân i asedau treftadaeth ac asedau sy'n cael eu hadeiladu naill ai ar werth cyfredol yn y defnydd presennol neu werth teg yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Mae asedau a ddosberthir fel asedau treftadaeth yn cynnwys tir mewn ardaloedd cadwraeth dynodedig. Mae'r tir hwn yn cael ei gadw i gefnogi diben CNC. Oherwydd natur amrywiol y tir a gedwir a gwerthoedd marchnad tebyg, mae CNC o'r farn y byddai sicrhau prisiadau allanol yn golygu cost anghymesur. Felly, mae asedau treftadaeth yn cael eu dal ar gost. Cydnabyddir costau cadw (gwariant sy'n ofynnol i ddiogelu'r ased treftadaeth) yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan gânt eu gwario. Ceir rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth yn nodyn 7.1.3.

Mae peiriannau, offer technoleg gwybodaeth ac asedau anniriaethol oll yn asedau tymor byr a defnyddir cost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi ar gyfer gwerth teg.

Mae asedau sydd wedi'u cyfalafu fel rhai sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu cludo ar gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i'r lleoliad ac i'r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan reolwyr. Ni chânt eu hailbrisio ac fe'u trosglwyddir i'r categori asedau anghyfredol priodol pan fyddant wedi'u cwblhau ac yn barod i'w defnyddio.

<u>Mynegeio ac Ailbrisio</u>

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwahanol fethodolegau prisio a ddefnyddir ar gyfer y gwahanol gategorïau o asedau a adroddir amdanynt yn nodyn 7.1

Sicrhawyd ansawdd y prisiadau a'r mynegeion a gymhwyswyd gan brif syrfëwr CNC. Roedd gan bob prisiwr ddigon o wybodaeth leol a chenedlaethol gyfredol o'r farchnad, a'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i gyflawni'r prisiad yn gymwys

Ymgymerwyd â'r holl brisiadau yn unol â gofynion Llyfr Coch RICS.

Rhaglen Dreigl

| Colofn adrodd yn Nodyn 7.1 | Dosbarth Ased | Methodoleg Prisio | Dyddiad prisiad llawn diwethaf | Proses ar gyfer 2023/24 | Prisiwr |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ystad Goedwig** | Ystad Goedwig | Gwerth teg | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |
| **Tir rhydd-ddaliad** | Tir Amaethyddol - Ased ac Adeiladau | Gwerth teg | 31 Mawrth 2023 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Tir Amaethyddol - Heb Adeiladau | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Ystad Goetir Llywodraeth Cymru | Gwerth teg | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |
| | Tir rhydd-ddaliad | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| **Tir Arall** | Ffermydd Gwynt | Gwerth teg | 31 Mawrth 2023 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Cynlluniau Hydro | Gwerth teg | 31 Mawrth 2023 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Mynediad trydydd parti | Gwerth teg | 31 Mawrth 2023 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Mastiau Telecom | Gwerth teg | 31 Mawrth 2023 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Lesoedd Mwynau | Gwerth teg | 31 Mawrth 2023 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Cytundebau Eraill | Gwerth teg | 31 Mawrth 2023 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Forest Holidays | Gwerth teg | 31 Mawrth 2023 | Prisiad llawn | Mewnol |
| **Adeiladau** | Anheddau | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Swyddfeydd a Masnachol | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Adeiladau Eraill (heb fod yn arbenigol) | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Depos (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Siediau ceirw (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Blociau Toiledau (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Cuddfannau Adar | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Canolfannau Ymwelwyr a Gwybodaeth (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Arall (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |

| Colofn adrodd yn Nodyn 7.1 | Dosbarth Ased | Methodoleg Prisio | Dyddiad prisiad llawn diwethaf | Proses ar gyfer 2023/24 | Prisiwr |
|---|---|---|---|---|---|
| **Strwythurau Gweithredol** | Tyllau turio | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Gorsaf Fesur | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Llifddorau a choredau | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Strwythurau Môr ac Afon | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Llifddorau | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Arall | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Gorsafoedd pwmpio | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Llwybrau Pysgod | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| **Strwythurau Gweithredol (Strwythurau Cyhoeddus)** | Llwybrau Pren | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Llwybrau Beicio | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Arall | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Meysydd parcio | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Llwybrau cerdded | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| **Asedau Biolegol** | Asedau Biolegol | Gwerth teg | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |
| **Asedau Treftadaeth** | Asedau Treftadaeth | Cost hanesyddol | Ddim yn berthnasol | Yn cael ei gadw ar gost | Ddim yn berthnasol |
| **Ased Hawl i Ddefnyddio (Prydlesi Hedyn Pupur)** | Ystad Goedwig | Gwerth teg | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |

Mae Ystâd y Goedwig, tir, adeiladau a strwythurau cyhoeddus wedi cael eu prisio'n llawn yn broffesiynol bob pum mlynedd yn y gorffennol yn unol â safonau gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) (y Llyfr Coch).

Yn 2020/21 sefydlwyd rhaglen dreigl ar gyfer prisiadau llawn.  Darperir y prisiadau ar 31 Mawrth 2024 gan gwmnïau perthnasol y Syrfewyr Siartredig neu gan briswyr mewnol. Lle cynhaliwyd prisiad llawn, nodir hyn yn y tabl uchod.  Rhwng y prisiadau llawn hyn, mae asedau'n cael eu prisio'n rheolaidd bob blwyddyn.

Lle cynhaliwyd prisiadau mewnol, fe'u cyflawnwyd gan ein tîm mewnol o syrfewyr siartredig, dan gyfarwyddyd y Prif Syrfëwr.

Lle nad oes prisiad wedi'i gynnal, cyflwynwyd y cyfraddau mynegeio priodol gan y Prif Syrfëwr.

Ar gyfer strwythurau gweithredol, byddai FReM yn disgwyl i ni ddefnyddio'r dull cost amnewid dibrisiedig. Ar gyfer CNC, mae hynny'n anymarferol ac nid yw'n gost effeithiol, felly rydym wedi defnyddio cost hanesyddol wedi'i haddasu fel procsi ar gyfer cost amnewid dibris i roi gwerth teg inni.

Mae addasiadau sy'n codi o fynegeio ac ailbrisiadau yn mynd i'r gronfa ailbrisio oni bai bod y balans wrth gefn mewn perthynas ag ased penodol wedi'i ddefnyddio'n llawn yn erbyn ailbrisiad disgynnol, ac os felly, cydnabyddir y symudiad yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr. Trosglwyddir unrhyw ostyngiadau parhaol mewn gwerth i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

**Dibrisiant ac amorteiddiad**

Nid yw tir (ystâd y goedwig a thir heblaw coedwig) a hawliau anniriaethol i dir yn cael eu dibrisio, oni bai bod y tir yn elfen hanfodol o strwythur gweithredol. Mae'r asedau hyn yn cael eu dibrisio dros oes y strwythur gweithredol perthnasol. Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio nes eu bod yn gallu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan reolwyr.

Mae cerbydau a ddangosir yn y categori peiriannau ac offer yn cael eu dibrisio ar sail cydbwysedd sy'n lleihau ar gyfradd o 21%. Mae pob ased arall yn cael ei ddibrisio/amorteiddio ar sail llinell syth dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig. Codir dibrisiant ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mis ei waredu, ond nid ym mis ei gaffael.

Gwneir dyfarniad ar yr oes economaidd ddefnyddiol sy'n ffurfio sylfaen i'r cyfnod y mae eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu dibrisio ac asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio. Mae amcangyfrif o oes asedau yn cael ei hadolygu a'i haddasu os yw'n briodol ar bob dyddiad adrodd. Y prif oesoedd defnyddiol a ddefnyddir at ddibenion dibrisiant yw:

| **Categori Asedau** | **Prif oes defnyddiol** |
|---|---|
| **Asedau diriaethol** | |
| Adeiladau ac Anheddau | 10 - 60 mlynedd |
| Peiriannau ac offer | 4 - 25 mlynedd |
| Technoleg Gwybodaeth | 3 - 10 mlynedd |
| Strwythurau Gweithredol | 5 - 100 mlynedd |
| **Asedau anniriaethol** | |
| Trwyddedau meddalwedd | 5 - 25 mlynedd |
| Trwyddedau eraill | 5 - 50 mlynedd |
| Datblygiadau meddalwedd | 3 - 10 mlynedd |
| Gwefan | 5 - 10 mlynedd |

Mae'r ystod yn yr oesoedd defnyddiol uchod yn adlewyrchu'r amrywiaeth o asedau yn y categorïau asedau.
Byddai asedau gwella lesddaliad yn eithriad, sydd â’r un oes â’r les gymharol.
Mae trwyddedau eraill hefyd yn cynnwys asedau a ddelir am byth.
Mae gan y rhan fwyaf o asedau yn y categorïau hyn oesoedd defnyddiol yn yr ystodau hyn.

**Gwarediadau**

Pan waredir ar ased, caiff ei swm cario ei ddileu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) hefyd yn cael eu credydu i'r enillion neu’r colledion wrth eu gwaredu. Trosglwyddir unrhyw enillion ailbrisio a gronnwyd ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol.

**Cronfa Ailbrisio**

Mae'r gronfa ailbrisio yn dangos yr enillion a wnaed gan CNC sy'n deillio o godi gwerth asedau anghyfredol.
Mae’r balans yn lleihau pan fydd asedau ag enillion cronnus:

- Yn cael eu hailbrisio tuag i lawr neu wedi’u gwanhau a chollir yr enillion.
- Yn cael eu defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau a chaiff yr enillion eu defnyddio trwy ddibrisiant.
- Yn cael eu gwaredu a gwireddir yr enillion.

Mae swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant a godir ar swm cario ailbrisio'r asedau a dibrisiant yn seiliedig ar gost wreiddiol yr ased yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol.

**Amhariad**

Mae asedau anghyfredol yn cael eu hadolygu o ran amhariad bob blwyddyn. Cydnabyddir amhariadau pan fydd swm adferadwy asedau anghyfredol yn disgyn yn is na'u gwerth llyfr net, o ganlyniad naill ai i gwymp mewn gwerth oherwydd amodau'r farchnad, colled mewn budd economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth. Mae ailbrisiadau disgynnol sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth y farchnad yn arwain at amhariad pan fydd yr ased yn cael ei ailbrisio yn is na'i swm cario cost hanesyddol yn unig. Mae'r FReM yn ei gwneud yn ofynnol mai'r colledion amharu hynny nad ydynt yn deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth yn unig y dylid eu gosod yn gyntaf yn erbyn unrhyw
falans cronedig yn y gronfa ailbrisio. Cydnabyddir unrhyw swm ychwanegol at hyn yn amhariad trwy'r datganiad o wariant net cynhwysfawr. Dylid cymryd colledion amhariad sy'n codi o ddefnydd clir o fudd economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth yn llawn i'r Datganiad o Warant Net Cynhwysfawr. Trosglwyddir swm i werth yr amhariad o'r gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol ar gyfer yr asedau unigol dan sylw.

**Asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu**

Mae asedau anghyfredol yn cael eu dosbarthu fel asedau a gedwir i'w gwerthu os bydd y swm cario yn cael ei adfer yn bennaf trwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ddefnydd parhaus, ac ystyrir bod gwerthiant o fewn 12 mis i'r dyddiad adrodd yn debygol iawn, bod y rheolwyr wedi ymrwymo i werthu a bod yr ased yn cael ei farchnata'n weithredol yn ei gyflwr presennol am bris sy'n rhesymol mewn perthynas â'i gyflwr presennol.
Daw dibrisiant i ben ar unwaith wrth ddosbarthu'r asedau fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu. Fe'u nodir ar y lefel isaf o'u swm cario a'u gwerth teg llai costau i'w gwerthu, ac fe'u cofnodir fel asedau cyfredol yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

## 7.1 Asedau diriaethol anghyfredol

| | Ystad goedwig | Tir arall | Adeiladau | Peiriannau ac offer | Technoleg gwybodaeth | Strwythurau gweithredol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer | Asedau biolegol | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau diriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 1,787,442 | 246,111 | 14,366 | 26,992 | 13,702 | 94,556 | 3,525 | **2,186,694** | 447,864 | 7,474 | **2,642,032** |
| Ychwanegiadau | - | 1,039 | 134 | 1,640 | 18 | 91 | 4,461 | **7,383** | - | - | **7,383** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | - | - | - | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | (4) | - | (824) | (12,376) | (103) | - | **(13,307)** | - | - | **(13,307)** |
| Symud o/(i) gadw i'w werthu | 8 | - | (1) | (244) | - | - | - | **(237)** | - | - | **(237)** |
| Cwympiadau | (19,857) | - | - | - | - | - | - | **(19,857)** | (7,532) | - | **(27,389)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | (23,842) | 51,143 | 231 | - | - | 1,655 | - | **29,187** | (38,143) | - | **(8,956)** |
| Ailddosbarthu | - | 1,570 | - | 111 | 32 | 595 | (2,291) | **17** | - | 56 | **73** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 1,743,751 | 299,859 | 14,730 | 27,675 | 1,376 | 96,794 | 5,695 | **2,189,880** | 402,189 | 7,530 | **2,599,599** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dibrisiad** | | | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | - | - | 1,156 | 16,796 | 12,947 | 28,576 | - | **59,475** | - | - | **59,475** |
| Taliadu yn ystod y flwyddyn | - | - | 642 | 1,756 | 148 | 3,157 | - | **5,703** | - | - | **5,703** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | - | - | (677) | (12,376) | (87) | - | **(13,140)** | - | - | **(13,140)** |
| Symud o/(i) gadw i'w werthu | - | - | - | (246) | - | - | - | **(246)** | - | - | **(246)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | 11 | - | - | 480 | - | **491** | - | - | **491** |
| Ailddosbarthu | - | - | - | (19) | - | 19 | - | **-** | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | - | - | 1,809 | 17,610 | 719 | 32,145 | - | **52,283** | - | - | **52,283** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 2023** | **1,787,442** | **246,111** | **13,210** | **10,196** | **755** | **65,980** | **3,525** | **2,127,219** | **447,864** | **7,474** | **2,582,557** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **1,743,751** | **299,859** | **12,921** | **10,065** | **657** | **64,649** | **5,695** | **2,137,597** | **402,189** | **7,530** | **2,547,316** |

Mae'r adeiladau'n cynnwys anheddau sydd â swm cario o £322k. Mae'r adeiladau eraill yn swyddfeydd a chanolfannau gwaith.

Y swm a gedwir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer asedau diriaethol ar 31 Mawrth 2024 oedd £2,038,589k.

## Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Ystad goedwig | Tir arall | Adeiladau | Peiriannau ac offer | Technoleg gwybodaeth | Strwythurau gweithredol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer | Asedau biolegol | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau diriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | 1,723,640 | 204,473 | 14,570 | 26,231 | 13,709 | 87,592 | 3,335 | **2,073,550** | 457,790 | 7,403 | **2,538,743** |
| Trosglwyddiad i ased hawl defnyddio ar 1 Ebrill 20 | (48,317) | (4,093) | - | - | - | - | - | **(52,410)** | - | - | **(52,410)** |
| Ychwanegiadau | 1,858 | 201 | - | 1,657 | - | 167 | 2,414 | **6,297** | - | 71 | **6,368** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | 395 | 324 | - | 1,142 | - | 348 | (2,209) | **-** | - | - | **-** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | (209) | (788) | (2,117) | (7) | (157) | (16) | **(3,294)** | - | - | **(3,294)** |
| Symud o/(i) gadw i'w werthu | (9) | 217 | 254 | 79 | - | - | - | **541** | - | - | **541** |
| Cwympiadau | (19,218) | - | - | - | - | - | - | **(19,218)** | (7,290) | - | **(26,508)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 129,093 | 45,065 | 463 | - | - | 6,606 | 1 | **181,228** | (2,636) | - | **178,592** |
| Ailddosbarthu | - | 133 | (133) | - | - | - | - | **-** | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 1,787,442 | 246,111 | 14,366 | 26,992 | 13,702 | 94,556 | 3,525 | **2,186,694** | 447,864 | 7,474 | **2,642,032** |
| **Dibrisiad** | | | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | - | - | 105 | 16,748 | 12,805 | 23,536 | - | **53,194** | - | - | **53,194** |
| Trosglwyddiad i ased hawl defnyddio ar 1 Ebrill 20 | - | - | - | - | - | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Taliadu yn ystod y flwyddyn | - | - | 944 | 1,690 | 149 | 3,403 | - | **6,186** | - | - | **6,186** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | - | (5) | (1,685) | (7) | (31) | - | **(1,728)** | - | - | **(1,728)** |
| Symud o/(i) gadw i'w werthu | - | - | 108 | 43 | - | - | - | **151** | - | - | **151** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | (2) | 6 | - | - | 1,668 | - | **1,672** | - | - | **1,672** |
| Ailddosbarthu | - | 2 | (2) | - | - | - | - | **-** | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | - | - | 1,156 | 16,796 | 12,947 | 28,576 | - | **59,475** | - | - | **59,475** |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 2022** | **1,723,640** | **204,473** | **14,465** | **9,483** | **904** | **64,056** | **3,335** | **2,020,356** | **457,790** | **7,403** | **2,485,549** |
| **Cario swm ar 31 Mawrth 2023** | **1,787,442** | **246,111** | **13,210** | **10,196** | **755** | **65,980** | **3,525** | **2,127,219** | **447,864** | **7,474** | **2,582,557** |

**Ariannu Asedau**

Mae asedau y penderfynwyd eu bod yn cael eu dal dan brydles wedi'u trosglwyddo i nodyn 8.1 ar ôl gweithredu IFRS 16.  Gweler nodyn 8 am fwy o fanylion.

Mae'r adeiladau'n cynnwys anheddau gyda swm cario o £344k. Mae'r adeiladau eraill yn swyddfeydd a chanolfannau gwaith.

Y swm a gedwir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer asedau diriaethol ar 31 Mawrth 2023 oedd £2,028,174k.

### 7.1.1 Ystad y goedwig gan gynnwys asedau biolegol

Mae perchnogaeth gyfreithiol dros Ystad Goetir Llywodraeth Cymru wedi'i breinio gyda Gweinidogion Cymru. Fe'i cynhwysir yn Natganiad Sefyllfa Ariannol CNC gan fod CNC yn gyfrifol am y risgiau a'r gwobrau ariannol sy'n gysylltiedig â'r ystad, ac sy'n ymgymryd â phob gweithgaredd mewn perthynas â rheoli'r ystad. Mae'r ystad yn cynnwys tir a phren sy'n tyfu. Mae perchnogaeth gyfreithiol ar bren, gan gynnwys coed heb eu torri, wedi'i freinio yn CNC.

Mae coetiroedd a choedwigoedd yn cael eu cadw a'u rheoli'n bennaf i gyflawni'r amcanion rheoli coedwigoedd cynaliadwy a nodir yn Coetiroedd Cymru (strategaeth LlCy ar gyfer coetiroedd a choed). Gellir rhannu eu diben rhwng economaidd (cyfraniad at economi ffyniannus a chynaliadwy Cymru) ac eraill (cymdeithasol, amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd). O dan safon cyfrifeg ryngwladol 41 (amaethyddiaeth), rhaid dosbarthu pren a dyfir at bwrpas economaidd fel asedau biolegol. Mae gweddill y pren, ynghyd â'r holl dir sylfaenol, yn cael ei ddosbarthu fel eiddo, peiriannau ac offer a chyfeirir ato fel ystâd y goedwig.

Mae addasiadau sy'n codi o ailbrisio ystad y goedwig yn cael eu cludo i'r gronfa ailbrisio a'u rhyddhau i'r gronfa gyffredinol pan wireddir enillion wrth gwympo coed. Cydnabyddir addasiadau sy'n codi o ailbrisio asedau biolegol yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn y flwyddyn ailbrisio.

**Technegau amcangyfrif, rhagdybiaethau a dyfarniadau**

Mae elfennau o'r prisiad ac felly cyfrifo'r asedau hyn yn dibynnu ar dechnegau amcangyfrif.

Nid yw'n cael ei ystyried yn gost-effeithiol i gynnal prisiad proffesiynol allanol llawn, gan gynnwys pob rhan o goetir. Yn dilyn cyngor gan briswyr cymwys, bernir y gellir cael prisiad rhesymol trwy gynnal prisiadau o sampl ar hap o safleoedd sy'n cynrychioli rhwng 8% a 10% o'r ystâd ac yna allosod y rhain ar gyfer yr ystad gyfan, gan ddefnyddio'r ffactorau lleoliad, rhywogaeth, oedran ac ansawdd (dosbarth cynnyrch) y coed.

Ystyrir hefyd fod y dystiolaeth fwyaf priodol o werth yn seiliedig ar y farchnad yn deillio o'r farchnad ar gyfer gwerthu coetiroedd a choedwigoedd gydag arwynebedd dros 50 hectar. Cydnabyddir y gall fod ystod eang o werthoedd o hyd a gall y rhain fod yn ddyfarniadau ychydig yn oddrychol. Felly, bydd unrhyw brisiad o goedwigoedd yn dibynnu rhywfaint ar farn broffesiynol. Yn dilyn hynny, mae'r priswyr allanol yn dosrannu gwerthoedd i dir a phren. Amcangyfrifir bod gwerth tir ar les 15% yn llai na thir rhydd-ddaliadol.

Rhannwyd coed rhwng asedau biolegol ac eiddo, offer a chyfarpar gan staff CNC, gan ddefnyddio dyfarniadau ac amcangyfrifon. Gwnaed asesiad o'r gyfran a gedwir yn bennaf at ddibenion economaidd, a defnyddiwyd y ganran hon i bennu gwerth coed a ddosbarthwyd fel ased biolegol. Pe bai tir yn cael ei gaffael neu ei waredu a fyddai'n creu newid llwyr yn yr ystâd goedwig sydd gennym o ddeg y cant neu fwy, byddai adolygiad dros dro o'r asesiad yn cael ei gynnal. Ni fu unrhyw newid o'r fath yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024. Y rhaniad canrannol ar hyn o bryd yw 27.5% ar gyfer asedau biolegol a 72.5% ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar. Fel sy'n ofynnol o dan IAS 41, mae gwerth teg asedau biolegol yn cael ei leihau yn ôl y costau amcangyfrifedig i'r pwynt gwerthu. Amcangyfrifir bod y costau hyn yn 10% o werthoedd pren ac yn adlewyrchu costau gwerthu'r coetir neu'r goedwig.

### 7.1.2 Ffermydd gwynt

Mae rhywfaint o dir ystad y goedwig yn cael ei brydlesu i bartïon allanol fel safleoedd fferm wynt. Mae datblygiad fferm wynt wedi'i rhannu'n dri cham. Mae angen math gwahanol o gytundeb lesddaliad ar bob cam.

- Y cam cyntaf yw'r Cytundeb Les Opsiwn. Mae hyn yn rhoi'r hawl i ddatblygwr y fferm wynt arfer yr opsiwn i adeiladu ar y tir. Ar y cam hwn, mae CNC yn cael ffi opsiwn yn seiliedig ar fformiwla ariannol a nodir yn y cytundeb.

- Yr ail gam yw'r Cytundeb Les Datblygu. Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ac mae'r gwaith adeiladu yn digwydd yn ystod y cam hwn. Yn debyg i'r cam cyntaf, mae CNC yn cael ffi opsiwn yn seiliedig ar fformiwla ariannol a nodir yn y cytundeb.

- Y trydydd cam yw'r Cytundeb Les Weithredol. Mae'r fferm wynt yn gwbl weithredol ac yn cynhyrchu trydan. Mae CNC yn cael dwy elfen o incwm; rhent sylfaenol gwarantedidg a rhent breindal yn seiliedig ar gynhyrchu trydan.

Mae lesoedd ar gyfer ffermydd gwynt sydd yn y cyfnod datblygu neu weithredu yn cael eu cyfalafu fel ased tir o fewn tir arall yn nodyn 7.1. Mae pedair fferm wynt (2022/23: pedair) wedi'u cynnwys o fewn eiddo, peiriannau ac offer. Ar y pwynt cyfalafu, mae gwerth y tir yn cael ei dynnu o brisiad Ystad y Goedwig a ddatgelir o fewn Tir Arall ac sydd wedi'i gynnwys gyda phrisiad y fferm wynt. Cynhelir prisiad llyfr coch RICS ar y pwynt cydnabod. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, darparwyd prisiad ar gyfer y ffermydd gwynt yn unol â'r rhaglen dreigl a amlinellwyd yn nodyn 7.

Dangosir y gwerthoedd unigol y ffermydd gwynt isod.

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Cefn Croes | 14,562 | 14,373 |
| Pen y Cymoedd | 96,272 | 86,271 |
| Gorllewin Brechfa | 70,046 | 44,348 |
| Clocaenog | 36,053 | 32,274 |
| **Cyfanswm** | **216,933** | **177,266** |

Mae tair fferm wynt arall yn y cam Cytundeb Les Opsiwn ar hyn o bryd. Dim ond dau gam fydd ar gyfer y ffermydd gwynt hyn wrth i'r cam datblygu a'r cam gweithredol gael eu huno. Bydd y rhain yn cael eu cyfalafu pan fyddant yn symud i'r cam nesaf.

### 7.1.3 Asedau treftadaeth

Mae asedau treftadaeth yn asedau diriaethol sydd â rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sy'n cael eu cadw a'u cynnal yn bennaf am eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Y bwriad yw eu cadw mewn ymddiriedaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol.

Mae ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asedau treftadaeth. Maent yn cynnwys tir anweithredol mewn ardaloedd cadwraeth dynodedig a sefydlwyd i warchod ac i ganiatáu i bobl astudio eu bywyd gwyllt, cynefinoedd neu nodweddion daearegol o ddiddordeb arbennig. Mae'r tir hwn yn cael ei gadw ar gyfer cadwraeth ac at ddefnydd cyhoeddus cynaliadwy. O dan ddehongliad FReM o IAS 16 (Eiddo, Peiriannau ac Offer), mae'r asedau hyn wedi'u cyfalafu ar gost.

Ar 31 Mawrth 2024 mae CNC yn rheoli 56 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol Cymru, naill ai'n gyfan gwbl, neu mewn partneriaeth, ac un Warchodfa Natur Forol (MNR). Cafwyd ailddosbarthiad o £56k ar un ased treftadaeth a gwerth pryniant o £0 (2022/23: £7.1k) yn ystod y flwyddyn.

Oherwydd natur amrywiol y tir a gedwir a gwerthoedd marchnad tebyg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y byddai sicrhau prisiadau allanol yn golygu cost anghymesur. Felly, mae asedau treftadaeth yn cael eu dal ar gost. Cydnabyddir costau cadw (gwariant sy'n ofynnol i ddiogelu'r ased treftadaeth) yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan gânt eu gwario.

**Symudiadau asedau treftadaeth dros bedair mlynedd**

| | 2020/21<br>£'000 | 2021/22<br>£'000 | 2022/23<br>£'000 | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 7,099 | 7,403 | 7,403 | 7,474 |
| Ychwanegiadau | 304 | - | 71 | - |
| Ailddosbarthu | - | - | - | 56 |
| **Balans terfynol** | **7,403** | **7,403** | **7,474** | **7,530** |

Mae rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth CNC a pholisïau yn ymwneud â chaffael, cadwraeth, rheoli, gwaredu a mynediad at asedau treftadaeth ar gael ar wefan CNC yn:

https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/national-nature-reserves/?lang=cy

## 7.2 Asedau anghyfredol anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd | Trwyddedau eraill | Gwariant datblygu meddalwedd | Gwefan | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm asedau anniriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 5,803 | 2,356 | 38,280 | 486 | 10,480 | **57,405** |
| Ychwanegiadau | - | - | 180 | - | 7,530 | **7,710** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | (1,543) | - | 8,074 | - | (6,899) | **(368)** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | (237) | - | - | - | (28) | **(265)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu | - | (74) | - | 411 | (42) | **295** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 4,023 | 2,282 | 46,534 | 897 | 11,041 | **64,777** |
| **Amorteiddio** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 4,494 | 72 | 20,706 | 486 | - | **25,758** |
| Taliadu yn ystod y flwyddyn | 194 | 13 | 5,041 | 160 | - | **5,408** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | (237) | - | - | - | - | **(237)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu | (897) | - | 897 | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 3,554 | 85 | 26,644 | 646 | - | **30,929** |
| **Swm Cario ar 1 Ebrill 2023** | **1,309** | **2,284** | **17,574** | **-** | **10,480** | **31,647** |
| **Swm Cario ar 31 Mawrth 2024** | **469** | **2,197** | **19,890** | **251** | **11,041** | **33,848** |

Y swm a gedwir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2024 oedd £568k.

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Trwyddedau meddalwedd | Trwyddedau eraill | Gwariant datblygu meddalwedd | Gwefan | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm asedau anniriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | 5,722 | 2,356 | 32,971 | 486 | 8,792 | **50,327** |
| Ychwanegiadau | - | - | 374 | - | 6,746 | **7,120** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | 81 | - | 4,977 | - | (5,058) | **-** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | - | (42) | - | - | **(42)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 5,803 | 2,356 | 38,280 | 486 | 10,480 | **57,405** |
| **Amorteiddio** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | 3,964 | 60 | 16,215 | 486 | - | **20,725** |
| Taliadu yn ystod y flwyddyn | 530 | 12 | 4,532 | - | - | **5,074** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | - | (41) | - | - | **(41)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 4,494 | 72 | 20,706 | 486 | - | **25,758** |
| **Swm Cario ar 1 Ebrill 2022** | **1,758** | **2,296** | **16,756** | **-** | **8,792** | **29,602** |
| **Swm Cario ar 31 Mawrth 2023** | **1,309** | **2,284** | **17,574** | **-** | **10,480** | **31,647** |

Y swm a gedwir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2023 oedd £601k.

## 8. Lesoedd

Mae "Lesoedd" IFRS 16 wedi'u rhoi ar waith o 1 Ebrill 2022; mae hyn yn cyflwyno model cyfrifyddu lesddeilliad sengl sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliad gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob les (ac eithrio'r eithriadau a amlinellir isod).

Mewn perthynas â lesddeiliaid, mae IFRS 16 yn dileu'r gwahaniaeth rhwng lesoedd gweithredu a chyllid ac yn cyflwyno model cyfrifyddu sengl sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliad gydnabod asedau a rhwymedigaethau lesoedd ('hawl i ddefnyddio').

Mae'r diffiniad o les wedi'i ddiweddaru o dan IFRS 16; mae mwy o bwyslais ar allu rheoli'r defnydd o ased a nodir mewn contract.

**Gweithredu a Rhagdybiaethau**

Mae CNC wedi gweithredu IFRS 16 gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol addasedig ac felly nid yw gwybodaeth gymharol wedi'i hailddatgan ac mae'n parhau i gael ei hadrodd o dan IAS 17, "Lesoedd". Mae Effaith gronnol mabwysiadu IFRS 16 wedi'i chynnwys fel addasiad i ecwiti ar ddechrau'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Mae CNC wedi ehangu'r diffiniad o les i gynnwys trefniadau heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt.  Mae lesoedd hedyn pupur yn enghreifftiau o'r rhain; cânt eu diffinio gan Drysorlys EF fel taliadau les sy'n sylweddol is na gwerth y farchnad. Mae'r asedau hyn yn cael eu prisio'n deg ar gydnabyddiaeth gychwynnol. Wrth drosglwyddo, mae unrhyw wahaniaethau rhwng y rhwymedigaeth les ddisgowntedig a'r ased hawl i ddefnyddio yn cael eu cynnwys trwy ddal i fyny cronnol. Mae unrhyw wahaniaethau rhwng ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth les ar gyfer lesoedd newydd ar ôl gweithredu IFRS 16 yn cael eu cofnodi o fewn incwm yn y DoWNC.

Yn unol â FReM, nid yw CNC wedi cydnabod asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau lesoedd ar gyfer y lesoedd canlynol:

- asedau anniriaethol;
- elfennau nad ydynt yn lesoedd o gontractau lle bo'n berthnasol;
- asedau gwerth isel (pennir y rhain i fod yn unol â throthwyon cyfalafu ar Eiddo, Peiriannau ac Offer ac eithrio cerbydau y tybiwyd nad ydynt o werth isel); a
- lesoedd sydd â chyfnod o12 mis neu lai.

Mae CNC wedi asesu'r holl gontractau yr ymrwymwyd iddynt, ac nad oeddent wedi dod i ben ar 1 Ebrill 2022.

**Polisi yn berthnasol o 1 Ebrill 2022**

Ar ddechrau contract, mae CNC yn asesu a yw contract yn les, neu'n cynnwys les. Mae contract yn les, neu'n cynnwys les os yw'r contract yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd o ased a nodwyd am gyfnod o amser. Mae hyn yn cynnwys asedau nad oes unrhyw gost ynghlwm wrthynt. Er mwyn asesu a yw contract yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd o ased a nodwyd, bydd CNC yn ystyried:

- Mae'r contract yn cynnwys defnydd o ased a nodir;
- Mae gan CNC yr hawl i gael yr holl fudd economaidd sylweddol o ddefnyddio'r ased drwy gydol y cyfnod defnyddio; ac
- Mae gan CNC yr hawl i gyfeirio'r defnydd a wneir o'r ased.

Cymhwysir y polisi i gontractau yr ymrwymir iddynt, neu a newidiwyd, ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022.

Bydd CNC yn asesu a yw'n weddol sicr y bydd yn arfer opsiynau toriad neu opsiynau estyniad ar ddyddiad cychwyn y les. Bydd hyn yn cael ei ailasesu os bydd digwyddiadau arwyddocaol neu newidiadau mewn amgylchiadau nas rhagwelwyd.

**Fel Lesddeiliad**

**Asedau hawl i ddefnyddio**

O dan IFRS 16 mae CNC yn cydnabod hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth les ar y dyddiad cychwyn. Mae'r hawl i ddefnyddio ased yn cael ei fesur i ddechrau ar gost, sy'n cynnwys swm cychwynnol y rhwymedigaeth les wedi'i addasu ar gyfer costau uniongyrchol cychwynnol, rhagdaliadau neu gymhellion, a chostau sy'n ymwneud ag adfer ar ddiwedd les.

Mae asedau hawl i ddefnyddio yn cael eu mesur naill ai ar werth teg neu werth cyfredol mewn defnydd presennol yn unol ag asedau eiddo, peiriannau ac offer. Defnyddir y model mesur costau yn IFRS 16 fel procsi priodol ar gyfer gwerth cyfredol mewn defnydd presennol neu werth teg ar gyfer y mwyafrif o lesoedd.

Mae'r ased hawl i ddefnyddio'n cael ei ddibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth o'r dyddiad cychwyn hyd at ddiwedd cyfnod y les.

Mae CNC yn cymhwyso IAS 36 Amhariad ar Asedau i bennu a oes amhariad ar yr ased hawl i ddefnyddio ac i roi cyfrif am unrhyw golled amhariad a nodwyd. Mae hyn yn disodli'r gofyniad blaenorol i gydnabod darpariaeth ar gyfer contractau les beichus.

Cyflwynir asedau hawl i ddefnyddio, gan gynnwys addasiadau trosiannol, yn nodyn 8.1.

**Rhwymedigaethau lesoedd**

Mae rhwymedigaeth les yn cael ei mesur i ddechrau ar werth presennol y taliadau les nad ydynt yn cael eu talu ar y dyddiad cychwyn, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y les, neu os na ellir pennu hynny'n rhwydd, gan ddefnyddio'r gyfradd a bennir ym mhapurau'r System Gwariant Cyhoeddus (SGC) a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Fawrhydi. Cyhoeddir cyfraddau SGC yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Y gyfradd ddisgownt a gymhwyswyd adeg y cyfnod trosiannol, ac ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 oedd 0.95% a 3.51% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Mae taliad y les yn cael ei fesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Caiff ei ail-fesur pan fydd newid mewn taliadau les yn y dyfodol yn deillio o newid yn y mynegai neu'r gyfradd, neu os oes newid taliad les sefydlog diwygiedig mewn sylwedd.

Mae taliadau lesoedd sydd wedi'u cynnwys wrth fesur rhwymedigaeth y les yn cynnwys y canlynol:

- Taliadau sefydlog;
- Cosbau am derfynu les yn gynnar, oni bai ei bod yn rhesymol sicr na chaiff ei therfynu'n gynnar.

Pan fydd rhwymedigaeth y les yn cael ei hail-fesur, caiff addasiad cyfatebol ei wneud i'r ased hawl i ddefnyddio neu i gofnodi yn y SoCNE os yw swm cario mlaen yr ased hawl i ddefnyddio yn sero.

Cyflwynir rhwymedigaethau lesoedd yn nodyn 8.2

**Fel lesydd**

Pan fo CNC yn gweithredu fel lesydd, mae’n penderfynu ar ddechrau’r les a yw pob les yn les ariannol neu’n les weithredol. Er mwyn dosbarthu pob les, bydd CNC yn gwneud asesiad cyffredinol i weld a yw’r les yn trosglwyddo’r holl risgiau a’r buddion sy’n gysylltiedig â pherchnogaeth yr ased sylfaenol i bob pwrpas. Os felly, yna mae'r les yn les gyllid, os na, yna mae'n les weithredol.

Pan fo CNC yn gweithredu fel lesydd canolradd, mae’n rhoi cyfrif am ei fuddiant yn y brif les a’r is-les ar wahân. Os yw prif les yn les tymor byr y mae CNC yn cymhwyso’r eithriad uchod iddi, yna mae’r is-les yn cael ei dosbarthu fel les weithredol. Bydd CNC yn cydnabod taliadau les o dan lesoedd gweithredu fel incwm ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Nid yw’r polisïau cyfrifyddu sy’n gymwys i CNC fel lesydd wedi’u newid i raddau helaeth gan IFRS 16 ac eithrio adolygiadau o drefniadau lesydd canolradd. Nid oedd y newidiadau ar gyfer IFRS 16 yn berthnasol i drefniadau lesydd.

**Effaith ar ddatganiadau ariannol**

Wrth drosglwyddo i IFRS 16, cydnabu CNC £65.2m ychwanegol o asedau hawl i ddefnyddio ac £13.5m o rwymedigaethau lesoedd.

Mae £52.4m o asedau a gydnabuwyd yn flaenorol fel lesoedd cyllid wedi'u trosglwyddo o asedau anghyfredol fel rhan o'r addasiad hwn. Mae’r lesoedd hyn wedi’u cyfrifo’n flaenorol fel lesoedd cyllid ac wedi’u cofnodi yn nodyn 7.1 y datganiadau ariannol. Ni fu unrhyw newid i'r fethodoleg brisio a ddefnyddiwyd fel y manylir yn nodyn 7 y datganiadau ariannol.

Mae unrhyw wahaniaethau rhwng yr ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth hawl i ddefnyddio wrth drosglwyddo wedi’u cydnabod yng nghyfrif y gronfa gyffredinol yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

## 8.1 Asedau hawl i ddefnyddio

| | Tir ystad goedwig | Tir arall | Adeiladau | Peiriannau ac offer | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau Hawl i Ddefnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 59,807 | 384 | 7,578 | 3,386 | 1,278 | **72,433** |
| Ychwanegiadau | - | 18 | 4,083 | 745 | - | **4,846** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | (59) | - | (31) | (5) | **(95)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 12,064 | - | - | - | - | **12,064** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 71,871 | 343 | 11,661 | 4,100 | 1,273 | **89,248** |
| | | | | | | |
| **Dibrisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 4 | 57 | 1,530 | 969 | 58 | **2,618** |
| Taliadu yn ystod y flwyddyn | - | 37 | 1,682 | 1,063 | 58 | **2,840** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | (59) | - | (25) | - | **(84)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 4 | 35 | 3,212 | 2,007 | 116 | **5,374** |
| | | | | | | |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 2023** | **59,803** | **327** | **6,048** | **2,417** | **1,220** | **69,815** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **71,867** | **308** | **8,449** | **2,093** | **1,157** | **83,874** |

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Tir ystad goedwig | Tir arall | Adeiladau | Peiriannau ac offer | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau Hawl i Ddefnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | - | - | - | - | - | **-** |
| Trosglwyddwyd o asedau anghyfredol | 52,410 | - | - | - | - | **52,410** |
| Diweddarwyd ar 1 Ebrill 2022 | - | 579 | 8,080 | 2,856 | 1,278 | **12,793** |
| Ychwanegiadau | - | - | 133 | 548 | - | **681** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | (71) | - | - | (18) | - | **(89)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 7,468 | (195) | (635) | - | - | **6,638** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 59,807 | 384 | 7,578 | 3,386 | 1,278 | **72,433** |
| | | | | | | |
| **Dibrisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | - | - | - | - | - | **-** |
| Trosglwyddwyd o asedau anghyfredol | - | - | - | - | - | **-** |
| Diweddarwyd ar 1 Ebrill 2022 | - | - | - | - | - | **-** |
| Taliadu yn ystod y flwyddyn | 4 | 57 | 1,530 | 972 | 58 | **2,621** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | - | - | (3) | - | **(3)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 4 | 57 | 1,530 | 969 | 58 | **2,618** |
| | | | | | | |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 2022** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | **59,803** | **327** | **6,048** | **2,417** | **1,220** | **69,815** |

## 8.2 Rhwymedigaethau lesoedd

| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau lesoedd (cyfredol) | 2,339 | 2,367 |
| **Cyfanswm** | **2,339** | **2,367** |
| **Yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | |
| Rhwymedigaethau lesoedd (anghyfredol) | 8,221 | 8,276 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd** | **10,560** | **10,643** |

Dadansoddiad aeddfedrwydd lesoedd a ddelir o dan IFRS 16

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 2,339 | 2,367 |
| Yn ddyledus ymhen 2-5 mlynedd | 3,949 | 4,240 |
| Yn ddyledus ymhen mwy na 5 mlynedd | 4,272 | 4,036 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd** | **10,560** | **10,643** |

| Lesoedd o dan IFRS 16 | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Llog ar rwymedigaethau lesoedd | 101 | 117 |
| Treuliau sy’n ymwneud â lesoedd tymor byr (ac eithrio asedau gwerth isel) | 93 | 268 |
| Treuliau sy'n ymwneud â lesoedd asedau gwerth isel | - | - |
| | **194** | **385** |

### Lesoedd gweithredu eraill

Ar gyfer lesoedd tymor byr (tymor les o 12 mis neu lai) a lesoedd asedau gwerth isel, bydd CNC yn dewis cydnabod traul les ar sail llinell syth fel y caniateir gan IFRS 16. Mae lesoedd gweithredu eraill a ddatgelir isod yn ymwneud â’r trefnidadau hynny nad ydynt wedi’u cynnwys yn IFRS 16.

Rhoddir cyfanswm isafswm taliadau lesoedd yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

| Y rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol yw: | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 87 | 14 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 3 | 3 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 24 | 22 |
| **Cyfanswm gwerth rhwymedigaethau** | **114** | **39** |

## 9. Atebolrwydd ac offerynnau ariannol

### 9.1 Atebolrwydd ariannol

Mae'r atebolrwydd ariannol o £39,435k a adroddwyd yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol yn cynrychioli atebolrwydd cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr.

Ym 1989, er mwyn preifateiddio, trafododd Llywodraeth EM gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr gyda'r cwmnïau dŵr. Roedd y cytundebau hyn yn cynnwys taliadau sefydlog (wedi'u mynegeio'n flynyddol ar y Mynegai Prisiau Manwerthu) sy'n daladwy am byth i'r cwmnïau dŵr. Mae CNC bellach yn gyfrifol am y taliadau i Dŵr Cymru.

Gan fod cyfanswm yr atebolrwydd am byth ar sail cost amorteiddiedig, ni fydd yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac eithrio os bydd cytundeb yn dod i ben, sy'n annhebygol.  Mae CNC yn gallu adennill cost lawn cytundebau gweithredu cronfeydd gan gynnwys y mynegeio blynyddol trwy ei daliadau tynnu dŵr.

Cyfrifwyd swm o £7,608k a oedd yn ddyledus i Dŵr Cymru yn ystod 2023/24 (2022/23: £7,173k) am y taliadau sefydlog a fynegwyd. Mae'r rhain wedi'u cynnwys gyda thaliadau eraill o dan gytundebau gweithredu'r gronfa ddŵr yn Nodyn 5.

Mae rhwymedigaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud â safonau uwch ar gyfer gorlifdiroedd, pibellau ac argaeau ynghyd ag asedau sy'n dod i ddiwedd eu hoes ddefnyddiol wedi arwain at Dŵr Cymru yn gweithredu rhaglen gyfalaf ar draws dalgylchoedd Clwyd, Dwyfor, Aled, Dyfrdwy, Gwy a Tywi.  Disgwylir i'r gwaith, a ddechreuodd yn 2018/19, gymryd 10 mlynedd a disgwylir iddo gael eu cwblhau yn 2027/28.  Mae cyfanswm cost amcanol y rhaglen hon wedi cynyddu ers dechrau'r rhaglen.  Mae amcangyfrifon diweddaraf Dŵr Cymru yn nodi y bydd y rhaglen yn costio £50.0m.  Mae CNC wedi cytuno ar amserlen taliadau cynyddrannol gyda Dŵr Cymru i ddosbarthu'r gost yn esmwyth gan arwain at daliadau uwch y gellir eu rheoli ar gyfer yr echdynnwr.  Mae'r cyfleuster hwn wedi galluogi CNC i ragweld Cyfrif Tâl Uned Safonol cynaliadwy dros oes y rhaglen hon.

Adroddir am y gost mewn cytundebau gweithredu Cronfeydd Dŵr yn Nodyn 5, ac mae'r diffyg yn ystod y flwyddyn wedi'i ychwanegu i'r symiau taladwy hirdymor yn Nodyn 13.  Adroddir am y cynnydd cyfatebol yn yr incwm y gellir ei briodoli o fewn costau tynnu yn Nodyn 6.1 a symiau derbyniadwy hirdymor yn Nodyn 11.

### 9.2 Offerynnau ariannol

Gan fod gofyniad ariannol CNC yn cael ei fodloni'n bennaf trwy gymorth grant, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig wrth greu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig CNC, ac felly nid yw CNC yn agored i risgiau mawr o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

O dan IFRS 9, defnyddir model Colled Credyd Disgwyliedig (ECL) i amcangyfrif ac rhoi cyfrif am golledion credyd disgwyliedig ar gyfer yr holl asedau ariannol perthnasol. Mae amcangyfrif CNC yn seiliedig ar ein profiad hanesyddol o golledion credyd sy'n cael eu diweddaru ar gyfer problemau credyd hysbys yn y dyfodol.

## 10. Asedau Ariannol

| Anghyfredol | 31 Mawrth 2024<br>£'000 | 31 Mawrth 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| Coedwig Llyn Efyrnwy | 15,009 | 16,358 |
| | 15,009 | 16,358 |

**Coedwig Llyn Efyrnwy**
Mae Hafren Dyfrdwy yn gyfrifol am reoli'r goedwig yn Llyn Efyrnwy, casglu'r incwm a thalu'r costau cymharol. Mae gan CNC rôl ymgynghorol o dan y cytundeb cynllun coedwigo ac mae'n derbyn 50% o'r gwarged gweithredu gan Hafren Dyfrdwy.

## 11. Masnach a symiau derbyniadwy eraill

| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 31 Mawrth 2024<br>£'000 | 31 Mawrth 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy masnach | 13,970 | 10,009 |
| Colled credyd disgwyliedig | (230) | (174) |
| Asedau contract - Masnachol ac eraill | 4,160 | 5,293 |
| Incwm cronedig - Ffioedd a thaliadau | 3,503 | 2,812 |
| Incwm cronedig - Grantiau LlC | 17,130 | 13,214 |
| Incwm cronedig - Incwm Ewropeaidd | 1,619 | 1,260 |
| TAW derbyniadwy | 1,780 | 4,116 |
| Rhagdaliadau | 3,120 | 2,275 |
| Blaendal | 45 | 59 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 24 | 25 |
| **Cyfanswm** | **45,121** | **38,889** |
| **Yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | |
| Symiau derbyniadwy hirdymor | 11,940 | 3,462 |
| **Cyfanswm symiau masnach ac eraill yn dderbyniadwy** | **57,061** | **42,351** |

## 12. Taliadau ar gyfrif

| | 31 Mawrth 2024<br>£'000 | 31 Mawrth 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| Taliadau ar gyfrif | 19,000 | - |
| **Cyfanswm** | **19,000** | **-** |

Mae taliad o £19m a wnaed i CThEF wedi'i gynnwys mewn taliadau ar gyfrif. Mae CNC wedi gwneud taliad heb ragfarn mewn perthynas ag unrhyw ddarpar dreth incwm PAYE, ardoll Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phrentisiaethau neu unrhyw atebolrwydd arall y gallai CNC ei gael i CThEF o dan reoliadau IR35. Mae hyn hefyd yn cynnwys llog a allai fod yn daladwy gan CNC i CThEF ar ddiwedd ei ymholiad a/neu unrhyw apeliadau neu setliad. Mae rhagor o fanylion ynghylch sail y taliad hwn wedi'i gynnwys o fewn nodyn 21. Mae yna hefyd gredydwr cyfatebol o'r un swm wedi'i gynnwys o fewn y symiau taladwy eraill yn nodyn 14.

## 13. Arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2024<br>£'000 | 31 Mawrth 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| Balans agoriadol | 5,077 | 8,993 |
| Newid net mewn arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod | 4,710 | (3,916) |
| **Cyfanswm** | **9,787** | **5,077** |
| | | |
| Cadwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth | | |
| Gwasanaeth Bancio’r Llywodraeth | 9,785 | 5,075 |
| Arian parod mewn llaw | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **9,787** | **5,077** |

Mae arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, darpariaethau ariannol (gweler nodyn 1.10) a balansau cyfredol a gedwir yng nghyfrifon Gwasanaeth Bancio y Llywodraeth. Gellir trosi’r balansau hyn yn hawdd i symiau hysbys o arian parod, ac nid oes risg mawr iddynt o ran newidiadau mewn gwerth. Nid yw darpariaethau ariannol ar gael i'w defnyddio gan CNC. Dim ond pan fydd gweithredwr y safle tirlenwi yn torri amodau’r drwydded y bydd CNC yn rhoi ystyriaeth ddyledus i dynnu’r ddarpariaeth sydd ar waith.

## 14. Masnach a symiau taladwy eraill

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| **Yn ddyledus o fewn blwyddyn** | **£'000** | **£'000** |
| Symiau taladwy masnach | 2,451 | 9,505 |
| Croniad symiau taladwy masnach | 33,960 | 21,304 |
| Incwm Gohiriedig - Ffioedd a Thaliadau | 4,181 | 3,315 |
| Incwm Gohiriedig - Cyllid yr UE a chyllid arall | 6,379 | 6,934 |
| Rhwymedigaethau Contract - Ffioedd a Thaliadau | 219 | 536 |
| Rhwymedigaethau Contract - Masnachol | 1,238 | 955 |
| Tâl gwyliau | 3,620 | 3,605 |
| Bondiau a blaendaliadau | 3,036 | 2,895 |
| Arian a dderbyniwyd gan LlC o flaen llaw | 19,000 | - |
| Symiau taladwy eraill | 5,280 | 19 |
| Trethu a diogelwch cymdeithasol | 9 | 9 |
| **Cyfanswm** | **79,373** | **49,077** |
| **Yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | |
| Symiau taladwy hirdymor | 11,158 | 2,680 |
| Incwm gohiriedig hirdymor | 80 | 253 |
| Bondiau a blaendaliadau hirdymor | 93 | 121 |
| **Cyfanswm** | **11,331** | **3,054** |
| **Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill** | **90,704** | **52,131** |

Ar 31 Mawrth 2024, mae'r tabl uchod yn cynnwys symiau sy'n ad-daladwy i LlC. Derbyniwyd £19m i wneud taliad ar gyfrif i CThEF (gweler hefyd nodyn 12 a 21) ac mae telerau ad-dalu i LlC i'w cytuno. Yn gynwysiedig o fewn symiau taladwy eraill mai symiau sy'n ymwneud â chyllid a orhawliwyd ac arian cyfalaf gweithio i'w ad dalu i LlC yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

## 15. Darpariaethau

| | | Grantiau | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | | 82 | 1,001 | 1,083 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | DoWNC | 92 | 74 | 166 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - Ased Hawl Defnyddio (nodyn 8.1) | - | 1,951 | 1,951 |
| Rhyddhawyd yn y flwyddyn | | - | (53) | (53) |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | | (82) | (63) | (145) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **92** | **2,910** | **3,002** |
| | | | | |
| **Amseru amcangyfrifedig llif arian gostyngedig** | | | | |
| Dyledus o fewn blwyddyn | | 92 | 2,910 | 3,002 |
| Dyledus rhwng un a phum mlynedd | | - | - | - |
| **Cyfanswm** | | **92** | **2,910** | **3,002** |

Yn unol â gofyniad IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn), lle bo angen, mae CNC yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol lle mae rhwymedigaeth bresennol ar y dyddiad adrodd ac mae'n debygol y bydd gofyn i CNC setlo'r rhwymedigaeth a gellir gwneud amcangyfrif ariannol dibynadwy. Mae cyfanswm y darpariaethau yr adroddir arnynt uchod yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol o dan rwymedigaethau.

Mae darpariaethau ar gyfer taliadau grant wedi'u cynnwys pan fo'r gwaith a wnaed gan y partneriaid grant wedi'i gwblhau ar neu cyn 31 Mawrth 2024, ond na fydd yr hawliad yn cael ei ei gyflwyno i CNC tan fis Mehefin 2024. Mae gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar y llythyr cynnig grant.

Mae darpariaethau eraill yn ymwneud â thaliadau dadfeilio posibl ar ofod swyddfa rhent. Mae'r ddarpariaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â gwastraff peryglus wedi cael ei ryddhau yn ystod y flwyddyn.

Dangosir costau'r darpariaethau eraill yn nodyn 5. Dangosir y symudiad mewn colled credyd disgwyliedig hefyd yn nodyn 5, a dangosir cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer colled credyd disgwyliedig yn nodyn 11 a'i chynnwys yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol o dan Masnach a symiau derbyniadwy eraill.

# 16. Rhwymedigaethau pensiwn

Mae CNC yn aelod o ddau gynllun pensiwn, Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL).

## 16.1 Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae CSPS yn agored i weithwyr newydd.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac eraill neu Alpha, sy'n darparu buddion ar sail gyrfa ar gyfartaledd gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i oedran pensiwn y wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi a mwyafrif y rhai sydd eisoes mewn gwasanaeth ag Alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth sifil (PCSPS). Mae pedair rhan i'r PCSPS: tair sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu glasurol +) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (Nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu gyda chost y buddion a delir gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau clasurol, premiwm, clasurol +, Nuvos ac Alpha yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Newidiodd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 i Alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu cael gwared ar wahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir, maes o law, y gall aelodau cymwys sydd wedi cwblhau gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 gael hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw. Mae buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i Alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rheini â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael Alpha. Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion priodol wedi'u diffinio neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau clasurol, premiwm, clasurol +, nuvos ac alpha. Mae buddion clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i bensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy ar ôl ymddeol. Ar gyfer premiwm, mae buddion yn cronni ar gyfradd 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r clasurol, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae clasurol + yn hybrid gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrif yn fras yn unol â'r clasurol a chyfrifwyd y buddion am wasanaeth o Hydref 2002 fel mewn cynllun premiwm. Yn Nuvos mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod o fod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), mae'r pensiwn a enillir gan yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno, ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion mewn cynllun Alpha yn cronni mewn ffordd debyg i Nuvos, heblaw bod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol, sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o'u cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd afiechyd)

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl rhoi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes yn oed pensiwn neu dros oed. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau clasurol, premiwm a chlasurol +, 65 ar gyfer aelodau Nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau Alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn y cynlluniau PCSPS neu Alpha, fel y bo'n briodol. Pan fydd gan y swyddog fuddion yn y cynlluniau PCSPS ac Alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun ond gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau)

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil ar y wefan. www.civilservicepensionscheme.org.uk

## 16.2 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)

Ar 1 Ebrill 2013, trosglwyddwyd gweithgareddau pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) i CNC yn unol â chynllun trosglwyddo corff Cyfoeth Naturiol Cymru 2013 o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae gweithwyr CNC a oedd yn weithwyr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn parhau i fod yn aelodau o gronfa bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) fel corff derbyn.

Mae EAPF yn gweithredu cynllun pensiwn buddion statudol wedi'u diffinio, a lywodraethir yn bennaf gan reoliadau CPLlL 2013 a rheoliadau CPLlL (darpariaethau trosiannol, cynilion a diwygio) 2014. Gall y rhain newid dros amser. Mae mwy o fanylion am y gronfa bensiwn, gan gynnwys ei hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon, ar wefan EAPF, www.eapf.org.uk

Cyfanswm tâl pensiwn CPLlL CNC ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24 oedd £6,988k (£14,855k yn 2022/23). Aseswyd y tâl pensiwn sy'n ymwneud â'r cynllun yn unol â chyngor actiwari cymwys annibynnol gan ddefnyddio'r dull prisio uned amcanol i gyfrifo costau'r gwasanaeth. Trefniadau cyllido CNC yw talu cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn naill ai bob misl neu fel taliadau cyfandaliad.

Roedd y prisiad actiwaraidd teirblwydd diweddaraf o'r EAPF ar 31 Mawrth 2022. Roedd yr asedau a gymerwyd am werth y farchnad (£4.5 biliwn) yn ddigonol i gynnwys 103% o werth rhwymedigaethau mewn perthynas â buddion gwasanaeth yn y gorffennol a oedd wedi cronni i aelodau.  Derbyniodd CNC argymhelliad yr actiwari annibynnol mewn perthynas â chyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol. Bydd y prisiad actiwaraidd tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2025 a chaiff ei ddefnyddio i bennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr am y cyfnod tair blynedd gan ddechrau ar 1 Ebrill 2026.

Amcangyfrifodd yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer yr EAPF fod ganddo ddigon o asedau i fodloni 153% o'i rwymedigaethau disgwyliedig yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2024 ar sail ariannu barhaus. Mae cyfran CNC o rwymedigaethau'r EAPF fel y'i hadroddir yn y datganiadau ariannol hyn yn cael ei chyfrifo ar sail cyfrifyddu gan ddefnyddio gwahano lragdybiaethau actiwaraidd, sy'n ofynnol gan IAS19.

Mae dau brif wahaniaeth yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol hyn o dan sail cyfrifyddu (IAS 19) a'r rhai a ddefnyddir at ddibenion cyllido, fel yr adroddwyd gan EAPF.  Mae'r gwahaniaethau hyn yn y rhagdybiaeth cyfradd ddisgownt a'r rhagdybiaeth cynnydd pensiwn a ddefnyddir i brisio rhwymedigaethau pensiwn. Mae cyfradd ddisgownt EAPF at ddibenion cyllido yn seiliedig ar ddisgwyliad darbodus o'r enillion a gynhyrchir o'r portffolio o asedau sy'n eiddo i'r EAPF. Ar 31 Mawrth 2022 roedd y gyfradd disgownt hon yn 3.1% y flwyddyn. Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yn natganiadau ariannol CNC (4.85% y flwyddyn), fel sy'n ofynnol gan IAS 19, yn seiliedig ar gynnyrch bondiau corfforaethol o ansawdd uchel heb unrhyw dybiaeth perfformiad ased ychwanegol.

Gwneir nifer o ragdybiaethau fel rhan o'r broses brisio actiwaraidd. Nid yw'r rhagdybiaethau actiwaraidd darbodus a ddefnyddir yn cynrychioli barn ar symudiadau cyflog yn y dyfodol. Tybiwyd yn brisiad actiwaraidd 2022 y bydd taliadau pensiynau nawr ac yn y dyfodol yn cynyddu ar gyfradd o 3.0% y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd y cyfraniad sy'n daladwy gan CNC, ac eithrio unrhyw gyfandaliadau dewisol, am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 oddeutu £0 gan ei fod wedi talu ei holl gyfraniadau cyflogwr arferol ym mis Mawrth 2024.

Mae prisiad 2022 yn cwmpasu'r profiad o bandemig COVID-19. Ni chafodd y sefyllfa gyllido ei heffeithio'n sylweddol gan y pandemig gan fod rhoi'r gorau i bensiynau yn cyd-fynd yn fras â'r disgwyliadau. Yn gyffredinol, ychydig iawn o effaith a gafodd y profiad o farwolaethau ar y sefyllfa ariannu. Mae actiwari EAPF yn parhau i fonitro'r lefel ariannu a'r rhagolygon ar gyfer yr economi hirdymor ac enillion ar asedau'r Gronfa Weithredol yn rheolaidd.

Fel y mae'r tablau yn Nodyn 16.2 isod yn ei ddangos, mae'r prisiad actiwaraidd o gyfran CNC o'r EAPF ar 31 Mawrth 2024 yn warged o £113.1m (31 Mawrth 2023 £80.1m)

Mae CNC wedi ystyried a yw'n briodol, yn unol ag IAS 19 ac IFRIC 14, cydnabod ased sy'n cyfateb i werth llawn y gwarged neu wedi'i gapio ar y gwerth terfyn sy'n hafal i'r budd economaidd sydd ar gael i CNC ac a oes rhwymedigaethau ychwanegol yn deillio o unrhyw ofynion ariannu lleiaf a all fodoli.

Pennir gwerth terfyn sy'n cyfateb i'r budd mwyaf sydd ar gael i CNC drwy gyfraniadau gostyngol. Mae'r actiwari wedi darparu eu cyfrifiadau ar gyfer y gwerth hwn gan ddefnyddio tybiaethau sy'n gyson â'r rhai a ddefnyddiwyd i bennu'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig a'r sefyllfa sy'n bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Cymhwysir gwerth terfyn uchaf o £57.9m sy'n hafal i werth presennol costau gwasanaeth yn y dyfodol. Nid yw'r gwerth hwn yn cynnwys unrhyw addasiad ar gyfer cyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol gan y penderfynir nad oes gofyniad ariannu lleiaf yn bodoli.

Bydd cyfraniadau arian parod a delir gan CNC i'r gronfa bensiwn yn parhau i gael eu pennu drwy gyfeirio at ragdybiaethau y cytunwyd arnynt ym mhob prisiad actiwaraidd o'r cynllun bob tair blynedd.

### 16.2.1 Rhagdybiaethau hirhoedledd ac ariannol

| Cyfnod a ddaeth i ben | 31 Mawrth 2024 % y flwyddyn | 31 Mawrth 2023 % y flwyddyn |
|---|---|---|
| Cyfradd Cynyddu Pensiynau | 2.75% | 2.95% |
| Cyfradd Cynyddu Cyflogau | 3.25% | 3.45% |
| Cyfradd Disgownt | 4.85% | 4.75% |

Ar ddyddiad y prisiad diweddaraf, hyd rhwymedigaethau a ariennir gan y cyflogwr yw 20 mlynedd.

| | Dynion | Menywod |
|---|---|---|
| Pensiynwyr cyfredol | 21.0 mlynedd | 23.6 mlynedd |
| Pensiynwyr y Dyfodol* | 22.2 mlynedd | 25.5 mlynedd |

* mae ffigurau'n rhagdybio bod aelodau'n 45 oed ar y dyddiad prisiad ffurfiol diwethaf

### 16.2.2 Dadansoddiad sensitifrwydd

| Newid mewn rhagdybiaethau ar 31 Mawrth 2024: | Amcangyfrif o % y cynnydd mewn Atebolrwydd Cyflogwr | Amcangyfrif o'r swm ariannol (£000) |
|---|---|---|
| Lleihad o 0.1% yn y Gyfradd Disgownt Real | 2% | 7,312 |
| Cynnydd o flwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau | 4% | 14,077 |
| Cynnydd o 0.1% yn y Gyfradd Cynyddu Cyflogau | 0% | 410 |
| Cynnydd o 0.1% yn y Gyfradd Cynyddu Pensiynau | 2% | 7,034 |

### 16.2.3 Hyd rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio

Cyfrifwyd hyd y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio (h.y. cyfartaledd pwysol yr amser nes talu llif arian yn y dyfodol) ar gyfer aelodau'r cynllun a gyfrifwyd ar y prisiad teirblwydd diwethaf ar 31 Mawrth 2022 gan yr actiwari fel 20 mlynedd.

## 16.2.4 Gwerth Teg Asedau

### Gwerth teg asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| Categori Asedau | 31 Mawrth 2024 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi'i ddyfynnu | Heb ei ddyfynnu | Amhenodol | Cyfanswm | % |
| **Gwarantau Ecwiti:** | | | | | |
| Stoc Gyffredin | 60,049 | - | - | 60,049 | 13% |
| Stoc a Ffefrir | - | - | - | - | 0% |
| Hawliau/Gwarantau | - | - | - | - | 0% |
| Asedau Ecwiti Eraill | 264 | - | - | 264 | 0% |
| **Gwarantau Dyled:** | | | | | |
| Bondiau Llywodraeth y DU | - | - | - | - | 0% |
| Bondiau Corfforaethol | - | - | - | - | 0% |
| Arall | - | - | - | - | 0% |
| **Cyfryngau Buddsoddi Cyfun** | | | | | |
| Ecwiti | - | 135,494 | - | 135,494 | 29% |
| Bondiau | - | 170,523 | - | 170,523 | 37% |
| Cronfeydd - Stoc Gyffredin | - | - | - | - | 0% |
| Cronfeydd - Eiddo Tirol | - | 4,215 | - | 4,215 | 1% |
| Cronfeydd - Cyfalaf Menter | - | 68 | - | 68 | 0% |
| **Cyfalaf Menter a Phartneriaethau:** | | | | | |
| Partneriaethau ac Eiddo Tirol | - | 73,782 | - | 73,782 | 16% |
| **Buddsoddiad Arall:** | | | | | |
| Gwarantau dwbl | - | - | - | - | 0% |
| **Contractau Deilliadol:** | | | | | |
| Ecwiti Deiliadol - Dyfodol | - | - | - | - | 0% |
| Contractau FX i'r Dyfodol | - | (316) | - | (316) | 0% |
| **Arian parod a'r hyn sy'n Gyfwerth ag Arian Parod** | | | | | |
| Pob un | - | - | 21,015 | 21,015 | 5% |
| **Cyfanswm** | 60,313 | 383,766 | 21,015 | 465,094 | 100% |

### Gwerth teg asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| Categori Asedau | 31 Mawrth 2023 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi'i ddyfynnu | Heb ei ddyfynnu | Amhenodol | Cyfanswm | % |
| **Gwarantau Ecwiti:** | | | | | |
| Stoc Gyffredin | 52,330 | - | - | 52,330 | 12% |
| Stoc a Ffefrir | - | - | - | - | 0% |
| Hawliau/Gwarantau | - | - | - | - | 0% |
| Asedau Ecwiti Eraill | 359 | - | - | 359 | 0% |
| **Gwarantau Dyled:** | | | | | |
| Bondiau Llywodraeth y DU | - | - | - | - | 0% |
| Bondiau Corfforaethol | - | - | - | - | 0% |
| Arall | - | - | - | - | 0% |
| **Cyfryngau Buddsoddi Cyfun** | | | | | |
| Ecwiti | - | 117,549 | - | 117,549 | 27% |
| Bondiau | - | 166,584 | - | 166,584 | 39% |
| Cronfeydd - Stoc Gyffredin | - | - | - | - | 0% |
| Cronfeydd - Eiddo Tirol | - | - | - | - | 0% |
| Cronfeydd - Cyfalaf Menter | - | - | - | - | 0% |
| **Cyfalaf Menter a Phartneriaethau:** | | | | | |
| Partneriaethau ac Eiddo Tirol | - | 80,790 | - | 80,790 | 19% |
| **Buddsoddiad Arall:** | | | | | |
| Gwarantau dwbl | - | - | - | - | 0% |
| **Contractau Deilliadol:** | | | | | |
| Ecwiti Deiliadol - Dyfodol | 44 | - | - | 44 | 0% |
| Contractau FX i'r Dyfodol | - | 1,087 | - | 1,087 | 0% |
| **Arian parod a'r hyn sy'n Gyfwerth ag Arian Parod** | | | | | |
| Pob un | - | - | 14,550 | 14,550 | 3% |
| **Cyfanswm** | 52,733 | 366,010 | 14,550 | 433,293 | 100% |

## 16.2.5 Newid mewn gwerth teg asedau cynllun, rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio a rhwymedigaeth net

| Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | Asedau £(000s) | Rhwymedigaethau £(000s) | Net (atebolrwydd) / ased £(000s) |
|---|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cyflogwyr | 433,293 | - | 433,293 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | - | 352,444 | (352,444) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | - | - | - |
| Terfyn uchaf asedau wedi'i gymhwyso | (15,504) | - | (15,504) |
| **Sefyllfa agoriadol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023** | **417,789** | **352,444** | **65,345** |
| Cost y gwasanaeth | | | |
| - Cost bresennol y gwasanaeth* | - | 6,988 | (6,988) |
| - Cost gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | - | - | - |
| - Effaith setliadau | - | - | - |
| **Cyfanswm cost y gwasanaeth** | **-** | **6,988** | **(6,988)** |
| Llog net | | | |
| - Incwm llog ar asedau'r cynllun | 20,374 | - | 20,374 |
| - Cost llog ar rwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | - | 16,697 | (16,697) |
| - Effaith terfyn uchaf asedau ar log net | - | - | - |
| **Cyfanswm llog net** | **20,374** | **16,697** | **3,677** |
| **Cyfanswm cost buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn Elw neu (golled)** | **20,374** | **23,685** | **(3,311)** |
| Llif arian | | | |
| - Cyfraniadau cyfranwyr i'r cynllun | 2,281 | 2,281 | - |
| - Cyfraniadau'r cyflogwyr | 6,899 | - | 6,899 |
| - Cyfraniadau o ran buddion nas ariennir | - | - | - |
| - Buddion a dalwyd | (11,138) | (11,138) | - |
| - Buddion a dalwyd nas ariennir | - | - | - |
| Effaith cyfuniadau a gwarediadau'r busnes | - | - | - |
| **Sefyllfa Orffenedig Ddisgwyliedig** | **436,205** | **367,272** | **68,933** |
| Ailfesuriadau | | | |
| - Newid mewn rhagdybiaethau ariannol | - | (22,925) | 22,925 |
| - Newid mewn rhagdybiaethau demograffig | - | (2,307) | 2,307 |
| - Profiad arall | - | 9,876 | (9,876) |
| - Enillion ar asedau ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net | 13,386 | - | 13,386 |
| - Newidiadau yn y terfyn uchaf asedau | (39,764) | - | (39,764) |
| **Cyfanswm ailfesuriadau a gydnabyddir yn Incwm Cynhwysfawr Arall** | **(26,378)** | **(15,356)** | **(11,022)** |
| Gwahaniaethau cyfnewid | - | - | - |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwyr | 409,827 | - | 409,827 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | - | 351,916 | (351,916) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | - | - | - |
| **Sefyllfa orffenedig fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024** | **409,827** | **351,916** | **57,911** |

* Mae'r gost gwasanaeth gyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer taliadau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

Amcangyfrifir bod gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir yn cynnwys oddeutu £171,078,000, £50,214,000 a £130,624,000 mewn perthynas ag aelodau sy'n weithwyr, pensiynwyr gohiriedig a phensiynwyr yn y drefn honno ar 31 Mawrth 2024. Mae gwerth teg asedau'r cynllun gan y cyflogwr tua 10% o cyfanswm y gronfa.

## 16.2.5 Newid mewn gwerth teg asedau cynllun, rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio a rhwymedigaethau net (parhad)

| Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | Asedau £(000s) | Rhwymedigaethau £(000s) | Net (atebolrwydd) / ased £(000s) |
|---|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cyflogwyr | 463,434 | - | 463,434 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | - | 517,808 | (517,808) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | - | - | - |
| **Sefyllfa agoriadol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022** | **463,434** | **517,808** | **(54,374)** |
| Cost y gwasanaeth | | | |
| - Cost bresennol y gwasanaeth* | - | 14,855 | (14,855) |
| - Cost gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) ** | - | - | - |
| - Effaith setliadau | - | - | - |
| **Cyfanswm cost y gwasanaeth** | **-** | **14,855** | **(14,855)** |
| Llog net | | | |
| - Incwm llog ar asedau'r cynllun | 12,416 | - | 12,416 |
| - Cost llog ar rwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | - | 14,083 | (14,083) |
| - Effaith terfyn uchaf asedau ar log net | - | - | - |
| **Cyfanswm llog net** | **12,416** | **14,083** | **(1,667)** |
| **Cyfanswm cost buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn Elw neu (golled)** | **12,416** | **28,938** | **(16,522)** |
| Llif arian | | | |
| - Cyfraniadau cyfranwyr i'r cynllun | 2,197 | 2,197 | - |
| - Cyfraniadau'r cyflogwyr | 6,816 | - | 6,816 |
| - Cyfraniadau o ran buddion nas ariennir | - | - | - |
| - Buddion a dalwyd | (8,722) | (8,722) | - |
| - Buddion a dalwyd nas ariennir | - | - | - |
| Effaith cyfuniadau a gwarediadau'r busnes | - | - | - |
| **Sefyllfa Orffenedig Ddisgwyliedig** | **476,141** | **540,221** | **(64,080)** |
| Ailfesuriadau | | | |
| - Newid mewn rhagdybiaethau ariannol | - | (223,729) | 223,729 |
| - Newid mewn rhagdybiaethau demograffig | - | 972 | (972) |
| - Profiad arall | (5,230) | 34,980 | (40,210) |
| - Enillion ar asedau ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net | (37,618) | - | (37,618) |
| - Newidiadau yn y terfyn uchaf asedau | (15,504) | - | (15,504) |
| **Cyfanswm ailfesuriadau a gydnabyddir yn 'Arall' Incwm Cynhwysfawr (OCI)** | **(58,352)** | **(187,777)** | **129,425** |
| Gwahaniaethau cyfnewid | - | - | - |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwyr | 417,789 | - | 417,789 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | - | 352,444 | (352,444) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | - | - | - |
| **Sefyllfa orffenedig fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023** | **417,789** | **352,444** | **65,345** |

* Mae'r gost gwasanaeth gyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer taliadau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

## 17. Ymrwymiadau cyfalaf

Lle mae gan CNC ymrwymiadau cyfalaf cytundebol na ddarperir ar eu cyfer yn y datganiadau ariannol, fe'u datgelir yn y tabl isod. Dangosir yr ymrwymiadau sy'n ymwneud â Gwaith Cyfalaf a Wariwyd yn ystod y Flwyddyn yn nodyn 4.

| | 31 Mawrth 2024<br>£'000 | 31 Mawrth 2023<br>£'000 |
|---|---:|---:|
| **Eiddo, peiriannau ac offer** | | |
| Peiriannau ac offer | 755 | 296 |
| Offer trafnidiaeth | 32 | 11 |
| Strwythurau gweithredol | 489 | 621 |
| Strwythurau cyhoeddus | 186 | 156 |
| Technoleg gwybodaeth - caledwedd | 283 | 787 |
| **Cyfanswm** | **1,745** | **1,871** |
| | | |
| **Asedau anniriaethol** | | |
| Technoleg gwybodaeth - trwyddedau meddalwedd | 166 | 18 |
| Technoleg gwybodaeth - datblygu meddalwedd | 1,229 | 787 |
| **Cyfanswm** | **1,395** | **805** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **3,140** | **2,676** |

## 18. Ymrwymiadau o dan brydlesi

### Gweithredu IFRS16

Ar gyfer cyrff y llywodraeth sy'n adrodd o dan y FReM, daeth IFRS 16 i rym ar 1 Ebrill 2022 i gymryd lle IAS 17 (Lesoedd).

Ar gyfer lesoedd tymor byr (tymor les o 12 mis neu lai) a lesoedd asedau gwerth isel, bydd CNC yn dewis cydnabod traul les ar sail llinell syth fel y caniateir gan IFRS 16. Mae rhwymedigaethau o dan lesoedd gweithredu yn ymwneud â'r cytundebau hynny nad ydynt wedi'u cynnwys yn IFRS 16. Mae'r rhain wedi cael eu hadrodd yn flaenorol yn nodyn 17, ond maent bellach yn cael eu dangos o fewn nodyn 8.2 am eglurder.

## 19. Ymrwymiadau ariannol eraill

Yn ogystal â'r gwariant ymroddedig a adroddwyd yn Nodyn 4 (Gwariant ar Waith Cyfalaf mewn blwyddyn), Nodyn 17 (Ymrwymiadau Cyfalaf) a Nodyn 18 (Ymrwymiadau o dan lesoedd), mae CNC wedi ymrwymo i'r gwariant canlynol ar 31 Mawrth 2024. Mae'r costau hyn yn cynnwys contractau na ellir eu canslo megis cytundebau lefel gwasanaeth a chytundebau rheoli tiroedd yn ogystal ac archebion prynu agored ar gyfer busnes parhaus:

| | 31 Mawrth 2024<br>£'000 | 31 Mawrth 2023<br>£'000 |
|---|---:|---:|
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 22,136 | 26,973 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 5,343 | 5,181 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 114 | 140 |
| **Cyfanswm** | **27,593** | **32,294** |

## 20. Symiau derbyniadwy o dan brydlesi

Mae asedau (tir ac adeiladau) sy'n cael eu lesio i bartïon allanol o dan les weithredol yn cael eu cyfalafu yn unol â'r polisi asedau anghyfredol a amlinellir yn nodyn 7. Rhoddir cyfrif am incwm les weithredol ar sail llinell syth a'r isafswm yn y dyfodol. Dangosir taliadau les sy'n dderbyniadwy o dan lesoedd gweithredu na ellir eu canslo yn y tabl isod. Amcangyfrifir taliadau prydles y dyfodol gan ddefnyddio'r 12 mis diweddaraf o incwm a anfonebwyd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r tabl yn cynnwys incwm a ragwelir o ffermydd gwynt, gan fod CNC yn rheoli'r lesoedd hyn ar ran LlC a breindaliadau o'r Rhaglen Darparu Ynni, mynediad Trydydd Parti, Hydro a lesoedd eraill.

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 21,708 | 18,798 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 84,727 | 73,030 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 296,895 | 262,104 |
| **Cyfanswm** | **403,330** | **353,932** |

Mae'r incwm o brydlesi fferm wynt yn cynrychioli rhan fawr o'r gwerthoedd a ddatgelir yn y tabl uchod. Lle mae ffermydd gwynt yn ddarostyngedig i Nodyn Cyngor Technegol 8 Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (TAN 8), nid yw'r incwm yn cael ei gadw gan CNC ac mae'n cael ei ildio i LlC. Mae mwy o wybodaeth am yr incwm hwn ar gael yn Nodyn 1.4.

## 21. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae CNC yn datgelu rhwymedigaethau digwyddiadol yn unol ag IAS 37 pan fo rhwymedigaeth bosibl yn bodoli, yn dibynnu a yw rhyw ddigwyddiad ansicr yn y dyfodol yn digwydd, neu a oes rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ond nid yw'r taliad yn debygol, neu na ellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y rhwymedigaethau digwyddiadol fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Hawliadau gwerthu pren | 60 | 60 |
| Hawliadau difrod llifogydd a stormydd | 802 | 802 |
| Atebolrwydd cyhoeddus a gweithwyr | 46 | 37 |
| **Cyfanswm** | 907 | 899 |

**Hawliadau gwerthu pren**
Mae CNC wedi derbyn hawliadau gan gwmni pren mewn perthynas â'u contract gyda CNC. Mae'r swm a ddatgelir yn y tabl uchod yn ymwneud ag un hawliad.

**Hawliadau difrod llifogydd a stormydd**
Mae 14 achos agored yn ymwneud â difrod i eiddo yn dilyn methiant draeniau storm a cheuffosydd o ganlyniad i stormydd Ciara, Dennis ac Arwen.

**Atebolrwydd cyhoeddus a gweithwyr**
Mae gwerth 9 hawliad atebolrwydd cyhoeddus wedi'i gynnwys yn y tabl uchod. Mae'r hawliadau hyn ar gyfer anaf personol, difrod arall i eiddo a chwynion gweithwyr.

### Rhwymedigaethau amodol heb eu mesur

Yn unol ag IAS 37, mae CNC yn datgelu'r rhwymedigaethau amodol anfesuradwy canlynol. Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys gwerthoedd ar gyfer y rhwymedigaethau amodol canlynol:

**Hawliadau difrod llifogydd a stormydd**
Mae 54 o hawliadau wedi'u derbyn lle nad yw'r gwerthoedd wedi'u mesur hyd yn hyn. O fewn hyn mae un hawliad a allai fod yn sylweddol oherwydd difrod i wal llifogydd. Mae CNC yn y broses o negodi setliad, ond ar ddiwedd y flwyddyn mae'r swm hwn yn dal heb ei fesur.

**Hawliadau iawndal eraill**
Mae 3 hawliad arall heb ei fesur mewn perthynas â difrod i eiddo. Ceir hefyd un hawliad am golli enillion ac un hawliad arall am iawndal heb ei fesur.

**Gwaith strwythurol mewn swyddfa sydd wedi'i phrydlesu**
Mae mater strwythurol gyda'r cladin allanol wedi'i nodi ar swyddfa a brydlesir gan CNC.  Mae CNC yn credu y gallai fod yn gyfrifol am y gwaith sydd ei angen i unioni cladin sydd mewn cyflwr gwael, ond nid yw CNC yn credu ei fod yn atebol am gost trwsio'r nam cudd yn y cladin.  Mae trafodaethau'n parhau gyda'r landlord yn ei gylch ac felly rydym yn datgelu atebolrwydd amodol anfesuredig.

**Hawliadau colled ariannol**
Mae hawliad parhaus ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â'r posibilrwydd o golli incwm oherwydd amrywiad a osodwyd i'r drwydded tynnu dŵr i warchod Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi.  Bydd y cais hwn yn cael ei gwmpasu hyd at £660k gan gynllun Tâl Uned Gwella'r Amgylchedd (EIUC) CNC. Ar y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, nid yw'r rhwymedigaeth bosibl wedi'i mesur oherwydd y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt.

**Anaf Personol**
Mae 1 hawliad wedi'i dderbyn mewn perthynas ag anaf a gafwyd wrth feicio ar ein hystâd. Mae 12 achos agored ac anfesuredig arall mewn perthynas â llithro, baglu a chwympo, a digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid a cherbydau.

**Adolygiad Cyllid a Thollau EF (CThEF)**
Rydym wedi derbyn barn CThEF ar atebolrwydd posibl mewn perthynas ag IR35 a chontractwyr yr ydym wedi ymateb iddynt.

Gall atebolrwydd ddod i'r amlwg ac mae ystod eang o werthoedd yn bosibl. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ariannol, heb dderbyn unrhyw atebolrwydd, mae CNC wedi gwneud taliad heb ragfarn o £19 miliwn i CThEF. Mae hyn mewn perthynas ag unrhyw ddarpar dreth incwm PAYE, ardoll Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phrentisiaethau neu unrhyw atebolrwydd arall sydd gan CNC i CThEF. Mae hyn hefyd yn cynnwys llog a allai fod yn daladwy gan CNC i CThEF ar ddiwedd ei ymholiad a/neu unrhyw apeliadau neu setliad. Mae'r taliad ar gyfrif wedi'i gynnwys yn nodyn 12 i'r cyfrifon.

Disgwylir y bydd trafodaethau'n parhau ar adeg llofnodi'r cyfrifon blynyddol, felly datgelir atebolrwydd amodol heb ei fesur.

**Clymog Japan**
Mae wyth hawliad am ddifrod a achoswyd gan blanhigyn Clymog Japan yn aros am farn arbenigol am gostau posib difrod a thrwsio.

**Cyfraith achosion sy'n dod i'r amlwg sy'n ymwneud â chynlluniau pensiwn**
Ym mis Mehefin 2023, canfu'r Uchel Lys yn achos Virgin Media fod newidiadau i fuddion aelodau mewn cynlluniau pensiwn buddion diffiniedig wedi'u contractio allan rhwng 1996 a 2016 yn gofyn am dystysgrif actiwaraidd yn unol ag adran 37 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993 a bod newidiadau heb yr ardystiad hwn. yn cael eu hystyried yn ddi-rym. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i hawliau gwasanaeth yn y gorffennol a hawliau gwasanaeth yn y dyfodol, ac i newidiadau er anfantais neu fudd i aelodau'r cynllun. Apeliwyd yn erbyn y dyfarniad ym mis Mehefin 2024 ond gwrthodwyd yr apêl.

Ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Gwasanaeth Sifil, nid yw Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) yn credu bod unrhyw gadarnhad actiwaraidd yn absennol. Felly, nid ydynt yn disgwyl i unrhyw newidiadau atebolrwydd godi yn dilyn y dyfarniad hwn. Bydd GAD yn cadarnhau bod cadarnhad actiwaraidd ar gael maes o law.

## 22. Digwyddiadau ar ôl diwedd y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau i'w hadrodd ar ôl diwedd y cyfnod adrodd.

## 23. Dyddiad awdurdodi ar gyfer cyhoeddi

Mae'r Datganiadau Ariannol hyn yn cael eu gosod gerbron y Senedd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, Huw Irranca-Davies AS. Mae IAS 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog cyfrifyddu ddatgelu'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi. Y dyddiad cyhoeddi awdurdodedig yw dyddiad adroddiad archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.

## 24. Partïon cysylltiedig

Mae CNC yn gorff a noddir gan LlC, sy'n cael ei ystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae CNC wedi cael trafodion perthnasol sylweddol gyda LlC yn ystod busnes arferol (adroddir ar y cymorth grant a'r grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr). Mae CNC hefyd wedi cael trafodion gydag endidau eraill y mae LlC yn cael eu hystyried fel y sefydliad rhiant yn ogystal a thrafodion gyda chyrff cyhoeddus eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn wedi bod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a CThEF.

Yn ystod y flwyddyn, fe ymrwymodd CNC, yn ystod ei fusnes arferol, y trafodion canlynol gyda'r sefydliadau canlynol yr oedd gan aelodau'r Bwrdd ac Aelodau Gweithredol neu bartïon cysylltiedig eraill ddiddordeb ynddynt. Nid oes gan y bwrdd na'r aelodau gweithredol unrhyw ran uniongyrchol yn y trafodion gyda'r partïon cysylltiedig hyn, ac nid ydynt o reidrwydd yn ganlyniad uniongyrchol i'r berthynas. Rydym wedi dangos trafodion am y flwyddyn gyfan gan gynnwys lle mae aelodau wedi ymuno neu adael yn ystod y flwyddyn.

| Sefydliad | Aelod | Natur y berthynas | Cyfanswm gwariant<br>£'000 | Cyfanswm yr incwm<br>£'000 | Swm sy'n ddyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2024<br>£'000 | Swm sy'n ddyledus i CNC ar 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | Rhys Jones<br>Priod Rhys Jones | Athro<br>Cyflogai | 14 | 3 | 0 | 1 |
| Canals and River Trust | Priod Julia Cherrett | Ymddiriedolwr | 0 | 27 | 0 | 1 |
| Prifysgol Caerdydd | Steve Ormerod<br>Calvin Jones | Athro<br>Athro | 12 | 10 | 0 | 1 |
| Sefydliad Ymchwil Dŵr Prifysgol Caerdydd | Steve Ormerod a'i briod | Cyd-gyfarwyddwyr | | | | |
| Arsyllfa Llyn Brianne Prifysgol Caerdydd | Steve Ormerod a'i briod | Prif Ymchwilwyr | | | | |
| Cartrefi Conwy | Helen Pittaway | Cyfarwyddwr Anweithredol | 0 | 1 | 0 | 1 |

| Sefydliad | Aelod | Natur y berthynas | Cyfanswm gwariant<br><br>£'000 | Cyfanswm yr incwm<br><br>£'000 | Swm sy'n ddyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2024<br><br>£'000 | Swm sy'n ddyledus i CNC ar 31 Mawrth 2024<br><br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Kathleen Palmer | Is-gadeirydd | 0 | 5 | 0 | 1 |
| Cwmni Pum Plwy Penllyn Cyf | Geraint Davies | Cyfarwyddwr | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Prosiect Down to Earth | Mark McKenna a'i Briod | Cyfarwyddwyr | 5 | 0 | 0 | 0 |
| Joint Nature Conservation Committee | Rhys Jones<br><br>Steve Ormerod | Aelodau'r Pwyllgor | 89 | 9 | 0 | 0 |
| Cadwch Gymru'n Daclus | Ceri Davies | Ymddiriedolwr | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | Sarah Jennings | Ymddiriedolwr | 4 | 1 | 0 | 0 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Rosie Plummer | Aelod o'r Bwrdd | 317 | 1 | 67 | 0 |
| Plantlife International | Rosie Plummer | Ymddiriedolwr | 64 | 23 | 27 | 23 |
| Royal Society for the Protection of Birds | Steve Ormerod | Is-lywydd | 953 | 2 | 765 | 15 |
| Llywodraeth Cymru | Calvin Jones | Cyflogai (ar secondiad) | 12,805 | 178,588 | 24,273 | 16,400 |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer Adolygiad Llifogydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Seilwaith a'r Amgylchedd

**Chwefror 2025**

**Cyflwyniad**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i wahodd i roi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Seilwaith a'r Amgylchedd i effeithiau stormydd Bert a Darragh.

Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig hon wedi'i strwythuro o amgylch y chwe thema y mae'r pwyllgor wedi nodi y bydd yn eu hystyried:

1. A oedd systemau paratoi, rhagweld a rhybuddio'n ddigonol.
2. Gwydnwch seilwaith fel systemau dŵr a charthffosiaeth, seilwaith dosbarthu trydan, a rhwydweithiau trafnidiaeth i effeithiau stormydd, gan gynnwys tirlithriadau llifogydd, difrod i gwlferi a llync-dyllau newydd.
3. Yr effaith ar gymunedau, a rôl tirfeddianwyr, grwpiau cymunedol, a sefydliadau trydydd sector.
4. Ymateb awdurdodau cyhoeddus a phreifat.
5. A yw sefydliadau perthnasol wedi dysgu gwersi yn dilyn stormydd gaeaf blaenorol, yn enwedig Storm Dennis yn 2020, a sut mae'r gwersi hyn yn llywio'r dull gweithredu presennol.
6. Defnyddio astudiaethau achos stormydd Bert a Darragh i gael golwg gyffredinol ar y fframwaith paratoi ac ymateb i stormydd presennol yng Nghymru, a nodi unrhyw fylchau.

**Cefndir:**

Cafodd stormydd Bert (23-24 Tachwedd 2024) a Darragh (7-8 Rhagfyr 2024) effeithiau sylweddol ar sawl rhan o Gymru. Mae canlyniadau llifogydd yn wirioneddol ddinistriol, nid yn unig y niwed ffisegol i bobl ac eiddo, ond hefyd yr effeithiau ar fywoliaeth, swyddi, cymunedau, ac ar yr amgylchedd o'n cwmpas. Gall yr effeithiau bara'n hir hefyd: gall fod yn fisoedd, hyd yn oed flynyddoedd, cyn y gellir ail-fyw mewn eiddo sydd dan ddŵr, a gall yr effeithiau ar iechyd meddwl fod yn ddwfn ac yn hirhoedlog. Mae ein meddyliau a'n cydymdeimlad gyda phawb yr effeithiwyd arnynt yn ystod llifogydd, yn yr achos hwn yn enwedig y rhai yr effeithiwyd arnynt gan stormydd Bert a Darragh.

Mae'r perygl o lifogydd yn effeithio ar lawer o gymunedau, ac yn cynyddu, ac mae natur stormydd yn newid. Mae 273,000 o gartrefi yng Nghymru, neu un o bob saith, mewn perygl o lifogydd. Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd yn golygu y rhagwelir y bydd y ffigwr hwn yn codi i 350,000 (cynnydd o 28%) erbyn 2120 – ac mae hyn cyn adeiladu unrhyw dai newydd.

Nid un ffynhonnell sy'n gyfrifol am achosion llifogydd, a gwahanol awdurdodau rheoli risg sy'n gyfrifol am reoli llifogydd. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) rôl o ran bod â throsolwg strategol o reolaeth perygl llifogydd yng Nghymru, sy'n golygu cael dealltwriaeth genedlaethol o'r perygl o lifogydd. Mae hyn yn bwysig oherwydd y ffynonellau lluosog o berygl llifogydd, a pholisi Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu ar lefel genedlaethol ac ar sail perygl i fywyd. Mae gan CNC hefyd bwerau dewisol i reoli llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr. Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol sy'n gyfrifol am y pwerau ar gyfer llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr llai – yng Nghymru, yr awdurdodau lleol yw'r rhain. Mae gan gwmnïau dŵr gyfrifoldebau dros ddraenio a dŵr wyneb. Daw achos llifogydd yn aml o fwy nag un ffynhonnell ac felly mae'n bwysig bod yr holl bartneriaid, gan gynnwys CNC, awdurdodau lleol, adrannau Llywodraeth Cymru, cwmnïau dŵr a'r cymunedau eu hunain, yn cydweithio i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae CNC yn gweithio o fewn ei gyllideb a'i adnoddau i wneud ymyriadau i leihau effeithiau llifogydd. Gyda digwyddiadau tywydd eithafol amlach a mwy difrifol yn digwydd, mae'r gwaith hwn yn dod yn fwyfwy heriol. Cawn ein cyfarwyddo gan Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu ar sail Cymru gyfan, a gwneir ein penderfyniadau buddsoddi yn unol â rheolau'r Trysorlys. Mae hyn yn bwysig oherwydd efallai nad yw blaenoriaethau perygl llifogydd lleol, er eu bod yn amlwg yn bwysig yn lleol, yn flaenoriaeth genedlaethol.

Rydym yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau i leihau effeithiau llifogydd. Mae hyn yn cynnwys cynghori ar geisiadau cynllunio a chynigion mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, mapio a modelu perygl llifogydd, adeiladu a chynnal amddiffynfeydd, a rhybuddio a hysbysu ble a phryd y disgwylir llifogydd.

Mae gennym Gyfarwyddyd Gweinidogol i weithredu gwasanaeth rhybuddion llifogydd. Mae hyn yn cynnwys llifogydd o brif afonydd a'r môr sy'n cyd-fynd â phwerau CNC ar gyfer y ffynonellau llifogydd hyn. Nid yw Cymru gyfan, ac nid yw pob un o'r ardaloedd sydd mewn

perygl o lifogydd, yn dod o dan y gwasanaeth rhybuddion llifogydd. Mae rhai ardaloedd anghysbell ac arunig sydd mewn perygl o lifogydd, ac oherwydd rhesymau technegol neu flaenoriaethu a chostau, ni allwn weithredu gwasanaeth yn y lleoliadau hyn. A hyd yn oed os yw gwasanaeth rhybuddion llifogydd yn cael ei ddarparu, nid yw'r lefelau defnydd bob amser yr hyn yr hoffem iddynt fod.

Mae 89 o leoliadau llifogydd môr a 112 o leoliadau llifogydd afonydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaeth rhybuddion llifogydd yng Nghymru. Ar gyfer llawer (ond nid pob un) o'r ardaloedd hyn, mae rhybuddion yn seiliedig ar fodelau rhagolygon o'n hafonydd. Ond nid oes gennym fodelau rhagolygon ar gyfer pob lleoliad ac, unwaith eto, mae hyn oherwydd prinder adnoddau, costau a blaenoriaethau. Mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan fodelau rhagolygon, rydym yn dibynnu ar ddata a arsylwyd a chofnodion hanesyddol i ragweld beth sy'n debygol o ddigwydd. Mae angen arbenigedd a phrofiad technegol dynol arbenigol ar gyfer pob math o rybudd, boed yn rhagfynegiad ai peidio.

Cyhoeddir rhybuddion llifogydd trwy ein gwefan, ac yn uniongyrchol i unrhyw un sy'n ymuno â'r gwasanaeth rhad ac am ddim os yw ar gael yn eu hardal.

**Ar y meysydd ffocws ar gyfer y pwyllgor:**

| **1. A oedd systemau rhagweld a rhybuddio yn ddigonol** |
|---|
| Mae'r Swyddfa Dywydd, y Ganolfan Darogan Llifogydd ac CNC yn cydweithio'n agos i ragweld a rhybuddio am lifogydd. Mae'r Swyddfa Dywydd yn rhagweld y tywydd a chyfansymiau glawiad, ei ddosbarthiad a'i hyd. Mae rhagweld y tywydd yn wyddoniaeth gymhleth – mae rhagolygon yn newid ac mae ansicrwydd cynhenid. Mae'r ansicrwydd hwn yn hynod bresennol po bellaf ymlaen y gwneir y rhagolwg. Mae'r Swyddfa Dywydd yn defnyddio'r wyddoniaeth orau sydd ar gael, ynghyd â chyfrifiaduron a staff arbenigol, i ragweld a chyhoeddi rhybuddion tywydd i'r cyhoedd trwy ei hamrywiol allfeydd (e.e. gwasanaethau gwe a darllediadau cyfryngau).<br><br>Mae'r Ganolfan Darogan Llifogydd yn fenter ar y cyd rhwng y Swyddfa Dywydd, Asiantaeth yr Amgylchedd (yn Lloegr) ac CNC (yng Nghymru). Mae hi'n cymryd rhagolygon y tywydd gan y Swyddfa Dywydd ac yn asesu beth mae hyn yn debygol o'i olygu ar gyfer llifogydd, ar raddfa lefel sirol / awdurdod lleol. Mae CNC yn gweithio ochr yn ochr â'r Ganolfan Darogan Llifogydd i gynhyrchu'r Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd dyddiol, gyda ffenestr rhagolwg o bum niwrnod (h.y. mae'n darparu gwybodaeth ar gyfer y pum niwrnod nesaf). Mae'r wybodaeth hon ar ffurf rhagolwg *tebygolrwydd* ac *effaith* llifogydd. |

Rhennir y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd pum niwrnod gyda sefydliadau partner y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (e.e. awdurdodau lleol a gwasanaethau brys) i alluogi paratoadau ar gyfer llifogydd. Mae fersiwn symlach o’r rhagolwg pum niwrnod ar gael i’r cyhoedd ar wefan CNC.

Mae CNC yn cymryd yr wybodaeth gan y Swyddfa Dywydd a’r Ganolfan Darogan Llifogydd ac yn cyfuno honno â data a arsylwyd o’n rhwydwaith o fesuryddion afon a glaw i ragweld llifogydd. Mewn llawer o leoliadau (ond nid pob un), mae modelau rhagolwg, sy’n prosesu’r data mewnbwn ac yn rhagweld beth sy’n debygol o ddigwydd. Gan y bydd bob amser amrywioldeb (hynny yw, ystod o ganlyniadau posibl) yn y glawiad a ragwelir ac yn ymateb yr afonydd, yna bydd ystod o debygolrwydd o ran a fydd lleoliad yn gorlifo ai peidio; a phryd y mae'n debygol o ddigwydd; nid yw’n wyddoniaeth derfynol (ie neu na). Mae arbenigedd arbenigwyr tywydd proffesiynol a staff rhybuddion llifogydd hefyd yn rhan hanfodol o’r gadwyn sy’n cynhyrchu gwybodaeth rhybuddion.

O ran Storm Bert, roedd y Swyddfa Dywydd yn nodi’r glaw sylweddol a ragwelwyd yn ei rhagolygon tywydd bum niwrnod cyn y storm. Ddydd Mercher 20 Tachwedd, cyhoeddodd y Swyddfa Dywydd rybudd melyn ar gyfer glaw ar draws de Cymru, a gafodd ei ymestyn fore Gwener 22 Tachwedd i gwmpasu mwy o ogledd-orllewin Cymru ac Ynys Môn. Enwodd y Swyddfa Dywydd y digwyddiad yn Storm Bert ar ddydd Iau 21 Tachwedd. Adlewyrchodd y Ganolfan Darogan Llifogydd y rhybuddion tywydd, gan nodi tebygolrwydd isel o effeithiau arwyddocaol bum niwrnod ymlaen llaw (o ddydd Mercher 20 Tachwedd). Roedd y tebygolrwydd isel yn adlewyrchu’r ansicrwydd yn y llwybr a’r dwyster a ragwelwyd ond roedd y potensial effaith sylweddol oherwydd cyfansymiau glaw (hyd at 150mm o bosib mewn rhai mannau). Roedd yr wybodaeth hon ar gael i’r holl asiantaethau partner i’w cynorthwyo yn eu cynllunio.

Drwy gydol y cyfnod, fel yn ystod unrhyw dywydd gwlyb, roedd CNC yn cymryd y data glawiad diweddaraf a ragwelwyd ac yn ei redeg drwy ein modelau rhagweld i asesu’r perygl llifogydd a ragwelwyd (yn y dyfodol). Fe wnaethom gyhoeddi 65 o negeseuon llifogydd yn y cyfnod cyn y storm i rybuddio trigolion bod llifogydd yn bosibl. Fe wnaethom gyhoeddi 68 o rybuddion llifogydd a 2 rybudd llifogydd difrifol yn nes at y digwyddiadau pan oedd mwy o sicrwydd yn y rhagolygon a’r lleoliadau. Bu hefyd negeseuon a sylw helaeth yn y cyfryngau yn ystod y cyfnod.

Mae dalgylchoedd dyffrynnoedd serth fel Cymoedd y De, oherwydd eu topograffi, yn ymateb yn gyflym iawn i gawodydd trwm. Yr hyn a brofwyd gennym yn ystod Storm Bert oedd glaw trwm iawn a oedd yn anodd iawn rhagweld ble’n union roedd yn mynd i daro. Ymatebodd afonydd dalgylch yr afon Taf yn hynod o gyflym i’r glawiad, gan roi amser arwain byr ar gyfer cyhoeddi rhybuddion. Mae’r digwyddiadau glaw eithafol hyn a’r ansicrwydd ynghylch meintiau a lleoliadau yn nodwedd o newid yn yr hinsawdd, ac rydym yn gorfod delio â’r sefyllfaoedd hyn yn gynyddol amlach. Mae’r amser arwain byr

rhwng glaw yn disgyn ac afonydd yn codi ac effeithiau'n digwydd, ynghŷd â'r ansicrwydd, i gyd yn gwthio ffiniau rhagweld a galluoedd dynol i ymateb. Gallwn roi mwy o rybuddion ar drothwyon a hyder is, ond byddai llawer mwy o rybuddion diangen pe baem yn eu cyhoeddi'n rhy gynnar yn seiliedig ar ddata hyder isel ac nad yw'r digwyddiadau a ragwelwyd yn digwydd. Mae perygl gwirioneddol o godi bwganod, fel bod y cyhoedd a phartneriaid yn meddwl na fydd effeithiau'n digwydd ar yr adegau hynny pan fyddwn yn rhagweld gyda mwy o hyder eu bod yn mynd i ddigwydd.

Mae hefyd yn hanfodol bwysig bod unigolion a chymunedau yn gwybod beth mae'r gwahanol fathau o rybuddion llifogydd yn ei olygu, sut i gael gafael arnynt, a beth i'w wneud os cyhoeddir hysbysiad am lifogydd, rhybudd am lifogydd neu rybudd am lifogydd difrifol. Mae llawer o wybodaeth ar ein gwefan am yr holl agweddau hyn.

I grynhoi, felly, gweithiodd y systemau rhagfynegi a rhybuddio yn dda ynddynt eu hunain yn ystod y stormydd hyn, ond rydym yn gweithredu mewn cyfnod heriol iawn, gyda hinsawdd gyfnewidiol a digwyddiadau tywydd amlach ac eithafol, a chydag ansicrwydd sydd weithiau'n arwain at amseroedd arwain byrrach. Mae'n amlwg bod angen buddsoddi mewn gwelliannau parhaus i systemau, ac mewn arbenigedd dynol, os ydym am gadw i fyny â'r newid yn yr hinsawdd a'r risgiau cynyddol.

## 2. Gwydnwch seilwaith i effeithiau sy'n gysylltiedig â stormydd, gan gynnwys systemau dŵr a charthffosiaeth, seilwaith dosbarthu trydan, a rhwydweithiau trafnidiaeth

Mae llifogydd yn un o'r prif risgiau argyfyngau sifil posibl yng Nghymru, ac yn ogystal ag eiddo preswyl, mae'n anochel bod llawer o seilwaith mewn perygl. Mae ein gwybodaeth fodelu yn dangos bod 4,385 o wasanaethau allweddol mewn perygl o lifogydd ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau fel ysgolion, ysbytai, canolfannau gwasanaethau brys, gorsafoedd rheilffordd a chyfleustodau.

Fel y cyfarwyddir gan bolisi Llywodraeth Cymru, mae CNC yn blaenoriaethu'n bennaf ar sail risg i fywyd a risg i eiddo preswyl, gan fod y perygl mwyaf i fywyd fel arfer yn digwydd mewn sefyllfa o lifogydd pan fydd pobl yn eu cartrefi. Fodd bynnag, yn bendant, ar draws ystod o gyrff sector cyhoeddus a phreifat, mae angen mynd i'r afael â'r effeithiau ar seilwaith. Mae angen cydgysylltu a chydweithredu rhwng awdurdodau, gan gynnwys drwy strwythurau'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, ac mae angen i ddarparwyr seilwaith gymryd cyfrifoldeb am beryglon llifogydd i'w hasedau.

Yn ystod Storm Bert, bu llifogydd mewn mwy na 700 o gartrefi ledled Cymru. Digwyddodd tirlithriad yng Nghwmtyleri, Blaenau Gwent, gyda thomen lo segur yn cwympo'n rhannol, gan orfodi gwacáu tua 40 o gartrefi oherwydd bod creigiau a mwd yn

llifo i strydoedd preswyl. Yn ogystal, agorodd llync-dwll mawr ar stryd breswyl ym Merthyr Tudful ar ôl i geuffos dan ddaear gael ei difrodi gan glogfeini.

Fodd bynnag, mae effeithiau llifogydd yn ymestyn yn llawer pellach nag eiddo preswyl, gyda phobl, eu bywoliaeth a busnesau i gyd yn cael eu heffeithio, gan achosi sgil-effaith sylweddol ar yr economi yng Nghymru.

O ganlyniad i Storm Bert, arweiniodd llifogydd a difrod i'r seilwaith at amhariad eang ar y rheilffyrdd, gan gynnwys cau rheilffyrdd Calon Cymru a'r Gororau. Cafodd llawer o ffyrdd eu cau hefyd oherwydd llifogydd a thirlithriadau, gan gynnwys yr A479 ym Mhowys a'r A4042 yn Sir Fynwy.

Effeithiwyd hefyd ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys addysg, gan Storm Bert a Storm Darragh, gydag ysgolion ledled Cymru yn cael eu gorfodi i gau.

Fe wnaeth y gwyntoedd dinistriol a achoswyd gan Storm Darragh ddifrodi seilwaith pŵer yn sylweddol gyda mwy na 259,000 o gartrefi heb bŵer ar anterth y tarfu ar y rhwydwaith trydan.

O ganlyniad i'r stormydd, profodd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (y mae CNC yn ei rheoli ar ran Llywodraeth Cymru) ddifrod sylweddol gyda channoedd o filoedd o fetrau ciwbig o bren ar y ddaear. Mae'r broses glirio wrth gwrs yn cymryd llawer o amser ac yn gostus, gydag angen cynyddol i ailblannu coed dros y ddwy i bum mlynedd nesaf, gan ymestyn yr adnoddau a'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn. Bu ein timau rheoli tir yn gweithio'n agos yn dilyn y stormydd gydag asiantaethau partner i gynnal gwiriadau lles ar drigolion sy'n byw ar ystad goetir CNC, yn ogystal â chlirio ffyrdd fel bod seilwaith hanfodol yn parhau'n hygyrch.

## 3. Yr effaith ar gymunedau, a rôl ymateb sefydliadau cymunedol a thrydydd sector

Gall effaith llifogydd ar gymunedau fod yn ddinistriol a pharhaol, yn enwedig os yw llifogydd wedi effeithio arnynt yn flaenorol. Os yw tai, eiddo neu gerbydau wedi'u difrodi, gall delio â'r cwmni yswiriant achosi straen enbyd, yn enwedig i breswylwyr sydd wedi'u dadleoli o'u cartrefi. Mae pryder ynghylch yswirio cartrefi yn y dyfodol hefyd yn ychwanegu at ansicrwydd. Gyda'i gilydd, mae gan yr holl faterion hyn y potensial i effeithio'n sylweddol ar fywoliaethau ac iechyd meddwl.

Bydd bob amser eiddo yng Nghymru mewn perygl o lifogydd, felly mae'n hanfodol bod cymunedau'n cael eu paratoi cystal ag y gallant fod, o flaen amser. Dyna pam yr ydym yn annog cymunedau lleol i ysgrifennu eu cynlluniau llifogydd cymunedol eu hunain fel eu bod yn ymwybodol o berygl llifogydd yn eu hardal ac wedi cynllunio'r hyn y byddant yn ei wneud os bydd llifogydd i leihau'r niwed iddynt hwy eu hunain a'u heiddo. Mae

adnoddau ar gael ar ein gwefan i gynorthwyo cymunedau gyda'r gwaith hwn. Mae CNC yn gweithio gyda sefydliadau trydydd sector fel y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol, y Groes Goch Brydeinig a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sydd eu hunain yn rhoi arweiniad i grwpiau llifogydd cymunedol, yn cynnig cyrsiau, ac yn helpu gyda mynediad at gyllid.

Rhaid inni fod yn realistig ynglŷn â pherygl llifogydd ar gymunedau lleol ac, wrth wneud hynny, grymuso pobl leol i chwarae eu rhan mewn paratoadau ar gyfer digwyddiadau llifogydd i sicrhau bod yr effaith ar bobl ac eiddo mor gyfyngedig â phosibl. Mae gan CNC lawer o wybodaeth ddefnyddiol ar gael i'r cyhoedd, yn ogystal â thempledi cynlluniau llifogydd cymunedol, ar ein gwefan a all helpu aelwydydd i baratoi ar gyfer llifogydd. Un agwedd allweddol yw argymell bod aelwydydd yn cofrestru i dderbyn negeseuon llifogydd a rhybuddion llifogydd trwy'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd rhad ac am ddim fel eu bod yn cael gwybod bod disgwyl llifogydd ac yn gallu cymryd camau i amddiffyn eu hunain a'u heiddo. Nid yw lefelau cofrestru mewn sawl rhan o Gymru mor uchel ag y byddem yn hoffi, ac mae addysg ac ymwybyddiaeth o'r adnoddau hyn yn bwysig.

Mae gwybodaeth fyw am lefel yr afonydd a'r môr ar ein gwefan hefyd a rydym wedi cael llawer o adborth bod hwn yn adnodd defnyddiol iawn i lawer o gymunedau. Mewn ardaloedd lle mae perygl mawr o lifogydd, efallai y bydd deiliaid tai am ystyried diogelu ar lefel eiddo i leihau difrod llifogydd yn y dyfodol, ond wrth gwrs efallai na fydd hyn yn ymarferol yn ariannol i lawer o drigolion. Ni ddylai eiddo gael ei adeiladu mewn ardaloedd risg uchel, ond os ydynt mewn lleoliadau lle mae perygl llifogydd, dylai'r datblygwyr sicrhau eu bod yn gallu gwrthsefyll llifogydd cymaint â phosibl.

## 4. Ymateb awdurdodau cyhoeddus a phreifat

Roedd stormydd Bert a Darragh yn her sylweddol yn unigol ond hefyd ar y cyd wrth iddynt daro o fewn pythefnos i'w gilydd, gan achosi llifogydd, tirlithriadau a difrod gwynt. Perfformiodd yr holl asiantaethau a oedd yn gysylltiedig â llifogydd yn dda ond roedd yn amlwg bod y digwyddiadau yn her iddynt.

Oddi mewn i ymdrechion cyfunol amrywiaeth o sefydliadau, gweithiodd staff CNC yn ddiflino drwy gydol y cyfnod hwn, gan ddefnyddio eu sgiliau a'u profiad i ymateb yn broffesiynol i ddigwyddiadau. Gweithiodd ein staff i olrhain rhagolygon, cyhoeddi rhybuddion, sicrhau bod asedau hydrometreg llifogydd yn gweithredu'n iawn, trwsio atgyweiriadau, postio'r wybodaeth ddiweddaraf ar ein gwefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol, delio â chyfweliadau ac ymholiadau yn y cyfryngau, a chefnogi sefydliadau eraill a ymatebodd i ddigwyddiadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, gwasanaethau brys a chwmnïau cyfleustodau.

Daeth dyfodiad Storm Darragh bythefnos yn unig ar ôl i Storm Bert â gwyntoedd dinistriol o 90mya, gan arwain y Swyddfa Dywydd i gyhoeddi rhybudd coch prin am wynt a llywodraethau'r DU i gyhoeddi rhybudd brys dros y ffôn i'r rhai yn yr ardal yr effeithiwyd arni. Er nad oedd cyfansymiau glawiad mor uchel â'r rhai a gafwyd yn ystod Storm Bert, roedd glaw trwm pellach ar dir eisoes yn ddirlawn yn golygu y gallai lefelau afonydd godi'n gyflym a'u bod yn fygythiad.

Caewyd coedwigoedd a llwybrau CNC i ymwelwyr a gofynnwyd i'r cyhoedd gadw draw o lan y môr a phromenadau oherwydd y tebygolrwydd o donnau mawr a phwerus.

Gweithiodd staff CNC yn ddiflino yn y dyddiau ac wythnosau dilynol i archwilio asedau a gwneud atgyweiriadau. O ran perygl llifogydd, mae ein staff yn parhau heddiw i ymdrin â chofnod o gwynion ac ymholiadau o'r digwyddiad, mynychu llawer o gyfarfodydd cyhoeddus, ateb ceisiadau gan aelodau etholedig i ddeall y materion yn eu cymunedau, ac archwilio a chynnal a chadw'r asedau a roddwyd ar brawf yn ystod y stormydd. Mae'r gwaith hefyd yn parhau i glirio'r difrod mewn coedwigoedd a gwarchodfeydd natur ledled Cymru, gydag ardaloedd eang o goed wedi cwympo a llawer o gilometrau o ffyrdd coedwig, llwybrau cerdded a llwybrau beicio mynydd wedi eu rhwystro gan falurion. Mae adfer yr ardaloedd hyn yn cymryd cryn dipyn o amser ac ymdrech.

Mae'n amlwg bod CNC wedi cymryd llawer o gamau i sicrhau bod ein dyletswyddau gweithredol yn cael eu cynnal a bod y cyhoedd yn cael gwybod am y risgiau. Mae hefyd yn hanfodol bwysig bod yr holl bartneriaid yn cydweithio i reoli'r risgiau. Mae'r Fforymau Cydnerth Lleol, lle mae partneriaid allweddol yn dod ynghyd i gynllunio ar gyfer ac i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill, yn rhan allweddol o'r darlun.

## 5. A yw sefydliadau perthnasol wedi dysgu gwersi yn dilyn stormydd gaeaf blaenorol, yn enwedig Storm Dennis yn 2020, a sut mae'r gwersi hyn yn llywio'r dull gweithredu presennol

Mae'n amlwg ein bod yn gweithredu mewn cyfnod heriol iawn. Yn 2024, yn ôl y Swyddfa Dywydd, gwelodd y DU gofnodion yn cael eu torri bron bob tymor, digon o stormydd wedi'u henwi a llu o rybuddion tywydd – roedd y flwyddyn yn cynnwys 8fed gaeaf gwlypaf y DU a'r 6ed gwanwyn gwlypaf erioed. Dangosodd dadansoddiad y Swyddfa Dywydd a gynhaliwyd ar gyfer y cyfnod Hydref 2023 i Hydref 2024 fod 20% yn fwy o law, a bod y glawiad 15% yn fwy dwys oherwydd newid yn yr hinsawdd, a gyda 2024 o fod y flwyddyn galendr gyntaf i fynd yn uwch na tharged Cytundeb Paris o 1.5°C, mae'n ddiogel tybio y bydd y pwysau eithafol hyn ar ein byd naturiol yn parhau.

Dywed yr wyddoniaeth hinsawdd y bydd llifogydd yn digwydd yn amlach yn y dyfodol. Maent hefyd yn aml yn mynd i fod yn fwy eang ac yn fwy difrifol eu natur. Bydd mwy o bobl ac eiddo mewn perygl o lifogydd. Mae llifogydd yn broses gymhleth a naturiol ac nid oes un ateb unigol ar ei chyfer. Fel y cyfryw, mae angen inni addasu a gwella ein ffordd

o feddwl a'n harferion yn barhaus. Mae hyn yn heriol iawn serch hynny, yn enwedig o ystyried cyfradd y newid yn yr hinsawdd a'r hinsawdd economaidd bresennol a'r galwadau cystadleuol ar flaenoriaethau ac adnoddau'r sector cyhoeddus.

Mae angen i ystod o bartneriaid allweddol gydweithio i fynd i'r afael â'r materion hyn, megis awdurdodau lleol, cwmnïau dŵr ac adrannau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r cymunedau eu hunain. Mae'n hanfodol ein bod yn cynllunio ar gyfer ystod o offer a thechnegau ac yn buddsoddi ynddynt, wrth i ni a chymdeithas ymateb i hinsawdd sy'n newid yn gyflym a'r effeithiau a ddaw yn ei sgil.

Yn dilyn pob digwyddiad llifogydd a storm sylweddol, rydym yn cynnal adolygiad i sicrhau y gallwn ddysgu unrhyw wersi o'r profiad a defnyddio'r hyn a ddysgwyd i wneud gwelliannau. Rydym wrthi'n gwneud hynny gyda'r hyn a ddysgwyd oddi wrth stormydd Bert a Darragh.

Ar ôl Storm Dennis ym mis Chwefror 2020, cynhaliasom adolygiad helaeth o'n hymateb a chyhoeddi'r canfyddiadau a'r argymhellion ar ein gwefan ym mis Hydref 2020. Rhoddwyd dull rhaglen ar waith i sicrhau bod argymhellion yn destun camau dilynol a bod gwelliannau'n cael eu cyflawni. Gwnaethom welliannau sylweddol yn ein gweithdrefnau ac yn ein canllawiau, er mwyn sicrhau bod hyd yn oed mwy o eglurder a blaenoriaethu ar yr hyn y mae swyddogion dyletswydd yn ei wneud yn ystod llifogydd a digwyddiadau eraill. Gwnaethom welliannau i'n gwefan fel y gallai ymdopi â mwy o draffig a gwella cadernid ein rotâu digwyddiadau fel bod gennym bellach fwy o staff i alw arnynt yn ystod digwyddiadau. Ym mis Gorffennaf 2024, rhoesom ein System Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd newydd ar gyfer Cymru ar waith, sef buddsoddiad cyfalaf sylweddol o £5m, sy'n gwneud cyhoeddi rhybuddion yn broses gyflymach a mwy gwydn. Rydym hefyd yn y broses o newid ein systemau telemetreg, gyda phrosiect gwerth £5 miliwn ar waith a'r disgwyl iddo gael ei gyflawni ym mis Mehefin 2025. Gwnaethom hefyd welliannau i'r offer a'r cyfarpar a ddefnyddir gan ein staff yn ystod digwyddiadau, e.e. ffonau symudol a cherbydau. Rydym hefyd wedi parhau â'n rhaglenni buddsoddi cyfalaf, sydd wedi darparu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd newydd neu well ar draws cymunedau yng Nghymru.

Serch hynny, rydym yn gweithredu mewn cyfnod heriol, ac mae maint a chyflymder y newid yn yr hinsawdd yn herio pob sefydliad. Yn ogystal â'r argyfwng hinsawdd, mae'r argyfwng natur hefyd yn fater clir a phwysig. Mae angen i bolisïau, buddsoddi a chamau addasu gyd-fynd â'r risgiau cynyddol. Nid oes un ateb a fydd yn trwsio'r cyfan ac mae angen ystod o ymyriadau. Gallwn – ac mae'n rhaid i ni – weithio tuag at adeiladu mwy o wydnwch i effeithiau'r argyfyngau hinsawdd a natur.

## 6. Defnyddio astudiaethau achos stormydd Bert a Darragh i gael golwg gyffredinol ar y fframwaith paratoi ac ymateb i stormydd presennol yng Nghymru a nodi unrhyw fylchau

Achosodd stormydd Bert a Darragh effeithiau sylweddol mewn sawl rhan o Gymru, gyda llawer yn cael eu heffeithio gan y stormydd aml-berygl. Byddwn yn cael stormydd tebyg, ac yn anffodus waeth, yn y dyfodol. Ni fyddant yn ddigynsail nac yn stormydd unwaith mewn cenhedlaeth, nhw fydd y norm newydd. Mae anwybyddu neu fychanu'r risgiau yn beryglus.

Mae'r systemau rheoli perygl llifogydd yng Nghymru ac yn y DU ymhlith y gorau yn y byd, ond ni allwn fod yn hunanfodlon am eiliad. Mae angen gwelliant parhaus ac arloesedd ym mhob maes. Rhaid inni ddysgu o bob achos o lifogydd, a gwneud gwelliannau, ac mae angen inni brofi ac ymestyn ein ffordd o feddwl i baratoi ar gyfer digwyddiadau hyd yn oed yn waeth yn y dyfodol.

Nid oes un ateb unigol i'r risgiau a achosir gan lifogydd, a bydd angen gweithredu'r ystod lawn o ymyriadau i reoli a lleihau'r risgiau. Mae'n gofyn am gynllunio strategol cryf o ran defnydd tir, rheoli dalgylchoedd dŵr cyfan, datblygu galluoedd rhagweld a rhybuddio a gweithlu medrus, adeiladu eiddo sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd, creu cymunedau sy'n ymwneud â rheoli'r materion, a llawer mwy. Bydd hefyd yn amlwg angen partneriaid i barhau i gydweithio.

Ni allwn atal y tywydd, ac ni allwn atal pob achos o lifogydd, ond gallwn gymryd camau i leihau'r effeithiau a chreu gwytnwch i lifogydd. Bydd hyn yn cymryd cryn dipyn o fuddsoddiad ac amser, ond mae astudiaethau'n dangos bod y buddsoddiad sydd ei angen yn is na'r difrod a fyddai'n cael ei achosi os na fyddwn yn gweithredu.

Yn ein barn ni, i raddau helaeth, nid yw'n wir fod bylchau sylweddol yn ein fframwaith paratoi ac ymateb, ond yn hytrach bod angen am welliant ac arloesedd parhaus sy'n cael effaith, a hynny'n gyflym.

Eitem 4.1

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/0196/25

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Mawrth 2025

Annwyl Llŷr,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar Ddileu a Gwrthdroi Colli Natur erbyn 2030 a gyhoeddwyd ar 20 Ionawr 2025.

Dewch o hyd i'n hymateb manwl i argymhellion y Pwyllgor.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru

# Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Atal a Gwrthdroi Colli Natur

3/03/2025

Dymuna Llywodraeth Cymru ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, ac i bawb a gyflwynodd dystiolaeth, am eu diddordeb yn y maes hollbwysig hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gadarn o ran ei hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng natur, gan gydnabod bod angen gwella graddfa a chyflymder yr ymdrechion er mwyn atal a gwrthdroi colli natur. Hefyd, mae'r ffaith bod yr adroddiad yn cydnabod bod angen gweithredu ar y cyd ledled Cymru i fynd i'r afael â cholli natur, yn hytrach na gweithredu gan y Llywodraeth yn unig, yn rhywbeth i'w groesawu.

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad....4**

**2. Yr argymhellion....5**

2.2 Argymhelliad 1....5
2.2 Argymhelliad 2....5
2.3 Argymhelliad 3....6
2.4 Argymhelliad 4....7
2.5 Argymhelliad 5....7
2.6 Argymhelliad 6....8
2.7 Argymhelliad 7....8
2.8 Argymhelliad 8....9
2.9 Argymhelliad 9....10
2.10 Argymhelliad 10....10
2.11 Argymhelliad 11....11
2.12 Argymhelliad 12....12
2.13 Argymhelliad 13....13
2.14 Argymhelliad 14....14
2.15 Argymhelliad 15....16
2.16 Argymhelliad 16....16
2.17 Argymhelliad 17....17
2.18 Argymhelliad 18....18
2.19 Argymhelliad 19....18
2.20 Argymhelliad 20....19
2.21 Argymhelliad 21....20
2.22 Argymhelliad 22....20
2.23 Argymhelliad 23....21
2.24 Argymhelliad 24....22
2.25 Argymhelliad 25....22
2.26 Argymhelliad 26....23
2.27 Argymhelliad 27....23
2.28 Argymhelliad 28....24
2.29 Argymhelliad 29....24

2.30 Argymhelliad 30 .......... 25

# 1. Cyflwyniad

Gan fod un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu, mae adfer a chryfhau ein cysylltiad â natur yn bwysicach nag erioed. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd ym mhopeth a wnawn. Mae adfer natur yn golygu adfywio'r mannau rydym yn byw ynddynt a'r mannau rydym yn eu mwynhau, gan greu swyddi gwyrdd, cefnogi economïau lleol a gwledig, a chynnal sectorau fel cynhyrchu bwyd a thwristiaeth. Yn ystod tymor y Senedd hon yn unig, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mwy na £150m er mwyn adfer natur a gwella mynediad at natur i bobl ar garreg eu drws. Yn ogystal â gwella ein gallu i wrthsefyll newid hinsawdd, mae'r ymdrechion hyn yn sicrhau amgylchedd naturiol llewyrchus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu mwy na 4,000 o fannau gwyrdd, 790 o safleoedd tyfu bwyd cymunedol, 670 o berllannau cymunedol ac 80 o erddi synhwyraidd therapiwtig trwy gyfrwng y fenter Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Buddsoddwyd mwy na £54m yn y Rhaglen Rhwydweithiau Natur er mwyn gwella safleoedd gwarchodedig a chysylltu pobl a natur. Mae'r Goedwig Genedlaethol wedi cael ei hymestyn er mwyn cynnwys mwy na 100 o safleoedd, gan greu rhwydwaith o goetiroedd a gaiff eu rheoli'n effeithiol ledled Cymru. Mae'r Grant Buddsoddi mewn Coetir a'r cynlluniau Coetiroedd Bach wedi rhoi mwy nag £8 miliwn i 56 o brosiectau, gan wella coetiroedd mewn gwahanol ranbarthau.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cael £4 miliwn yn ychwaneg i wella ansawdd dŵr ac adfer afonydd. Mae Cynllun Cynefin Cymru wedi cynorthwyo ffermwyr i gynnal a gwella cynefinoedd ar eu tir, a dyrannwyd £16 miliwn yn 2024. Mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd wedi adfer mawn sydd, o ran arwynebedd, yn cyfateb i fwy na 3,000 o gaeau rygbi, gan ddiogelu 1.6 miliwn tunnell o garbon a lleihau allyriadau carbon. Nod y Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol yw adfer 266 hectar o forwellt erbyn 2030. Hefyd, mae Cymru yn arwain y ffordd o ran mynd i'r afael â sbwriel môr trwy gyflwyno cynllun ailgylchu ar gyfer offer pysgota, casglu 12 tunnell o offer a lleihau llygredd plastig yn ein moroedd.

Dengys yr ymdrechion cynhwysfawr hyn ein hymrwymiad i adfer natur a sicrhau dyfodol cynaliadwy i Gymru.Dylai fod gan bob pennod mewn ymateb adroddiad hirach na pum tudalen baragraff i'w chyflwyno. Dylai'r paragraff hwn grynhoi'r bennod. Bydd yn rhoi rhywfaint o'r cyd-destun, ac yn helpu'r darllenydd i fwrw cipolwg sydyn dros ymateb yr adroddiad.

# 2. Yr argymhellion

## 2.2 Argymhelliad 1.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu, a thargedau bioamrywiaeth i ddiwygio adran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i sicrhau bod yr amcan Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn cynnwys cyfeiriad penodol at adfer bioamrywiaeth.

Ymateb: Gwrthod

Effaith arfaethedig yr amcan mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw cynorthwyo i reoli adnoddau naturiol fel y gellir cynnal a gwella gallu ecosystemau i gynnal eu systemau cynhaliaeth eu hunain, gan fynd ati ar yr un pryd i barhau i esgor ar fuddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, yn y tymor hir yn ogystal â'r tymor byr. Trwy reoli adnoddau naturiol, yr amcan yw sicrhau y rhoddir ystyriaeth lwyr i gydnerthedd ecosystemau yn y tymor hir a'r buddion sy'n deillio ohonynt – rhywbeth a fydd yn helpu bioamrywiaeth i adfer.

Mae cynnal a gwella amrywiaeth organeddau biolegol yn elfen hollbwysig o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r nodau o ran Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) a dyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod nod o gynnal a gwella bioamrywiaeth, ynghyd â hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Maent yn cynnig fframwaith unedig ar gyfer rheoli'r amgylchedd yn gynaliadwy.

Golyga'r ddyletswydd Adran 6 y dylid integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth oddi mewn i feysydd polisi ehangach, gan gydweddu â'r dull cyfannol o reoli adnoddau naturiol a roddir ar waith wrth Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cyfeirio'n benodol at adfer bioamrywiaeth yn adran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

## 2.2 Argymhelliad 2.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil sydd ar ddod ar egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu, a thargedau bioamrywiaeth i ddiwygio adran 9(6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol o fewn 12 mis ar ôl pob etholiad cyffredinol.

Ymateb: Gwrthod

O dan adran 9(6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol ar ôl pob etholiad cyffredinol y Senedd, neu ar unrhyw adeg arall, gall Gweinidogion Cymru ddiwygio'r Polisi Adnoddau Naturiol ar unrhyw bryd a rhaid cyhoeddi'r Polisi Adnoddau Naturiol diwygiedig.

Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod 12 mis yn gyfnod digonol ar gyfer cynnal yr adolygiad. Mae'n hanfodol egluro newidiadau ar ôl etholiadau'r Senedd, yn cynnwys y Rhaglen Lywodraethu newydd, yr Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol diweddaraf, a'r adroddiad diweddaraf ar Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru, ymhlith ffactorau eraill.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

## 2.3 Argymhelliad 3.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

▪ esbonio'r rheswm dros yr oedi o ran cwblhau'r adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol;

▪ ymrwymo i gwblhau adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol o fewn chwe mis i gyhoeddi adroddiad y Pwyllgor; a

▪ sicrhau bod y Polisi Adnoddau Naturiol yn gallu ysgogi gweithredu ar gyfer byd natur ar draws y llywodraeth gyfan, gyda pholisïau integredig sy'n cyd-fynd â thargedau Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang 2030 a nodau ehangach.

Ymateb: Derbyn

Yn dilyn etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021, penderfynodd Llywodraeth Cymru ohirio'r adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol. Gwnaed y penderfyniad hwn er mwyn i Lywodraeth Cymru allu canolbwyntio ar gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, yn cynnwys Biliau / Deddfau (cyfanswm o 4) ac ystod o gamau a fyddai'n arwain at effaith gadarnhaol ar adnoddau naturiol.

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol cyfredol wrthi'n cael ei adolygu. Disgwylir y bydd y broses wedi'i chwblhau erbyn haf 2025.

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn rhoi dull cynhwysfawr ar waith ledled y llywodraeth o ran rheoli ein hadnoddau naturiol. Trwy gydweddu polisïau integredig â thargedau Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang 2030, yn ogystal â gofynion cyfreithiol ac

amcanion amgylcheddol ehangach, rydym am gyflawni canlyniadau amrywiol a phellgyrhaeddol ar y lefel uchaf.

Goblygiadau Ariannol: Bydd yr adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol yn arwain yn bennaf at gostau'n ymwneud ag amser staff, casglu tystiolaeth, ymgysylltu a chyfathrebu. Bydd y costau hyn yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglen dyranedig.

## 2.4 Argymhelliad 4.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, adolygu effeithiolrwydd y broses o weithredu Datganiadau Ardal. Dylai'r adroddiad:

▪ ystyried a yw Datganiadau Ardal yn cael eu defnyddio i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Polisi Adnoddau Naturiol a sut maent yn cael ei defnyddio ar gyfer hynny,

▪ ceisio nodi unrhyw rwystrau posibl i weithredu effeithiol a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain. Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei chanfyddiadau â'r Pwyllgor o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i adolygu effeithiolrwydd Datganiadau Ardal, gan ystyried argymhellion y Pwyllgor. Er na ellir cwblhau'r adolygiad hwn o fewn tymor presennol y Senedd, byddwn yn cyflwyno rhagor o fanylion am gynnydd y gwaith hwn o fewn y chwe mis nesaf.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglen dyranedig.

## 2.5 Argymhelliad 5.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau gwerthusiad OB3 Research o'r broses o weithredu'r ddyletswydd adran 6 ac egluro pa gamau y mae wedi'u cymryd mewn ymateb i'r canfyddiadau hynny.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canfyddiadau gwerthusiad OB3 Research o'r broses o weithredu'r ddyletswydd adran 6, ochr yn ochr ag amlinelliad o'n hymateb i'w hargymhellion.

Goblygiadau ariannol: Dim

## 2.6 Argymhelliad 6.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

▪ diweddaru'r canllawiau dyletswydd adran 6 ar gyfer awdurdodau cyhoeddus i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n ddigonol y newid sylweddol sydd ei angen i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth byd-eang a domestig,

▪ gosod disgwyliad i awdurdodau cyhoeddus adolygu eu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth yng ngoleuni'r canllawiau diwygiedig.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn diweddaru'r canllawiau dyletswydd Adran 6 er mwyn cydweddu â'r Bil arfaethedig, Bil yr Amgylchedd (Llywodraethiant, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Yn ychwanegol at ymgorffori canllawiau ar gyfer targedau, a osodir mewn is-ddeddfwriaeth ar ôl i'r Bil ddod i rym (yn amodol ar ewyllys y Senedd), bydd agweddau eraill ar y canllawiau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru, fel bo'r angen.

Bydd y canllawiau diwygiedig yn cynnwys datganiad yn cynghori awdurdodau lleol i ystyried y canllawiau diwygiedig pan fyddant yn adolygu eu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## 2.7 Argymhelliad 7.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu, a thargedau bioamrywiaeth i ddiwygio adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gryfhau trefniadau goruchwyliaeth ac atebolrwydd.

Ymateb: Gwrthod

Bydd Bil yr Amgylchedd (Llywodraethiant, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn sefydlu corff llywodraethu ar gyfer goruchwylio effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol a goruchwylio i ba raddau y cydymffurfir â chyfraith amgylcheddol (a fydd yn cynnwys adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) mewn perthynas â Chymru.

Goblygiadau Ariannol: Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil yn cwmpasu'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r corff llywodraethiant amgylcheddol newydd ar gyfer Cymru.

## 2.8 Argymhelliad 8.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

▪ esbonio'r rheswm dros yr oedi o ran cyhoeddi Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig;

▪ ymrwymo i gyhoeddi Cynllun Gweithredu diwygiedig o fewn chwe mis i gyhoeddi adroddiad y Pwyllgor;

▪ sicrhau bod y Cynllun Gweithredu diwygiedig yn glir, yn uchelgeisiol, yn fanwl ac yn cyd-fynd â thargedau a nodau ehangach Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang 2030

Ymateb: Cytuno mewn egwyddor

O gofio'r amserlen ddeddfwriaethol dynn ar gyfer cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Llywodraethiant, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) a'i elfennau cysylltiedig, mae'r swyddogion wedi defnyddio'u hamser mewn modd sy'n rhoi blaenoriaeth i'r amserlen hollbwysig hon.

Er gwaethaf cyfyngiadau o ran adnoddau a gallu, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gydweithredu ledled y DU i ddatblygu Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol ar gyfer y DU, a gyhoeddwyd ar 26 Chwefror 2025. National Biodiversity Strategy and Action Plan | United Kingdom Biodiversity. Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu consensws ymhlith pedair gwlad y DU, sef bod angen ymdrechu'n unigol ac ar y cyd os ydym am weithredu'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang yn llwyr. Mae'n nodi 23 o dargedau uchelgeisiol ar gyfer y DU, sy'n cyd-fynd â'r 23 targed yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang.

Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau sy'n angenrheidiol yng Nghymru i gyflawni nodau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang trwy gyfrwng Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig. Gan bwysleisio pa mor bwysig yw rhoi dull cydweithredol ar waith, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn pennu'r dulliau cyflawni gorau. Ein nod yw lansio'r cynllun yng Nghynhadledd Bioamrywiaeth Cymru ym mis Hydref 2025; thema'r gynhadledd honno fydd "Gweithredu ar y Cyd er Budd Natur".

Goblygiadau Ariannol: Bydd modd defnyddio cyllidebau dyranedig ar gyfer unrhyw adnoddau ariannol sy'n angenrheidiol i'r gwaith hwn.

## 2.9 Argymhelliad 9.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylid costio Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig Llywodraeth Cymru i gefnogi buddsoddiad cyhoeddus strategol ym myd natur, gwella tryloywder a chefnogi gwaith craffu. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon gwneud hyn, dylai o leiaf sicrhau bod y Cynllun Gweithredu diwygiedig yn cynnwys camau gweithredu tymor byr strategol wedi'u costio.

Ymateb: Cytuno mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfyngiadau cyllidebol a'r angen i flaenoriaethau camau gweithredu o fewn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig er mwyn esgor ar y canlyniadau gorau i natur. Pan fo'n briodol, bydd camau gweithredu'n cael eu costio a'u hadolygu fel rhan o'r broses weithredu.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

## 2.10 Argymhelliad 10.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynnwys 'targed pennawd' yn y Bil sydd ar ddod, wedi'i alinio ag ymrwymiad y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 a chyflawni adferiad erbyn 2050.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried amrywiaeth eang o gyngor yn ymwneud â 'tharged pennawd' ac mae wedi dod i'r casgliad na fyddai'n briodol cynnwys targed o'r fath. Bydd yn rhaid i unrhyw dargedau a gyflwynir mewn deddfwriaeth fodloni'r meini prawf CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol). Fe wnaeth rhai o'r ymatebwyr a ymatebodd i ymgynghoriad y Papur Gwyn fynegi pryderon ynglŷn â'r targed pennawd arfaethedig, gan ddweud na fyddai modd ei orfodi na'i gyflawni. Ymhellach, ceir materion fel y gallu i fesur cynnydd yn erbyn y targed pennawd, diffiniadau, a'r dyblygu posibl gyda deddfwriaeth a cherrig milltir presennol, er enghraifft Carreg Filltir Genedlaethol 44 yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn hytrach, bydd ein dull yn canolbwyntio ar osod targedau CAMPUS mewn is-ddeddfwriaeth, a bydd gan bob targed ddyddiad cyflawni penodol, er mwyn sicrhau bod yr uchelgais yn briodol ar gyfer pob maes targed. Nod y dull hwn yw ysgogi gweithredu brys i fynd i'r afael â'r argyfwng natur yn effeithiol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## 2.11 Argymhelliad 11.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru rannu manylion y gwaith y mae wedi'i wneud ers mis Mawrth 2023 i gwmpasu targedau priodol. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw gyngor arbenigol a geisiwyd ac unrhyw waith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Ymateb: Derbyn

Ym mis Mehefin 2023, roedd y datganiad deddfwriaethol yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol.

Yna, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a gwahoddwyd safbwyntiau ynglŷn â'r cynigion ar gyfer datblygu targedau. Cafodd cynigion targedau bioamrywiaeth y Papur Gwyn gefnogaeth, gan ganolbwyntio ar rywogaethau, cynefinoedd ac iechyd yr ecosystem. Hefyd, gofynnwyd am gael targedau i fynd i'r afael â'r elfennau sy'n rhoi pwysau ar fioamrywiaeth ac sy'n ysgogi colledion bioamrywiaeth.

Gan gydnabod natur gydgysylltiedig targedau Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang 2030, aeth swyddogion ati i ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid trwy gyfrwng cyfres o weithdai gyda golwg ar roi blaenoriaeth i'r targedau mwyaf mesuradwy, mwyaf hyfyw a phwysicaf i Gymru, o gofio'r amserlen a'r adnoddau sydd ar gael.

Sefydlwyd Panel Cynghori ar Dargedau Bioamrywiaeth er mwyn gwella tryloywder a thrylwyredd wrth lunio targedau bioamrywiaeth statudol yng Nghymru. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ffocws hollbwysig. Mae'r Panel yn cynnwys arbenigwyr o amryfal ddisgyblaethau, yn cynnwys dŵr, yr economi, addysg ac ymchwil gymdeithasol, yn ogystal â bioamrywiaeth y tir, bioamrywiaeth dŵr croyw a bioamrywiaeth y môr. Mae'r aelodaeth amrywiol hon yn sicrhau mewnbwn a chydweithredu cynhwysfawr o ran datblygu targedau bioamrywiaeth effeithiol.

Rydym yn adeiladu sylfaen dystiolaeth ar gyfer datblygu targedau bioamrywiaeth trwy adolygu prosesau Lloegr a'r Alban a'r modd mae targedau gwledydd tymherus yn cydweddu â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang. Mae hyn yn cynnwys archwilio prosesau penderfynu, heriau, a chynlluniau ar gyfer gwledydd heb dargedau cenedlaethol.

Mae'r ymdrechion cyfredol yn canolbwyntio ar y sylfaen dystiolaeth genedlaethol ar gyfer meysydd targed sydd ar y rhestr fer, gan gydweithredu â Defra a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ar gyfer targedau toreithrwydd rhywogaethau, a chan ddefnyddio DECCA (Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd, ac Agweddau eraill ar gydnerthedd ecosystemau) Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer asesu cydnerthedd ecosystemau.

Mae datblygu dangosyddion ar gyfer targedau bioamrywiaeth yn waith hollbwysig. Mae swyddogion polisi'n gweithio gyda'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Cyfoeth Naturiol Cymru i bennu dangosyddion addas, gyda'r nod o ddefnyddio rhaglenni monitro a setiau data presennol yn effeithiol. Mae rhaglen a gomisiynwyd gyda'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn cynnwys pedwar pecyn gwaith, sef: pennu dangosyddion cyfredol, cydgrynhoi fframweithiau'r DU, pennu bylchau a chreu cynllun datblygu dangosyddion. Ar ôl cwblhau'r targedau blaenoriaeth ac ar ôl gorffen casglu'r dystiolaeth, bydd modelau senarios yn cael eu datblygu i bennu lefel briodol yr uchelgais.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglen dyranedig.

## 2.12 Argymhelliad 12.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru egluro pam y bydd wedi cymryd chwe blynedd i ddatblygu targedau yng Nghymru ac a yw hynny'n dderbyniol, o ystyried bod mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Ers dechrau'r Senedd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i fynd i'r afael â gwaith paratoadol i ategu'r broses o ddatblygu targedau a hefyd i ategu'r camau ymarferol sy'n angenrheidiol i adfer natur. Trwy gyfrwng yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a grwpiau arbenigol eraill, rydym bellach yn deall graddfa'r her, rydym wedi asesu'r hyn sy'n gyraeddadwy o fewn y dystiolaeth sydd ar gael ac rydym wedi pennu bylchau, er enghraifft o ran monitro, modelu a dangosyddion.

Cytunwyd ar Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montral ym mis Rhagfyr 2022 yn ystod y 15 cyfarfod a gynhaliwyd fel rhan o Gynhadledd y Partïon (COP 15) o dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.

Ar ôl dod i'r cytundeb rhyngwladol hwnnw, rhoddwyd gwaith manwl ar droed i asesu pa dargedau y mae eu hangen i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth yng Nghymru. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno targedau statudol yn y datganiad deddfwriaethol ym mis Mehefin 2023. Rhoddwyd tîm pwrpasol ar waith i ddatblygu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cyflawni targedau.

Ochr yn ochr â'r broses o ddatblygu targedau, rydym wedi parhau i weithredu ar lawr gwlad er mwyn adfer natur, trwy gyfrwng y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a Natur am Byth.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglen dyranedig.

## 2.13 Argymhelliad 13.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Yng ngoleuni'r oedi sylweddol o ran datblygu targedau, ac o ystyried bod hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad brys o'r adnoddau a ddyrennir i adrannau sy'n ymdrin â'r maes polisi hwn gyda'r nod o fodloni ei hun bod y rhain yn ddigonol. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r adolygiad o fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Gwrthod

Mae staffio yn fater i Dr Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol, gan weithio o fewn y gyllideb a ddyrannwyd gan Weinidogion ac yn unol â'u blaenoriaethau.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## 2.14 Argymhelliad 14.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

▪ dechrau rhaglen o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid ar unwaith gyda'r bwriad o benderfynu pa dargedau bioamrywiaeth y dylid eu datblygu fel blaenoriaeth.

Ymateb: Derbyn

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ymarfer blaenoriaethau ar waith yn yr hydref. Roedd yr ymarfer hwnnw'n ymwneud ag ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid o blith mwy na 70 o sefydliadau. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys academyddion, Cyfoeth Naturiol Cymru, sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol, awdurdodau cyhoeddus, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a chynrychiolwyr coedwigaeth, rheoli tir ac amaethyddiaeth.

Gwybodaeth Ychwanegol

Gweler manylion y sesiynau yn y tabl canlynol.

| Grŵp | Dyddiad |
|---|---|
| Grŵp Arbenigol ar Fygythiadau Datblygol i Ddŵr Croyw | 5 Tachwedd 2024 |
| Tasglu Pryfed Peillio | 19 Tachwedd 2024 |
| Gweithgor Bioamrywiaeth Adran 6 | 21 Tachwedd 2024 |
| Partneriaethau Natur Lleol Cymru | 4 Rhagfyr 2024 |
| Grŵp Arbenigol ar Fioamrywiaeth y Môr | 13 Ionawr a 24 Ionawr 2025 |
| Rhanddeiliaid Coedwigaeth | 15 Ionawr 2025 |

| | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 23 Ionawr 2025 |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | 3 Chwefror 2025 |
| Rhanddeiliaid Rheoli Tir ac Amaethyddiaeth | 6 Chwefror 2025 |

▪ gwneud darpariaeth yn y Bil i'r 'targedau blaenoriaeth' hyn gael eu gosod mewn rheoliadau heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried yr amserlen ar gyfer gosod targedau. Mae'r gwaith o ddatblygu targedau'n cynnwys nifer o gamau hollbwysig, megis datblygu polisïau, datblygu dangosyddion, modelu senarios, ymgysylltu â rhanddeiliaid, datblygu is-ddeddfwriaeth, ymgynghori, a chamau gweithdrefnol yn y Senedd. Eisoes, mae swyddogion wedi dechrau datblygu'r polisïau y mae eu hangen cyn y gellir datblygu targedau, ochr yn ochr â datblygu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y bydd y gwaith o ddatblygu targedau'n cymryd blwyddyn fan leiaf, ac yna bydd angen amser ychwanegol ar gyfer yr amserlen ddeddfwriaethol. Hefyd, rhaid i'r amserlen ystyried etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026.

▪ gwneud darpariaeth yn y Bil i'r targedau sy'n weddill gael eu gosod mewn rheoliadau heb fod yn hwyrach na thair blynedd ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol.

Ymateb: Gwrthod

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn gosod holl dargedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang (sef cyfanswm o 23) mewn Rheoliadau. Ni fwriedir gwneud hyn am sawl rheswm, yn cynnwys cymhwysedd datganoledig, addasrwydd rhai targedau ar gyfer Cymru, a deddfwriaeth bresennol. Er enghraifft, adroddir am darged 15 (sef y dylai busnesau asesu, datgelu a lleihau risgiau'n ymwneud â bioamrywiaeth ac effeithiau negyddol), targed 22 (sicrhau bod pawb yn cymryd rhan mewn penderfyniadau'n ymwneud a bioamrywiaeth a bod pawb yn cael mynediad at gyfiawnder a gwybodaeth yn ymwneud â bioamrywiaeth), targed 17 (cryfhau bioddiogelwch a dosbarthu buddion biotechnoleg) a tharged 23 (sicrhau cydraddoldeb rhywedd a dull rhywedd-ymatebol mewn perthynas â gweithredu dros fioamrywiaeth) ar lefel y DU.

Efallai y bydd rhagor o dargedau'n cael eu gosod o dan y fframwaith; fodd bynnag, nid yw tair blynedd yn ddigon o amser i lunio gwerthusiad effeithiol er mwyn deall a yw'r gyfres gyntaf o dargedau wedi bod yn effeithiol. Ni fyddem yn dymuno gosod rhagor o dargedau cyn cynnal gwerthusiad o'r fath.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglen dyranedig.

## 2.15 Argymhelliad 15.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r meini prawf y bydd yn eu defnyddio eto i benderfynu a yw ardal yn cyfrif tuag at y targed 30 erbyn 30. Dylai hyn ei gwneud yn glir y dylid monitro safleoedd gwarchodedig i nodi llinellau sylfaen ac asesu cynnydd, y dylent fod â chynllun rheoli, ac y dylent fod mewn cyflwr ffafriol neu'n gwella er mwyn cyfrif tuag at y targed.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru ar ganol cwblhau meini prawf ar gyfer ardaloedd a fydd yn cyfrannu at y targed 30 erbyn 30, fel y nodir yn nharged 3 y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang. Byddwn yn cydweithredu â rhanddeiliaid hollbwysig er mwyn cytuno ar y meini prawf hyn cyn iddynt gael eu cyhoeddi yn y gwanwyn.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

## 2.16 Argymhelliad 16.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru gadw at ei haddewid i lunio cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyrraedd y targed 30 erbyn 30. Dylai'r cynllun gweithredu wneud y canlynol: ▪ ymgorffori argymhellion a gododd o'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a'i weithgorau arbenigol cysylltiedig, gan nodi pwy sy'n gyfrifol am gyflawni pob cam gweithredu, gydag amserlenni disgwyliedig ar gyfer eu cyflawni, ▪ cynnwys cerrig milltir allweddol tuag at gyrraedd y targed.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn cydweithredu â Grŵp Craidd yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a rhanddeiliaid eraill i bennu camau gweithredu blaenoriaeth ar gyfer y 12 mis nesaf. Gyda'n gilydd, byddwn yn ail-greu ein Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol a'n Cynllun Gweithredu, gan neilltuo cyfrifoldebau, pennu amserlenni a nodi cerrig milltir hollbwysig ar gyfer olrhain cynnydd, a byddwn yn ymgorffori argymhellion yr Archwiliad Dwfn a'r gweithgorau arbenigol cysylltiedig.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglen dyranedig.

## 2.17 Argymhelliad 17.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid wrth lunio'r cynllun gweithredu 30 erbyn 30 i helpu i feithrin y dull 'Tîm Cymru' sydd ei angen i gyrraedd y targed a chyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth domestig a byd-eang ehangach.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen ymateb cynhwysfawr gan y llywodraeth a chan y gymdeithas gyfan os ydym am fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid er mwyn cytuno ar y camau gweithredu sy'n angenrheidiol i gynorthwyo i gyflawni'r targed 30 erbyn 30. Cydnabyddwn fod angen gweithredu ar y cyd yn ddi-oed er mwyn cyflawni'r targed hwn ac esgor ar yr effaith angenrheidiol.

Bydd y grŵp craidd, sy'n cynnwys arbenigwyr o wahanol sectorau, yn cynnig cyngor ac arweiniad hanfodol ynglŷn â'r targed 30 erbyn 30. Byddwn yn adolygu aelodaeth a chylch gwaith y grŵp arbenigol fel bo'r angen er mwyn cynnwys unigolion a chanddynt yr wybodaeth, y sgiliau a'r arbenigedd ymarferol angenrheidiol i gyflawni camau gweithredu ar lawr gwlad.

Trwy ymgysylltu â Cyswllt Amgylchedd Cymru a rhanddeiliaid hollbwysig fel RSPB Cymru, Ymddiriedolaethau Natur Cymru a'r Rhwydwaith Ffermio Cyfeillgar i Natur, byddwn yn parhau i ofyn am dystiolaeth a gwybodaeth hanfodol er mwyn cynorthwyo i weithredu'r targed 30 erbyn 30.

O ran cydnerthedd a chadwraeth y môr, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda CaSP Cymru (Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru).

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid yng Nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mis Hydref 2025 wrth inni archwilio sut gellir "Gweithredu ar y Cyd er Budd Natur".

Goblygiadau Ariannol: Bydd modd defnyddio cyllidebau dyranedig ar gyfer unrhyw adnoddau ariannol sy'n angenrheidiol i'r gwaith hwn.

## 2.18 Argymhelliad 18.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i roi diweddariadau rheolaidd i'r Senedd ar y cynnydd tuag at gyflawni'r cynllun gweithredu 30 erbyn 30 a'r targed 30 erbyn 30.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi diweddariadau rheolaidd i'r Senedd ynglŷn â'r cynnydd tuag at gyflawni'r targed 30 erbyn 30, ochr yn ochr â chamau gweithredu a mentrau ehangach i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

## 2.19 Argymhelliad 19.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r camau nesaf a gymerir mewn perthynas â'r broses ymgynghori a dynodi Parthau Cadwraeth Morol. Dylai hyn gynnwys amserlen ar gyfer penodi contractwr, manylion ynghylch pa mor fuan ar ôl penodi contractwr y cynhelir yr ymgynghoriad, a manylion am y camau nesaf yn y broses ddynodi.

Ymateb: Derbyn

Penodwyd contractwr ym mis Ionawr 2025 i gynnal yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Disgwylir y bydd y contract yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2025.

Yna, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried y canfyddiadau ochr yn ochr â chyngor cadwraeth manwl y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol cyn mynd ati i lansio ymgynghoriad. Bydd angen inni gynnal y gwaith dadansoddi sy'n angenrheidiol ar gyfer sicrhau y cyflwynir y cynigion mwyaf priodol. Yn amodol ar gytundeb unrhyw

Lywodraeth newydd, gobeithiwn gynnal ymgynghoriad yn gynnar yn nhymor nesaf y Senedd. Ni fydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal hyd nes y bydd etholiadau'r Senedd wedi dod i ben.

Goblygiadau Ariannol: Mae'r costau ar gyfer cynnal yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi eu hystyried yn y cyllidebau dyranedig.

## 2.20 Argymhelliad 20.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Parthau Cadwraeth Morol ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu cefnogi gan fframweithiau rheoli cadarn, sy'n mynd i'r afael â phwysau allweddol fel gweithgareddau pysgota, datblygiadau alltraeth, ac effeithiau dynol eraill.

Ymateb: Cytuno mewn egwyddor

Caiff rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru ei ategu gan y Fframwaith Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n llywodraethu'r Cynllun Grant Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Ers 2020, dyfarnwyd mwy na £500,000 o grantiau i brosiectau sydd â'r nod o wella dealltwriaeth a mynd i'r afael â phwysau. Bydd adolygiad o'r fframwaith hwn yn cael ei gynnal yn 2025 er mwyn sicrhau y bydd yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod wrthi'n cynnal asesiadau o wahanol fathau o offer pysgota ar gynefinoedd benthig morol trwy gyfrwng rhaglen Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru er mwyn deall yn well beth yw'r effeithiau posibl ar ein rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae'r gwaith hwn wedi cyrraedd ei flwyddyn derfynol, ac eisoes mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r asesiadau i gynorthwyo i ddatblygu Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd.

Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cyflymu'r gwaith o ddatblygu ynni gwynt ar y môr, yn cynnwys safleoedd arfaethedig yn rhanbarth môr mawr Cymru. Mae rhoi caniatâd i weithgareddau alltraeth yn parhau i fod yn swyddogaeth a ddargedwir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod unrhyw fesurau iawndal strategol trwy gyfrwng Cronfa Adfer y Môr yn addas ar gyfer amgylchedd morol Cymru.

Goblygiadau Ariannol: £70,000 ar gyfer ariannu'r asesiadau sy'n weddill o dan y prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru.

## 2.21 Argymhelliad 21.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad o ddigonolrwydd rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru ar gyfer rhywogaethau symudol, gan gynnwys adar môr, a dylai'r canfyddiadau gael eu hadlewyrchu mewn cynigion ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol a strategaethau morol.

Ymateb: Gwrthod

Caiff y cynnig i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol ychwanegol yng Nghymru ei ysgogi gan ddiffygion mewn nodweddion benthig morol a bennwyd yn adroddiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (2016). Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni'r elfen hon yn gyntaf er mwyn sicrhau y gall Cymru gyflawni rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a fydd wedi'u cysylltu'n dda ac a fydd yn gydlynol yn ecolegol.

Bydd gwerthusiad o'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ehangach yn cael ei ystyried ar gyfer rhywogaethau symudol ar ôl cwblhau'r cam cychwynnol hwn. Ni fydd y gwerthusiad hwn yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau cyfredol ar gyfer ymgynghori ynghylch Parthau Cadwraeth Morol arfaethedig.

Fodd bynnag, gallai Strategaeth Cadwraeth Adar Môr Cymru a Strategaeth Cadwraeth Morfilod y DU ymgorffori camau gweithredu penodol a bennir trwy gyfrwng gwerthusiad o'r rhwydwaith yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

## 2.22 Argymhelliad 22.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru gymeradwyo a chyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol a darparu adnoddau fel y gellir bwrw ymlaen i'w weithredu, yn unol ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £100,000 yn ychwaneg i gynorthwyo i ddatblygu Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol Rhwydwaith Morwellt Cymru. Bydd yr arian hwn yn cynorthwyo i atal colli morwellt ac yn helpu i adfer 266 hectar o forwellt erbyn 2030, yn unol â'n targedau cadwraeth 30 erbyn 30.

Bydd yr arian yn ein galluogi i ddatblygu mwy ar strwythur llywodraethiant y Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol, gan hwyluso i ddenu cyllid cynaliadwy a hirdymor o amrywiaeth o ffynonellau, yn cynnwys buddsoddiad preifat.

Mae'r cynllun yn dangos y modd mae cyllid Llywodraeth Cymru yn meithrin cydweithredu trwy uno rhanddeiliaid hollbwysig ledled Cymru. Bydd modd defnyddio'i ddull 'cymunedol' fel glasbrint ar gyfer gweithredu cenedlaethol, gan hyrwyddo'r arfer o feithrin sgiliau a hybu swyddi gwyrdd cynaliadwy ledled Cymru, yn awr ac yn y dyfodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Rhwydwaith Morwellt Cymru i ategu'r gwaith parhaus o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu.

Goblygiadau Ariannol: Dynodwyd £100,000 ar gyfer cynorthwyo i ddatblygu Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol Rhwydwaith Morwellt Cymru yn 2024-25 a 2025-26.

## 2.23 Argymhelliad 23.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun wedi'i dargedu i gefnogi'r gwaith o adfer cynefinoedd morfa heli ar hyd arfordir Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Cynllun Grant Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Rhaglenni Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru yn ariannu amrywiaeth o brosiectau i wella cyflwr cynefinoedd morol, yn cynnwys cynefinoedd morfa heli.

Rydym wedi dyfarnu bron i £852,000 ar gyfer prosiectau adfer morfeydd heli trwy gyfrwng y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn goruchwylio prosiectau yng Nglanfa Rhymni. Mae'r cynllun hwn yn defnyddio droniau i fonitro integredd strwythurol y polderau a'u heffeithiolrwydd o ran sefydlogi a gwella'r morfa heli a'r gwastadedd llaid ar y safle.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phartneriaid cyflawni i gynorthwyo mwy ar brosiectau adfer morfeydd heli ac i fynd i'r afael ag anghenion tystiolaeth â blaenoriaeth yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

## 2.24 Argymhelliad 24.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cyllid byd natur.

Ymateb: Derbyn

Yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ynglŷn ag Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2024, bydd Llywodraeth Cymru, ar ôl dadansoddi'r ymatebion, yn cydweithredu i ddatblygu strategaeth cyllid natur. Yn gyntaf, mae Llywodraeth  Cymru yn bwriadu cynnal cyfres o brosiectau peilot gan ddefnyddio buddsoddiad preifat i fireinio'i dull.

Goblygiadau Ariannol: Bydd modd defnyddio cyllidebau dyranedig ar gyfer unrhyw adnoddau ariannol sy'n angenrheidiol i'r gwaith hwn.

## 2.25 Argymhelliad 25.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru asesu a nodi maint y buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer adferiad byd natur yng Nghymru, gan ymgorffori canfyddiadau o adroddiadau fel "Llwybrau i 2030" Cyswllt Amgylchedd Cymru.

Ymateb: Cytuno mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu dull newydd o ymdrin â chyllid cynaliadwy ar gyfer adfer natur. Bwriad y dull hwn yw cynyddu ac amrywiaethu'r cyllid sydd ar gael er mwyn inni allu ymdrin yn effeithiol â'r argyfwng natur a'r pwysau sy'n arwain at golli bioamrywiaeth – yn cynnwys newid hinsawdd, llygredd a dulliau anghynaliadwy o reoli adnoddau naturiol.

Er mwyn cynyddu graddfa a chyflymder y camau gweithredu i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, bydd angen cynyddu ac amrywiaethu'r cyllid sydd ar gael. Bydd hyn yn cynnwys cyllid gan y sector preifat, mentrau cymunedol a rhoddion dyngarol.

Cyn bo hir, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar egwyddorion buddsoddi cynaliadwy. Hefyd, byddwn yn nodi'r camau nesaf ar gyfer

mynd i'r afael â graddfa'r buddsoddiad sy'n angenrheidiol, a fydd yn cynnwys prosiectau peilot; a byddwn yn datblygu strategaeth cyllid natur, a fydd yn cynnwys asesu graddfa'r buddsoddiad sy'n angenrheidiol ar gyfer adfer natur yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol: Dyrannwyd £100,000 ar gyfer cwmpasu'r gwaith hwn, yn ddibynnol ar setliad terfynol y gyllideb.

## 2.26 Argymhelliad 26.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adolygiadau 2025 o'r Gronfa Rhwydweithiau Natur a'r Gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn mynd i'r afael â rhwystrau i effeithiolrwydd, gan ganolbwyntio ar welliannau mesuradwy o ran bioamrywiaeth.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn 2025, fel rhan o werthusiad y Rhaglen Rhwydweithiau Natur ac ar ôl gorffen gwerthuso'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Bydd yr adolygiadau hyn yn mynd ati'n benodol i asesu'r modd mae'r cynlluniau (sy'n hyrwyddo ymgysylltu â chymunedau) wedi mynd i'r afael â rhwystrau economaidd-gymdeithasol a byddant yn cynnig mewnwelediad ar gyfer pennu unrhyw heriau a erys o ran cyflawni canlyniadau bioamrywiaeth effeithiol.

Ochr yn ochr â hyn, caiff asesiad o'r effaith ar fioamrywiaeth ei gomisiynu er mwyn cyflwyno tystiolaeth am yr effaith feintiol a gafodd y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar fioamrywiaeth hyd yn hyn. Hefyd, bydd yn gosod meincnod ac yn darparu canllawiau technegol ar gyfer cam nesaf y rhaglen.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau'n cael eu tynnu o gyllidebau rhaglen dyranedig.

## 2.27 Argymhelliad 27.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei chynlluniau ar gyfer rhaglen ariannu Rhwydweithiau Natur ar ôl iddi ddod i ben yn 2025. Os nad yw'r rhaglen yn mynd i barhau, neu os bydd y dyraniad cyllideb yn lleihau, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu dadansoddiad o oblygiadau penderfyniadau o'r fath.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal rownd ariannu ychwanegol ar gyfer y Rhwydweithiau Natur yn 2025-26, gan ymestyn y rhaglen am flwyddyn arall. Mae hyn yn adeiladu ar ein hymrwymiad i wella cyflwr a chysylltedd ein safleoedd gwarchodedig a'u helpu i wrthsefyll newid hinsawdd yn well.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglen dyranedig.

## 2.28 Argymhelliad 28

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys metrigau clir a fframwaith monitro i olrhain cynnydd tuag at dargedau adfer bioamrywiaeth.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fonitro a gwerthuso'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy trwy lunio adroddiadau cynnydd rheolaidd er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglen dyranedig.

## 2.29 Argymhelliad 29.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar y cynnydd o ran cyflawni ei hymrwymiad, yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, i "archwilio dulliau o ddefnyddio arian preifat i ategu arian cyhoeddus drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy".

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am ganllawiau ychwanegol ar integreiddio buddsoddiad preifat, marchnadoedd natur a phrosiectau cyfalaf naturiol gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd modd archwilio hyn trwy ddatblygu haenau cydweithredol a dewisol y Cynllun, yn ogystal â phrosiectau peilot a fydd yn defnyddio buddsoddiad preifat i'r eithaf.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

## 2.30Argymhelliad 30.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet wella cydweithio ar draws adrannau i integreiddio adferiad byd natur i feysydd polisi ehangach, er mwyn sicrhau ymateb llywodraeth gyfan i'r argyfwng natur.

Ymateb: Derbyn

Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau, gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau wrth wneud hynny. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr i sicrhau bod meysydd polisi ehangach ledled Llywodraeth Cymru yn integreiddio adferiad natur i'w camau gweithredu. Trwy fuddsoddi mewn seilwaith gwyrdd, rydym yn creu system wyrddach ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, yn sefydlu Coedwig Genedlaethol ac yn adfywio tirweddau ac ardaloedd hamdden awyr agored. Trwy ddatblygu mannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol, rydym yn cyfoethogi bioamrywiaeth a hefyd rydym yn darparu ardaloedd hamdden sy'n gwella llesiant y gymuned.

Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu mentrau ar gyfer atal rhywogaethau a chynefinoedd rhag dirywio wrth ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth mwy integredig a chynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys annog blodau gwyllt i dyfu a newid arferion lladd gwair er budd pryfed peillio.

Yn ein Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024, nodwyd camau gweithredu ar gyfer y presennol a'r dyfodol er mwyn helpu i wrthsefyll newid hinsawdd yn well ar draws y llywodraeth a gwahanol sectorau, yn cynnwys adfer natur, amaethyddiaeth, trafnidiaeth ac iechyd.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglen dyranedig.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd,
yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment,
and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a
Materion Gwledig

3 Mawrth 2025

Annwyl Andrew

Difrod a chau porthladd Caergybi yn dilyn storm – ymchwiliad Pwyllgor

Diolch am eich llythyr ynghylch ymchwiliad arfaethedig eich Pwyllgor i ddifrod a chau porthladd Caergybi dros dro yn dilyn storm. Rwy'n cydnabod arwyddocâd lleol a chenedlaethol y mater hwn, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd strategol Caergybi ar gyfer masnach, cysylltedd a gweithgarwch economaidd rhwng Cymru, y DU ac Iwerddon.

Yn anffodus, mae'r sesiwn dystiolaeth ar 6 Mawrth yn cael ei chynnal ar yr un pryd â chyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, sy'n cynnig cyfle olaf inni graffu ar yr Ysgrifennydd Cabinet mewn perthynas â'r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

Os oes unrhyw gyfleoedd eraill yn codi i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyfrannu at eich gwaith yn y maes hwn, byddwn yn hapus i drafod sut orau y gallwn wneud hynny.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Eitem 4.3

**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/KSNWT/0389

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

E-bost - Llywydd@senedd.cymru

5 Mawrth 2025

Annwyl Elin,

Cyflwynodd Llywodraeth y DU ei Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2) (y Bil) i Dŷ'r Arglwyddi, ar 17 Rhagfyr 2024. Ar yr un pryd mae Cymru wedi bod yn gweithio ar gyflwyno ei bil Bysiau ei hun yn y Senedd ym mis Mawrth 2025.

Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth y DU i benderfynu lle y gallai fod gorgyffwrdd a lle y gallai fod gwahaniaethau. Cyflwynwyd Bil y DU yn gyflym gyda'r bwriad o'i gymhwyso yn Lloegr yn unig. Y dadansoddiad cymhwysedd cychwynnol gan y DU oedd bod yr holl elfennau yn rhai a gedwir yn ôl ac nad oedd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Hyd yn hyn, yr unig ohebiaeth Weinidogol yr wyf wedi'i chael yw gan Simon Lightwood AS, y Gweinidog dros Drafnidiaeth Leol ynghylch cyflwyno'r Bil. Ni chafwyd gohebiaeth arall ar fanylion penodol.

Gan fod y ddau fil yn ymdrin â llawer o feysydd tebyg sy'n ymwneud â gweithredwyr bysiau, mae meysydd eraill o wahaniaeth a ffocws, a gallai rhai ohonynt sbarduno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae fy swyddogion wedi nodi bod rhai mesurau ym Mil y DU yn gymwys neu'n cael rhywfaint o effaith o ran Cymru. Rwy'n bwriadu cael trafodaethau gyda Gweinidog y DU i benderfynu ar briodoldeb yr effaith. Tra bod y sgyrsiau hynny'n mynd rhagddynt, ni fyddaf yn cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r darpariaethau a allai gael eu datgymhwyso ar gyfer Cymru. Byddaf wrth gwrs yn cadarnhau gyda'r Senedd ganlyniad y trafodaethau hynny ac unrhyw welliannau a wnaed, gan gynnwys drwy'r broses cydsyniad deddfwriaethol lle bo'n berthnasol. Er gwaethaf y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

trafodaethau hyn rydym yn disgwyl i ddarpariaeth gyfyngedig aros yn y Bil hwn a fydd yn gofyn am gydsyniad y Senedd, a byddaf yn cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y sail honno. Disgwylir i hyn fod yn effaith achlysurol o ganlyniad i natur gwasanaethau bysiau trawsffiniol ac nid yw'n gyfystyr â darpariaeth sylweddol i Gymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

# Eitem 4.4

**From:** [redacted]
**Sent:** 03 March 2025 16:22
**To:** Gruffydd, Llyr (Aelod o'r Senedd | Member of the Senedd) <Llyr.Gruffydd@senedd.wales>
**Cc:** Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee | Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith <SeneddClimate@senedd.wales>; Jewell, Delyth (Aelod o'r Senedd | Member of the Senedd) <Delyth.Jewell@senedd.wales>
**Subject:** Ffos-y-fran restoration proposal - urgent

Dear Mr Llyr Gruffydd MS,

In your capacity as Chair of the CCEI Committee, and in relation to my recent in-person oral evidence testimony, and my connecting follow-up letter, we ask that the CCEI Committee urgently requests a meeting with Huw Irranca-Davies to discuss Merthyr (South Wales) Ltd's application to hugely downgrade the extent of restoration to take place at the site of the recently closed Ffos-y-fran opencast coal mine that the Committee visited in 2024. The coal mine operator is spinning this budget scheme as more environmentally friendly, but we are understandably sceptical of that coming from a coal mining company - the truth is that this is an application to do as little as possible to justify Merthyr (South Wales) Ltd to draw down the £15m held beyond its reach in an ESCROW account that was never intended to fund the restoration unless Merthyr (South Wales) Ltd were to liquidate and abandon the site. However, the new application states that it is to "be funded by the proceeds held in the ESCROW account." - which is to say that Merthyr (South Wales) Ltd intends to put no more of its own money to fund the restoration. As set out in our follow-up letter to the CCEI Committee, not only can Merthyr (South Wales) Ltd afford to fund the agreed level of restoration, it appears the company has even been claiming tax relief from HMRC on setting those funds aside. The new application will truly condemn Merthyr Tydfil residents to live below a water-filled void with a capacity of over one million cubic metres of water and in the shadow of three colossal coal tips containing 37 million cubic metres of colliery spoil. Merthyr Tydfil residents are understandably concerned by that in light of the recent coal tip slip in Cwmtillery, and the destabilising effects of climate change.

We stand on the precipice of Merthyr Tydfil citizens being sold short of tens of millions in restoration works, the impacts of which will be felt for generations to come and will leave significant hazards near to a population centre. After 15 years of coal mining and a further 1.5 years of illegal coal mining, Merthyr Tydfil deserves for the promised restoration to be delivered. However, Merthyr Tydfil County Borough Council, which has already been heavily criticised in its handling of this by the Mining Remediation Authority and the CCEI Committee, seems intent to rubber-stamp the application through in fear of the mining operator otherwise abandoning the site - and hasn't shown any appetite to investigate the company's financial ability to fund the original quality of restoration, despite the fact that this is clearly set out in the company's most recent public accounts, even adjusting for rising costs - "the provision was re-assessed during the year and as a consequence the estimate was increased by £ 18.0m" (page 19) - that incremental funding increase, set aside for restoration by the company, alone amounts to somewhat more than the ESCROW account total.

We know that the CCEI Committee will want to pursue this given its short committee inquiry into Ffos-y-fran and restoration issues, and its scrutiny of the Disused coal tips bill. We also underscore again that this is a matter of urgency as the application was posted on Merthyr Tydfil

County Borough Council's website on 21/02/2025 and the statutory deadline for public consultation is **14/03/25** - though this may be extended. We hope that the CCEI Committee impresses this urgency on Huw Irranca-Davies in the strongest terms, **asks him to step in to freeze this major plan being rushed through on the seemingly false premise that the company cannot afford to deliver a quality restoration scheme**, and **to commit to investigating Merthyr (South Wales) Ltd financial capacity to deliver the promised quality of restoration**.

--

Regards,

[redacted]
**Coal Action Network**
www.coalaction.org.uk
Subscribe to our mailing list
Follow us: Twitter Facebook

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon